# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 03/06/2015

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
1. Questions to the Minister for Finance and Government Business

2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
2. Questions to the Minister for Public Services

3. Dadl Frys: Canfyddiadau'r Ymchwiliad i Ofal Cleifion ar Ward Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan
3. Urgent Debate: The Findings of an Investigation into Patient Care at the Tawel Fan Ward of Bodelwyddan's Glan Clwyd Hospital

4. Dadl Cyfnod 1 ar y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)
4. Stage 1 Debate on the Safe Nurse Staffing Levels (Wales) Bill

5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Buddsoddi Mewnol
5. Welsh Conservatives Debate: Inward Investment

6. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Deddf Hawliau Dynol
6. Welsh Liberal Democrats Debate: The Human Rights Act

7. Cyfnod Pleidleisio
7. Voting Time

8. Dadl Fer: Môn Mam Cymru—Ychwanegu Gwerth at y Diwydiant Bwyd
8. Short Debate: Môn Mam Cymru—Adding Value to the Food Industry


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

13:31

## 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

## 1. Questions to the Minister for Finance and Government Business

Y Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Order. The National Assembly is in session.

Trefn. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eistedd.

Item 1: questions to the Minister for Finance and Government Business. Question 1—John Griffiths.

Eitem 1: Cwestiynau i Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth. Cwestiwn 1—John Griffiths.

**Datganoli Cyfrifoldeb Ariannol**

**The Devolution of Financial Responsibility**

13:31

### John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â datganoli cyfrifoldeb ariannol i Lywodraeth Cymru? OAQ(4)0561(FIN)*

*1. Will the Minister make a statement on the progress of the devolution of financial responsibility to the Welsh Government? OAQ(4)0561(FIN)*

13:31

### Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

I thank the Member for the question. Work is on target to implement the new fiscal powers arising from the Wales Act 2014. I continue to press the UK Government to implement fair funding for Wales.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae gwaith ar y trywydd iawn i weithredu'r pwerau cyllidol newydd sy'n deillio o Ddeddf Cymru 2014. Rwy'n parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau trefniadau ariannu teg i Gymru.

13:31 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, in terms of the problems on the M4 motorway around Newport, the UK Government has indicated that it will make a borrowing facility available to Welsh Government for an M4 relief road. Would you agree with me that, in terms of developments in devolution and the respect agenda, that money should be made available for whatever solution the Welsh Government thinks best to those problems, and will you press that case?

Weinidog, o ran y problemau ar draffordd yr M4 o amgylch Casnewydd, mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn darparu cyfleuster benthyca i Lywodraeth Cymru ar gyfer ffordd liniaru i'r M4. O ran datblygiadau datganoli a'r agenda parch, a fyddech chi'n cytuno â mi y dylai'r arian hwnnw fod ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer pa ateb bynnag sydd orau i'r problemau ym marn Llywodraeth Cymru, ac a wnewch chi wasgu am hynny?

13:32 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it's very important that we will have access to borrowing powers, but, of course, we will be allocating our access to borrowing powers to the needs of infrastructure across the whole of Wales. We do need, of course, to make sure that we can address the very important issues affecting Newport in terms of the M4.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn fod gennym fynediad at bwerau benthyca, ond wrth gwrs, byddwn yn dyrannu ein defnydd o bwerau benthyca i anghenion seilwaith ledled Cymru gyfan. Mae angen i ni wneud yn siŵr, wrth gwrs, ein bod yn gallu mynd i'r afael â'r materion pwysig iawn sy'n cael effaith ar Gasnewydd o ran yr M4.

13:32 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the Welsh Local Government Association have recently made it clear that local authorities in Wales are best placed to collect and manage some devolved taxes, as they already have systems in place to undertake their management and collection. Given that the future shape of local authorities is still being determined by the Welsh Government, what discussions have you had with your colleague, the Minister for Public Services and, indeed, local authority leaders, on the future management and collection of any devolved taxes?

Weinidog, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ei gwneud yn glir yn ddiweddar ei bod yn well i awdurdodau lleol yng Nghymru gasglu a rheoli rhai trethi datganoledig, gan fod ganddynt eisoes systemau ar waith i ymgymryd â'u gwaith rheoli a chasglu. O ystyried bod Llywodraeth Cymru yn dal i ystyried ffurf awdurdodau lleol yn y dyfodol, pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'ch cyd-Aelod, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, ac yn wir, arweinwyr awdurdodau cyhoeddus, ar y modd y caiff unrhyw drethi datganoledig eu rheoli a'u casglu yn y dyfodol?

13:33 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to say how much I welcome the responses to the consultation on the collection and management of devolved taxes in Wales. I have a local government representative on my tax advisory group and I also welcome the Finance Committee's very helpful report on the collection and management of devolved taxes in Wales—carefully considering their findings, of course, and considering those findings in consultation with Ministers across the Welsh Government.

Hoffwn ddweud cymaint rwy'n croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru. Mae gennyf gynrychiolydd llywodraeth leol yn fy ngrŵp cynghori ar drethi ac rwyf hefyd yn croesawu adroddiad defnyddiol iawn y Pwyllgor Cyllid ar gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru—gan ystyried eu canfyddiadau'n ofalus, wrth gwrs, ac ystyried y canfyddiadau hynny mewn ymgynghoriad â Gweinidogion ar draws Llywodraeth Cymru.

13:33 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, what's your best assessment now of the progress and possible timetable for the transfer of income tax varying powers to this Assembly?

Weinidog, beth yw eich asesiad gorau ar hyn o bryd o'r cynnydd a'r amserlen bosibl ar gyfer trosglwyddo pwerau amrywio treth incwm i'r Cynulliad hwn?

13:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think, as the Member knows, our concern to ensure that we get fair funding is the first port of call, and I'm very pleased that I have now got a meeting in the diary with the new chief secretary to the Treasury, Greg Hands, and, of course, the Secretary of State for Wales, later this month, to establish how we move forward on a funding floor that's fair to Wales, and therefore fair in terms of tackling any future convergence. That is the fist step in terms of ensuring that we can then exercise our full powers.

Fel y mae'r Aelod yn gwybod, rwy'n credu mai'r hyn a ddylai gael ein sylw yn y lle cyntaf yw sicrhau ein bod yn cael ariannu teg, ac rwy'n falch iawn fy mod bellach wedi trefnu cyfarfod gyda'r Prif Ysgrifennydd y Trysorlys newydd, Greg Hands, ac wrth gwrs, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn ddiweddarach y mis hwn, i weld sut rydym am symud ymlaen ar gyllid gwaelodol sy'n deg i Gymru, ac sydd felly'n deg o ran mynd i'r afael ag unrhyw gydgyfeirio yn y dyfodol. Dyna'r cam cyntaf o ran sicrhau y gallwn arfer ein pwerau yn llawn.

## Trosglwyddo Asedau Cymunedol

## Community Asset Transfers

13:34 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drosglwyddo asedau cymunedol? OAQ(4)0568(FIN)*

*2. Will the Minister make a statement on community asset transfers? OAQ(4)0568(FIN)*

13:34 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cefnogi'r agenda hon, gan hybu dull partneriaeth o ddelio â throsglwyddo asedau cymunedol.

Thank you very much. Recently published Welsh Government guidance supports this agenda, encouraging a partnership approach to community asset transfers.

13:35 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Mi gefais fy ysgogi i ofyn y cwestiwn yma gan lwyddiant yr ymgyrch yr oeddwn i ac eraill yn rhan ohoni yn Ynys Môn i berswadio'r cyngor sir i beidio â chau cwrs golff y cyngor yn Llangefni. Mae o wedi cael ei drosglwyddo i'w reoli gan fudiad cymdeithasol. Ond un rhwystr, rhyw ddwy flynedd i lawr y lein, ydy'r ffaith bod y cyngor yn mynnu y bydd yn rhaid iddyn nhw bryd hynny werthu yr ased am werth y farchnad, sy'n mynd i fod yn anodd iawn, wrth gwrs, i gorff cymdeithasol i'w wneud. Pa gymorth y gall y Llywodraeth ei roi i sicrhau nad oes yna ofyn ar gyngor sir i werthu ased, fel cwrs golff, sy'n amlwg yn ddarn mawr o dir, am werth y farchnad, ac i'w ystyried o am ei werth amgen, sef ei werth cymunedol o, ac i ganiatáu bod yr ased yn cael ei gadw yn gymunedol, yn y ffordd yna?

Thank you. I was encouraged to ask this question by the success of the campaign that I and others were a part of in Anglesey to persuade the county council not to close the council-run golf course in Llangefni. It has now been transferred to be managed by a social enterprise. But, one barrier some two years down the line is the fact that the council insists that they, at that point, will have to sell that asset at the market rate, which will be very difficult for a social body to actually progress with. What assistance can the Government give to ensure that there isn't a requirement on councils to actually sell an asset, such as a golf course, which is obviously a large plot of land, at the market rate, but to consider it for its alternative value, namely its community value, in order to allow the asset to be retained in the community in that way?

13:36 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. Llongyfarchiadau i'r bobl yn Ynys Môn. Mae'n 'progress' da iawn, rwy'n meddwl.

Thank you very much, and congratulations to the people of Anglesey—very good progress has been made.

But, you do raise a very important point about how we can ensure that that transfer of ownership, for public benefit, is successful in terms of those issues that you raise. That is a particular point that I would like to respond to, because, of course, this is how we deliver on the guidance that I issued last month, to guide the community asset transfers in an appropriate way.

Ond rydych yn nodi pwynt pwysig iawn ynghylch sut y gallwn sicrhau bod y broses o drosglwyddo perchnogaeth, er budd y cyhoedd, yn llwyddiannus o ran y materion rydych yn eu crybwyll. Mae hwnnw'n bwynt penodol yr hoffwn ymateb iddo, oherwydd, wrth gwrs, dyma sut y cyflawnwn y canllawiau a gyhoeddais fis diwethaf, i arwain y broses o drosglwyddiadau asedau cymunedol mewn ffordd briodol.

13:36 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, we all agree that the community assets transfer approach has a number of benefits. However, will you agree with me that one of the main reasons why local authorities have to consider alternative ways of providing services like this is because of significant cuts imposed on the Welsh Government's budget by the Tory UK Government, which has badly hit the funding available for Welsh councils?

Weinidog, rydym i gyd yn cytuno bod nifer o fanteision i'r dull trosglwyddo asedau cymunedol. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno mai un o'r prif resymau pam fod rhaid i awdurdodau lleol ystyried ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau fel hyn yw oherwydd toriadau sylweddol a orfodwyd ar gyllideb Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth Geidwadol y DU, sydd wedi cael effaith wael iawn ar y cyllid sydd ar gael i gynghorau yng Nghymru?

13:37 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Gwyn Price, for that question. Of course, the Welsh budget for this financial year is 8 per cent lower in real terms than in 2010-11 due to UK Government cuts. But, of course, we are seeking ways, with these unprecedented budgetary challenges, in which we can support, particularly in response to this question, the community asset transfers that can be operated for public benefit through community ownership and management.

Diolch i chi am eich cwestiwn, Gwyn Price. Wrth gwrs, mae cyllideb Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol hon 8 y cant yn is mewn termau real nag ydoedd yn 2010-11 oherwydd toriadau Llywodraeth y DU. Ond wrth gwrs, gyda'r heriau cyllidebol digynsail hyn, rydym yn chwilio am ffyrdd i'n galluogi i gefnogi, yn benodol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, trefniadau trosglwyddo asedau cymunedol y gellir eu gweithredu er budd y cyhoedd drwy berchnogaeth a rheolaeth gymunedol.

13:37 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as many as two pubs are closing in Wales every week, and, too often, we see publicly funded community centres, libraries, and public buildings mothballed out of use, providing no income stream to any local authority that may own them. Now, across the border, of course, under the UK Government, we do have the Localism Act 2011, and that actually allows the devolved institutions to take over these properties. However, in Wales, there is an absolute reluctance to adopt the Localism Act 2011. This is a win-win situation for your Government, for our communities, and for our local authorities. What steps are you taking to fully adopt the Localism Act 2011 in this regard?

Weinidog, mae cymaint â dwy dafarn yn cau yng Nghymru bob wythnos, ac yn rhy aml, rydym yn gweld canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd, ac adeiladau cyhoeddus a gyllidir drwy arian cyhoeddus yn cael eu cadw heb eu defnyddio, a heb fod yn darparu llif incwm i unrhyw awdurdod lleol a all fod yn berchen arnynt. Nawr, ar draws y ffin, wrth gwrs, o dan Lywodraeth y DU, mae gennym Ddeddf Lleoliaeth 2011, ac mae honno mewn gwirionedd yn caniatáu i'r sefydliadau datganoledig gymryd meddiant o'r eiddo hyn. Fodd bynnag, yng Nghymru, mae amharodrwydd llwyr i fabwysiadu Deddf Lleoliaeth 2011. Mae hon yn sefyllfa lle y mae pawb ar eu hennill—eich Llywodraeth, ein cymunedau a'n hawdurdodau lleol. Pa gamau rydych chi'n eu cymryd i fabwysiadu Deddf Lleoliaeth 2011 yn llawn yn y cyswllt hwn?

13:38 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sure she was already aware of this, but I hope the Member will respond to the consultation launched by the Minister for Communities and Tackling Poverty on protecting community assets. Of course, that consultation takes us through to 11 September 2015. It does allow us to hear from communities and asset owners, in both the public and private sectors, about how we can protect Welsh community assets.

Rwy'n siŵr ei bod hi eisoes yn ymwybodol o hyn, ond rwy'n gobeithio y bydd yr Aelod yn ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiogelu asedau cymunedol a lansiwyd gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Wrth gwrs, mae'r ymgynghoriad hwnnw'n para hyd at 11 Medi, 2015. Mae'n rhoi cyfle i ni glywed gan gymunedau a pherchnogion asedau, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, ynglŷn â sut y gallwn ddiogelu asedau cymunedol yng Nghymru.

13:38 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, community asset transfers are being used as a way to protect libraries in Wales, as you well know from the example in the Vale of Glamorgan currently. But, whilst many of those transfers are underpinned by community councils, or town councils, some are not. So, what assessment have you made of the potential legal and financial risk to public authorities that they're exposed to, if the management of an asset transferred to the community fails in the future?

Weinidog, mae trosglwyddiadau asedau cymunedol yn cael eu defnyddio fel ffordd o ddiogelu llyfrgelloedd yng Nghymru, fel y gwyddoch yn iawn o'r enghraifft ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd. Ond er bod llawer o'r trosglwyddiadau hyn yn cael eu cynnal gan gynghorau cymuned, neu gynghorau tref, nid dyna'r sefyllfa gyda phob un ohonynt. Felly, pa asesiad rydych wedi'i wneud o'r risg gyfreithiol ac ariannol bosibl a allai wynebu awdurdodau cyhoeddus os yw trefniadau rheoli ased a drosglwyddwyd i'r gymuned yn methu yn y dyfodol?

13:39 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The community asset guide and toolkit that I published last month addresses these issues. Of course, that guide was drawn up in consultation, including not only Welsh local government, but also community and town councils, through One Voice Wales, through the third sector, and through the Wales Council for Voluntary Action. But, clearly, we have to address these issues, to safeguard the opportunities—the important opportunities—that communities are taking in terms of transfer. And, certainly, that is going to be addressed at a conference that's going to be held on 10 June—in fact, in Barry, which I'm sure will attract some local constituents.

Mae'r canllawiau ar asedau cymunedol a'r pecyn cymorth a gyhoeddais fis diwethaf yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Wrth gwrs, lluniwyd y canllawiau mewn ymgynghoriad rhwng llywodraeth leol Cymru, a chynghorau tref a chymuned hefyd drwy Un Llais Cymru, drwy'r trydydd sector, a thrwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Ond yn amlwg, mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â'r materion hyn, er mwyn diogelu'r cyfleoedd—y cyfleoedd pwysig—y mae cymunedau yn manteisio arnynt o ran trosglwyddo. Ac yn sicr, eir i'r afael â hynny mewn cynhadledd sydd i'w chynnal ar 10 Mehefin—yn y Barri, yn wir, ac rwy'n siŵr y bydd yn denu rhai etholwyr lleol.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call the party spokespeople, and the first is the Welsh Conservatives' spokesperson, Nick Ramsay.

Galwaf yn awr ar lefarwyr y pleidiau, a'r cyntaf yw llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Nick Ramsay.

13:40 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Minister, how much is it going to cost the Welsh Government to collect taxes in Wales?

Diolch. Weinidog, faint fydd casglu trethi yng Nghymru yn ei gostio i Lywodraeth Cymru?

13:40 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is something where we, as I've just responded to an earlier question, have consulted on the collection and management of taxes in Wales. That consultation has now been completed and I very much welcome the Finance Committee's report on this. Of course, I will be able to then make an announcement shortly on the most cost-effective way of collecting taxes in Wales.

Fel y dywedais mewn ymateb i gwestiwn cynharach, rydym wedi ymgynghori ar gasglu a rheoli trethi yng Nghymru. Mae'r ymgynghoriad hwnnw bellach wedi ei gwblhau ac rwy'n croesawu adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar hyn yn fawr. Wrth gwrs, byddaf wedyn yn gallu gwneud cyhoeddiad cyn bo hir ar y ffordd fwyaf cost-effeithiol o gasglu trethi yng Nghymru.

13:40 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I wasn't entirely clear on your earlier answer to Simon Thomas, and I'm slightly less clear now, Minister. Here is one of those reports that the Finance Committee compiled on this. Recommendation 1 of the Finance Committee report into the collection of taxes expresses disappointment , as I'm sure you know, that

Ie, nid oeddwn yn gwbl glir ynglŷn â'ch ateb cynharach i Simon Thomas, ac mae pethau ychydig yn llai eglur yn awr, Weinidog. Dyma un o'r adroddiadau a luniwyd gan y Pwyllgor Cyllid ar hyn. Mae argymhelliad 1 o adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar gasglu trethi yn mynegi siom, fel y gwyddoch mae'n siŵr

'the two main tax collection bodies do not seem to have been asked to produce a business case with detailed costings.'

'nad ymddengys y gofynnwyd i'r ddau brif gorff casglu trethi gyflwyno achos busnes gyda chostau manwl.'

So, it's hardly surprising that you don't have the costs to hand. Why is this taking so long and when will you be able to give us detailed costings on a very important area of policy?

Felly, go brin ei bod hi'n syndod nad yw'r costau gennych wrth law. Pam fod hyn yn cymryd cymaint o amser a pha bryd y gallwch roi costau manwl i ni ar faes polisi pwysig iawn?

13:41 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, it is an important area of policy and I don't think it is an area of policy where we disagree across this Chamber. This is a very important operational matter. It has to be cost effective in terms of the way we collect and manage our taxes. We've welcomed the publication of the committee's report. We're carefully considering its findings and, of course, I'm introducing the tax collection and management Bill before the summer recess. Most importantly, it will provide for the establishment of the Welsh revenue authority, which will have overall responsibility, of course, and we will be providing more information on costings as the Assembly considers the legislative provisions.

Wel, mae'n faes polisi pwysig ac nid wyf yn credu ei fod yn faes polisi rydym yn anghytuno arno ar draws y Siambr hon. Mae hwn yn fater gweithredol pwysig iawn. Mae'n rhaid iddo fod yn gost-effeithiol o ran y ffordd rydym yn casglu ac yn rheoli ein trethi. Rydym wedi croesawu cyhoeddiad adroddiad y pwyllgor. Rydym yn ystyried ei ganfyddiadau yn ofalus ac wrth gwrs, rwy'n cyflwyno'r Bil casglu a rheoli trethi cyn toriad yr haf. Yn bwysicaf oll, bydd yn darparu ar gyfer sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru, a fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol, wrth gwrs, a byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth ynglŷn â'r costau wrth i'r Cynulliad ystyried y darpariaethau deddfwriaethol.

13:41 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Well, I agree with you, Minister, that we certainly don't disagree, but we would like to agree more than we do, and we would if we had some of the costings that we're constantly asking for. 2018 is fast approaching. I appreciate that this is a complex area. As you know, I've been on something of an Assembly tax tour of community councils over the last year, and the public need to be carried with this process. The key question they ask me when I'm out and about in the constituency is, 'How much is all of this going to cost?' A pretty reasonable question and I want to be able to give them a solid answer. At the very least, we need to have those costings. I ask you again: when will you be making those costings available to this Chamber and will you please make sure it's sooner rather than later?

Wel, rwy'n cytuno â chi'n bendant nad ydym yn anghytuno, Weinidog, ond byddem yn hoffi cytuno mwy nag yr ydym yn ei wneud, ac fe fyddem pe bai gennym rai o'r costau rydym yn gofyn amdanynt yn gyson. Mae 2018 yn prysur agosáu. Rwy'n sylweddoli bod hwn yn faes cymhleth. Fel y gwyddoch, rwyf wedi bod ar ryw fath o daith trethi gan y Cynulliad o gwmpas y cynghorau cymuned dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae angen i'r cyhoedd fod yn rhan o'r broses hon. Y cwestiwn allweddol y maent yn ei ofyn i mi pan af o gwmpas yr etholaeth yw, 'Faint y bydd hyn i gyd yn ei gostio?' Mae'n gwestiwn eithaf rhesymol ac rwyf eisiau gallu rhoi ateb cadarn iddynt. Mae angen i ni gael y costau hynny o leiaf. Rwy'n gofyn i chi eto: pryd y byddwch chi'n sicrhau fod y costau ar gael i'r Siambr hon ac a wnewch chi wneud yn siŵr ei fod yn digwydd yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach os gwelwch chi'n dda?

Senedd.tv
Fideo Video

13:42 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I will be making this announcement very shortly.

Byddaf yn gwneud y cyhoeddiad hwn yn fuan iawn.

Senedd.tv
Fideo Video

13:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

Llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

Senedd.tv
Fideo Video

13:42 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, in your last question time, you told me that the last time you carried out an assessment as to how much of Welsh Government procurement had gone to local Welsh companies was two or three years ago. Have you now managed to put a date on when that assessment was carried out and will you be carrying out a further assessment so that you can assess the effectiveness of public sector procurement in Wales in terms of helping local companies?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, yn eich sesiwn gwestiynau ddiwethaf, fe ddywedoch wrthyf mai'r tro diwethaf i chi gynnal asesiad ynglŷn â faint o gaffael Llywodraeth Cymru a oedd wedi mynd i gwmnïau lleol o Gymru oedd ddwy neu dair blynedd yn ôl. A ydych chi bellach wedi llwyddo i roi dyddiad i ba bryd y cynhaliwyd yr asesiad ac a fyddwch yn cynnal asesiad pellach er mwyn asesu effeithiolrwydd caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru o ran helpu cwmnïau lleol?

Senedd.tv
Fideo Video

13:43 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, I will be making a statement to the Assembly over the next fortnight about our refreshed Welsh procurement policy statement, which, of course, will include an update in terms of the assessment of benefit to Welsh companies in terms of our procurement policies.

Wel, byddaf yn gwneud datganiad i'r Cynulliad yn ystod y pythefnos nesaf ynglŷn â datganiad polisi caffael Cymru sydd wedi cael ei adnewyddu, a fydd, wrth gwrs, yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am yr asesiad o fudd ein polisïau caffael i gwmnïau Cymru.

Senedd.tv
Fideo Video

13:43 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Well, thank you for that answer, Minister. I look forward to hearing that statement. I have raised with you, of course, on a number of occasions the make-up of your procurement board, which is entirely staffed by members of the public sector. Given the noises from your Government recently about the need for Welsh Ministers to engage with business around Wales, have you given any consideration to amending the make-up of that procurement board to involve members of the private sector so that you can get additional insight as to how procurement is going in Wales?

Wel, diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Edrychaf ymlaen at glywed y datganiad. Rwyf wedi crybwyll cyfansoddiad eich bwrdd caffael wrthych ar sawl achlysur wrth gwrs, ac mae pob aelod o'r bwrdd hwn yn aelodau o'r sector cyhoeddus. O ystyried y sylwadau gan eich Llywodraeth yn ddiweddar am yr angen i Weinidogion Cymru ymgysylltu â busnesau ledled Cymru, a ydych wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i ddiwygio cyfansoddiad y bwrdd caffael i gynnwys aelodau o'r sector preifat er mwyn i chi gael darlun ychwanegol o'r sefyllfa yng Nghymru o ran caffael?

Senedd.tv
Fideo Video

13:44 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I found that question very helpful, I have to say, Peter Black, at my last finance oral questions. In fact, I have asked the chair of the procurement board to meet with the private sector to consider the most effective way business could work through the procurement board. He's met with Paul Byard, chair of Commerce Cymru, to discuss formalising links.

Wel, rhaid i mi ddweud, Peter Black, cefais y cwestiwn hwnnw'n ddefnyddiol iawn yn fy sesiwn gwestiynau cyllid ddiwethaf. A dweud y gwir, rwyf wedi gofyn i gadeirydd y bwrdd caffael gyfarfod â'r sector preifat i ystyried y ffordd fwyaf effeithiol i fusnesau weithio drwy'r bwrdd caffael. Mae wedi cyfarfod â Paul Byard, cadeirydd Masnach Cymru, i drafod ffurfioli'r cysylltiadau.

13:44 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, that is very encouraging, Minister. I am, however, still getting complaints from businesses in my region about the procurement policies of a number of councils who are still creating contracts too large for local companies to bid for them. I'm just wondering whether you are considering additional guidance to public sector bodies in terms of how they can amend their procurement policies so as to encourage local businesses and give them that opportunity to bid for those contracts?

Unwaith eto, mae hynny'n galonogol iawn, Weinidog. Fodd bynnag, rwy'n dal i gael cwynion gan fusnesau yn fy rhanbarth am bolisïau caffael nifer o gynghorau sy'n dal i greu contractau sy'n rhy fawr i gwmnïau lleol wneud cais amdanynt. Tybed a ydych yn ystyried canllawiau ychwanegol i gyrff sector cyhoeddus ar sut y gallant newid eu polisïau caffael er mwyn annog busnesau lleol a rhoi cyfle iddynt wneud cais am y contractau hynny?

13:45 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Peter Black for that question. In fact, on Monday, I met with the Council for Economic Renewal, which, of course, has full business representation on that board and we discussed these issues. There are a number of ways in which I could reassure them that we are moving forward to attack and deal with the remaining barriers to procurement for SMEs. For example, the supplier qualification information database approach has lowered barriers to procurement and indigenous contractors now win 66 per cent of awards published on Sell2Wales. We also discussed the joint bidding guide, which, if you recall, was launched in 2013. That promotes consortium bidding, giving greater access to public sector contracts for smaller businesses as well as social enterprises.

Diolch i Peter Black am ei gwestiwn. Yn wir, ddydd Llun, cyfarfûm â Chyngor Adnewyddu'r Economi, sydd â chynrychiolaeth fusnes lawn ar ei fwrdd a buom yn trafod y materion hyn. Mae yna nifer o ffyrdd y gallwn eu sicrhau ein bod yn symud ymlaen i oresgyn ac ymdrin â gweddill y rhwystrau caffael sy'n wynebu busnesau bach a chanolig. Er enghraifft, mae'r gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr wedi lleihau'r rhwystrau i gaffael ac mae contractwyr cynhenid yn ennill 66 y cant o'r contractau a gyhoeddir ar Sell2Wales erbyn hyn. Rydym hefyd wedi trafod y canllawiau ar wneud cais ar y cyd, a gafodd ei lansio yn 2013, os cofiwch. Mae hynny'n hyrwyddo ceisiadau gan gonsortiwm, gan wneud contractau sector cyhoeddus yn fwy hygyrch i fusnesau llai yn ogystal â mentrau cymdeithasol.

13:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And finally the Plaid Cymru spokesperson, Rhun ap Iorwerth.

Ac yn olaf llefarydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth.

13:46 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn. Mi wnaf innau barhau efo'r thema yna. Yng nghyfnod y ddau Gynulliad yn arwain at 2011, yn cynnwys, wrth gwrs, blynyddoedd Llywodraeth Cymru'n Un pan wnaeth Plaid Cymru fynnu gwneud caffael cyhoeddus yn flaenoriaeth, mi wnaeth canran y gwariant cyhoeddus a oedd yn aros yng Nghymru gynyddu o 35 y cant i 52 y cant. Cynnydd o 3 y cant sydd wedi bod yn ystod eich cyfnod chi fel Llywodraeth. A ydych yn cyfri hynny i fod yn llwyddiant?

Thank you very much. I will continue on that theme. Over the period of the two Assemblies leading up to 2011, including, of course, the years of the One Wales Government when Plaid Cymru insisted on making public procurement a priority, the percentage of public expenditure that remained in Wales increased from 35 per cent to 52 per cent. There's been an increase of 3 per cent during your period in Government. Do you consider that to be a success?

13:46 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think we're making progress. If we look at the latest figures from Value Wales, 55 per cent of our £5.5 billion annual procurement expenditure is won by Wales-based businesses.

Rwy'n credu ein bod yn gwneud cynnydd. Os edrychwn ar y ffigurau diweddaraf gan Gwerth Cymru, mae 55 y cant o'n £5.5 biliwn o wariant caffael blynyddol yn cael ei ennill gan fusnesau wedi'u lleoli yng Nghymru.

13:46 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ac mae'r 55 y cant yna, fel rwy'n dweud, dim ond yn 3 y cant yn fwy nag yr oedd pan ddaethoch chi i rym. Yn ystod cyfarfod y bore yma, fel mae'n digwydd, o'r Pwyllgor Menter a Busnes, mi ddywedodd yr Athro Kevin Morgan,

And that 55 per cent, as I say, is only 3 per cent higher than it was when you came to power. During a meeting this morning, as it happens, of the Enterprise and Business Committee, Professor Keving Morgan said,

'We have a poverty of ambition in the way we use public procurement in Wales. The power of purchase is a phenomenal power if you have the skills and the political will to use it.'

'We have a poverty of ambition in the way we use public procurement in Wales. The power of purchase is a phenomenal power if you have the skills and the political will to use it.'

A ydy'r sgiliau a'r ewyllys wleidyddol wirioneddol gennym ni i ddefnyddio'r grym yna?

Do the skills and political will exist here in Wales to use that power?

13:47 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The skills do exist and, in fact, the procurement fitness checks, which have been completed and published for local government and NHS Wales, have demonstrated where progress has been made in terms of the delivery of those skills. That Home-grown Talent project, which was funded by the European social fund, has enabled 28 trainees in the public sector to progress with those skills.

Mae'r sgiliau yn bodoli ac yn wir, mae'r gwiriadau ffitrwydd i gaffael, a gwblhawyd ac a gyhoeddwyd ar gyfer llywodraeth leol a GIG Cymru, wedi dangos lle y gwnaed cynnydd o ran cyflwyno'r sgiliau hynny. Mae prosiect Doniau Cymru, a ariannwyd gan gronfa gymdeithasol Ewrop, wedi galluogi 28 o hyfforddeion i ddatblygu gyda'r sgiliau hynny yn y sector cyhoeddus.

Also, in terms of the ways in which we are delivering progress, results from the first 74 community benefits measurement tools, which represent projects of over £658 million, illustrate that 84 per cent of the expenditure has been reinvested in Wales, with 74 per cent of it won by Welsh SMEs. This community benefits measurement tool is widely regarded and has won awards outside of Wales, which shows the political will for procurement policy.

Hefyd, o ran y ffyrdd rydym yn cyflawni cynnydd, mae canlyniadau'r 74 offeryn mesur budd cymunedol cyntaf, sy'n cynrychioli prosiectau gwerth dros £658 miliwn, yn dangos bod 84 y cant o'r gwariant wedi cael ei ail-fuddsoddi yng Nghymru, gyda 74 y cant ohono wedi'i ennill gan fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Mae'r offeryn mesur budd cymunedol hwn yn cael sylw eang ac mae wedi ennill gwobrau y tu allan i Gymru, sy'n dangos yr ewyllys gwleidyddol i gael polisi caffael.

13:48 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay, so if skills are getting better and if the political will is there, is there not one thing that is glaringly missing from this? When you set up the National Procurement Service, you said that you would keep an eye on the improvements—the increases that there would be in Welsh public sector procurement or contracts kept in Wales—and that if you didn't see a significant increase, you would look again at the possibility of legislating in this area. Is it not quite clear now that it is time for us to legislate for the good of Welsh businesses?

Iawn, felly os yw'r sgiliau'n gwella a'r ewyllys gwleidyddol yno, onid oes un peth amlwg sydd ar goll yn hyn i gyd? Pan aethoch ato i sefydlu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, fe ddywedoch y byddech yn cadw llygad ar y gwelliannau—y cynnydd a fyddai yng nghaffael y sector cyhoeddus yng Nghymru neu nifer y contractau a gâi eu cadw yng Nghymru—ac os na fyddech yn gweld cynnydd sylweddol, byddech yn edrych eto ar y posibilrwydd o ddeddfu yn y maes. Onid yw'n gwbl glir yn awr ei bod yn bryd i ni ddeddfu er lles busnesau yng Nghymru?

13:48 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I look forward to making my statement on the refreshed Welsh procurement policy because, at that time, I will be able to give the very welcome news that we are going to be strengthened in Wales by the designation Order we've secured from the UK Government. We've secured that in order to enable us to regulate in terms of procurement, and I'm sure that the Member will welcome that.

Wel, rwy'n edrych ymlaen at roi fy natganiad ar bolisi caffael Cymru ar ei newydd wedd oherwydd bryd hynny, byddaf yn gallu rhannu'r newyddion da iawn ein bod yn mynd i gael ein cryfhau yng Nghymru gan y Gorchymyn dynodi rydym wedi ei sicrhau gan Lywodraeth y DU. Rydym wedi sicrhau hwnnw er mwyn ein galluogi i reoleiddio ym maes caffael, ac rwy'n siŵr y bydd yr Aelod yn croesawu hynny.

13:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Questions 3 and 7 are grouped.

Mae cwestiynau 3 a 7 wedi cael eu grwpio.

### Y Portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### The Health and Social Services Portfolio

13:49 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyrannu cyllid i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(4)0569(FIN)*

*3. Will the Minister make a statement on the allocation of funding to the health and social services portfolio? OAQ(4)0569(FIN)*

**Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

*7. Pa flaenoriaethau y gwnaeth y Gweinidog eu hystyried wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(4)0559(FIN)*

*7. What priorities were considered by the Minister when allocating funding to the health and social services portfolio? OAQ(4)0559(FIN)*

13:49 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Presiding Officer, in answering questions 3 and 7, my reply is: despite the cuts to our budget since 2010-11, investment in the health and social services main expenditure group stands at record levels, with over £6.7 billion allocated to the portfolio in 2015-16.

Ddirprwy Lywydd, i ateb cwestiynau 3 a 7, fy ateb yw: er gwaethaf y toriadau i'n cyllideb ers 2010-11, mae'r buddsoddiad ym mhrif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn uwch nag erioed, gyda thros £6.7 biliwn wedi cael ei ddyrannu i'r portffolio yn 2015-16.

13:49 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Minister. The Nuffield report, published last June, found that demand on the NHS will outstrip money it receives by some £2.5 billion by 2025. What discussions have you had with the current health Minister, and what planning is your Government undertaking to look at ways in which the findings of the Nuffield report can be delivered?

Diolch yn fawr, Weinidog. Roedd adroddiad Nuffield, a gyhoeddwyd fis Mehefin diwethaf, yn dangos y bydd y galw ar y GIG tua £2.5 biliwn yn fwy na'r arian y mae'n ei dderbyn erbyn 2025. Pa drafodaethau a gawsoch gyda'r Gweinidog iechyd ar hyn o bryd, a pha gynllunio y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i edrych ar ffyrdd y gellid cyflawni canfyddiadau adroddiad Nuffield?

13:50 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, last autumn, we provided an additional £225 million for the Welsh NHS in our spending plans to deliver those high-quality sustainable health and social services, and that was funded directly and fully to the Nuffield Trust, to the evidence that they provided, and, of course, that underpins the budget-setting that has led us to invest an extra £1 billion in the health service over the past two years.

Wel, yn ystod yr hydref diwethaf, darparwyd £225 miliwn ychwanegol gennym ar gyfer y GIG yng Nghymru fel rhan o'n cynlluniau gwariant i ddarparu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol cynaliadwy o ansawdd uchel, a chafodd ei gyllido'n uniongyrchol ac yn llawn i Ymddiriedolaeth Nuffield yn ôl y dystiolaeth a ddarparwyd ganddynt, ac wrth gwrs, dyna sy'n sail i osod y gyllideb a'n harweiniodd i fuddsoddi £1 biliwn yn ychwanegol yn y gwasanaeth iechyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

13:50 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I recently visited the site of the new critical care centre in Cwmbran and was pleased to see that construction is finally well under way. Of course, the critical care centre is just one piece of the Gwent Clinical Futures jigsaw that requires investment in local general hospitals and also lower-level community services. How much funding is being made available to the local health board for the development of the supporting services, aside from the critical care centre?

Weinidog, ymwelais yn ddiweddar â safle'r ganolfan gofal critigol newydd yng Nghwmbrân ac roeddwn yn falch o weld fod gwaith adeiladu ar y gweill o'r diwedd. Wrth gwrs, mae'r ganolfan gofal critigol yn un darn o jig-so Dyfodol Clinigol Gwent sydd angen buddsoddiad mewn ysbytai cyffredinol lleol yn ogystal â gwasanaethau cymunedol ar lefel is. Faint o gyllid sy'n cael ei ddarparu i'r bwrdd iechyd lleol ar gyfer datblygu gwasanaethau ategol, ar wahân i'r ganolfan gofal critigol?

13:51 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is important to recognise that the local health board is developing the full business case in terms of the specialism critical care centre, and it's going to be accompanied by a Clinical Futures programme business case. And, of course, that's looking at the wider healthcare provision for the area you are raising a question about, and that full business case, of course, will then be subject to our full NHS Wales infrastructure investment guidance.

Mae'n bwysig cydnabod fod y bwrdd iechyd lleol yn datblygu'r achos busnes llawn ar y ganolfan gofal critigol arbenigol, a bydd achos busnes rhaglen Dyfodol Clinigol i fynd gydag ef. Ac wrth gwrs, mae hwnnw'n edrych ar y ddarpariaeth gofal iechyd ehangach yn yr ardal rydych yn gofyn yn ei chylch, a bydd yr achos busnes llawn, wrth gwrs, yn ddarostyngedig wedyn i'n canllawiau llawn ar fuddsoddi yn seilwaith GIG Cymru.

13:51 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Minister, will you agree with me that, despite the major real-term cuts on the Welsh Government's budget by the UK Conservative Government, spending per head on the crucial combination of health and social services in Wales remains above that of England?

Weinidog, er gwaethaf y toriadau mawr mewn termau real yng nghyllideb Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth Geidwadol y DU, a gytunwch fod gwariant y pen ar y cyfuniad hanfodol o iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn parhau i fod yn uwch na Lloegr?

Senedd.tv Fideo Video

13:52 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Yes, it does. I thank Sandy Mewies for that question. Despite the cuts to our budget since 2010, we're continuing to fund the services that matter most to the people of Wales. You've got to look at the figures published by the Treasury to show that spending per head on health and social services in Wales in 2013-14 was 5 per cent higher than in England, and that's a testament to the value that we place on our key public services and our commitment to providing the best care for patients, integrating health and social care.

Ydy, mae hynny'n wir. Diolch i Sandy Mewies am y cwestiwn. Er gwaethaf y toriadau i'n cyllideb ers 2010, rydym yn parhau i ariannu'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl Cymru. Mae'n rhaid i chi edrych ar y ffigurau a gyhoeddwyd gan y Trysorlys sy'n dangos bod gwariant y pen ar wasanaethau iechyd a chymdeithasol yng Nghymru yn 2013-14 bump y cant yn uwch nag yn Lloegr, ac mae hynny'n dyst i'r gwerth rydym yn ei roi ar ein gwasanaethau cyhoeddus allweddol a'n hymrwymiad i ddarparu'r gofal gorau i gleifion, gan integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol.

Senedd.tv Fideo Video

13:52 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Minister, the £18 million extra for research into the effects of ageing, mental health and public health over the next three years of course is very welcome, but despite the Mental Health (Wales) Measure 2010, we still do not have sufficient data on the outcomes of various interventions for people with mental health problems. Could you tell me, Minister, what proportion of that £18 million will be spent on and go towards this extremely important programme of research and, in particular, for younger people suffering from mental health problems?

Weinidog, mae'r £18 miliwn ychwanegol ar gyfer ymchwilio i effeithiau heneiddio, iechyd meddwl ac iechyd y cyhoedd dros y tair blynedd nesaf i'w groesawu'n fawr, wrth gwrs, ond er gwaethaf Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, nid oes gennym ddigon o ddata o hyd ar ganlyniadau gwahanol ymyriadau ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. A allwch ddweud wrthyf, Weinidog, pa gyfran o'r £18 miliwn sy'n cael ei wario ar y rhaglen ymchwil hynod bwysig hon ac yn benodol, faint ohono fydd yn mynd tuag at bobl iau sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl?

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Well, investing in the health service is a priority for this Government, as, indeed, it is in terms of policy announcements we've recently made in terms of investment in mental health. We've agreed that, in terms of mental health funding, we should, as a starting point—and very relevant to your question—invest £7.6 million to help drive a range of important improvements in child and adolescent mental health services across Wales.

Wel, mae buddsoddi yn y gwasanaeth iechyd yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon, fel y mae o ran cyhoeddiadau polisi a wnaethom yn ddiweddar ar fuddsoddi mewn iechyd meddwl. Rydym wedi cytuno, o ran cyllid iechyd meddwl, y dylem fuddsoddi, fel man cychwyn—ac yn berthnasol iawn i'ch cwestiwn—£7.6 miliwn i helpu i ysgogi amrywiaeth o welliannau pwysig ym maes gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed ledled Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

## Gwariant Ataliol

## Preventative Spending

13:53 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wariant ataliol ar draws adrannau Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0556(FIN)*

*4. Will the Minister make a statement on preventative spending across Welsh Government departments? OAQ(4)0556(FIN)*

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Preventative spending has been central to managing our reduced budget. Early investment is key to ensuring the best outcomes for people in Wales and to relieving pressures on budgets in the long term.

Mae gwariant ataliol wedi bod yn ganolog i reoli ein cyllideb lai o faint. Mae buddsoddi'n gynnar yn allweddol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl Cymru ac i leddfu pwysau ar gyllidebau yn y tymor hir.

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. We know that people living in more disadvantaged areas are more likely to experience poor health; for example, being twice as likely to die from an avoidable condition, such as lung cancer or ischaemic heart disease. How does the Welsh Government seek to address these gross and unacceptable health inequalities in its allocation of money towards preventative spending?

Diolch yn fawr, Weinidog. Rydym yn gwybod bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn fwy tebygol o ddioddef iechyd gwael; er enghraifft, maent ddwywaith yn fwy tebygol o farw o gyflwr y gellir ei osgoi, fel canser yr ysgyfaint neu glefyd isgemia'r galon. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd enbyd ac annerbyniol hyn yn y modd y mae'n dyrannu arian tuag at wariant ataliol?

13:54 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Cynon Valley for that very important question. I think it's important to say that research shows that spending on public services, such as health and education, does reduce inequality by benefiting low-income households more than those on high incomes, and that's why we have invested significantly in the NHS over the past two years, including programmes to tackle health inequalities in communities where poor health is most prevalent.

Diolch i'r Aelod dros Gwm Cynon am y cwestiwn pwysig iawn hwnnw. Rwy'n credu ei bod yn bwysig dweud bod ymchwil yn dangos bod gwariant ar wasanaethau cyhoeddus, megis iechyd ac addysg, yn lleihau anghydraddoldeb drwy fod o fwy o fudd i aelwydydd incwm isel na'r rhai sydd ar incwm uchel, a dyna pam rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn y GIG dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gynnwys rhaglenni i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd mewn cymunedau lle y mae iechyd gwael yn fwyaf cyffredin.

13:54 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, an important area of preventative spending is of course in the area of preventative healthcare. However the amount of funding available for these vital preventative schemes is dependent on overall health spending. We are spending greater amounts of that funding on agency nurses and doctors. Does the Welsh Government have any plans to tackle spending on agency staff in order to ensure more money is available for preventative health spending?

Weinidog, maes pwysig o wariant ataliol wrth gwrs yw maes gofal iechyd ataliol. Fodd bynnag, mae'r swm o arian sydd ar gael ar gyfer y cynlluniau ataliol hanfodol hyn yn ddibynnol ar wariant iechyd yn gyffredinol. Rydym yn gwario symiau mwy o'r arian hwnnw ar nyrsys a meddygon asiantaeth. A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i fynd i'r afael â gwariant ar staff asiantaeth er mwyn sicrhau bod mwy o arian ar gael i'w wario ar iechyd ataliol?

13:55 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member very much for that question to me. It is very pertinent in terms of investment in prevention and preventative healthcare. Of course, you mention areas in terms of preventive healthcare, such as prevention in terms of oral health. This is an area where we can be more efficient and effective. I think our national procurement service helps us with this, particularly in relation to the use of agency staff.

Diolch yn fawr i'r Aelod am y cwestiwn. Mae'n berthnasol iawn o ran buddsoddi mewn atal a gofal iechyd ataliol. Wrth gwrs, rydych yn crybwyll meysydd gofal iechyd ataliol, megis atal o ran iechyd y geg. Mae hwn yn faes a allai fod yn fwy effeithlon ac effeithiol. Rwy'n credu bod ein gwasanaeth caffael cenedlaethol yn ein helpu gyda hyn, yn enwedig mewn perthynas â'r defnydd o staff asiantaeth.

### Goblygiadau'r Etholiad i'r Gyllideb

### The Implications of the Election for the Budget

13:56 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r goblygiadau i gyllideb Llywodraeth Cymru o ethol Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig? OAQ(4)0562(FIN)*

*5. What assessment has the Minister made of the implications for the Welsh Government budget of the election of a new UK Government? OAQ(4)0562(FIN)*

13:56 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

All indications suggest that the UK Government's plans to continue with their austerity measures will place our budget under further pressure for much of the rest of the decade.

Mae'r holl arwyddion yn awgrymu y bydd cynlluniau Llywodraeth y DU i barhau â'u mesurau caledi yn rhoi ein cyllideb o dan bwysau pellach am lawer o weddill y degawd.

13:56 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I think the unprecedented cuts planned by the new Conservative UK Government will put great strain on the Welsh Government budgets, and then, consequently, great strain on local authority and voluntary sector budgets. Would you agree with me, then, Minister, that the Welsh Government, as well as having to passport on those cuts, should work with local authorities and the voluntary sector to find those new and better ways of delivering so that, effectively, more can be delivered with less?

Weinidog, rwy'n credu y bydd y toriadau digynsail a gynlluniwyd gan Lywodraeth Geidwadol newydd y DU yn rhoi straen mawr ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, ac yna, o ganlyniad, yn rhoi straen mawr ar gyllidebau awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. A fyddech yn cytuno â mi, felly, Weinidog, yn ogystal â gorfod trosglwyddo'r toriadau hynny, y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o gyflawni er mwyn sicrhau, i bob pwrpas, y gellir cyflwyno mwy gyda llai?

13:57 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank John Griffiths for that question. Clearly, the next spending period is going to be a major challenge for the whole of the public sector in Wales, and, indeed, for the third sector. I met with the third sector this morning at a regular ministerial meeting with them, and we're working with them. In fact, we had prevention and early intervention on our agenda this morning, which are key ways in which we have to address our budget. We've already discussed this this morning, and are looking at ways in which we can improve services for citizens. I am undertaking a budget tour over the summer to meet with front-line staff and to hear from them not just what their priorities are, but also how we can address the austerity that, of course, is being imposed on us. I would say to Members that you've only got to look at the report from the Organisation for Economic Co-operation and Development, and I'd like to share that with the new Conservative UK Government. This report is called 'In It Together: Why Less Inequality Benefits All', and this report from the OECD says a rise in inequality knocks off economic growth; if the bottom loses ground, everyone is losing ground. I think that's the reality we must remember today.

Diolch i John Griffiths am ei gwestiwn. Yn amlwg, mae'r cyfnod gwario nesaf yn mynd i fod yn her fawr i'r sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd yng Nghymru, ac yn wir, i'r trydydd sector. Cyfarfûm â'r trydydd sector y bore yma mewn cyfarfod gweinidogol rheolaidd â hwy, ac rydym yn gweithio gyda hwy. Yn wir, roedd atal ac ymyrraeth gynnar ar ein hagenda y bore yma, ac maent yn ffyrdd allweddol sy'n rhaid i ni eu defnyddio er mwyn mynd i'r afael â'n cyllideb. Rydym eisoes wedi trafod hyn y bore yma, ac rydym yn edrych ar ffyrdd o wella gwasanaethau i ddinasyddion. Rwy'n mynd ar daith gyllideb dros yr haf i gyfarfod â staff rheng flaen a chlywed beth yw eu blaenoriaethau, yn ogystal â chlywed sut y gallwn fynd i'r afael â'r caledi sy'n cael ei orfodi arnom wrth gwrs. Byddwn yn dweud wrth yr Aelodau nad oes ond angen i chi edrych ar yr adroddiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, a hoffwn rannu hynny gyda Llywodraeth Geidwadol newydd y DU. Enw'r adroddiad yw 'In It Together: Why Less Inequality Benefits All'. Mae'r adroddiad hwn gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn dweud bod cynnydd mewn anghydraddoldeb yn lladd twf economaidd; os yw'r gwaelod yn colli tir, mae pawb yn colli tir. Rwy'n credu mai dyna'r realiti sy'n rhaid i ni ei gofio heddiw.

13:58 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the new UK Government has made it absolutely clear that it will spend an extra £8 billion on the health service in England during the course of this Parliament. Of course, this will result in consequentials for the Welsh Government's budget, resulting in an extra £450 million being made available. In light of this, Minister, can you confirm today that the Welsh Government will actually spend that money on the health service here in Wales?

Weinidog, mae Llywodraeth newydd y DU wedi ei gwneud yn gwbl glir y bydd yn gwario £8 biliwn ychwanegol ar y gwasanaeth iechyd yn Lloegr yn ystod y Senedd hon. Wrth gwrs, bydd hyn yn arwain at symiau canlyniadol ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru, gan olygu y bydd £450 miliwn yn ychwanegol ar gael. Yng ngoleuni hyn, Weinidog, a allwch chi gadarnhau heddiw y bydd Llywodraeth Cymru yn gwario'r arian hwnnw ar y gwasanaeth iechyd yma yng Nghymru?

13:58 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have to say, Paul Davies, that you well know that we won't know whether Wales will benefit or not from the spending review until the Chancellor makes his announcement. If there are any giveaways, we expect that they will likely be matched by takeaways, and as a responsible Finance Minister, I will not only await, I hope, some indication in the summer budget on 8 July, but I will wait to see whether there are takeaways as well as giveaways.

Mae'n rhaid i mi ddweud, Paul Davies, eich bod yn gwybod yn iawn na fyddwn yn gwybod a fydd Cymru yn elwa neu beidio o'r adolygiad o wariant hyd nes y bydd y Canghellor yn gwneud ei gyhoeddiad. Os oes rhoddion, disgwyliwn y bydd yna golledion cyfatebol, ac fel Gweinidog Cyllid cyfrifol, fe arhosaf, gobeithio, am ryw arwydd o hynny yng nghyllideb yr haf ar 8 Gorffennaf, a hefyd fe arhosaf i weld a oes colledion yn ogystal â rhoddion.

## Y Portffolio Addysg a Sgiliau

## The Education and Skills Portfolio

13:59 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Pa ffactorau y gwnaeth y Gweinidog eu hystyried wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio addysg a sgiliau? OAQ(4)0563(FIN)*

*6. What factors were considered by the Minister when allocating funding to the education and skills portfolio? OAQ(4)0563(FIN)*

13:59 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae ein rhaglen lywodraethu'n sail i'n holl benderfyniadau ynghylch y gyllideb.

Our programme for government underpins all our budget decisions.

13:59 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb cryno, Weinidog. Fe wyddoch chi fod 45c o bob punt sy'n cael ei roi mewn benthyciad i fyfyrwyr heb gael ei dalu yn ôl ar hyn o bryd, sy'n prysur wneud y polisi hwnnw yn anfforddiadwy. Mae penderfyniad diweddar y Trysorlys, a adroddwyd yn y 'Financial Times' ar 21 Mai, i rannu unrhyw faich ychwanegol pellach rhwng y Trysorlys, ond hefyd gyda'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau yn ysgwyddo o leiaf hanner y pwysau hynny, yn golygu y bydd llai o arian ar gael ar gyfer gwariant yn Lloegr, yn sicr, ar gyfer sgiliau megis addysg i oedolion. Ond mae hwnnw ymhlyg gyda'r gwariant ar gyfer Llywodraeth Cymru hefyd. A ydych chi wedi llwyddo i wneud unrhyw astudiaeth neu werthusiad o effaith benthyciadau myfyrwyr yn y dyfodol ar gyfer cyllid Cymru?

Thank you for that succinct response, Minister. You will know that every 45p of each pound given in student loans has not been repaid to date, which is swiftly making that policy unaffordable. The recent decision by the Treasury, which was reported in the 'Financial Times' on the 21 May, to share any additional burden between the Treasury, but also with the Department for Business, Innovation and Skills taking at least half of that pressure, will mean that there will be less funding available for expenditure in England, certainly, for skills such as adult education. But that also has implications for Welsh Government expenditure. Have you done any assessment or evaluation of the impact of student loans in future for Welsh funding?

14:00 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, the Member knows that, in our programme for government, we've said we would continue to maintain our commitment to provide financial support to students from the lowest household incomes, and we're doing this by retaining the current levels of support available. But we do obviously recognise that there is an expected increase in demand, and the increase in the number of students eligible for student finance grants, the expected impact of lifting of the student numbers cap in England—these are pressures. But we must remember it's Wales that has the most generous maintenance grant system of the UK administrations.

Wel, wrth gwrs, mae'r Aelod yn gwybod ein bod wedi dweud yn ein rhaglen lywodraethu y byddem yn cynnal ein hymrwymiad i ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr o'r cartrefi incwm isaf, ac rydym yn gwneud hyn drwy gynnal y lefelau presennol o gymorth sydd ar gael. Ond yn amlwg rydym yn cydnabod bod cynnydd disgwyliedig yn y galw, a bod cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n gymwys i gael grantiau cyllid myfyrwyr, ac effaith ddisgwyliedig dileu'r cap ar niferoedd myfyrwyr yn Lloegr—mae'r rhain yn creu pwysau. Ond mae'n rhaid i ni gofio mai Cymru sydd â'r system grant cynhaliaeth fwyaf hael o holl weinyddiaethau'r DU.

14:01 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you may be aware that Swansea council has recently proposed a cut to their education-other-than-at-school budget by £670,000, a cut of over 20 per cent of their budget, at a time when schools' budgets are protected to some degree. Now, teachers and staff have invariably raised concerns about how this will leave the future of vulnerable children excluded from mainstream schools. So, can you tell me how the budget allocation to the education portfolio protects the education rights under article 4 of the UNCRC for children educated other than at school?

Weinidog, efallai eich bod yn gwybod bod cyngor Abertawe wedi argymell toriad o £670,000 i'w cyllideb addysg heblaw yn yr ysgol yn ddiweddar, toriad o dros 20 y cant o'u cyllideb, ar adeg pan fo cyllidebau ysgolion yn cael eu diogelu i ryw raddau. Nawr, mae athrawon a staff wedi mynegi pryderon ynglŷn â sut y bydd hyn yn cael effaith ar ddyfodol plant sy'n agored i niwed a waharddwyd o ysgolion prif ffrwd. Felly, a allwch ddweud wrthyf sut y mae'r dyraniad cyllidebol i'r portffolio addysg yn diogelu hawliau addysg o dan erthygl 4 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i blant mewn addysg heblaw yn yr ysgol?

14:01 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I do think it's important to say, once again during my questions this afternoon, that the Welsh budget in 2015-16 is 8 per cent lower in real terms than in 2010-11 due to UK Government cuts. That, of course, has a huge impact in terms of funding for our partners. But we have provided an additional £106 million to schools, as evidenced in the final budget, because of our commitment to protect schools funding by 1 per cent above changes to the Welsh departmental expenditure limit overall.

Wel, rwy'n credu ei bod yn bwysig dweud unwaith eto yn ystod fy sesiwn gwestiynau y prynhawn yma, fod cyllideb Cymru yn 2015-16 wyth y cant yn is mewn termau real nag yn 2010-11 oherwydd toriadau Llywodraeth y DU. Mae hynny, wrth gwrs, yn cael effaith enfawr o ran cyllid i'n partneriaid. Ond rydym wedi darparu £106 miliwn ychwanegol i ysgolion, fel y gwelwch yn y gyllideb derfynol, oherwydd ein hymrwymiad i ddiogelu cyllid ysgolion ar un y cant yn uwch na newidiadau i derfyn gwariant adrannol Cymru yn gyffredinol.

## Asesiadau Effaith Ariannol

## Financial Impact Assessments

14:02 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Sut y mae'r Gweinidog yn adolygu asesiadau effaith ariannol mewn memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth ddrafft? OAQ(4)0564(FIN)*

*8. How does the Minister review financial impact assessments in explanatory memorandums accompanying draft legislation? OAQ(4)0564(FIN)*

14:02 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We undertake a financial assessment at a number of key points in the development of legislation, culminating in the regulatory impact assessment. We keep costs under review as legislation progresses.

Rydym yn cynnal asesiad ariannol ar nifer o bwyntiau allweddol yn natblygiad deddfwriaeth, gan arwain at yr asesiad effaith rheoleiddiol. Rydym yn adolygu costau wrth i ddeddfwriaeth symud yn ei blaen.

14:02 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, thank you very much for that answer, Minister, because, as you know, much of Government legislation is amended by Government itself at Stages 2 and 3, and, unfortunately, it's not usual for Members to receive updated explanatory memoranda or financial impact assessments. That means that our scrutiny is fundamentally compromised. So, I just wondered if you agreed that, in the case of heavy amendment, this Assembly should receive and have the opportunity to scrutinise updated information as a matter of course, before Stage 4.

Wel, diolch yn fawr am yr ateb, Weinidog, oherwydd, fel y gwyddoch, mae llawer o ddeddfwriaeth y Llywodraeth yn cael ei diwygio gan y Llywodraeth ei hun yng Nghyfnodau 2 a 3, ac yn anffodus, nid yw'n arferol i Aelodau dderbyn memoranda esboniadol neu asesiadau effaith ariannol wedi'u diweddaru. Mae hynny'n golygu bod ein gwaith craffu dan fygythiad yn sylfaenol. Felly, roeddwn i'n meddwl tybed os ydych yn cytuno, lle y ceir llawer o ddiwygio, y dylai'r Cynulliad dderbyn a chael y cyfle i graffu ar y wybodaeth ddiweddaraf fel mater o drefn, cyn Cyfnod 4.

14:03 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is important that we provide clarity on the costs associated with our legislation. Assessing the costs of legislation is crucial and the impact it has—it's a central part of the policy development process. I think it was very helpful that the Finance Committee recognised in the scrutiny of draft budgets that the additional information I provided in terms of costing legislation—and you rightly raise the issues about as we move through legislation in terms of not just projected costs, but perhaps additional costs that may emerge. This is something, of course, which we view with great focus in terms of the opportunities that we have to deliver the informed information you need, particularly in the regulatory impact assessment.

Mae'n bwysig ein bod yn darparu eglurder ynghylch y costau sy'n gysylltiedig â'n deddfwriaeth. Mae asesu costau deddfwriaeth yn hanfodol, a'r effaith a gaiff—mae'n rhan ganolog o'r broses o ddatblygu polisi. Rwy'n credu ei bod yn ddefnyddiol iawn fod y Pwyllgor Cyllid wedi cydnabod, wrth graffu ar gyllidebau drafft, fod y wybodaeth ychwanegol a ddarperais o ran costio deddfwriaeth—ac rydych yn iawn i grybwyll y materion hyn wrth i ni symud drwy'r ddeddfwriaeth, nid yn unig o ran costau a ragwelir, ond costau ychwanegol a allai godi, o bosibl. Wrth gwrs, mae hyn yn rhywbeth rydym yn edrych arno gan ganolbwyntio'n helaeth ar y cyfleoedd sydd gennym i ddarparu'r wybodaeth ddeallus sydd ei hangen arnoch, yn enwedig yn yr asesiad effaith rheoleiddiol.

14:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Questions 9, OAQ(4)0565(FIN), and 10, OAQ(4)0560(FIN), have been withdrawn. Question 11—William Graham.

Mae cwestiynau 9, OAQ(4)0565(FIN), a 10, OAQ(4)0560(FIN), wedi'u tynnu'n ôl. Cwestiwn 11—William Graham.

## Prosiectau'r Fenter Cyllid Preifat

## Private Finance Initiative Projects

14:04 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r cyfraniad a wnaed i Ddwyrain De Cymru gan brosiectau menter cyllid preifat? OAQ(4)0558(FIN)*

*11. Will the Minister outline the contribution made to South Wales East by PFI projects? OAQ(4)0558(FIN)*

14:04 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wales has made relatively little use of the old form of PFI, private finance initiative, which did not offer value for money. But there are 11 PFI projects in South Wales East, with a capital value of nearly £170 million.

Defnydd cymharol fach o'r hen fath o Fenter Cyllid Preifat, nad oedd yn cynnig gwerth am arian, y mae Cymru wedi'i wneud. Ond ceir 11 o brosiectau Menter Cyllid Preifat yn Nwyrain De Cymru, gyda gwerth cyfalaf o bron i £170 miliwn.

14:04 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Minister for her answer. She will know that Sirhowy Enterprise Way had approval by your Government, and the main access to Oakdale business park, the southern distributor road in Newport, and Chepstow Community Hospital, were all PFI projects greatly enhancing the life of many of the citizens of south-east Wales.

Diolch i'r Gweinidog am ei hateb. Bydd yn gwybod bod Ffordd Fenter Sirhywi wedi derbyn cymeradwyaeth gan eich Llywodraeth, ac roedd y brif fynedfa i barc busnes Oakdale, y ffordd ddosbarthu ddeheuol yng Nghasnewydd ac Ysbyty Cymuned Cas-gwent, i gyd yn brosiectau Menter Cyllid Preifat a arweiniodd at wella bywydau llawer o ddinasyddion de-ddwyrain Cymru yn fawr.

14:04 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I recognise that there are projects—and you've identified them—in your region and, of course, they have been promoted by not only Welsh Government or local authorities, but also by the Home Office as well.

Ydw, rwy'n cydnabod bod prosiectau—ac rydych wedi eu nodi—yn eich rhanbarth ac wrth gwrs, maent wedi cael eu hyrwyddo nid yn unig gan Lywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol, ond gan y Swyddfa Gartref hefyd.

14:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 12, OAQ(4)0566(FIN), has been withdrawn. Question 13—Suzy Davies.

Mae cwestiwn 12, OAQ(4)0566(FIN), wedi'i dynnu'n ôl. Cwestiwn 13—Suzy Davies.

## Canllawiau ar Reoli Cyllidebau

## Guidance on Managing Budgets

14:05 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch unwaith eto, Ddirprwy Lywydd.

Thank you once again, Deputy Presiding Officer.

*13. Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu mewn perthynas â rheoli cyllidebau? OAQ(4)0567(FIN)*

*13. What guidance does the Welsh Government issue in relation to managing budgets? OAQ(4)0567(FIN)*

14:05 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The guide 'Managing Welsh Public Money' provides comprehensive guidance on managing budgets.

Mae'r canllaw 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' yn rhoi canllawiau cynhwysfawr ar reoli cyllidebau.

14:05 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much for that answer. I'm thinking in particular of local authorities and NHS boards that do, from time to time, face legal costs as a result of legal action. We've seen two local authorities in my own area lose judicial reviews pretty recently. Worryingly, Bridgend County Borough Council has been unable to tell me how much its own costs were in fighting its particular case, nor was it able to tell me which services might suffer as a result of having to find that money from existing budgets. I'm wondering, therefore, Minister, from which budget lines do you expect public service providers like local authorities and the NHS to find the money for such costs, and do you have any specific guidance on that?

Diolch yn fawr iawn am yr ateb. Rwy'n meddwl yn arbennig am awdurdodau lleol a byrddau GIG sydd, o bryd i'w gilydd, yn wynebu costau cyfreithiol o ganlyniad i gamau cyfreithiol. Rydym wedi gweld dau awdurdod lleol yn fy ardal fy hun yn colli adolygiadau barnwrol yn lled ddiweddar. Mae'n destun pryder nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi gallu dweud wrthyf faint oedd ei gostau yn ymladd ei achos, ac nid oedd yn gallu dweud wrthyf pa wasanaethau a allai ddioddef o ganlyniad i orfod dod o hyd i'r arian o'r cyllidebau presennol. Rwy'n meddwl tybed, felly, Weinidog, o ba linellau cyllideb y disgwyliwch i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus megis awdurdodau lleol a'r GIG ddod o hyd i'r arian ar gyfer costau o'r fath, ac a oes gennych unrhyw ganllawiau penodol ar hynny?

14:06 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, I think it is important to draw attention to this comprehensive guide, which is called 'Managing Welsh Public Money', because it covers all aspects of financial management for government, and it's actually based on the UK Government's 'Managing Public Money'. Also, we do supplement that guidance, and we supplement that guidance particularly in terms of, for example, the letters that are issued to sponsored bodies and also making sure that we can enable our partners, particularly in local government, to be aware of the guidance. Of course, it is a statutory responsibility on local authorities to make their arrangements for the proper administration of their financial affairs, and that does include setting a balanced budget and keeping to it. Guidance on a range of issues associated with managing budgets is provided, of course, by the professional accounting body.

Wel, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig tynnu sylw at yr arweiniad cynhwysfawr hwn a elwir yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru', gan ei fod yn cynnwys pob agwedd ar reolaeth ariannol ar gyfer llywodraeth, ac mae'n seiliedig, mewn gwirionedd, ar 'Managing Public Money' Llywodraeth y DU. Hefyd, rydym yn ychwanegu at y canllawiau hynny, ac rydym yn ychwanegu at y canllawiau yn benodol, er enghraifft, o ran y llythyrau sy'n cael eu dosbarthu i gyrff a noddir a sicrhau hefyd ein bod yn gallu galluogi ein partneriaid, yn enwedig mewn llywodraeth leol, i fod yn ymwybodol o'r canllawiau. Wrth gwrs, mae'n gyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol i wneud eu trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol, ac mae hynny'n cynnwys gosod cyllideb gytbwys a chadw ati. Mae canllawiau ar ystod o faterion sy'n gysylltiedig â rheoli cyllidebau yn cael eu darparu, wrth gwrs, gan y corff cyfrifyddu proffesiynol.

## Portffolio'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

## The Economy, Science and Transport Portfolio

14:07 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*14. Pa ystyriaeth y rhoddodd y Gweinidog i ddatblygu economaidd wrth ddyrannu cyllid i bortffolio'r economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth? OAQ(4)0557(FIN)*

*14. What consideration did the Minister give to economic development when allocating funding to the economy, science and transport portfolio? OAQ(4)0557(FIN)*

14:07 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The programme for government sets out our priorities for Wales and underpins our spending plans, including funding allocated to the economy, science and transport portfolio.

Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru ac yn ategu ein cynlluniau gwariant, gan gynnwys arian a ddyrannwyd i bortffolio'r economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth.

14:07 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you. I wonder what consideration you've given to the Institute of Welsh Affairs report on an economic strategy for Wales published earlier this year by their economy group, led by Gerry Holtham, which calls for an ambitious plan for economic growth, backed up by actions to close the wealth gap with England and detailing a number of examples of the investment needed.

Diolch yn fawr. Tybed pa ystyriaeth a roesoch i adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig ar strategaeth economaidd i Gymru, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni gan eu grŵp economi, o dan arweiniad Gerry Holtham, sy'n galw am gynllun uchelgeisiol ar gyfer twf economaidd, wedi'i ategu gan gamau gweithredu i gau'r bwlch cyfoeth â Lloegr gan fanylu ar nifer o enghreifftiau o'r buddsoddiad sydd ei angen.

14:08 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, I'm responsible for ensuring and enabling the Minister for Economy, Science and Transport to take forward her policies, which are delivering a huge impact in terms of our economy in Wales. I think if we look at the budget in terms of the opportunities for the economy, science and transport budget, we have made sure that we can support not only projects that are very important, in terms of the south Wales metro, but also are making sure that we can take a keen interest, for example, in the city deals that are emerging, and also recognise that the opportunities that we provide, not only for the economy, science and transport budget, but also the opportunities we provide through capital for infrastructure, through the Wales infrastructure investment plan, actually provide a pipeline of infrastructure investment—so, the additional capital allocations to EST, which I think are important and which do start to address some of the issues that have been raised include, for example, the next generation broadband for Wales, and that, of course, together with BT's overall investment in Wales, will see £425 million invested to expand high-speed broadband throughout Wales.

Wel, wrth gwrs, rwy'n gyfrifol am sicrhau a galluogi Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ddatblygu ei pholisïau, sy'n cael effaith enfawr ar ein heconomi yng Nghymru. Rwy'n meddwl os edrychwn ar y gyllideb o ran y cyfleoedd ar gyfer cyllideb yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth, rydym wedi sicrhau ein bod yn gallu cefnogi, nid yn unig prosiectau sy'n bwysig iawn, o ran metro de Cymru, ond rydym yn sicrhau hefyd y gallwn ddangos diddordeb brwd, er enghraifft, yn y cynigion dinas sy'n ymddangos, a chydnabod hefyd fod y cyfleoedd a ddarparwn, nid yn unig ar gyfer cyllideb yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth, ond hefyd y cyfleoedd a ddarparwn drwy gyfalaf ar gyfer seilwaith, drwy'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, yn darparu ffynhonnell o fuddsoddiad yn y seilwaith. Felly, bydd y dyraniadau cyfalaf ychwanegol i'r economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth, sy'n bwysig yn fy marn i ac sy'n dechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion a grybwyllwyd, yn cynnwys, er enghraifft, band eang y genhedlaeth nesaf i Gymru, a bydd hynny, wrth gwrs, ynghyd â buddsoddiad cyffredinol BT yng Nghymru, yn arwain at fuddsoddiad o £425 miliwn i ehangu'r band eang cyflym ledled Cymru.

14:09 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'm not completely convinced you answered my earlier question about the impact of student loans on your budget, and, if you have an opportunity to review it and issue more information, that would be much appreciated, but, specifically on the science and technology budget, you have funded for some time now a programme called Sêr Cymru, which is intended to attract postgraduate science research in Wales, from outside but also indigenous as well. If you look at the research council money allocated to Wales, that has really flatlined for the past 10 years or so in the science area. It nevertheless needs some investment to see improvement there. When you meet with the new Chief Secretary to the Treasury, will you have an opportunity to talk with him about the proposal from the Chancellor to have postgraduate loans in England, and whether they can be made available in Wales so we can match them to our Sêr Cymru investment, and get an even better bang for our buck?

Weinidog, nid wyf yn gwbl argyhoeddedig eich bod wedi ateb fy nghwestiwn cynharach am effaith benthyciadau myfyrwyr ar eich cyllideb, ac os cewch gyfle i'w adolygu a rhoi mwy o wybodaeth, byddai'n cael ei werthfawrogi'n fawr, ond yn benodol ar y gyllideb gwyddoniaeth a thechnoleg, rydych wedi ariannu rhaglen o'r enw Sêr Cymru ers peth amser bellach, gyda'r nod o ddenu ymchwil ôl-raddedig yn y gwyddorau i Gymru, o'r tu allan ond o Gymru hefyd. Os edrychwch ar arian y cyngor ymchwil a ddyrannwyd i Gymru, mae wedi aros yr un fath dros y 10 mlynedd diwethaf ym maes gwyddoniaeth. Er hynny, mae angen rhywfaint o fuddsoddi er mwyn gweld gwelliant. Pan fyddwch yn cyfarfod â'r Prif Ysgrifennydd y Trysorlys newydd, a gewch chi gyfle i siarad gydag ef am gynnig y Canghellor i gael benthyciadau ôl-raddedig yn Lloegr, ac a allant fod ar gael yng Nghymru er mwyn i ni allu eu paru â'n buddsoddiad Sêr Cymru a chael gwerth hyd yn oed yn well am ein harian?

14:10 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our Sêr Cymru investment is obviously of crucial importance. Yesterday, we were able to welcome the pioneering new discovery and development in terms of a cancer drug, taken forward by Cardiff University—by scientists at Cardiff University. And also to again praise the status of Cardiff University in terms of the research excellence assessment, and recognising the very important work led by our chief scientific adviser, Professor Julie Williams, in attracting that postgraduate expertise and capacity here in Wales. But, of course, I take every opportunity to support my colleague, the Minister for Education and Skills, in terms of those connections that I can make, not just with the Chief Secretary to the Treasury, but also with the European Commission, because there are many prospects through Horizon 2020 that we can take that will enable us to progress, particularly in relation to the science and economy portfolio.

Mae ein buddsoddiad Sêr Cymru yn amlwg yn hanfodol bwysig. Ddoe, gallasom groesawu darganfyddiad newydd a datblygiad arloesol cyffur canser a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerdydd—gan wyddonwyr ym Mhrifysgol Caerdydd. Hefyd, gallasom ganmol statws Prifysgol Caerdydd unwaith eto o ran yr asesiad rhagoriaeth ymchwil, a chydnabod y gwaith pwysig iawn dan arweiniad ein prif ymgynghorydd gwyddonol, yr Athro Julie Williams, ar ddenu arbenigedd a gallu ôl-raddedig yma yng Nghymru. Ond wrth gwrs, rwy'n achub ar bob cyfle i gefnogi fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, o ran y cysylltiadau y gallaf eu gwneud, nid yn unig â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, ond hefyd gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, gan fod llawer o gyfleoedd drwy Horizon 2020 y gallwn fanteisio arnynt i'n galluogi i symud ymlaen, yn enwedig mewn perthynas â'r portffolio gwyddoniaeth a'r economi.

14:11 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as you may well be aware, the town of Llandovery is facing a number of challenges in the time to come, particularly given the imminent closure of Ysgol Pantycelyn, which will inevitably take a major toll on the vibrancy of the local economy. The Llandovery Partnership, in close collaboration with the local community, has undertaken a number of significant actions to help to address this and to promote greater resilience in the economy, such as the Level Crossing bunkhouse project, and, indeed, in recent years, the sheep festival has been a major success story also. But, given the particular challenges that that community faces, Minister, are you able to support the work of the Llandovery Partnership to take forward its work in the particular circumstances that arise by reprioritising the funding that you make available to your colleague, the Minister for Economy, Science and Transport, in that regard?

Weinidog, fel y byddwch eisoes yn gwybod efallai, mae tref Llanymddyfri yn wynebu nifer o heriau yn y cyfnod sydd i ddod, yn enwedig o ystyried bod Ysgol Pantycelyn ar fin cau, a fydd yn anochel yn effeithio'n fawr ar fywiogrwydd yr economi leol. Mae Partneriaeth Llanymddyfri, mewn cydweithrediad agos â'r gymuned leol, wedi rhoi nifer o gamau arwyddocaol ar waith i helpu i oresgyn hyn ac i hyrwyddo mwy o gydnerthedd yn yr economi, megis prosiect tŷ bynciau'r Groesfan Reilffordd, ac yn wir, yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r ŵyl ddefaid wedi bod yn llwyddiant mawr hefyd. Ond o ystyried yr heriau penodol sy'n wynebu'r gymuned, Weinidog, a allwch gynorthwyo Partneriaeth Llanymddyfri i ddatblygu ei gwaith o dan yr amgylchiadau penodol sy'n codi drwy ail-flaenoriaethu'r cyllid rydych yn ei ddarparu i'ch cyd-Aelod, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, yn hynny o beth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:12 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Well, as you can appreciate, it is not for me to make changes to allocations in response to particular regional or local needs and developments. It is, of course, primarily, I would say, for Powys County Council and partners for the Llandovery—and the private sector—. Not Powys—apologies to Kirsty Williams; we're moving west to Carmarthenshire. But, I think the—[Interruption.] Oh, it's greater Powys, is it? Right. [Laughter.] But, on a serious matter, I would say that the Minister for Economy, Science and Transport, and indeed the Minister for Communities and Tackling Poverty, because this involves regeneration opportunities, town-centre loans as well, which, of course, I am here as Finance Minister to facilitate the finance that can then be made available and used in partnership by colleagues in the Cabinet to ensure that we can respond to developments of the kind you describe in Llandovery.

Wel, fel y byddwch yn deall, nid fy lle i yw gwneud newidiadau i ddyraniadau mewn ymateb i anghenion a datblygiadau rhanbarthol neu leol penodol. Wrth gwrs, byddwn yn dweud ei fod yn fater i Gyngor Sir Powys yn bennaf a phartneriaid Llanymddyfri—a'r sector preifat—. Nid Powys—ymddiheuriadau i Kirsty Williams; rydym yn symud tua'r gorllewin i Sir Gaerfyrddin. Ond rwy'n credu'r—[Torri ar draws.] O, Powys fwyaf, ie? Iawn. [Chwerthin.] Ond o ddifrif, byddwn yn dweud bod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn wir, gan fod hyn yn cynnwys cyfleoedd adfywio, benthyciadau canol y dref hefyd, ac wrth gwrs, rwyf yma fel Gweinidog Cyllid i hwyluso'r cyllid y gellir ei ddarparu wedyn a'i ddefnyddio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y Cabinet i sicrhau ein bod yn gallu ymateb i ddatblygiadau o'r math rydych yn eu disgrifio yn Llanymddyfri.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

## 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

## 2. Questions to the Minister for Public Services

### Cymunedau sy'n Rhedeg Gwasanaethau Cyhoeddus

### Communities Running Public Services

14:14 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth barhaus i gymunedau a fydd yn cymryd yr awenau gan awdurdodau lleol o ran rhedeg gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0570(PS)*

*1. Will the Minister make a statement on ongoing support for communities who take over the running of public services from local authorities? OAQ(4)0570(PS)*

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Senedd.tv Fideo Video

Mae cefnogaeth barhaus yn bennaf yn fater i'r gwasanaeth cyhoeddus perthnasol a drosglwyddodd y gwaith o redeg y gwasanaeth neu'r ased. Rwyf wedi comisiynu gwaith ar y sgôp sydd i fodelau cydweithredol neu gydfuddiannol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, a bydd hyn yn ystyried yr angen am gefnogaeth barhaus.

Ongoing support is primarily a matter for the relevant public service that transferred the running of the service or asset. I have commissioned work on the scope for co-operative and mutual models in public services delivery, which will consider the need for ongoing support.

14:14 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb hwnnw, a byddwn yn edrych ymlaen at gael gweld y ddogfen honno, oherwydd rwyf wedi siarad gyda chi ar nifer o adegau ynghylch y ffaith bod yna grŵp ar hyn o bryd sydd yn ceisio creu grŵp newydd i redeg pwll nofio yng Nghwm Afan yng Nghymer. Mae'n nhw yn gallu efallai creu sefyllfa lle mae'n nhw yn rhoi cais ger bron i redeg y pwll, ond yr hyn sy'n eu poeni nhw, fel rwyf wedi'i ddweud yn barod, yr elfen barhaus o redeg y pwll a'r arbenigedd y mae ei angen ar gyfer hynny. A fydd y ddogfen yma yn eu helpu nhw yn hynny o beth?

Thank you for that response, and I look forward to seeing that document, because I have spoken to you on a number of occasions about the fact that there is currently a group that is trying to create a new group to run the swimming pool in the Afan Valley, in Cymmer. Now, they may be able to actually get to a point where they put an application forward to run the pool, but what concerns them, as I've already said, is this element of ongoing support in terms of running the pool and the expertise required. Will this document help them in that regard?

14:15 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the document has just come to me for consideration, following work that's been carried out, which was commissioned by me and the Minister for Economy, Science and Transport from the Wales Co-operative Centre. It's looking at the opportunities that do exist to ensure that, in the new climate that we find ourselves in, the local authorities are able to protect and preserve as many community assets as possible. Now, alongside that, of course, there's also been guidance produced by my colleague the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism in respect of libraries. There has been material produced by my colleague the Minister for Finance in respect of the transfer of assets, and we have had, of course, historically a number of funds, such as the community facilities and activities programme, which have supported organisations in this regard.

Wel, mae'r ddogfen newydd fy nghyrraedd i mi ei hystyried, yn dilyn gwaith a wnaed. Fe'i comisiynwyd gennyf fi a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Mae'n trafod y cyfleoedd sy'n bodoli er mwyn sicrhau, yn yr hinsawdd newydd rydym ynddi, fod yr awdurdodau lleol yn gallu diogelu a chadw cymaint o asedau cymunedol ag y bo modd. Nawr, ochr yn ochr â hynny, wrth gwrs, cynhyrchwyd canllawiau hefyd gan fy nghyd-Aelod, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, mewn perthynas â llyfrgelloedd. Mae deunydd wedi'i gynhyrchu gan fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Cyllid, ar drosglwyddo asedau, ac wrth gwrs, yn hanesyddol rydym wedi cael nifer o gronfeydd, megis y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol, sydd wedi cefnogi sefydliadau yn hyn o beth.

14:16 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the answer, Minister. I would also be interested in that document, because Bethan Jenkins has already pointed out how many times she's raised the issue of the Cymmer pool and other centres in the Afan valley. I also asked a question about timelines on 29 April, and you gave me a detailed answer, indicating that local authorities should have policies in place. Are you able to monitor those policies to see if they actually do exist, because I've checked on my own local authority's website and I can't find its policy? And how do I help other people who are actually trying to seek to take over assets to actually gain that information to be able to take on that task?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Bydd y ddogfen honno o ddiddordeb i mi hefyd, gan fod Bethan Jenkins eisoes wedi nodi sawl gwaith y mae hi wedi crybwyll mater pwll nofio Cymer a chanolfannau eraill yng nghwm Afan. Hefyd, gofynnais gwestiwn am linellau amser ar 29 Ebrill, a rhoesoch ateb manwl i mi, gan nodi y dylai fod polisïau ar waith gan awdurdodau lleol. A ydych yn gallu monitro'r polisïau hynny i weld a ydynt yn bodoli mewn gwirionedd, gan i mi edrych ar wefan fy awdurdod lleol a methu â dod o hyd i'w bolisi? A sut rwy'n helpu pobl eraill sy'n ceisio cymryd meddiant ar asedau i ddod o hyd i'r wybodaeth er mwyn gallu ymgymryd â'r dasg?

14:16 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. I thank my colleague, the Member for Aberavon, for the question. Obviously, I've had correspondence with both him and the Plaid Cymru Member for South Wales West on these issues recently. Can I say to him that we are able to provide further advice to local authorities? And the document that has been drawn up for us has been the result of many conversations with different organisations, including local authorities around Wales, and I hope it will help us to formulate a new approach in the future. I think it is going to be increasingly important that local authorities take a proactive stance in their relations with community organisations as we may well see more organisations coming forward with proposals for asset transfer.

Ie. Diolch i fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Aberafan, am y cwestiwn. Yn amlwg, rwyf wedi gohebu gydag ef ac Aelod Plaid Cymru dros Orllewin De Cymru ar y materion hyn yn ddiweddar. A gaf fi ddweud wrtho ein bod yn gallu rhoi cyngor pellach i awdurdodau lleol? Ac mae'r ddogfen sydd wedi'i llunio ar ein cyfer wedi deillio o nifer o sgyrsiau gyda gwahanol sefydliadau, yn cynnwys awdurdodau lleol o gwmpas Cymru, ac rwy'n gobeithio y bydd yn ein helpu i ffurfio dull newydd o weithredu yn y dyfodol. Rwy'n credu ei bod hi'n mynd i fod yn fwyfwy pwysig i awdurdodau lleol fabwysiadu agwedd ragweithiol yn eu cysylltiadau â sefydliadau cymunedol oherwydd efallai'n wir y byddwn yn gweld mwy o sefydliadau yn cyflwyno cynigion ar gyfer trosglwyddo asedau.

14:17 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good practice shows that community ownership and delivery of public services, co-produced with local authorities in support, can be a win-win for everybody. But, regarding your reference to the co-operative centre for Wales, could you tell us what, if any, contact and dialogue you've had with the co-operative centre and Disability Wales regarding the Citizen Directed Co-operatives Cymru and independent living project to support greater citizen voice, control and independence for disabled people in Wales, a model based upon that implemented in Sweden nearly 30 years ago?

Mae arfer da yn dangos bod perchnogaeth a darparu gwasanaethau cyhoeddus, wedi'u cydgynhyrchu gyda chefnogaeth awdurdodau lleol, yn gallu bod yn sefyllfa lle y mae pawb ar ei ennill. Ond ynglŷn â'ch cyfeiriad at ganolfan cydweithredol Cymru, a allwch ddweud wrthym pa gyswllt a thrafodaeth a gawsoch, os o gwbl, gyda'r ganolfan gydweithredol ac Anabledd Cymru ynghylch cwmnïau cydweithredol Cymru dan gyfarwyddyd y dinesydd a'r prosiect byw'n annibynnol i hybu llais y dinesydd, rheolaeth ac annibyniaeth i bobl anabl yng Nghymru, model sy'n seiliedig ar waith yn Sweden bron i 30 mlynedd yn ôl?

14:18 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm certainly aware of the project to which the Member refers. I haven't had a specific conversation with the Wales Co-operative Centre about that, but the Wales Co-operative Centre has, as I've said, been very active in carrying out for us the commission in respect of asset transfer, and I will have more to say on this in the near future.

Wel, rwy'n sicr yn ymwybodol o'r prosiect y mae'r Aelod yn cyfeirio ato. Nid wyf wedi cael sgwrs benodol gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru am hynny, ond mae Canolfan Cydweithredol Cymru, fel rwyf wedi'i ddweud, wedi bod yn weithgar iawn yn cyflawni'r comisiwn ar ein cyfer o ran trosglwyddo asedau, a bydd gennyf ragor i'w ddweud ar hyn yn y dyfodol agos.

14:18 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you'll be aware that community asset transfers, of course, are being mooted as solutions for library services in many parts of my region in particular, but where, in some places, it is a town or community council that is underpinning that service and providing some level of legal and financial stability, in places such as Rhoose, where there is no town council, we have a situation where we may be asking an informal group of volunteers to take on a significant amount of financial and legal risk personally. I wonder if you would agree with me that there is a duty then on the public authority to make sure that that asset transfer is a success and to provide ongoing legal and financial advice and guidance for as long as is necessary to make sure that that group is enabled to take the asset transfer forward.

Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol fod trosglwyddiadau asedau cymunedol, wrth gwrs, yn cael eu crybwyll fel atebion ar gyfer gwasanaethau llyfrgelloedd mewn sawl rhan o fy rhanbarth yn arbennig. Ond mewn rhai mannau, lle y mae'r cyngor tref neu'r cyngor cymuned yn cynnal y gwasanaeth ac yn darparu rhywfaint o sefydlogrwydd cyfreithiol ac ariannol, mewn lleoedd megis Rhws, lle nad oes cyngor tref, mae gennym sefyllfa lle y mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i grŵp anffurfiol o wirfoddolwyr ymgymryd yn bersonol â chryn dipyn o risg ariannol a chyfreithiol. Tybed a fyddech yn cytuno â mi fod dyletswydd ar yr awdurdod cyhoeddus felly i sicrhau bod trosglwyddiad yr ased yn llwyddiant ac i roi cyngor ac arweiniad cyfreithiol ac ariannol parhaus am gyhyd ag sy'n angenrheidiol, i alluogi'r grŵp i fwrw ymlaen â throsglwyddiad yr ased.

14:19 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think that, when an asset transfer takes place, clearly, agreements need to be reached between public authorities transferring assets and any groups taking them over as to the level of continuing support that will be available at the outset. Of course, that might include legal and financial administrative support, but that is for those organisations to negotiate, I think, at the outset. I think it is worth saying, of course, that this is not a new subject here in this Assembly. When I was the Deputy Minister for Regeneration, we created a community asset transfer fund, with support at the time from the Big Lottery fund, and that enabled both capital and revenue to be provided to local organisations. Now, it has clearly been more difficult for us to sustain projects like that in the light of the austerity measures that have been imposed upon Wales by the former coalition Government and look set to be continued by the new Conservative Government.

Wel, pan fydd ased yn cael ei drosglwyddo, yn amlwg, rwy'n credu y bydd angen i awdurdodau cyhoeddus sy'n trosglwyddo asedau gytuno ar y cychwyn â'r grwpiau sy'n cymryd meddiant ynglŷn â lefel y gefnogaeth barhaus a fydd ar gael. Wrth gwrs, gallai hynny gynnwys cymorth gweinyddol cyfreithiol ac ariannol, ond rwy'n credu mai mater i'r sefydliadau ei drafod ar y cychwyn fydd hynny. Wrth gwrs, rwy'n meddwl ei bod yn werth dweud nad yw hwn yn bwnc newydd yma yn y Cynulliad. Pan oeddwn yn Ddirprwy Weinidog Adfywio, aethom ati i greu cronfa trosglwyddo asedau cymunedol, gyda chefnogaeth y Gronfa Loteri Fawr ar y pryd, a'n galluogodd i ddarparu cyfalaf a refeniw i sefydliadau lleol. Nawr, mae'n amlwg fod cynnal prosiectau o'r fath wedi bod yn anos i ni yng ngoleuni'r mesurau caledi a orfodwyd ar Gymru gan y Llywodraeth glymblaid flaenorol ac sydd i'w gweld yn mynd i gael eu parhau gan y Llywodraeth Geidwadol newydd.

## Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus

## Reforming Public Services

14:20 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0571(PS)*

*2. Will the Minister make a statement on Welsh Government strategy to reform public services in Wales? OAQ(4)0571(PS)*

14:20 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We set out our strategic reform agenda in 'Devolution, Democracy and Delivery: Improving public services for people in Wales'.

Nodwyd ein hagenda ddiwygio strategol yn 'Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru'.

14:20 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, we know that UK Conservative Government policy will impose further unprecedented cuts on the Welsh Government's budget and that, in turn, will impact on Welsh Government funding for our local authorities in Wales. Would you agree that Welsh Government must work very closely with our local authorities to find new and better ways of delivering public services in Wales? And will you consider whether any new mechanisms or arrangements are required in order to achieve that?

Weinidog, gwyddom y bydd polisi Llywodraeth Geidwadol y DU yn arwain at doriadau digynsail pellach yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ac yn ei dro, bydd hynny'n effeithio ar gyllid Llywodraeth Cymru i'n hawdurdodau lleol yng Nghymru. A fyddech yn cytuno bod rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n agos iawn gyda'n hawdurdodau lleol i ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? A wnewch chi ystyried i ba raddau y mae angen systemau neu drefniadau newydd er mwyn cyflawni hynny?

14:21 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. I think my colleague, the Member for Newport East is absolutely right to point to the continuing programme of austerity that we expect to hear more about in the UK Government's budget on 8 July, and that will have a serious impact on the delivery of public services, including local government services. That is why we are keen to explore, with local authorities and others, how we can develop new opportunities for communities to manage and control facilities, and that has been the subject of the work I've just referred to in answer to the previous question. It's a dialogue that I started with the third sector and, indeed, with local government last autumn.

Ie. Rwy'n meddwl bod fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros ddwyrain Casnewydd, yn gwbl gywir i dynnu sylw at y rhaglen galedi barhaus rydym yn disgwyl clywed mwy amdani yng nghyllideb Llywodraeth y DU ar 8 Gorffennaf, a bydd yn cael effaith ddifrifol ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau llywodraeth leol. Dyna pam rydym yn awyddus i archwilio, gydag awdurdodau lleol ac eraill, sut y gallwn ddatblygu cyfleoedd newydd i gymunedau reoli cyfleusterau, a dyna yw testun y gwaith rwyf newydd gyfeirio ato wrth ateb y cwestiwn blaenorol. Mae'n drafodaeth a ddechreuais gyda'r trydydd sector ac yn wir, gyda llywodraeth leol yr hydref diwethaf.

14:21 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Minister, adequate funding is vital if local government reorganisation is to enable local authorities to deliver effective services. The Chartered Institute of Public Finance and Accounting estimates that the cost of reform is between £160 million and £268 million. Given these staggering figures, what provision has the Minister made so far to assist local authorities with the financial burden of reforms?

Weinidog, mae cyllid digonol yn hanfodol os yw ad-drefnu llywodraeth leol yn mynd i alluogi awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau effeithiol. Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn amcangyfrif bod y gost o ddiwygio rhwng £160 miliwn a £268 miliwn. O ystyried y ffigurau syfrdanol hyn, pa ddarpariaeth y mae'r Gweinidog wedi'i gwneud hyd yn hyn i gynorthwyo awdurdodau lleol gyda baich ariannol y diwygiadau?

Senedd.tv Fideo Video

14:22 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Well, can I start by saying to the Member that the CIPFA report to which he refers, of course, suggests figures that are far below what was originally suggested by the Welsh Local Government Association and others when the Williams commission reported in January 2014? Indeed, that CIPFA report, if I recall correctly, suggests that, on a long-term basis, there could be savings of £65 million a year as a result of the programme of local government reorganisation. But, at the end of the day, if the Member wants to lobby his own UK Government to increase the budget available to Wales, I would welcome his support.

Wel, a gaf fi ddechrau drwy ddweud wrth yr Aelod fod yr adroddiad CIPFA y mae'n cyfeirio ato, wrth gwrs, yn awgrymu ffigurau sy'n llawer is na'r hyn a awgrymwyd yn wreiddiol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill pan gyflwynodd comisiwn Williams ei adroddiad ym mis Ionawr 2014? Yn wir, mae'r adroddiad CIPFA, os cofiaf yn iawn, yn awgrymu, y gallai fod arbedion o £65 miliwn y flwyddyn ar sail hirdymor o ganlyniad i'r rhaglen ad-drefnu llywodraeth leol. Ond yn y pen draw, os yw'r Aelod yn dymuno lobïo ei Lywodraeth DU ei hun i gynyddu'r gyllideb sydd ar gael i Gymru, byddwn yn croesawu ei gefnogaeth.

Senedd.tv Fideo Video

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:22 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I now call the party spokespeople. Firstly, the Welsh Conservatives' spokesperson, Janet Finch-Saunders.

Galwaf yn awr ar lefarwyr y pleidiau. Yn gyntaf, llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Janet Finch-Saunders.

Senedd.tv Fideo Video

14:22 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Will the Minister make a statement on his current plans for local government reform in Wales?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynlluniau cyfredol ar gyfer diwygio llywodraeth leol yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

I have nothing to add to what I've previously said on this matter, Deputy Presiding Officer.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at yr hyn rwyf eisoes wedi'i ddweud ar y mater, Ddirprwy Lywydd.

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

That's hardly a response from a Government Minister. Minister, since 1999 and in this Assembly, your Government has introduced no less than 20 new measures, directives, White Papers and legislation intended to reform local government. In the last four years alone, we've had the Simpson compact, the local democracy Bill and the Williams commission. What evidence have you got that you can provide this Chamber with that these costly and bureaucratic demands made on our local authorities have actually delivered any real change?

Prin fod hwnnw'n ymateb gan un o Weinidogion y Llywodraeth. Weinidog, ers 1999 ac yn y Cynulliad hwn, cyflwynodd eich Llywodraeth gymaint ag 20 o fesurau, cyfarwyddebau, Papurau Gwyn a deddfwriaethau newydd gyda'r bwriad o ddiwygio llywodraeth leol. Yn y pedair blynedd diwethaf yn unig, cawsom gompact Simpson, y Bil democratiaeth leol a chomisiwn Williams. Pa dystiolaeth sydd gennych y gallwch ei darparu i'r Siambr fod y galwadau costus a biwrocrataidd hyn ar ein hawdurdodau lleol wedi sicrhau unrhyw newid gwirioneddol?

Senedd.tv Fideo Video

14:23 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think if the Member would care to reflect on that, she will be aware of reports from the Communities, Equality and Local Government Committee, which has looked into those documents and reports and reported at considerable length on the outcomes that have resulted from them.

Wel, rwy'n meddwl os hoffai'r Aelod ystyried hynny, fe fydd yn ymwybodol o adroddiadau gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol sydd wedi edrych yn fanwl ar y dogfennau a'r adroddiadau hynny ac wedi adrodd yn helaeth ar y canlyniadau a ddeilliodd ohonynt.

14:24 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Collaboration agenda: failed. Aberystwyth review of community and town councils: failed. You're now set to embark on another. And now, another map, two White Papers and forthcoming legislation. Minister, you are embarking on a whole new direction of reform and reorganisation and you're doing this without any actual evidence or an accurate cost-benefit analysis. This comes at a time of huge financial challenge for our local authorities. What guarantees can you provide this Chamber with and those involved in local government that you actually get local government in Wales and that your forthcoming proposals will, in fact, deliver change and change for the better?

Agenda cydweithio: wedi methu. Adolygiad Aberystwyth o gynghorau tref a chymuned: wedi methu. Yn awr, rydych yn barod i ddechrau ar un arall. Ac yn awr, map arall, dau Bapur Gwyn a deddfwriaeth ar y ffordd. Weinidog, rydych yn dechrau ar gyfeiriad hollol newydd o ddiwygio ac ad-drefnu ac rydych yn gwneud hyn heb unrhyw dystiolaeth go iawn neu ddadansoddiad manwl o gost a budd. Daw hyn ar adeg o her ariannol enfawr i'n hawdurdodau lleol. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i'r Siambr a'r rhai sy'n gweithio mewn llywodraeth leol eich bod yn deall llywodraeth leol yng Nghymru mewn gwirionedd, ac y bydd eich argymhellion sydd ar y gweill yn sicrhau newid, a newid er gwell?

14:24 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, when I publish further plans for local government, we can discuss whether or not we 'get' local government. I would remind her that we have just had a consultation exercise on the White Paper that was published in February. That concluded at the end of April and had a very substantial number of responses. In fact, I think it's one of the most successful consultation exercises the Welsh Government have ever undertaken in terms of public response. We will, in due course, announce our response to that consultation.

Wel, pan fyddaf yn cyhoeddi cynlluniau pellach ar gyfer llywodraeth leol, gallwn drafod a ydym yn 'deall' llywodraeth leol ai peidio. Byddwn yn ei hatgoffa ein bod newydd gael ymgynghoriad ar y Papur Gwyn a gyhoeddwyd ym mis Chwefror. Daeth i ben ddiwedd mis Ebrill a chafwyd nifer sylweddol iawn o ymatebion. A dweud y gwir, rwy'n credu mai dyma un o'r ymgynghoriadau mwyaf llwyddiannus y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gynnal erioed o ran ymateb y cyhoedd. Maes o law, byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i'r ymgynghoriad.

14:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Now the Plaid Cymru spokesperson, Lindsay Whittle.

Nawr, llefarydd Plaid Cymru, Lindsay Whittle.

14:25 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Today, I shall be Rhodri Glyn Thomas. Minister, I understand that—[Interruption.] Heaven forbid. I understand that, over the summer, as you've already stated, you will be publishing a preferred map for the new local government landscape. I think that is, at last, to be welcomed. I've got a feeling that, in fact, so far there's been a distinct lack of firm leadership on local government reorganisation, and I say that respectfully. Will any preferred map from this Government be a firm directive or simply another suggestion and then back to the drawing board?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Heddiw, fi fydd Rhodri Glyn Thomas. Weinidog, rwy'n deall bod—[Torri ar draws.] Duw â'm gwaredo. Dros yr haf, fel rydych wedi'i ddatgan yn barod, rwy'n deall y byddwch yn cyhoeddi'r map a ffefrir ar gyfer tirlun newydd llywodraeth leol. Credaf ei fod, o'r diwedd, i'w groesawu. Mae gennyf deimlad, mewn gwirionedd, fod yna ddiffyg arweiniad cadarn amlwg ar ad-drefnu llywodraeth leol hyd yn hyn, â phob parch. A fydd unrhyw fap a ffefrir gan y Llywodraeth hon yn gyfarwyddeb gadarn neu'n ddim mwy nag awgrym arall ac yna, nôl â ni i'r dechrau?

14:26 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think the Member is quite well aware that we do not propose to legislate on the final contours of the map for local government until after the May 2016 election. I am still waiting to know what the settled view of his party is on this matter.

Wel, rwy'n meddwl bod yr Aelod yn gwybod yn iawn nad ydym yn bwriadu deddfu ar ffurf derfynol y map ar gyfer llywodraeth leol tan ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2016. Rwy'n dal i aros i wybod beth yw barn sefydlog ei blaid ar y mater.

14:26 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sure that'll come, Minister. Have you considered how merging authorities will affect other regional boards, health authorities and police authorities and, specifically, across the boundaries of health boards and the implications of that, please?

Rwy'n siŵr y daw, Weinidog. A ydych wedi ystyried sut y bydd uno awdurdodau yn effeithio ar fyrddau rhanbarthol, awdurdodau iechyd ac awdurdodau heddlu eraill ac yn benodol, ar draws ffiniau byrddau iechyd a goblygiadau hynny, os gwelwch yn dda?

14:26 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Do.

14:26 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Then, Minister, local government reform does land us with this golden opportunity to take social services out of the hands of local authorities and, finally, to do the sensible and inevitable thing of merging them with the health service. Has there been any discussion of this in your department? At a time of change in local government and the merging of the service provision and administration, this would be a good time to do this, rather than a further shake-up down the line. So, Minister, when will you grasp that nettle?

Os felly, Weinidog, mae diwygio llywodraeth leol yn rhoi cyfle gwych i ni fynd â gwasanaethau cymdeithasol o ddwylo awdurdodau lleol ac o'r diwedd, i wneud y peth synhwyrol ac anochel sef eu huno â'r gwasanaeth iechyd. A fu unrhyw drafod ar hyn yn eich adran? Ar adeg o newid mewn llywodraeth leol ac uno prosesau darparu a gweinyddu gwasanaethau, byddai hwn yn amser da i wneud hyn, yn hytrach na chael rhagor o ad-drefnu yn y dyfodol. Felly, Weinidog, pa bryd rydych chi am neidio i'r dwfn?

14:27 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Deputy Presiding Officer, I wasn't aware that it was the policy of his party to take social services away from local government. I may have missed such an announcement; perhaps it was in their general election manifesto, although I did study it with great care, particularly the proposals for the changes they wanted to make to the local government funding settlement. But I have certainly not, in anything that I have considered, thought about stripping social services responsibilities from local government.

Wel, Ddirprwy Lywydd, nid oeddwn yn ymwybodol mai polisi ei blaid oedd mynd â gwasanaethau cymdeithasol o ddwylo llywodraeth leol. Efallai fy mod wedi methu cyhoeddiad ar hyn; efallai ei fod yn eu maniffesto etholiad cyffredinol, er fy mod wedi'i astudio yn ofalus iawn, yn enwedig yr argymhellion ynghylch y newidiadau roeddent am eu gwneud i setliad cyllido llywodraeth leol. Ond yn sicr, mewn unrhyw beth rwyf wedi'i ystyried, nid wyf wedi meddwl am symud cyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol oddi wrth lywodraeth leol.

14:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And now the Welsh Liberal Democrats spokesperson, Peter Black.

Ac yn awr, llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

14:27 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, in your White Paper, you express an aspiration to develop a streamlined online complaints process to facilitate the processing and tracking of complaints across local authorities in Wales. I wonder whether you have actually done any preliminary work as to how that might be achieved.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, yn eich Papur Gwyn, rydych yn mynegi dyhead i ddatblygu proses gwyno ar-lein symlach i hwyluso'r gwaith o brosesu ac olrhain cwynion ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. Tybed a ydych wedi gwneud unrhyw waith rhagarweiniol ar sut y gellid cyflawni hyn.

14:28 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, as I said, when we announce our response to the consultation exercise, we will have more to say on the matters covered within the White Paper.

Wel, fel y dywedais, pan fyddwn yn cyhoeddi ein hymateb i'r ymgynghoriad, bydd gennym fwy i'w ddweud am y materion sy'n cael eu cynnwys yn y Papur Gwyn.

14:28 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I understand that response, Minister, but, clearly, your White Paper contained a huge number of proposals, some of which would hopefully already have been in development or been under consideration and, presumably, a fair amount of preparation work had gone into them before those proposals were put into your White Paper. Can I ask, therefore, whether you have actually done any preliminary work on this particular issue?

Rwy'n deall yr ymateb, Weinidog, ond yn amlwg, mae eich Papur Gwyn yn cynnwys nifer fawr o gynigion, ac rwy'n gobeithio y byddai rhai ohonynt eisoes yn cael eu datblygu neu wedi cael eu hystyried, ac mae'n siŵr fod cryn dipyn o waith paratoi wedi ei wneud arnynt cyn i'r cynigion gael eu cynnwys yn eich Papur Gwyn. A gaf fi ofyn, felly, a ydych wedi gwneud unrhyw waith rhagarweiniol ar y mater penodol hwn?

14:28 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I say, Deputy Presiding Officer, we've undertaken preliminary work in a number of areas, but I must ask the Member to be a little bit more patient?

A gaf fi ddweud, Ddirprwy Lywydd, ein bod wedi gwneud gwaith rhagarweiniol mewn nifer o feysydd, ond rhaid i mi ofyn i'r Aelod fod ychydig yn fwy amyneddgar?

14:28 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay, but I have one more question, so I will persevere, just one more time. In your White Paper, one of the reasons why you wanted to do this was, as you said, because you'd have 'an auditable trail' that would enable the local authority

'to build up a comprehensive picture of issues with service delivery, governance',

which I very much support, and this would provide greater transparency to members of the public. I think that's an admirable aim. Have you had any discussions with the public services ombudsman about how that might be achieved and have you brought his experience of a complaints process into the developing of that proposal?

Iawn, ond mae gennyf un cwestiwn arall, felly rwyf am ddyfalbarhau, un waith eto'n unig. Yn eich Papur Gwyn, un o'r rhesymau pam roeddech eisiau gwneud hyn, fel y dywedoch, oedd am y byddai gennych lwybr y gellir ei archwilio a fyddai'n galluogi'r awdurdod lleol

'i greu darlun cynhwysfawr o broblemau'n ymwneud â darparu gwasanaethau, llywodraethu',

ac rwy'n cefnogi hyn yn fawr. Byddai'n cynnig mwy o dryloywder i aelodau'r cyhoedd, ac rwy'n credu bod hwnnw'n nod cymeradwy. A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gydag ombwdsmon y gwasanaethau cyhoeddus ynglŷn â sut y gellid cyflawni hynny ac a ydych wedi cynnwys ei brofiad o'r broses gwynion wrth ddatblygu'r cynnig?

14:29 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm grateful to the Liberal Democrats spokesperson for his support here in respect of that specific proposal within the White Paper. I have met the ombudsman in the recent past and certainly recognise that he has a lot of experience in this area, and I think he may well have advice that he can offer us.

Wel, diolch i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei gefnogaeth yma i'r cynnig penodol hwnnw yn y Papur Gwyn. Rwyf wedi cyfarfod â'r ombwdsmon yn ddiweddar ac yn sicr rwy'n cydnabod bod ganddo lawer o brofiad yn y maes, ac rwy'n meddwl efallai y bydd ganddo gyngor y gall ei gynnig i ni.

### Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

### The Delivery of Public Services (Brecon and Radnorshire)

14:29 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ym Mrycheiniog a sir Faesyfed? OAQ(4)0575(PS)*

*3. Will the Minister make a statement on the delivery of public services in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)0575(PS)*

14:29 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Delivery of public services in Brecon and Radnorshire is the responsibility of Powys County Council, Powys local health board and other statutory bodies, including non-devolved bodies.

Cyfrifoldeb Cyngor Sir Powys, bwrdd iechyd lleol Powys a chyrff statudol eraill, gan gynnwys cyrff heb eu datganoli, yw darparu gwasanaethau cyhoeddus ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed.

14:30 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, I was aware of that. You will be aware of my long-standing concerns of how Powys County Council have handled the issue of domiciliary care. Putting aside service concerns, is it your experience of local government that local authorities lend money to a private company, which they have already paid for a service, to allow that private company then to pay their sub-contractors, and if it's not your experience that local authorities do that on a regular basis, would you share my concerns that that seems to have been what's been happening in Powys County Council, if you read the liquidator's report into the collapsed Alpha Home Care company?

Diolch i chi, Weinidog, roeddwn yn ymwybodol o hynny. Fe fyddwch yn ymwybodol o fy mhryderon hirsefydlog ynglŷn â'r modd y mae Cyngor Sir Powys wedi trin gofal cartref. Gan roi pryderon ynglŷn â'r gwasanaeth o'r neilltu, ai eich profiad o lywodraeth leol yw bod awdurdodau lleol yn rhoi benthyg arian i gwmni preifat y maent eisoes wedi'u talu am wasanaeth, i ganiatáu i'r cwmni preifat dalu eu his-gontractwyr wedyn, ac os nad eich profiad yw bod awdurdodau lleol yn gwneud hynny'n rheolaidd, a fyddech yn rhannu fy mhryderon ei bod yn ymddangos mai dyna a fu'n digwydd yng Nghyngor Sir Powys, os darllenwch adroddiad y diddymwr ar gwmni Alpha Home Care sydd wedi methu?

14:30 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member raised this, of course, during First Minister's questions yesterday, and she has taken a number of opportunities now to do so. I think the First Minister gave a very clear answer yesterday in respect of the routes open to her and her constituents if there are concerns with the way that Powys County Council has behaved in respect of the role of the auditor. If she believes that there are issues she would like me to look into, then I, of course, would be very happy for her to write to me on the subject of Powys County Council, or, indeed, on the subject of greater Powys.

Crybwyllodd yr Aelod hyn, wrth gwrs, yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog ddoe, ac mae hi wedi manteisio ar nifer o gyfleoedd i wneud hynny bellach. Rwy'n meddwl bod y Prif Weinidog wedi rhoi ateb clir iawn ddoe mewn perthynas â'r llwybrau sy'n agored iddi hi a'i hetholwyr os oes pryderon ynghylch y ffordd y mae Cyngor Sir Powys wedi ymddwyn mewn perthynas â rôl yr archwiliwr. Os yw hi'n credu bod materion y byddai hi'n hoffi i mi edrych arnynt, yna, wrth gwrs, byddwn yn hapus iawn iddi ysgrifennu ataf ar fater Cyngor Sir Powys, neu'n wir, ar fater Powys fwyaf.

14:31 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Roedd argymhelliad yn adroddiad Williams, wrth gwrs, Weinidog, yn glir iawn y dylid uno Cyngor Sir Powys â'r bwrdd iechyd lleol, ac nid oedd hynny wedi'i glymu ag unrhyw fap arfaethedig o awdurdodau lleol, achos roedd Powys i fod, yn ôl adroddiad Williams, i aros yr un peth—nid oedd i fynd yn fwy nag yn llai. Felly, a yw'n fwriad gyda chi nawr i ohirio unrhyw benderfyniad i uno'r ddau gorff yna nes bod gyda chi fap terfynol o awdurdodau lleol?

There was a recommendation in the Williams report, of course, Minister, that was very clear that Powys County Council and the local health board should be merged, and that wasn't linked to any proposed map of local authorities, because Powys, according to the Williams report, was to remain the same—it wasn't to be no bigger or smaller. So, is it y our intention now to defer any decision to merged those two bodies until you do have a final map of local authorities?

14:31 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, as I say, I very much hope we will be in a position to bring forward a map before the summer recess. We will give very great consideration to the representations made by the Member's colleague that social services should be stripped away from local authorities, but I suspect we won't go down that route.

Wel, fel y dywedais, rwy'n gobeithio'n fawr y byddwn mewn sefyllfa i gyflwyno map cyn toriad yr haf. Byddwn yn rhoi llawer iawn o ystyriaeth i'r sylwadau a wnaed gan gydweithiwr yr Aelod y dylai gwasanaethau cymdeithasol gael eu cymryd oddi wrth awdurdodau lleol, ond rwy'n tybio na fyddwn yn dilyn y trywydd hwnnw.

## Rheoli Cronfeydd Ariannol Awdurdodau Lleol

## Managing Local Authorities' Financial Reserves

14:32 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Pa ganllawiau sydd ar waith i helpu i reoli maint cronfeydd ariannol awdurdodau lleol yn ystod cyfnod o galedi? OAQ(4)0567(PS)*

*4. What guidance is in place to assist in managing the size of local authorities' financial reserves during a period of austerity? OAQ(4)0567(PS)*

14:32 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mater i'r weinyddiaeth ym mhob awdurdod yw gwneud penderfyniadau am gronfeydd ariannol, gyda chymorth swyddogion cyllid proffesiynol. Ond, fel rwyf wedi nodi o'r blaen, nid yw'r canllawiau sydd ar gael i'r Aelodau i'w helpu i graffu'n effeithiol ar y penderfyniadau yn mynd yn ddigon pell, yn fy marn i. Felly, byddaf yn cyhoeddi rhagor o ganllawiau i gefnogi eu gwaith craffu.

Making decisions on financial reserves is a matter for each authority, with the assistance of professional finance officers. But, as I have noted previously, the guidelines available to Members to help them scrutinise decisions do not go far enough, in my view. Therefore, I will be publishing further guidelines to support their scrutiny work.

14:33 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog, a diolch am y cyhoeddiad y bydd rhagor o ganllawiau'n dod. Rydych chi ar gofnod yn y gorffennol yn dweud bod gan rhai awdurdodau mwy o gronfeydd wrth gefn na rhai eraill, ac y dylen nhw ystyried sut mae defnyddio'r rheini i dalu ac i hyrwyddo, ac efallai i ad-drefnu gwasanaethau lleol. A fydd y canllawiau yma hefyd yn cynnwys y posibiliad o ad-drefnu llywodraeth leol? Pan mae wedi digwydd yn y gorffennol, roedd cyfnod pan benderfynwyd rhewi cronfeydd unrhyw awdurdodau o flaen llaw. A yw'n fwriad gyda chi i gynnwys hynny yn y canllawiau newydd? Sut mae cynghorwyr yn gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan wybod bod ad-drefnu ar y gorwel, ond ddim pryd yn union y bydd hynny'n digwydd?

Thank you, Minister, and thank you for the announcement that further guidance is to be made available. You're on record as saying in the past that some authorities have greater reserves than others, and that they should consider how best to use those reserves to pay for and to promote, and perhaps to reorganise local services. Will this guidance also include the possibility of local government reorganisation? When it's happened in the past, there was a period when it was decided that the reserves of any authorities should be frozen beforehand. Is it your intention to include that in the new guidance? How can councillors plan for the future, knowing that there is reorganisation in the pipeline, but not knowing exactly when that will happen?

14:33 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think the guidance I'm speaking about really is guidance about the use of reserves at the present time. He will be aware, obviously, that the current local government paving Bill is going through the National Assembly and that makes provisions for future arrangements in the transition to any merged authorities. But, of course, the substantive legislation, which we will publish in draft form later this year, will not proceed through this National Assembly until after May 2016, so I don't think that that is going to be a significant factor in the current decisions that local authorities need to take.

Rwy'n meddwl mai canllawiau ynghylch y defnydd o gronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd yw'r canllawiau rwy'n siarad amdanynt mewn gwirionedd. Fe fydd yn gwybod, mae'n amlwg, fod y bil ymbaratoi llywodraeth leol cyfredol yn mynd drwy'r Cynulliad Cenedlaethol ac mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau i newid i awdurdodau cyfun yn y dyfodol. Ond wrth gwrs, ni fydd y ddeddfwriaeth ei hun, y byddwn yn ei chyhoeddi ar ffurf drafft yn ddiweddarach eleni, yn mynd drwy'r Cynulliad Cenedlaethol hwn tan ar ôl mis Mai 2016, felly nid wyf yn credu bod hynny'n mynd i fod yn ffactor arwyddocaol yn y penderfyniadau presennol sy'n rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud.

14:34 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, most local authority reserves are either earmarked or held as insurance-type reserves. For example, rather than paying insurance on school buildings, they would hold £20 million or £30 million in case they have a fire et cetera. Will the Minister give an indication of what percentage of a council's budget should be held as general reserves?

Weinidog, mae'r rhan fwyaf o gronfeydd wrth gefn yr awdurdodau lleol naill ai wedi eu clustnodi neu'n cael eu cadw wrth gefn fel math o yswiriant. Er enghraifft, yn hytrach na thalu yswiriant ar adeiladau ysgolion, byddent yn cadw £20 miliwn neu £30 miliwn rhag ofn y bydd tân yn digwydd ac ati. A wnaiff y Gweinidog roi syniad o ba ganran o gyllideb y cyngor y dylid ei chadw fel cronfeydd cyffredinol wrth gefn?

14:34 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, can I just—? My colleague the Member for Swansea —

Wel, a gaf fi—? Mae gan fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Abertawe—

14:35 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Swansea East.

Dwyrain Abertawe.

14:35 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Swansea East—thank you. [Laughter.] My colleague the Member for Swansea East has great authority in these areas, and great knowledge, from his previous experience as leader of Swansea council. But, can I say to him that, within the public services, different approaches are often taken to the availability, for example, of insurance for capital projects, like the replacement of buildings? The Welsh Government takes a particular approach, for example.

Dwyrain Abertawe—diolch i chi. [Chwerthin.] Mae gan fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe gryn awdurdod yn y meysydd hyn, a gwybodaeth fawr, o'i brofiad blaenorol fel arweinydd cyngor Abertawe. Ond a gaf fi ddweud wrtho, yn y gwasanaethau cyhoeddus, yn aml ceir gwahanol agweddau tuag at argaeledd yswiriant ar gyfer prosiectau cyfalaf fel ailadeiladu adeiladau, er enghraifft? Mae gan Lywodraeth Cymru agwedd benodol, er enghraifft.

I'm not going to set a percentage, but I am very clear, from the returns that have come to me, that different local authorities have different approaches to which reserves are earmarked, and which are not. And I think that the guidance that I've referred to, in respect of the earlier answer, needs to give more clarity in those areas.

Nid wyf yn mynd i osod canran, ond rwy'n glir iawn, o'r ffurflenni a gyflwynwyd i mi, fod gan wahanol awdurdodau lleol wahanol agweddau tuag at ba gronfeydd wrth gefn sydd i'w clustnodi, a pha rai nad ydynt i'w clustnodi. Ac rwy'n meddwl bod angen i'r canllawiau y cyfeiriais atynt yn yr ateb cynharach fod yn fwy eglur ynglŷn â'r meysydd hynny.

## Diogelwch Cymunedol yn Sir Benfro

## Community Safety in Pembrokeshire

14:35 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch cymunedol yn sir Benfro? OAQ(4)0563(PS)*

*5. Will the Minister make a statement on community safety in Pembrokeshire? OAQ(4)0563(PS)*

14:36 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. It is vital that people in Pembrokeshire, and across Wales, feel safe in their communities. As part of our work on community safety, we have introduced an additional 500 community safety officers in Wales, with 74 of those officers to Dyfed-Powys Police, enabling them to deploy extra resources in Pembrokeshire.

Gwnaf. Mae'n hanfodol fod pobl yn Sir Benfro, ac ar draws Cymru, yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau. Fel rhan o'n gwaith ar ddiogelwch cymunedol, rydym wedi cyflwyno 500 o swyddogion diogelwch cymunedol ychwanegol yng Nghymru, gyda 74 o'r swyddogion hynny i Heddlu Dyfed-Powys, sy'n eu galluogi i ddefnyddio adnoddau ychwanegol yn Sir Benfro.

14:36 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to the Minister for that answer. You'll be aware, Minister, of the National Rural Crime Survey, which is the largest-ever survey to investigate the impact of crime on rural communities across the United Kingdom. In light of this, can you tell us what the Welsh Government is doing to promote the survey, and encourage those living or working in rural areas to take part, so that we can help better understand the nature of rural crime, so that our local police services can better protect our communities? And what input will you have as a Government in collating this particular information?

Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Weinidog, fe fyddwch yn gwybod am yr Arolwg Cenedlaethol Troseddau Gwledig, yr arolwg mwyaf erioed i ymchwilio i effaith troseddu ar gymunedau gwledig ar draws y Deyrnas Unedig. Yng ngoleuni hyn, a allwch ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo'r arolwg, ac i annog y rhai sy'n byw neu'n gweithio mewn ardaloedd gwledig i gymryd rhan, er mwyn i ni allu helpu i ddeall natur troseddau cefn gwlad yn well, fel y gall ein gwasanaethau heddlu lleol ddiogelu ein cymunedau yn well? A pha fewnbwn fydd gennych fel Llywodraeth yn coladu'r wybodaeth benodol hon?

14:36 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, as the Member knows, responsibility for crime and policing has not been devolved to Wales, but remains with the UK Government, and under the proposals, as I understand them, from the UK Government, it is not intended that they would be devolved to Wales. The survey, of course—the National Rural Crime Survey—has the support of the Home Office. Findings should, therefore, inform development of policy, and it is therefore important, of course, that people in rural areas take part in it.

Wel, fel y mae'r Aelod yn gwybod, nid yw cyfrifoldeb am droseddau a phlismona wedi cael ei ddatganoli i Gymru, ac mae'n dal i fod gyda Llywodraeth y DU, ac o dan y cynigion, fel rwy'n eu deall, gan Lywodraeth y DU, ni fwriedir iddynt gael eu datganoli i Gymru. Wrth gwrs, mae'r arolwg—Arolwg Cenedlaethol Troseddau Gwledig—yn cael cefnogaeth y Swyddfa Gartref. Felly, dylai'r canfyddiadau lywio datblygiad polisi, ac mae'n bwysig felly, wrth gwrs, fod pobl mewn ardaloedd gwledig yn cymryd rhan ynddo.

14:37 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fe fydd y Gweinidog yn ymwybodol, mae'n siŵr, bod y gwrthwynebiad i dynnu hofrennydd Heddlu Dyfed-Powys o ardal Pen-bre—ac, wrth gwrs, o Ruddlan, yn y gogledd, hefyd, yn rhan o'r patrwm cenedlaethol—yn cynyddu, a bod nifer o bobl yn anhapus iawn bod addewid pendant gan aelod etholedig, sydd nawr yn gyfrifol am yr heddlu, y comisiynydd, wedi ei dorri. Mae yna gyfle i bobl, wrth gwrs, bleidleisio'r flwyddyn nesaf ynglŷn â chomisiynydd newydd. Ac, er bod hwn ddim wedi ei ddatganoli, ydy'r Gweinidog yn cael cyfle i godi'r materion hyn gyda'r Llywodraeth yn San Steffan, gan bwysleisio i'r comisiynydd, a'r Llywodraeth, pa mor bwysig mae pobl yn Nyfed-Powys yn gweld yr hofrennydd yma, fel rhan o waith atal trosedd yn yr ardal?

The Minister will be aware, I'm sure, that there is opposition to scrapping the Dyfed-Powys Police helicopter from the Pembrey area—and, of course, from Rhuddlan, in north Wales, too, as part of the national pattern—is increasing, and that many people are very unhappy that a specific pledge made by an elected member, who is now responsible for the police, the commissioner, has now been broken. There is an opportunity, of course, next year for people to vote for a new commissioner. And, although this is non-devolved, has the Minister had any opportunity to raise this issue with the Westminster Government, emphasising to the commissioner, and the Government, how important this helicopter is to the people of Dyfed-Powys, as part of the crime prevention work in the area?

14:38 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, not since the general election. But, I hear the Member's representations, and I'll reflect on them.

Wel, nid ers yr etholiad cyffredinol. Ond rwy'n clywed sylwadau'r Aelod, a byddaf yn eu hystyried.

14:38 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the point that I wish to raise relates to the matters raised by Simon Thomas. Pembrokeshire boasts Britain's only coastal national park, and, clearly, in the light of that, public safety within the wider Pembrokeshire area is particularly dependent upon the opportunity for air surveillance, given the absence of mountain rescue, and other such facilities, that apply in other areas of Wales that attract extreme tourists, who put themselves in danger. In that context, Minister, I would just ask you if you have had the opportunity as yet to raise these matters with the newly reappointed Home Secretary, so as to bring additional weight to the concerns that are felt around this Chamber, with regard to the future of the Dyfed-Powys Police helicopter.

Weinidog, mae'r pwynt rwyf am ei grybwyll yn ymwneud â'r materion a nodwyd gan Simon Thomas. Gan Sir Benfro y mae'r unig barc cenedlaethol arfordirol ym Mhrydain ac yn amlwg, yng ngoleuni hynny, mae diogelwch y cyhoedd yn ardal ehangach Sir Benfro yn arbennig o ddibynnol ar y cyfle i gadw gwyliadwriaeth o'r awyr, o ystyried diffyg timau achub mynydd a chyfleusterau eraill o'r fath, a welir mewn ardaloedd eraill yng Nghymru sy'n denu twristiaid eithafol sy'n rhoi eu hunain mewn perygl. Yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, hoffwn ofyn i chi a ydych wedi cael cyfle eto i grybwyll y materion hyn wrth yr Ysgrifennydd Cartref sydd newydd ei ailbenodi, er mwyn rhoi mwy o sylw i'r pryderon a deimlir o amgylch y Siambr hon, o ran dyfodol hofrennydd Heddlu Dyfed-Powys.

14:39 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Let me say to the Member this is the first occasion since the general election that this issue has been raised with me, as far as I can recall. I will now go away and reflect on what has been said today.

Gadewch i mi ddweud wrth yr Aelod mai dyma'r tro cyntaf ers yr etholiad cyffredinol i'r mater hwn gael ei ddwyn i fy sylw, cyn belled ag y gallaf gofio. Byddaf yn ystyried yr hyn a ddywedwyd heddiw.

### Toriadau yn y Sector Cyhoeddus

### Public Sector Cuts

14:39 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y bydd toriadau yn y sector cyhoeddus yn ei chael ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0574(PS)*

*6. What assessment has the Minister made of the impact that public sector cuts will have on public services in Wales? OAQ(4)0574(PS)*

14:39 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A detailed impact assessment of the Welsh Government's funding proposals was, of course, published alongside the final budget. Our public sector partners in Wales, including local authorities, are responsible for conducting their own assessments of the funding decisions they take.

Cyhoeddwyd asesiad effaith manwl o gynigion cyllido Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r gyllideb derfynol wrth gwrs. Mae ein partneriaid yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn gyfrifol am gynnal eu hasesiadau eu hunain o'r penderfyniadau cyllido a wneir ganddynt.

14:39 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister, but I'd like to return to the issue that I enquired about yesterday in business questions regarding changes to Flying Start childcare services in Glyncorrwg and Croeserw, given that they're run by Neath Port Talbot County Borough Council. Action for Children has given notice to finish its work there and parents are worried that there will be a service gap and, therefore, no childcare provision from September this year to March 2016. Given how vital this service is to the Afan valley, and given that this is a flagship Welsh Government programme, which not only affects the education portfolio but the public service portfolio, too, what can you tell us about the situation in this regard?

Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Weinidog, ond hoffwn ddychwelyd at y mater yr holais yn ei gylch ddoe yn ystod y cwestiynau ynghylch newidiadau i wasanaethau gofal plant Dechrau'n Deg yng Nglyncorrwg a Chroeserw, o ystyried eu bod yn cael eu rhedeg gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot. Mae Gweithredu dros Blant wedi rhoi rhybudd ei fod yn gorffen ei waith yno ac mae'r rhieni'n poeni y bydd bwlch yn y gwasanaeth ac felly, na fydd darpariaeth gofal plant o fis Medi eleni i fis Mawrth 2016. O ystyried pa mor bwysig yw'r gwasanaeth hwn i gwm Afan, ac o ystyried bod hon yn rhaglen flaenllaw gan Lywodraeth Cymru sydd nid yn unig yn effeithio ar y portffolio addysg, ond ar y portffolio gwasanaeth cyhoeddus hefyd, a allwch ddweud wrthym am y sefyllfa yn hyn o beth?

14:40 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Flying Start, of course, is a matter that falls within the portfolio of my colleague the Minister for Tackling Poverty and Communities, and I will ensure that the issue is drawn to her attention and ask her to write to the Member.

Wel, mae Dechrau'n Deg, wrth gwrs, yn fater sy'n perthyn i bortffolio fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, a byddaf yn sicrhau bod y mater yn cael ei ddwyn i'w sylw ac yn gofyn iddi ysgrifennu at yr Aelod.

14:40 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as John Griffiths said earlier, local authorities must find innovative ways of working, particularly at a financially constrained time, but it's good that they do so anyway. With that in mind, I'm sure you'll join me in welcoming the work of Conservative and Liberal Democrat-run Monmouthshire County Council, which has done extremely well at innovating. For example, rather than outsourcing you can establish arm's-length companies, which are able to borrow more than local authorities to find money at difficult times. Will you allow local authorities, such as Monmouthshire, a little bit longer to continue to develop their innovative ideas and then feed that good practice from the Conservative and Liberal Democrats back to other authorities across Wales?

Weinidog, fel y dywedodd John Griffiths yn gynharach, rhaid i awdurdodau lleol ddod o hyd i ffyrdd arloesol o weithio, yn enwedig ar adeg anodd yn ariannol, ond mae'n dda eu bod yn gwneud hynny beth bynnag. Gan gofio hynny, rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno â mi i groesawu gwaith Cyngor Sir Fynwy dan arweiniad y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, sydd wedi bod yn arloesi yn arbennig o dda. Er enghraifft, yn hytrach na rhoi gwaith ar gontract allanol gallwch sefydlu cwmnïau hyd braich, sy'n gallu benthyg mwy nag awdurdodau lleol i ddod o hyd i arian ar adegau anodd. A fyddwch yn caniatáu ychydig bach mwy o amser i awdurdodau lleol fel Sir Fynwy barhau i ddatblygu eu syniadau arloesol a bwydo arfer da o'r fath gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ôl i awdurdodau eraill ledled Cymru?

14:41 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm not sure until the Member asked the question I was aware the Conservative-Liberal Democrat coalition still held in any part of the UK, but apparently it does. Can I say to him that, as I've said, we will be looking to publish our map for the future of local government before the summer recess? I know that there are views on this matter in Monmouthshire and in surrounding counties as well.

Wel, nes i'r Aelod ofyn y cwestiwn, nid wyf yn siŵr fy mod yn ymwybodol fod clymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn dal i fodoli mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig, ond ymddengys ei bod. A gaf fi ddweud wrtho, fel y dywedais, ein bod yn bwriadu cyhoeddi ein map ar gyfer dyfodol llywodraeth leol cyn toriad yr haf? Gwn fod gan bobl farn ar y mater hwn yn Sir Fynwy ac mewn siroedd cyfagos hefyd.

### Hysbysu Awdurdodau am Newidiadau i'r Gyfraith

### Updating Authorities on Changes to the Law

14:42 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i awdurdodau lleol am newidiadau perthnasol i'r gyfraith? OAQ(4)0568(PS)*

*7. How does the Welsh Government update local authorities about relevant changes to the law? OAQ(4)0568(PS)*

14:42 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

All significant legislation made by Welsh Ministers, of course, is subject to consultation with local authorities and is published on the Welsh Government's website.

Mae'r holl ddeddfwriaeth arwyddocaol a wnaed gan Weinidogion Cymru, wrth gwrs, yn amodol ar ymgynghori ag awdurdodau lleol ac yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:42 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister, but, of course, apart from changes to the law arising from the EU and our Parliaments, public services can be affected by decisions of the court, and I'm thinking of the two recent judicial review decisions in my region, which, of course, turned on their own facts, but within the rulings have some comments that have implications for local authorities across Wales. Obviously, I think that local authorities have their own responsibility to make sure that they're updated as to the law to some degree, but I did wonder if there was a role for Government here. Have you had any conversations with the Counsel General about this, in view of his interest in access to all Welsh-made law?

Diolch i chi, Weinidog, ond wrth gwrs, ar wahân i newidiadau yn y gyfraith sy'n deillio o'r UE a'n Seneddau, gall penderfyniadau'r llysoedd effeithio ar y gwasanaethau cyhoeddus, ac rwy'n meddwl am ddau benderfyniad adolygiad barnwrol yn ddiweddar yn fy rhanbarth, a wnaed ar sail eu ffeithiau eu hunain, wrth gwrs, ond mae gan rai sylwadau yn y dyfarniadau oblygiadau i awdurdodau lleol ledled Cymru. Yn amlwg, rwy'n meddwl bod gan awdurdodau lleol eu cyfrifoldeb eu hunain i wneud yn siŵr eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gyfraith i ryw raddau, ond roeddwn i'n meddwl tybed a oedd rôl i'r Llywodraeth yn hyn o beth. A ydych wedi trafod hyn gyda'r Cwnsler Cyffredinol o ystyried ei ddiddordeb mewn sicrhau mynediad at yr holl gyfraith a wnaed yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Well, I'm very pleased to say, Deputy Presiding Officer, that I am not a lawyer. Let me say that I think that this is a matter that I would expect local authorities to address themselves. I think the Counsel General would also take the view that local authorities are autonomous public bodies with their own legal responsibilities.

Wel, rwy'n falch iawn o ddweud, Ddirprwy Lywydd, nad wyf yn gyfreithiwr. Gadewch i mi ddweud fy mod o'r farn fod hwn yn fater y byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol fynd i'r afael ag ef eu hunain. Rwy'n credu y byddai'r Cwnsler Cyffredinol hefyd o'r farn fod awdurdodau lleol yn gyrff cyhoeddus annibynnol gyda'u cyfrifoldebau cyfreithiol eu hunain.

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Question 8, OAQ(4)0572(PS), and question 9, OAQ(4)0573(PS), have been withdrawn. Question 10 is from Peter Black.

Mae cwestiwn 8, OAQ (4) 0572 (PS), a chwestiwn 9, OAQ (4) 0573 (PS), wedi cael eu tynnu'n ôl. Daw cwestiwn 10 gan Peter Black.

Senedd.tv Fideo Video

## Uno Gwirfoddol Awdurdodau Lleol

## The Voluntary Merger of Local Authorities

14:43 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y broses uno gwirfoddol ar gyfer awdurdodau lleol Cymru? OAQ(4)0566(PS)*

*10. Will the Minister make a statement on the voluntary merger process for Welsh local authorities? OAQ(4)0566(PS)*

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

The process for voluntary merger is reflected in the Local Government (Wales) Bill, which is currently at committee stage.

Mae'r broses o uno gwirfoddol yn cael ei hadlewyrchu ym Mil Llywodraeth Leol (Cymru), sydd ar hyn o bryd ar y cam pwyllgor.

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister, and I'm very much aware that it's at committee stage. One of the recommendations in the various reports that have been written on that Bill indicates that there is a concern that nobody knows where the funding for voluntary mergers will come from and that there are no proper costings of that. Will you be doing any further work on that particular issue over the summer, or are you not expecting any further voluntary merger proposals to come forward?

Diolch i chi, Weinidog, ac rwy'n ymwybodol iawn ei fod ar y cam pwyllgor. Mae un o'r argymhellion yn yr adroddiadau amrywiol a ysgrifennwyd ar y Bil hwnnw'n dangos bod pryder nad oes neb yn gwybod o ble y daw'r cyllid ar gyfer uno gwirfoddol ac nad yw wedi cael ei gostio'n briodol. A fyddwch yn gwneud gwaith pellach ar y mater penodol hwn dros yr haf, neu efallai nad ydych yn disgwyl unrhyw gynigion pellach i uno'n wirfoddol?

Senedd.tv Fideo Video

14:44

**Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think the Member is quite well aware that we've discussed this extensively in the Stage 1 proceedings on the Bill. I've explained there that the Bill itself, of course, does not give effect to any specific merger, voluntary or otherwise. Therefore, there is no need for those costs to be reflected in the regulatory impact assessment published with the Bill.

Wel, rwy'n meddwl bod yr Aelod yn eithaf ymwybodol ein bod wedi trafod hyn yn helaeth yn ystod trafodion Cyfnod 1 y Bil. Rwyf wedi egluro yno nad yw'r Bil ei hun yn rhoi grym i unrhyw uno penodol, gwirfoddol neu fel arall, wrth gwrs. Felly, nid oes angen ystyried y costau hynny yn yr asesiad effaith rheoleiddiol a gyhoeddir gyda'r Bil.

14:44

**Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, having rejected the Conwy-Denbighshire initial Stage 1 expression of interest on the pretext that it did not provide adequate assurance that the case would be made out appropriately at merger-proposal stage, it is very clear that there was a distinct lack of communication as per the requirements of their expression, certainly given that your own civil servant practically endorsed this bid, yet you are still proceeding with the voluntary merger idea. What are you doing to address these communication failures within your own department for any forthcoming expressions of interest as regards the voluntary merger process?

Weinidog, ar ôl gwrthod datganiad o ddiddordeb cychwynnol Cam 1 Conwy-Sir Ddinbych ar yr esgus nad oedd yn rhoi sicrwydd digonol y byddai'r achos yn cael ei wneud yn briodol ar y cam cynnig i uno, mae'n amlwg iawn fod diffyg cyfathrebu amlwg ynglŷn â gofynion eu datganiad, yn sicr o ystyried bod eich gwas sifil eich hun wedi cefnogi'r cais i bob diben. Eto i gyd, rydych yn dal i symud ymlaen gyda'r syniad o uno gwirfoddol. Beth a wnewch i fynd i'r afael â'r methiannau hyn i gyfathrebu yn eich adran eich hun ynghylch unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb a fo ar y ffordd mewn perthynas â'r broses o uno'n wirfoddol?

14:45

**Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Presiding Officer, there have been no communication failures by my department.

Ddirprwy Lywydd, ni fu unrhyw fethiant i gyfathrebu ar ran fy adran.

### Y Dreth Gyngor

### Council Tax

14:45

**Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau treth cyngor yng Nghymru? OAQ(4)0569(PS)*

*11. Will the Minister make a statement on levels of council tax in Wales? OAQ(4)0569(PS)*

14:45

**Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Average band D council tax in Wales for 2015-16 is £1,328. Setting council tax is a key duty of local authorities and police and crime commissioners. They are directly accountable to their local electorates and need to act responsibly in maintaining vital services while limiting the bills faced by residents.

Y dreth gyngor ar gyfer band D cyfartalog yng Nghymru ar gyfer 2015-16 yw £1,328. Mae gosod y dreth gyngor yn un o ddyletswyddau allweddol yr awdurdodau lleol a'r comisiynwyr heddlu a throseddu. Maent yn uniongyrchol atebol i'w hetholwyr lleol ac mae angen iddynt ymddwyn yn gyfrifol a chynnal gwasanaethau hanfodol gan gyfyngu ar y biliau sy'n mynd i drigolion.

14:45

**Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for that answer. In recent statements and answers over recent weeks in this Chamber, you've seemed to indicate that, if your proposals to amalgamate local authorities were to go ahead, you wouldn't rule out one authority charging different council tax rates in different areas for the same band property. Can you clarify this to the Chamber and do you not think, on reflection, that this would be a very strange situation that would be viewed as unfair by many people living in those areas?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mewn datganiadau ac atebion yn ddiweddar dros yr wythnosau diwethaf yn y Siambr hon, roedd yn ymddangos eich bod yn dynodi, os yw eich cynigion i uno awdurdodau lleol yn mynd yn eu blaenau, na fyddech yn diystyru y gallai un awdurdod godi cyfraddau treth gyngor gwahanol mewn gwahanol ardaloedd ar gyfer yr un band eiddo. A allwch egluro hyn i'r Siambr ac onid ydych yn meddwl, ar ôl ystyried, y byddai hon yn sefyllfa ryfedd iawn ac y byddai llawer o bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn yn ei hystyried yn annheg?

14:46

**Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, this is a matter that has arisen, of course, during the scrutiny of the Local Government (Wales) Bill in committee and it is, as I explained at committee, already an option that is available within legislation to Ministers.

Wel, mae hwn yn fater sydd wedi codi yn ystod y gwaith craffu ar Fil Llywodraeth Leol (Cymru) yn y pwyllgor, wrth gwrs, ac fel yr eglurais yn y pwyllgor, mae eisoes yn opsiwn sydd ar gael i Weinidogion yn y ddeddfwriaeth.

## Comisiwn Williams

## The Williams Commission

14:46

### Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*12. Faint o argymhellion comisiwn Williams sydd wedi cael eu rhoi ar waith? OAQ(4)0565(PS)*

*12. How many of the recommendations of the Williams commission have been implemented? OAQ(4)0565(PS)*

14:46

### Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We set out an ambitious reform agenda for public services in Wales last year and are implementing all the 20 strategic actions we committed to in that announcement. These relate to 60 of the 62 recommendations from the Williams commission, but are not limited to them.

Gosodwyd agenda ddiwygio uchelgeisiol gennym ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru y llynedd ac rydym yn gweithredu pob un o'r 20 cam gweithredu strategol yr ymrwymasom iddynt yn y cyhoeddiad hwnnw. Mae'r rhain yn ymwneud â 60 o'r 62 o argymhellion comisiwn Williams, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt.

14:46

### Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Minister produce a plan to implement the recommendations of the Williams commission and indicate which recommendations will not be implemented?

A wnaiff y Gweinidog lunio cynllun i weithredu argymhellion comisiwn Williams a nodi pa argymhellion na fydd yn cael eu gweithredu?

14:47

### Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think I have produced a plan, and my predecessors as well produced a plan, for implementing the recommendations of the Williams commission, and let me say that the strategic actions that we set out go beyond the work of the Williams commission: for example, our vision for local government based on activist councils, set out in the White Paper that we published at the beginning of February. Obviously, as my colleague, the Member for Swansea East, is aware, the consultation on that only closed at the end of April.

Wel, rwy'n meddwl fy mod wedi cynhyrchu cynllun, ac mae fy rhagflaenwyr hefyd wedi cynhyrchu cynllun, ar gyfer gweithredu argymhellion comisiwn Williams, a gadewch i mi ddweud bod y camau gweithredu strategol a osodwyd gennym yn mynd y tu hwnt i waith comisiwn Williams: er enghraifft, ein gweledigaeth ar gyfer llywodraeth leol sy'n seiliedig ar gynghorau gweithgar, a nodir yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd gennym ar ddechrau mis Chwefror. Yn amlwg, fel y mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, yn gwybod, ar ddiwedd mis Ebrill y daeth yr ymgynghoriad ar hynny i ben.

14:47

### Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Williams commission report on public service governance and delivery said that the only viable way to meet the needs and aspirations of people is to shift the emphasis of public service towards co-production and prevention. What discussion have you had with Co-production Wales, representing over 100 organisations across Wales now, to help you understand what they mean when they say that this is not just a nice add-on, but a new way of operating for the Government and public service professionals and citizens themselves? If you haven't, will you, and, if not, why not?

Dywedodd adroddiad comisiwn Williams ar lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus mai'r unig ffordd ymarferol i gwrdd ag anghenion a dyheadau pobl yw symud pwyslais gwasanaeth cyhoeddus tuag at gydgynhyrchu ac atal. Pa drafodaethau a gawsoch gyda Cydgynhyrchu Cymru, sy'n cynrychioli dros 100 o sefydliadau ledled Cymru bellach, i'ch helpu i ddeall yr hyn y maent yn ei olygu wrth ddweud nad ychwanegiad bach cyfleus yn unig yw hyn, ond ffordd newydd o weithredu i'r Llywodraeth a gweithwyr proffesiynol gwasanaethau cyhoeddus a dinasyddion eu hunain? Os nad ydych wedi trafod, a wnewch chi hynny, ac os na wnewch, pam ddim?

14:48

### Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I've not met with Co-production Wales. I set out my own views of the agenda around co-operatives and mutuals and community engagement in the management of facilities in public services in a speech to the Wales Council for Voluntary Action in November, which I followed up in a speech to the Institute of Welsh Affairs in January. I think that the agenda that we've had in Wales, historically, which predates the creation of the term 'co-production', has been one in which we have always stressed the engagement of community, and the involvement of co-operative and mutual solutions, going back probably to the nineteenth century.

Nid wyf wedi cyfarfod â Cydgynhyrchu Cymru. Nodais fy marn fy hun ar yr agenda'n ymwneud â chwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol ac ymwneud y gymuned yn y broses o reoli cyfleusterau mewn gwasanaethau cyhoeddus mewn araith i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ym mis Tachwedd. Dilynais hynny ag araith i'r Sefydliad Materion Cymreig ym mis Ionawr. Credaf ein bod bob amser wedi pwysleisio ymgysylltiad y gymuned, ac ymwneud atebion cydweithredol a chydfuddiannol yn rhan o'r agenda a fu gennym yng Nghymru, yn hanesyddol, sy'n mynd yn ôl i gyfnod cyn creu'r term 'cydgynhyrchu', ac i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ôl pob tebyg.

## Rôl Cynghorau Tref a Chymuned

## The Role of Town and Community Councils

14:48 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl cynghorau tref a chymuned yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0564(PS)*

*13. Will the Minister make a statement on the role of town and community councils in Mid and West Wales? OAQ(4)0564(PS)*

14:49 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our White Paper on local government reform, 'Power to Local People', set out our approach to community and town councils.

Mae ein Papur Gwyn ar ddiwygio llywodraeth leol, 'Grym i Bobl Leol', yn nodi ein hymagwedd at gynghorau tref a chymuned.

14:49 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful to the Minister for that response. As has been referred to earlier in this session, in a climate of increasing financial stringency, principal authorities are increasingly shedding responsibilities, which are being passed down to town and community councils. What additional resource could the Welsh Government bring to bear to support particularly One Voice Wales in giving town and community councils extra support, as part of the due diligence process that they need to undertake in terms of financial matters and legal implications and so on, to ensure that a sustainable service is maintained in the new arrangements?

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am ei ymateb. Fel y nodwyd yn gynharach yn y sesiwn hon, mewn hinsawdd o galedi ariannol cynyddol, mae prif awdurdodau yn cael gwared ar fwyfwy o gyfrifoldebau, gan eu trosglwyddo i lawr i gynghorau tref a chymuned. Pa adnoddau ychwanegol y gallai Llywodraeth Cymru eu defnyddio i gynorthwyo Un Llais Cymru yn benodol i roi cymorth ychwanegol i gynghorau tref a chymuned, fel rhan o'r broses diwydrwydd dyladwy sydd ei hangen mewn perthynas â materion ariannol a goblygiadau cyfreithiol ac yn y blaen, i sicrhau bod gwasanaeth cynaliadwy yn cael ei gynnal yn y trefniadau newydd?

14:49 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I've been obviously keen to ensure that we are able to support the work of town and community councils and we say how we want to do that in the White Paper. The consultation on that has only just recently ended. I recently spoke at the conference held, I think by One Voice Wales and the society of clerks, in Llandrindod Wells, where I discussed a number of these issues. The work that we've commissioned from the Wales Co-operative Centre I think will also be of use to town and community councils in that regard. But I think this is going to be an area to which we will return, and I think there will be further opportunities, and we will also need to look at what support we can bring to those organisations in this sphere.

Yn amlwg, rwyf wedi bod yn awyddus i sicrhau y gallwn gefnogi gwaith cynghorau tref a chymuned a nodwn sut rydym am wneud hynny yn y Papur Gwyn. Mae'r ymgynghoriad arno newydd ddod i ben. Yn ddiweddar, siaradais yn y gynhadledd a gynhaliwyd, rwy'n meddwl gan Un Llais Cymru a Chymdeithas y Clercod, yn Llandrindod, lle y trafodais nifer o'r materion hyn. Bydd y gwaith rydym wedi ei gomisiynu gan Ganolfan Cydgynhyrchu Cymru yn ddefnyddiol i gynghorau tref a chymuned hefyd yn hynny o beth. Ond rwy'n credu bod hwn yn mynd i fod yn faes y byddwn yn dychwelyd ato, ac rwy'n credu y bydd cyfleoedd pellach yn codi, a bydd angen i ni edrych hefyd ar ba gefnogaeth y gallwn ei roi i'r sefydliadau hynny yn y maes hwn.

14:50 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I've previously asked you about devolving as much responsibility as possible to town and community councils and what the Welsh Government's view is on their capacity to take on more responsibilities. Now, in response to me before, you said that there is a bigger issue in the future around consistency of provision. In light of that, could you tell us exactly what you mean by consistency of provision, and can you tell us what exactly is your vision for the future of town and community councils across Wales?

Weinidog, rwyf wedi gofyn o'r blaen ynghylch datganoli cymaint o gyfrifoldeb â phosibl i gynghorau tref a chymuned a beth yw barn Llywodraeth Cymru ar eu capasiti i ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau. Nawr, mewn ymateb i mi o'r blaen, fe ddywedoch fod yna broblem fwy yn y dyfodol yn ymwneud â chysondeb y ddarpariaeth. Yng ngoleuni hynny, a allwch ddweud wrthym beth yn union a olygwch wrth gysondeb y ddarpariaeth, ac a allwch ddweud wrthym beth yn union yw eich gweledigaeth ar gyfer dyfodol cynghorau tref a chymuned ledled Cymru?

14:51 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Well, the vision was set out in the White Paper, and I'm sure that the Member has had the opportunity to read that. What we are keen, I think, to ensure is that, across Wales, if we are going to have a strong network of town and community councils, there needs to be a strong relationship between them and the principal local authorities where they are situated. We have said in the White Paper, for example, that we would expect principal local authorities to undertake a review of the town and community councils within their area. It is true at the present time, of course, that the size of town and community councils varies hugely. Barry, of course, is a town of some 45,000, and you have town and community councils that I think are not even in three figures in terms of the population size. There's not necessarily anything wrong with that, let me say, but I think that it is important that these matters are looked at locally, and, where there are opportunities for a better geographic spread or ways of engaging local communities more actively, that those opportunities are taken by local authorities.

Wel, nodwyd y weledigaeth yn y Papur Gwyn, ac rwy'n siŵr bod yr Aelod wedi cael cyfle i'w ddarllen. Yr hyn rydym yn awyddus i'w sicrhau, rwy'n meddwl, os ydym yn mynd i gael rhwydwaith cryf o gynghorau tref a chymuned ar draws Cymru, yw bod angen perthynas gref rhyngddynt a'r prif awdurdodau lleol lle y maent wedi'u lleoli. Rydym wedi dweud yn y Papur Gwyn, er enghraifft, y byddem yn disgwyl i brif awdurdodau lleol gyflawni adolygiad o'r cynghorau tref a chymuned yn eu hardal. Mae'n wir ar hyn o bryd, wrth gwrs, fod maint cynghorau tref a chymuned yn amrywio'n aruthrol. Mae gan dref y Barri, wrth gwrs, boblogaeth o tua 45,000, ac mae gennych gynghorau tref a chymuned lle y mae'r boblogaeth yn llai na chant rwy'n credu. Gadewch i mi ddweud nad oes dim o'i le ar hynny o reidrwydd, ond rwy'n meddwl ei bod yn bwysig edrych ar y materion hyn yn lleol, a lle y ceir cyfleoedd i sicrhau gwell dosbarthiad daearyddol neu ffyrdd o sicrhau ymgysylltiad mwy bywiog â chymunedau lleol, dylai awdurdodau lleol fanteisio ar y cyfleoedd hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

14:52

## 3. Dadl Frys: Canfyddiadau'r Ymchwiliad i Ofal Cleifion ar Ward Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan

## 3. Urgent Debate: The Findings of an Investigation into Patient Care at the Tawel Fan Ward of Bodelwyddan's Glan Clwyd Hospital

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 3 is an urgent debate. In order to give this important matter the scrutiny it deserves, I've decided to allow this debate to take as long as is necessary and, in order to increase opportunities to hear the Minister's views, I have asked him to make two contributions during the debate—immediately after the opening remarks and as the penultimate speaker. I now call Darren Miller to open the urgent debate.

Dadl frys yw eitem 3. Er mwyn sicrhau'r craffu y mae'n ei haeddu i'r mater pwysig hwn, rwyf wedi penderfynu gadael i'r ddadl hon gymryd cyhyd ag y bo angen ac er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i glywed barn y Gweinidog, rwyf wedi gofyn iddo gyfrannu ddwy waith yn ystod y drafodaeth—yn syth ar ôl y sylwadau agoriadol ac yn siaradwr olaf ond un. Galwaf yn awr ar Darren Miller i agor y ddadl frys.

Senedd.tv Fideo Video

14:52 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm very grateful for the National Assembly giving permission for this urgent debate to be held in the Senedd today as I think it sends a very powerful signal to patients, families and all Welsh health boards of our interest in what happened on the Tawel Fan ward, and our collective determination to ensure that it does not happen again. Like Members on all sides of this house, I was utterly horrified to read the stomach-churning findings of Donna Ockenden's report into the care and treatment of patients on the Tawel Fan ward in the Ablett acute mental health unit at Glan Clwyd Hospital. The report painted an awful picture of institutional abuse of vulnerable and sick patients who faced a lack of dignified and compassionate care, inhumane treatment and breaches of basic human rights and fundamentals of care—patients being restrained, patients being nursed on the floor and in urine-soaked mattresses and clothing, patients being treated like animals, according to relatives, and staff behaving like a swarm of seagulls, one described it as, pinning a patient to the floor.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Cynulliad Cenedlaethol am adael i'r ddadl frys gael ei chynnal yn y Senedd heddiw gan fy mod yn credu ei bod yn anfon neges bwerus iawn i gleifion, teuluoedd a phob bwrdd iechyd yng Nghymru ynglŷn â'n diddordeb yn yr hyn a ddigwyddodd ar ward Tawel Fan, a'r penderfyniad a rannwn i sicrhau na fydd yn digwydd eto. Fel Aelodau ar bob ochr i'r tŷ hwn, fe'm brawychwyd yn fawr wrth ddarllen canfyddiadau arswydus adroddiad Donna Ockenden ar ofal a thriniaeth cleifion ar ward Tawel Fan yn uned gofal dwys Ablett i gleifion iechyd meddwl yn Ysbyty Glan Clwyd. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno darlun ofnadwy o gamdriniaeth sefydliadol i gleifion agored i niwed a sâl a wynebodd ddiffyg gofal ag urddas a thosturi, triniaeth annynol a thorri hawliau dynol sylfaenol a hanfodion gofal—cleifion yn cael eu ffrwyno, cleifion yn cael eu nyrsio ar y llawr ac ar fatresi ac mewn dillad wedi'u gwlychu gan wrin, cleifion yn cael eu trin fel anifeiliaid, yn ôl perthnasau, a staff yn ymddwyn fel haid o wylanod, yn ôl un person, gan gaethiwo claf ar y llawr.

Senedd.tv Fideo Video

One of the most shocking incidents recorded is that of staff goading a sick patient to share lurid details of their sexual history, simply for their own entertainment. A failure of staff to record adverse incidents—and all of this, of course, amounts to serious breaches of professional codes of nurses and doctors. But of course, the failings on this ward were not just down to front-line staff. The report also tells us that the complaints system failed patients and their families; that responsible staff members were discouraged from flagging up their concerns with managers; that there were inadequate nurse staffing levels—something we'll be discussing later today—that there was a lack of action by the senior leadership team to follow up on concerns and a failure by them to address the known risks in mental health services, not just on this ward but across north Wales; and, indeed, that there was poor oversight and serious governance failings in the board; and that there are issues with the way in which the healthcare inspectorate functions and goes about its work.

Un o'r digwyddiadau mwyaf brawychus a gofnodir yw staff yn herio claf sâl i rannu manylion aflednais am eu bywyd rhywiol, er mwyn eu difyrrwch eu hunain a dim mwy. Methiant staff i gofnodi digwyddiadau anffafriol—ac mae hyn i gyd, wrth gwrs, yn enghraifft ddifrifol o dorri codau proffesiynol nyrsys a meddygon. Ond wrth gwrs, nid staff y rheng flaen yn unig a oedd yn gyfrifol am y methiannau ar y ward hon. Mae'r adroddiad yn dweud wrthym hefyd fod y system gwynion wedi gwneud cam â'r cleifion a'u teuluoedd; bod aelodau cyfrifol o staff wedi cael eu hannog i beidio â thynnu sylw rheolwyr at eu pryderon; nad oedd lefelau digonol o staff nyrsio—rhywbeth y byddwn yn ei drafod yn ddiweddarach heddiw—bod diffyg gweithredu ar ran yr uwch dîm arwain i fynd ar drywydd pryderon a methiant ar eu rhan i fynd i'r afael â risgiau hysbys yn y gwasanaethau iechyd meddwl, nid yn unig ar y ward hon, ond ar draws gogledd Cymru; ac yn wir, fod goruchwylio gwael a methiannau llywodraethu difrifol ar ran y bwrdd; a bod problemau gyda'r ffordd y mae'r arolygiaeth gofal iechyd yn gweithredu ac yn cyflawni ei gwaith.

Regrettably, there are echoes in these findings of the 'Trusted to Care' report into the care of dementia patients in the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board area, and it's worth remembering today that the victims of abuses in that area are still living with the consequences of failings, and that justice has yet to fully take its course.

Yn anffodus, mae adleisiau yn y canfyddiadau hyn o'r adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal' ar ofal cleifion dementia yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ac mae'n werth cofio heddiw fod dioddefwyr camdriniaeth yn yr ardal honno yn dal i fyw gyda chanlyniadau methiannau, a'u bod yn dal heb weld cyfiawnder yn cael ei weinyddu'n llawn.

Members, those responsible for this sickening mistreatment of patients should never be allowed to care for patients again, and those mangers and senior leaders in the Betsi Cadwaladr University Local Health Board who failed to address the issues being brought to their attention should be sacked. And when I say 'sacked', I mean just that—sacked, not removed or put out to other duties; not let go with a sizeable pay-off and a huge settlement package. Their heads should roll. They should be dismissed, never to work in the national health service again, or, indeed, to be engaged by the national health service in any other way. The patients and the families who are the subject of this report, along with those who weren't subject to the report, deserve some justice. They need to know that these individuals will never put at risk or harm another patient. Nothing short of dismissal will provide them with that assurance.

Aelodau, ni ddylai'r rhai sy'n gyfrifol am gam-drin cleifion yn y ffordd ffiaidd hon gael eu caniatáu i ofalu am gleifion eto. Dylid diswyddo'r rheolwyr a'r uwch arweinwyr ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr a fethodd fynd i'r afael â'r problemau a gafodd eu dwyn i'w sylw. A phan ddywedaf 'diswyddo', rwy'n golygu'n union hynny—eu diswyddo, nid eu symud neu eu rhoi dyletswyddau eraill iddynt; nid eu gadael i fynd gyda thaliad neu becyn diswyddo mawr. Dylent golli eu swyddi. Dylent gael eu diswyddo, ac ni ddylent gael gweithio yn y gwasanaeth iechyd gwladol byth eto, neu'n wir, gael eu defnyddio gan y gwasanaeth iechyd gwladol mewn unrhyw ffordd arall. Mae'r cleifion a'r teuluoedd sy'n destun yr adroddiad hwn, ynghyd â'r rhai nad oedd yn destun i'r adroddiad, yn haeddu rhywfaint o gyfiawnder. Mae angen iddynt wybod na fydd yr unigolion hyn byth yn creu risg neu'n niweidio claf arall. Diswyddo yn unig a all gynnig sicrwydd o'r fath.

But they also need to be certain that the North Wales Police have fully considered all of the facts relating to these matters. That's why I was very surprised to note that the police, following consultation with the Crown Prosecution Service, have indicated that they do not intend to press any charges against those involved. Their decision appears to have been made prior to the outcome of referrals to the Nursing and Midwifery Council and the General Medical Council and, perhaps more importantly, their decision has been made in advance of the conclusion of the independent mortality reviews of those who had been patients on Tawel Fan, which was recommended by Donna Ockenden in her report. If what transpires from the referrals and the mortality reviews suggests that criminal negligence or activity has taken place, then the North Wales Police and the Crown Prosecution Service must reconsider their positions.

Ond mae angen iddynt hefyd fod yn sicr fod Heddlu Gogledd Cymru wedi ystyried yr holl ffeithiau sy'n ymwneud â'r materion hyn yn llawn. Dyna pam y synnais fawr fod yr heddlu, ar ôl ymgynghori â Gwasanaeth Erlyn y Goron, wedi dweud nad ydynt yn bwriadu dwyn unrhyw gyhuddiadau yn erbyn y rhai a oedd ynghlwm wrth y mater. Ymddengys eu bod wedi gwneud eu penderfyniad cyn y cafwyd canlyniad y cyfeiriadau at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ac yn bwysicach efallai, gwnaed eu penderfyniad cyn cwblhau'r adolygiadau annibynnol o farwolaethau'r rhai a fu'n gleifion ar ward Tawel Fan a argymhellwyd gan Donna Ockenden yn ei hadroddiad. Os yw'r hyn a ddaw'n amlwg o'r cyfeiriadau a'r adolygiadau marwolaethau yn awgrymu bod esgeulustod neu weithgaredd troseddol wedi digwydd, rhaid i Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron ailystyried eu safbwynt.

Now, if I may turn to the reaction of the health board to the Ockenden report, and their proposals to address the issues in it, the board has issued an unreserved apology to patients and their families, and quite right that they did, too. Concerns over the serious untoward incidents surveillance system were raised as far back as March 2012 in a report by Professor Robert Poole, yet Donna Ockenden says in her report that she has

'not seen any evidence to date that the CPG'—

the clinical programme group—

'has taken on board any of the concerns'.

Complaints and concerns from families also go back a number of years prior to the closure of the Tawel Fan ward, some of which were reported by my office and, I know, the offices of other Assembly Members. And yet the board spectacularly failed to address these. So, it begs the question as to whether the board has the capacity, the competence, and, indeed, does the public have the confidence that they are able to make the changes necessary to prevent further harm to mental health patients. The answer, I'm afraid, is a resounding 'no'. And why do I say that? Well, the Ockenden report is not the only report that exposes failings in oversight and governance at the Betsi Cadwaladr health board. In July 2013, Healthcare Inspectorate Wales and the Wales Audit Office took the unprecedented step of publishing a report that exposed serious governance failings at the board that had resulted in patients coming to harm. The publication and scrutiny that followed ultimately resulted in the departure of both the chair and chief executive of the board, but other heads did not roll. Most independent members kept their jobs, as did most of the senior managers at the organisation.

A new chair, though, Dr Peter Higson, was appointed, and hope for improvement was restored. Now, to be fair, I think it was probably as a result of the communications from my office and those of other AMs with Dr Higson that proper attention finally began to be paid to the situation on the Tawel Fan ward. A new chief executive is also, of course, now in place, and it appears that he, too, is seeking to take some determined action as a result of the Ockenden report, including taking forward the report's recommendations and an action plan for implementation. But this is the same chair and the same chief executive who have been at the helm of this organisation whilst governance problems have persisted on GP out-of-hours services, which have also put patients at risk of harm. That report—the GP out-of-hours report—included a schedule of governance issues that, I'm afraid, give me and the people of north Wales little confidence that the board is able to deliver the culture change and step change in performance that this organisation needs to see.

Nawr, os caf droi at ymateb y bwrdd iechyd i adroddiad Ockenden, a'u hargymhellion i fynd i'r afael â'r materion sydd ynddo, mae'r bwrdd wedi cyhoeddi ymddiheuriad diamod i gleifion a'u teuluoedd, ac mae'n hollol iawn eu bod wedi gwneud hynny hefyd. Mynegwyd pryderon ynghylch y system ar gyfer cadw llygad ar ddigwyddiadau anffafriol difrifol cyn belled yn ôl â mis Mawrth 2012 mewn adroddiad gan yr Athro Robert Poole, ac eto mae Donna Ockenden yn dweud yn ei hadroddiad nad oedd

'not seen any evidence to date that the CPG'—

grŵp y rhaglen glinigol—

'has taken on board any of the concerns'.

Hefyd mae cwynion a phryderon gan deuluoedd yn mynd yn ôl nifer o flynyddoedd cyn cau ward Tawel Fan, a gwn fod rhai ohonynt wedi eu cofnodi gan fy swyddfa i, a swyddfeydd Aelodau Cynulliad eraill. Ac eto methodd y bwrdd yn llwyr â mynd i'r afael â'r rhain. Felly, rhaid gofyn y cwestiwn i ba raddau y mae'r bwrdd yn gallu, yn meddu ar y cymhwysedd, ac yn wir, a oes gan y cyhoedd yr hyder eu bod yn gallu gwneud y newidiadau angenrheidiol i atal niwed pellach i gleifion iechyd meddwl. Yr ateb, yn anffodus ac yn bendant, yw 'na'. A pham y dywedaf hynny? Wel, nid adroddiad Ockenden yw'r unig un sy'n datgelu methiannau o ran goruchwylio a llywodraethu ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr. Ym mis Gorffennaf 2013, cymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru y cam digynsail o gyhoeddi adroddiad a ddatgelai fethiannau llywodraethu difrifol yn y bwrdd a oedd wedi arwain at gleifion yn cael niwed. Yn y pen draw arweiniodd y cyhoeddiad a'r craffu a ddilynodd at ymadawiad y cadeirydd a phrif weithredwr y bwrdd, ond ni chollodd penaethiaid eraill eu swyddi. Cadwodd y rhan fwyaf o'r aelodau annibynnol eu swyddi, fel y gwnaeth y rhan fwyaf o uwch reolwyr y sefydliad.

Penodwyd cadeirydd newydd, fodd bynnag, Dr Peter Higson, gan adfer y gobaith o wella. Nawr, a bod yn deg, yn ôl pob tebyg rwy'n meddwl mai o ganlyniad i ohebiaeth o fy swyddfa i a swyddfeydd ACau eraill â Dr Higson y dechreuwyd rhoi sylw priodol o'r diwedd i'r sefyllfa ar ward Tawel Fan. Mae prif weithredwr newydd yn ei swydd hefyd bellach, ac ymddengys ei fod ef, hefyd, yn ceisio rhoi camau pendant ar waith o ganlyniad i adroddiad Ockenden, gan gynnwys bwrw ymlaen ag argymhellion yr adroddiad a chynllun gweithredu. Ond dyma'r un cadeirydd a'r un prif weithredwr a fu wrth y llyw yn y sefydliad hwn tra bo problemau llywodraethu wedi parhau mewn perthynas â gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau, sydd hefyd wedi rhoi cleifion mewn perygl o niwed. Roedd yr adroddiad hwnnw—yr adroddiad ar y gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau—yn cynnwys rhestr o broblemau llywodraethu nad yw'n rhoi fawr o hyder i mi ac i bobl gogledd Cymru fod y bwrdd yn gallu cyflawni'r newid diwylliannol a'r newid sylweddol mewn perfformiad sydd ei angen ar y sefydliad hwn.

So, how will we achieve the change? Well, the board is already the subject of Welsh Government-targeted intervention. It's at level 3 of a four-level intervention system, but that intervention, which was described as, and I quote, 'urgent' in November last year in a letter to the National Assembly's Public Accounts Committee, was simply this: to appoint someone to undertake yet another review. The outcome of that review is still yet to be discussed by the board some six months later, and that, I'm afraid, does not seem very urgent or particularly targeted to me. I think it does call into question the Welsh Government's own processes for driving change, and that's why I'm convinced that the time has come for a more determined action. The board should immediately be put into special measures by the Welsh Government until significant improvement in governance has been achieved and the work in relation to Tawel Fan and, indeed, the GP out-of-hours service has been fully implemented.

Felly, sut y cyflawnwn y newid? Wel, mae'r bwrdd eisoes yn destun ymyrraeth wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru. Mae ar lefel 3 o system ymyrraeth sy'n cynnwys pedair lefel, ond yr ymyrraeth hon, a ddisgrifiwyd fel 'ymyrraeth frys' ym mis Tachwedd y llynedd mewn llythyr at Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, yn syml iawn oedd: penodi rhywun i gynnal adolygiad arall eto. Mae canlyniad yr adolygiad hwnnw yn dal heb gael ei drafod gan y bwrdd oddeutu chwe mis yn ddiweddarach, ac i mi, nid yw hynny, yn anffodus, i'w weld fel mater o frys mawr nac wedi'i dargedu. Rwy'n credu ei fod yn bwrw amheuaeth ar brosesau Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer ysgogi newid, a dyna pam rwy'n argyhoeddedig fod yr amser wedi dod i weithredu'n fwy penderfynol. Dylai'r bwrdd gael ei roi dan weithdrefn mesurau arbennig gan Lywodraeth Cymru ar unwaith hyd nes y ceir gwelliant sylweddol yn y trefniadau llywodraethu a'r gwaith mewn perthynas â ward Tawel Fan ac yn wir, y gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau.

Secondly, we also need to see an independent panel established to oversee the implementation of the recommendations in the Tawel Fan report. This would add some rigour and accountability to the process, and, given her insight and expertise, I think it would be wise to include Donna Ockenden in taking this work forward, as well as family members of the victims of Tawel Fan.

Yn ail, mae angen sefydlu panel annibynnol hefyd i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad ar ward Tawel Fan. Byddai hyn yn ychwanegu ychydig o drylwyredd ac atebolrwydd at y broses, ac o ystyried ei chrebwyll a'i harbenigedd, rwy'n credu y byddai'n ddoeth cynnwys Donna Ockenden wrth fwrw ymlaen â'r gwaith, yn ogystal ag aelodau o deuluoedd dioddefwyr Tawel Fan.

Thirdly, we need a radical overhaul of Healthcare Inspectorate Wales. And I'm afraid, Minister, that it is disappointing that the Welsh Government is yet to respond to the report of Ruth Marks on her review of Healthcare Inspectorate Wales. It appears to me that the regime was also found wanting in relation to Tawel Fan, and, given the apology that the chief executive of HIW has offered, something clearly needs to change. HIW obviously needs more resources, and we need to increase the capacity of that organisation to undertake unannounced inspections—and I mean truly unannounced inspections—more frequently than is currently the case. The independence of the inspectorate from the Welsh Government must also be addressed. It is wrong that they must have ministerial permission before intervention in a board can be triggered, very unlike the schools inspectorate, Estyn.

Yn drydydd, mae angen ailwampio Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn drylwyr. Ac yn anffodus, Weinidog, mae'n siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb i adroddiad Ruth Marks ar ei hadolygiad o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru hyd yma. Ymddengys i mi fod y gyfundrefn yn ddiffygiol mewn perthynas â ward Tawel Fan hefyd, ac o ystyried yr ymddiheuriad a roddodd prif weithredwr AGIC, mae'n amlwg fod angen i rywbeth newid. Mae'n amlwg fod angen mwy o adnoddau ar AGIC, ac mae angen i ni gynyddu gallu'r sefydliad hwnnw i gynnal arolygiadau dirybudd—ac rwy'n golygu arolygiadau dirybudd go iawn—yn amlach nag ar hyn o bryd. Rhaid ymdrin ag annibyniaeth yr arolygiaeth oddi ar Lywodraeth Cymru hefyd. Nid yw'n iawn fod yn rhaid iddynt gael caniatâd gweinidogol cyn y gellir ysgogi ymyrraeth mewn bwrdd, yn wahanol iawn i'r arolygiaeth ysgolion, Estyn.

Fourthly, we need to establish an independent appointments process for health board members. It is wrong that politicians are making decisions about who sits on the boards. I'm not accusing anybody of this, but it does risk cronyism and it risks appointments being made on the grounds of party political association, rather than their merit or ability to do the job.

Yn bedwerydd, mae angen i ni sefydlu proses benodi annibynnol ar gyfer aelodau byrddau iechyd. Nid yw'n iawn fod gwleidyddion yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â phwy sy'n aelodau o'r byrddau. Nid wyf yn cyhuddo neb o hyn, ond mae'n berygl o ysgogi ffrindgarwch ac mae'n creu risg o benodi ar sail cysylltiadau â phleidiau gwleidyddol yn hytrach na'u teilyngdod neu eu gallu i wneud y gwaith.

Fifthly, and finally, we need an independent Wales-wide inquiry into the NHS, led by clinicians to root out the problems in our health service—the Wales-wide problems—and put measures in place to improve our health service for generations to come. I look forward, Minister, to hearing your contributions and those of others to this important debate today.

Yn bumed, ac yn olaf, mae angen ymchwiliad annibynnol ledled Cymru i'r GIG, o dan arweiniad clinigwyr i ddatgelu problemau yn ein gwasanaeth iechyd—problemau drwy Gymru gyfan—a rhoi mesurau ar waith i wella ein gwasanaeth iechyd am genedlaethau i ddod. Edrychaf ymlaen, Weinidog, at glywed eich cyfraniadau chi a phobl eraill at y ddadl bwysig hon heddiw.

15:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call the Minister for Health and Social Care, Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Mark Drakeford.

15:03 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Thank you very much, Dirprwy Lywydd, and thank you for the opportunity, as well, to make an opening statement and then to reply to other contributions in the debate. What I intend to do is to set out at this point my own conclusions on the matter that is in front of the National Assembly this afternoon.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, a diolch i chi am y cyfle hefyd i wneud datganiad agoriadol ac yna i ateb cyfraniadau gan eraill yn y ddadl. Yr hyn rwy'n bwriadu ei wneud yw nodi yn y fan hon fy nghasgliadau fy hun ar y mater sydd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol y prynhawn yma.

So, Dirprwy Lywydd, as Members know, last week, and following the conclusion of police investigations, Betsi Cadwaladr University Local Health Board published the independent report it had commissioned on the care of elderly patients with dementia at the Tawel Fan unit at Ysbyty Glan Clwyd. The unit had been closed immediately on 20 December 2013, following complaints from relatives and staff. In making the report public, the chief executive of the board described its findings as shocking and inexcusable. He offered an unreserved apology to the individuals and families who had been so badly let down. He was right to do so. As the Minister with responsibility for health services in Wales, I, too, apologise for the gross departures from basic standards of care that the report so unflinchingly sets out. I also add my commitment to that provided by the First Minister yesterday, that the conclusion of police enquiries does not bring to an end the effort to hold all those responsible accountable for their actions.

Felly, Ddirprwy Lywydd, fel y gŵyr yr Aelodau, yr wythnos diwethaf, wedi i ymchwiliadau'r heddlu ddod i ben, cyhoeddodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yr adroddiad annibynnol a gomisiynodd ar ofalu am gleifion oedrannus â dementia yn uned Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd. Caewyd yr uned ar unwaith ar 20 Rhagfyr 2013, yn dilyn cwynion gan berthnasau a staff. Wrth gyhoeddi'r adroddiad, disgrifiodd prif weithredwr y bwrdd ei ganfyddiadau fel rhai arswydus ac anfaddeuol. Cynigiodd ymddiheuriad diamod i'r unigolion a'r teuluoedd y gwnaed cam mor fawr â hwy. Roedd yn iawn i wneud hynny. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am wasanaethau iechyd yng Nghymru, rwyf innau hefyd yn ymddiheuro am y methiant enfawr i sicrhau safonau sylfaenol o ofal a nodwyd mor ddi-flewyn-ar-dafod gan yr adroddiad. Rwyf hefyd yn ategu ymrwymiad y Prif Weinidog ddoe, i sicrhau nad yw'r ffaith fod ymholiadau'r heddlu wedi dod i ben yn rhoi diwedd ar yr ymdrech i ddwyn pawb sy'n gyfrifol i gyfrif am eu gweithredoedd.

The board's internal investigation, including disciplinary processes, will now resume. I am clear that these processes must be overseen by independent and expert individuals who are external to the board and independent of it. Given the apparent repeated violations of professional codes of practice identified in the report, three members of staff have been referred to the General Medical Council, and seven to the Nursing and Midwifery Council. I will not say anything this afternoon that could be interpreted as prejudicing any disciplinary or professional conduct hearings that may follow, but it is vitally important to the families and to wider public confidence that those processes are rigorous and openly conducted.

Bydd ymchwiliad mewnol y bwrdd, gan gynnwys prosesau disgyblu, yn ailddechrau yn awr. Rwy'n eglur fod yn rhaid i'r prosesau hyn gael eu goruchwylio gan unigolion annibynnol ac arbenigol o'r tu allan i'r bwrdd ac yn annibynnol oddi arno. O ystyried y tramgwyddo amlwg a fu dro ar ôl tro ar godau ymarfer proffesiynol a nodwyd yn yr adroddiad, cyfeiriwyd tri aelod o staff at y Cyngor Meddygol Cyffredinol, a saith at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Ni ddywedaf ddim y prynhawn yma y gellid dehongli ei fod yn peryglu unrhyw wrandawiad disgyblu neu ymddygiad proffesiynol a allai ddilyn, ond mae'n hanfodol bwysig i'r teuluoedd ac i hyder y cyhoedd yn ehangach fod y prosesau hynny'n drylwyr ac yn agored.

Dirprwy Lywydd, my intention, therefore, is to concentrate as much as possible this afternoon on the actions that have been taken in response to the report. The history of institutional care of older people with dementia is littered with examples, across the United Kingdom and across time, of what was described in an earlier report as the corruption of care. Almost always, these examples have been found in places physically and culturally cut off from the mainstream world of the health service. Yet Tawel Fan was in the main campus of a district general hospital, with all the facilities such a hospital is able to provide. It was directly co-located with another mental health unit recognised for innovative and compassionate care. Literally thousands of people—doctors, nurses, other health professionals, senior administrators, patients, visitors and, no doubt, Ministers and other politicians—passed Tawel Fan's door while, inside, it was a place that the report says was somewhere where staff were left alone to behave in an unacceptable way, to the extent that its culture amounted to a form of institutional abuse. That paradox emerges very clearly in the pages of the Ockenden report. It vindicates the importance of the report's efforts to gain a sober understanding of what went so badly wrong at Tawel Fan.

Ddirprwy Lywydd, fy mwriad felly yw canolbwyntio cymaint â phosibl y prynhawn yma ar y camau a gymerwyd mewn ymateb i'r adroddiad. Mae hanes gofal sefydliadol i bobl hŷn â dementia yn llawn o enghreifftiau ar draws y Deyrnas Unedig a thros amser o'r hyn a ddisgrifiwyd mewn adroddiad blaenorol fel llygriad gofal. Bron bob amser, gwelir yr enghreifftiau mewn mannau sydd wedi'u hynysu yn ffisegol ac yn ddiwylliannol o brif ffrwd y gwasanaeth iechyd. Eto roedd Tawel Fan ym mhrif gampws ysbyty cyffredinol dosbarth, gyda'r holl gyfleusterau y gall ysbyty o'r fath eu darparu. Roedd wedi'i lleoli ochr yn ochr ag uned iechyd meddwl arall sydd wedi cael cydnabyddiaeth am ei gofal arloesol a thosturiol. Mae miloedd o bobl, yn llythrennol—yn feddygon, nyrsys, gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, uwch weinyddwyr, cleifion, ymwelwyr, a Gweinidogion a gwleidyddion eraill yn ddi-os—wedi pasio drws Tawel Fan er ei fod, ar y tu mewn, yn rhywle y câi staff lonydd, yn ôl yr adroddiad, i ymddwyn mewn ffordd annerbyniol, i'r graddau fod diwylliant y ward yn ymgorffori ffurf ar gam-drin sefydliadol. Mae'r paradocs hwnnw i'w weld yn glir iawn ar dudalennau adroddiad Ockenden. Mae'n cadarnhau pwysigrwydd ymdrechion yr adroddiad i gael dealltwriaeth bwyllog o'r hyn a aeth mor bell o'i le ar ward Tawel Fan.

Dirprwy Lywydd, given what the report has uncovered, it is clearly right that actions have been taken at both a health board and Welsh Government level. These actions share two key purposes: to establish whether the circumstances uncovered at Tawel Fan were in any way characteristic of care elsewhere in north Wales or more widely in Wales, and secondly to identify and put in place a set of actions to help prevent such failings from happening in the future. Now, at board level, five actions have been taken. In December 2013, it promptly closed the ward and suspended or moved staff, and disciplinary procedures were instituted. In the same month, it involved North Wales Police. The police investigation is now over, with a decision not to prosecute. In January 2014, the board commissioned an independent review led by Donna Ockenden to look at the allegations. After receiving that report, the board invited Dr Margaret Flynn, author of the report into events at Winterbourne View, and Ruth Ely, once the national programme lead for older people and dementia at the Department of Health in London, to carry out an external review of mental health services for older people across north Wales to ensure that governance and quality standards were being met. That report has been in the public domain since December of 2014. The final paragraph of Dr Flynn's report reads:

Ddirprwy Lywydd, o ystyried yr hyn y mae'r adroddiad wedi'i ddatgelu, mae'n amlwg yn iawn fod camau wedi eu rhoi ar waith ar lefel y bwrdd iechyd a lefel Llywodraeth Cymru. Mae'r camau hyn yn rhannu dau bwrpas allweddol: pennu a yw'r amgylchiadau a ddatgelwyd ar ward Tawel Fan mewn unrhyw ffordd yn nodweddiadol o ofal mewn mannau eraill yng ngogledd Cymru neu yn ehangach yng Nghymru, ac yn ail i glustnodi a rhoi cyfres o gamau gweithredu ar waith i helpu i atal methiannau o'r fath rhag digwydd yn y dyfodol. Nawr, ar lefel y bwrdd, rhoddwyd pum cam gweithredu ar waith. Ym mis Rhagfyr 2013, caeodd y ward ar unwaith ac atal staff o'u gwaith neu eu symud, a rhoddwyd gweithdrefnau disgyblu ar y gweill. Yn yr un mis, daethpwyd â'r mater i sylw Heddlu Gogledd Cymru. Mae ymchwiliad yr heddlu bellach ar ben, gyda phenderfyniad i beidio ag erlyn. Ym mis Ionawr 2014, comisiynodd y bwrdd adolygiad annibynnol dan arweiniad Donna Ockenden i edrych ar yr honiadau. Ar ôl derbyn yr adroddiad, gwahoddodd y bwrdd Dr Margaret Flynn, awdur adroddiad ar ddigwyddiadau Winterbourne View, a Ruth Ely, a fu ar un adeg yn arweinydd y rhaglen genedlaethol ar gyfer pobl hŷn a dementia yn yr Adran Iechyd yn Llundain, i gynnal adolygiad allanol o wasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn ar draws gogledd Cymru i sicrhau bod safonau llywodraethu ac ansawdd yn cael eu cyrraedd. Mae'r adroddiad wedi bod ar gael i'r cyhoedd ers mis Rhagfyr 2014. Mae paragraff olaf adroddiad Dr Flynn yn dweud:

'We believe that the Review and the learning from recent events within BCUHB provide a strong platform for the Board to adopt the necessary approaches to improving patient care'.

'We believe that the Review and the learning from recent events within BCUHB provide a strong platform for the Board to adopt the necessary approaches to improving patient care'.

At the same time, the board commissioned its nurse consultant for dementia to undertake a thorough review of the culture on each and every mental health ward in north Wales. That review concluded that no other area shared the pernicious characteristics of the institutional abuse discovered at Tawel Fan. Just as the Ockenden report found that what took place at Tawel Fan was not representative of what it calls the 'excellent examples of practice' seen elsewhere across Wales. Since then, the board has appointed a new director for primary, community and mental health, a new director of mental health and learning disabilities and a new clinical director for mental health. It has established a dedicated quality and safety team and a new nurse development team. Next week, the board will consider a paper that sets out at greater length the actions already taken, and planned to be taken in future, in response to the Ockenden report. I will ensure that this paper is available to all Members.

Ar yr un pryd, comisiynodd y bwrdd ei nyrs ymgynghorol dementia i gynnal adolygiad trylwyr o ddiwylliant ar bob ward iechyd meddwl yng ngogledd Cymru. Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad oedd unrhyw ardal arall yn rhannu nodweddion dinistriol y cam-drin sefydliadol a ganfuwyd ar ward Tawel Fan, yn union fel y canfu adroddiad Ockenden nad oedd beth a ddigwyddodd ar ward Tawel Fan yr hyn y mae'n eu galw'n enghreifftiau ardderchog o arfer a welir mewn mannau eraill ledled Cymru. Ers hynny, mae'r bwrdd wedi penodi cyfarwyddwr gofal sylfaenol, gofal yn y gymuned ac iechyd meddwl newydd, cyfarwyddwr iechyd meddwl ac anableddau dysgu newydd a chyfarwyddwr clinigol newydd ar gyfer iechyd meddwl. Mae wedi sefydlu tîm ansawdd a diogelwch penodedig a thîm datblygu nyrsys newydd. Yr wythnos nesaf, bydd y bwrdd yn ystyried papur sy'n nodi'n fanylach y camau a gymerwyd eisoes, a'r camau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol, mewn ymateb i adroddiad Ockenden. Byddaf yn sicrhau bod y papur hwn ar gael i bob Aelod.

Dirprwy Lywydd, I turn now to actions taken by the Welsh Government. Members will be aware that, in October last year, I extended the national programme of unannounced spot checks to older people's mental health wards across Wales. In March, I published a written statement setting out the early results of that programme. Once again, the spot checks were carried out by teams of senior healthcare professionals, overseen by Professor June Andrews, Professor Phil Routledge and, on this occasion, Donna Ockenden, amongst others. The spot checks focused on continence care, nutrition and hydration, medication, sedation and anti-psychotic prescribing, and, on this occasion, in mental health wards, the use of restraint, availability of daily activities, involvement of relatives and carers, and culture and leadership at ward level. Those Members who've had an opportunity to read it will know that all these are issues highlighted in the Tawel Fan report.

Ddirprwy Lywydd, trof yn awr at y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fy mod wedi ymestyn y rhaglen genedlaethol o hapwiriadau dirybudd fis Hydref y llynedd i gynnwys wardiau iechyd meddwl pobl hŷn ar draws Cymru. Ym mis Mawrth, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig yn nodi canlyniadau cynnar y rhaglen honno. Unwaith eto, cynhaliwyd yr hapwiriadau gan dimau o uwch weithwyr gofal iechyd proffesiynol, o dan oruchwyliaeth yr Athro June Andrews, yr Athro Phil Routledge ac ar yr achlysur hwn, Donna Ockenden, ymhlith eraill. Roedd yr hapwiriadau yn canolbwyntio ar ofal ymataliaeth, maeth a hydradiad, meddyginiaeth, tawelyddu a phresgripsiynu gwrthseicotig, ac ar yr achlysur hwn, mewn wardiau iechyd meddwl, y defnydd o ataliaeth, argaeledd gweithgareddau dyddiol, cyfranogiad perthnasau a gofalwyr, a diwylliant ac arweinyddiaeth ar lefel y ward. Bydd yr aelodau sydd wedi cael cyfle i'w ddarllen yn gwybod bod y rhain i gyd yn faterion a gafodd sylw yn yr adroddiad ar ward Tawel Fan.

The spot check teams visited 22 wards in all parts of Wales, including four of the five older people's wards in north Wales. This afternoon, I can confirm that the spot checks have provided an assurance that poor care and neglect are not a systemic feature of the care of elderly mental health patients in Wales. That is not to say, of course, that the teams did not make regular recommendations for improvement, including individual instances where immediate action was required. But, the checks also highlighted many instances of notable good practice, which will be shared through a new Wales-wide community of good practice involving clinicians. A national summary report and the individual health board report will all be published later this month.

Ymwelodd y timau hapwirio â 22 o wardiau ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys pedair o'r pump ward ar gyfer pobl hŷn yng ngogledd Cymru. Y prynhawn yma, gallaf gadarnhau bod yr hapwiriadau wedi rhoi sicrwydd nad yw gofal o safon isel ac esgeulustod yn nodwedd systemig o ofal cleifion iechyd meddwl pobl hŷn yng Nghymru. Nid yw hynny'n dweud, wrth gwrs, nad oedd y timau yn gwneud argymhellion rheolaidd ar gyfer gwella, gan gynnwys achosion unigol lle roedd angen gweithredu ar unwaith. Ond roedd yr archwiliadau hefyd yn tynnu sylw at nifer o achosion o arferion da nodedig, a fydd yn cael eu rhannu drwy gymuned newydd o arfer da ledled Cymru sy'n cynnwys clinigwyr. Bydd adroddiad cryno cenedlaethol a'r adroddiadau ar y byrddau iechyd unigol yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach y mis hwn.

Dirprwy Lywydd, in June 2013, Betsi Cadwaladr university health board had a chief executive who was suspended, a chair and a vice-chair on the verge of standing down, it had no substantive nursing or medical director, and other key posts were unfilled. Since then, a new chair and vice chair have both been substantively appointed.

Ddirprwy Lywydd, ym mis Mehefin 2013, roedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr brif weithredwr a gafodd ei atal o'i swydd, cadeirydd ac is-gadeirydd ar fin ymddiswyddo, nid oedd ganddo gyfarwyddwr nyrsio na chyfarwyddwr meddygol parhaol, ac roedd swyddi allweddol eraill yn wag. Ers hynny, penodwyd cadeirydd ac is-gadeirydd newydd parhaol.

15:12 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for giving way, Minister. With regard to those spot checks, which you were just talking about, that were undertaken, you said that, in some instances, there was immediate action required. I accept it might not have been as bad a situation as we've heard previously outlined. In how many instances was immediate action required?

Diolch i chi am ildio, Weinidog. O ran yr hapwiriadau roeddech chi'n sôn amdanynt yn awr, fe ddywedoch fod angen rhoi camau ar waith ar unwaith mewn rhai achosion. Rwy'n derbyn efallai nad oedd y sefyllfa mor ddrwg ag y clywsom yn flaenorol. Mewn sawl achos oedd angen gweithredu ar unwaith?

15:13 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I can't give a figure, but it was a handful of instances where immediate action was required. That was often in response to the physical characteristics of the ward where patients were being looked after—medication cupboards and that sort of thing. But, all of these will be published in the health board documents later this month.

Ni allaf roi ffigur, ond roedd llond llaw o achosion yn galw am weithredu ar unwaith. Digwyddai'n aml mewn ymateb i nodweddion ffisegol y ward lle roedd cleifion yn cael gofal—cypyrddau meddyginiaeth a'r math yna o beth. Ond bydd pob un o'r rhain yn cael eu cyhoeddi yn nogfennau'r byrddau iechyd yn nes ymlaen y mis hwn.

Dirprwy Lywydd, I was reminding Members that, since the middle of 2013, a new chair and vice chair have both been substantively appointed. New board members have also been appointed, together with key members of staff. These are people from the local community in north Wales. They do these jobs because they are committed to making a difference to the care that people receive in north Wales.

Ddirprwy Lywydd, roeddwn yn atgoffa'r Aelodau fod cadeirydd ac is-gadeirydd newydd parhaol wedi'u penodi ers canol 2013. Penodwyd aelodau newydd i'r bwrdd hefyd, ynghyd ag aelodau allweddol o staff. Mae'r rhain yn bobl o'r gymuned leol yng ngogledd Cymru. Maent yn gwneud y swyddi hyn am eu bod wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth i'r gofal y mae pobl yn ei dderbyn yn y gogledd.

Now, as you've already heard, the health board is already at the highest level of escalation of any health board in Wales. Senior Government officials, including the chief executive and the deputy chief executive of NHS Wales, are working closely with the health board as part of a suite of actions we have put in place to bolster board governance and service improvement. Nevertheless, it is very important that we can be confident that the right arrangements are in place for the future. I have therefore asked the chief executive of NHS Wales to convene an urgent meeting of Healthcare Inspectorate Wales, Welsh Government and the Wales Audit Office—the tripartite partners in the escalation process, which this Assembly has agreed—to review and consider the health board's current status. That meeting will take place as soon as possible next week.

Nawr, fel rydych eisoes wedi clywed, mae'r bwrdd iechyd eisoes ar y lefel uwchgyfeirio uchaf o blith byrddau iechyd Cymru. Mae uwch swyddogion y Llywodraeth, gan gynnwys y prif weithredwr a dirprwy brif weithredwr GIG Cymru, yn gweithio'n agos gyda'r bwrdd iechyd fel rhan o gyfres o gamau gweithredu rydym wedi'u rhoi ar waith i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu'r bwrdd a gwella gwasanaethau. Serch hynny, mae'n bwysig iawn i ni allu bod yn hyderus fod y trefniadau cywir ar waith ar gyfer y dyfodol. Felly, rwyf wedi gofyn i brif weithredwr GIG Cymru gynnal cyfarfod brys o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru—y drindod o bartneriaid yn y broses uwchgyfeirio a gytunwyd gan y Cynulliad hwn—i adolygu ac ystyried statws presennol y bwrdd iechyd. Cynhelir y cyfarfod cyn gynted ag y bo modd yr wythnos nesaf.

Dirprwy Lywydd, it's absolutely right that we focus this afternoon on what went so badly wrong at Tawel Fan, but we won't make a full response to those people whose care was so badly compromised or their families if that is all that we do. In a letter sent to the board by members of families affected at Tawel Fan in advance of next week's board meeting, they ask for an explanation of how failures in care were allowed to happen and they go on in their letter, more importantly, to ask how future patient safety can be assured. They look to a future in which there is a combined focus on redress for those who need it and improvement for those patients who will follow. As the Minister for health in Wales, I want them to know that their ambitions are mine as well.

Ddirprwy Lywydd, mae'n hollol iawn ein bod yn canolbwyntio y prynhawn yma ar yr hyn a aeth mor bell o'i le ar ward Tawel Fan, ond ni fyddwn yn ymateb yn llawn i'r bobl hynny y cafodd eu gofal ei beryglu cymaint na'u teuluoedd os mai dyna'r cyfan a wnawn. Mewn llythyr a anfonwyd at y bwrdd gan aelodau o deuluoedd yr effeithiwyd arnynt ar ward Tawel Fan cyn iddo gyfarfod yr wythnos nesaf, maent yn gofyn am esboniad ynglŷn â sut y gadawyd i fethiannau mewn gofal ddigwydd ac yn bwysicach, maent yn gofyn yn eu llythyr sut y gellir sicrhau diogelwch cleifion yn y dyfodol. Maent yn edrych tuag at ddyfodol lle y ceir ffocws cyfunol ar wneud iawn i'r rhai sydd ei angen ac ar wella ar gyfer y cleifion a fydd yn dilyn. Fel y Gweinidog iechyd yng Nghymru, rwyf am iddynt wybod mai eu dyheadau hwy yw fy rhai innau hefyd.

15:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Can I say to both principal speakers that I will show a degree of flexibility when you reply at the end of the debate? I'm sure you will respect that and not abuse it, but if you do need a little more time than that indicated to make full replies, then you will be allowed to do so. Elin Jones.

Diolch yn fawr. A gaf fi ddweud wrth y ddau brif siaradwyr y byddaf yn dangos rhywfaint o hyblygrwydd pan fyddwch yn ymateb ar ddiwedd y ddadl? Rwy'n siŵr y byddwch yn parchu hynny heb gamfanteisio arno, ond os ydych angen ychydig mwy o amser na'r hyn a nodwyd ar gyfer ateb yn llawn, yna caniateir i chi wneud hynny. Elin Jones.

15:16 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. No newspaper headline, no Tory Prime Minister or Tory health spokesperson can over-sensationalise the truly awful, undignified care given to patients on Tawel Fan ward. The words of the families, as outlined and quoted in Donna Ockenden's report before us today, require no editorial sensationalising. To read that a family member compared walking onto a ward in an NHS hospital in Wales in the twenty-first century to walking into a zoo and described patients as animals that had been captured there for a long time, that description of care should make us all in this Chamber feel ashamed.

Diolch, Lywydd. Ni all unrhyw bennawd papur newydd, Prif Weinidog Torïaidd na llefarydd iechyd y Torïaid orliwio'r gofal gwirioneddol ofnadwy a diurddas a roddwyd i gleifion ar ward Tawel Fan. Nid oes angen golygydd i roi mwy o liw ar eiriau'r teuluoedd fel y cawsant eu hamlinellu a'u dyfynnu yn adroddiad Donna Ockenden sydd ger ein bron heddiw. Dylai darllen disgrifiad o ofal gan aelod o deulu claf a oedd yn cymharu cerdded ar ward mewn ysbyty GIG yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain â cherdded i mewn i sw, gyda chleifion fel anifeiliaid wedi'u cadw yno ers amser hir, dylai disgrifiad o'r fath o ofal wneud i bawb ohonom yn y Siambr hon deimlo cywilydd.

All the concerns presented to the investigation were upheld by Donne Ockenden. In the very first piece of evidence outlined in the accusation of a lack of professional, dignified and compassionate care, family A noted the unsuitable environment often created by staff behaviour. The ward was extremely noisy, loud, very unconducive to dementia care, with staff shouting and hollering. That was the description. And this was in a ward that was named Tawel Fan—a place of quiet.

Cafodd pob un o'r pryderon a gyflwynwyd i'r ymchwiliad eu cadarnhau gan Donna Ockenden. Yn y darn cyntaf un o dystiolaeth a amlinellir yn y cyhuddiad o ddiffyg gofal proffesiynol, urddasol a thosturiol, nododd teulu A yr amgylchedd anaddas a gâi ei greu'n aml gan ymddygiad y staff. Roedd y ward yn hynod o swnllyd, rhywbeth nad yw'n gydnaws o gwbl mewn gofal dementia, gyda staff yn gweiddi ac yn bloeddio. Dyna oedd y disgrifiad. A hyn ar ward o'r enw Tawel Fan.

The accounts of the lack of dignity of care, lack of feeding, patients not dressed appropriately and no basic hygiene are all truly awful. One family described their relative as putting his dinner all over his hair, and the staff would just leave it there. Now, that description reminds us of how difficult dementia care can be for nurses, doctors and carers, and we should not lose sight of that fact today, but it also reminds us that, as a society, we employ and train people to manage and perform care that is too difficult for family members and others to undertake. The most important quote in my view is given by relative H on the very last page of the report, where relative H says that

Mae'r hanesion am ddiffyg urddas y gofal, diffyg bwydo, cleifion heb gael eu gwisgo'n briodol a heb hylendid sylfaenol i gyd yn wirioneddol erchyll. Disgrifiodd un teulu sut yr arllwysodd eu perthynas ei ginio dros ei wallt, a byddai'r staff yn ei adael yno. Nawr, mae'r disgrifiad yn ein hatgoffa o ba mor anodd y gall gofal dementia fod i nyrsys, meddygon a gofalwyr, ac ni ddylem golli golwg ar hynny heddiw, ond mae hefyd yn ein hatgoffa ein bod, fel cymdeithas, yn cyflogi a hyfforddi pobl i reoli a darparu gofal sy'n rhy anodd i aelodau'r teulu ac eraill ei gyflawni. Mae'r dyfyniad mwyaf pwysig yn fy marn i yn cael ei roi gan berthynas H ar y dudalen olaf un o'r adroddiad, lle y mae perthynas H yn dweud

'This is a terribly sad case and I want people to be accountable.'

'This is a terribly sad case and I want people to be accountable.'

Now, there is a regulatory framework in place to make nurses and doctors accountable. The Nursing and Midwifery Council and the General Medical Council will hold registered nurses and doctors accountable for adhering or not to their respective codes of conduct, and I fully expect this to happen in this case. But what of those who managed Tawel Fan and who manage mental health care in Betsi Cadwaladr? The report finds that the lack of action by the senior leadership team on previous reports was unacceptable, that there was a lack of timely action and systematic review by the senior leadership team, and that there was no oversight by the senior leadership team of any activities within Tawel Fan. Who holds this senior leadership team to account?

Nawr, mae fframwaith rheoleiddio ar waith i wneud nyrsys a meddygon yn atebol. Bydd y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn gwneud nyrsys a meddygon cofrestredig yn atebol am lynu, neu beidio â glynu, at eu codau ymddygiad perthnasol, ac rwy'n llwyr ddisgwyl i hyn ddigwydd yn yr achos hwn. Ond beth am y rhai a reolai Tawel Fan a'r rhai sy'n rheoli gofal iechyd meddwl yn Betsi Cadwaladr? Mae'r adroddiad yn canfod bod y diffyg gweithredu ar ran yr uwch dîm arwain yn sgil adroddiadau blaenorol yn annerbyniol, fod yna ddiffyg gweithredu amserol ac adolygu systematig gan yr uwch dîm arwain, ac nad oedd yr uwch dîm arwain yn goruchwylio unrhyw weithgareddau ar ward Tawel Fan. Pwy sy'n dwyn yr uwch dîm arwain i gyfrif?

We've discussed Mid Staffordshire many times in this Chamber, and there are similarities between Mid Staffordshire and Tawel Fan, to an extent. One of the Francis recommendations as a result of Mid Staffordshire was that there should be a fit-and-proper-person test for health managers, with an associated code of conduct and regulatory function. In breaching that code of conduct, a health manager could be disqualified from serving in the health service, just as a nurse or a doctor may be. I believe that, with Tawel Fan and with other experiences in other places in the NHS in Wales over previous years, we have reached the point where we seriously need to hold health managers to account—to be accountable in this instance for the institutional abuse, as described in the Ockenden report—and we should move quickly to put such structures in place in Wales.

Rydym wedi trafod Canol Swydd Stafford sawl gwaith yn y Siambr hon, ac mae tebygrwydd rhwng Canol Swydd Stafford a Tawel Fan, i raddau. Un o argymhellion Francis o ganlyniad i Ganol Swydd Stafford oedd y dylai rheolwyr gael prawf person addas a phriodol, gyda chod ymddygiad cysylltiedig a swyddogaeth reoleiddio. Wrth dorri'r cod ymddygiad, gallai rheolwr iechyd gael ei wahardd rhag gweithio yn y gwasanaeth iechyd, yn union fel nyrs neu feddyg. Gyda ward Tawel Fan a phrofiadau eraill mewn mannau eraill yn y GIG yng Nghymru dros y blynyddoedd a fu, rwy'n credu ein bod wedi cyrraedd y pwynt lle y mae angen o ddifrif i ni ddwyn rheolwyr iechyd i gyfrif—i fod yn atebol yn yr achos hwn am y cam-drin sefydliadol, fel y disgrifir yn adroddiad Ockenden—a dylem symud yn gyflym i roi strwythurau o'r fath ar waith yng Nghymru.

And then, finally, what about political accountability? It lies here with Welsh Government. Since 2011, Welsh Government has sought every which way it can to pass responsibility and accountability on to local health boards and from Welsh Government. One of those health boards today—Betsi Cadwaladr health board—has been found guilty of institutional abuse and is, in many people's opinion, a failing health board. I agree that it is now time to place that health board in special measures.

Ac yna, yn olaf, beth am atebolrwydd gwleidyddol? Mae'n gorwedd yma gyda Llywodraeth Cymru. Ers 2011, mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati ym mhob ffordd y gall i geisio pasio cyfrifoldeb ac atebolrwydd i fyrddau iechyd lleol ac oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae un o'r byrddau iechyd hynny heddiw—bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr—wedi ei gael yn euog o gam-drin sefydliadol ac ym marn llawer o bobl, mae'n fwrdd iechyd sy'n methu. Rwy'n cytuno ei bod yn awr yn bryd gosod y bwrdd iechyd dan weithdrefn mesurau arbennig.

When care and performance in the NHS is criticised, very often we hear a response that is to remind us that the majority of everyday care in the NHS in Wales is good. For the most vulnerable in our society—for patients near their end of life with severe and mind-crippling dementia—then the fact that the majority of care is good is not good enough. For the most vulnerable, the weakest, then care for everyone should be good. By caring for our vulnerable, that is how we as a society are judged, and today, Minister, that is how we judge this Welsh Labour Government.

Pan gaiff gofal a pherfformiad yn y GIG ei feirniadu, yn aml iawn clywn ymateb i'n hatgoffa bod y rhan fwyaf o'r gofal o ddydd i ddydd yn y GIG yng Nghymru yn dda. I'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas—i gleifion yn agos at ddiwedd eu hoes sy'n dioddef o ddementia difrifol sy'n niweidio'r meddwl—nid yw'r ffaith fod y rhan fwyaf o'r gofal yn dda yn ddigon da. I'r rhai mwyaf agored i niwed, y gwannaf, dylai gofal fod yn dda i bawb. Drwy ofalu am ein pobl agored i niwed, dyna sut y cawn ein barnu fel cymdeithas, a heddiw, Weinidog, dyna sut rydym yn barnu'r Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru.

15:21

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are striking similarities between the appalling report we are now reading from Tawel Fan and the Winterbourne View scandal that arose in Bristol in 2011. In both cases, the most vulnerable of patients were disgracefully mistreated and neglected. In both cases, there was an unforgivable failure of safeguarding, and in both cases the patients who were the victims of institutional abuse must be our absolute priority.

Mae tebygrwydd trawiadol rhwng yr adroddiad ofnadwy rydym yn awr yn ei ddarllen ar ward Tawel Fan a sgandal Winterbourne View a gododd ym Mryste yn 2011. Yn y ddau achos, câi'r cleifion mwyaf agored i niwed eu cam-drin a'u hesgeuluso yn warthus. Yn y ddau achos, roedd methiant anfaddeuol i ddiogelu, ac yn y ddau achos, rhaid i'r cleifion a ddioddefodd gamdriniaeth sefydliadol gael blaenoriaeth lwyr gennym.

Following the incidents in Bristol four years ago, I said that although the events in question had occurred across the border, there were important lessons to be learned for Wales. At that time, I was given assurances by both CSSIW and HIW that firm action was being taken to, and I quote,

Yn dilyn yr achosion ym Mryste bedair blynedd yn ôl, er bod y digwyddiadau dan sylw wedi digwydd dros y ffin, dywedais fod yna wersi pwysig i Gymru eu dysgu. Ar y pryd, cefais sicrwydd gan AGGCC ac AGIC fod camau cadarn ar waith i

ensure that those who are vulnerable and accessing health and social care are properly safeguarded, and that their care and treatment needs are fully addressed.

'sicrhau bod y rheini sy'n agored i niwed, y mae arnynt angen gofal iechyd a chymdeithasol, yn cael eu diogelu'n briodol ac y rhoddir sylw llawn i'w hanghenion gofal a thriniaeth.'

I know that in the case of learning disability services, action was indeed taken. HIW's regime of unannounced inspections was strengthened, and far greater focus was given to capturing the experiences of care users, family members and carers.

O ran gwasanaethau anabledd dysgu, gwn fod camau wedi'u rhoi ar waith. Cryfhawyd cyfundrefn AGIC o arolygiadau dirybudd, a rhoddwyd llawer mwy o ffocws ar gasglu profiadau defnyddwyr gofal, aelodau o'r teulu a gofalwyr.

The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 has been brought in and has made possible a robust system for safeguarding vulnerable adults. The learning disabilities advisory group was established following the revelations at Winterbourne and made recommendations on this subject. And I would strongly suggest to the Minister that the work of this group is reflected upon when a way forward following the Tawel Fan report is planned. As I say, at least in the domains of social services and services for those with learning difficulties, lessons were learnt. However, we cannot assume that something like this will never happen again in these service areas, but involving all sectors in the planning of services and the development of regulations for safeguarding under the Act will, in my view, help to prevent another Tawel Fan. I also believe that the involvement of lay inspectors in the system ensures that inspections benefit from a service user perspective.

Pasiwyd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae wedi ei gwneud hi'n bosibl sicrhau system gadarn ar gyfer diogelu oedolion sy'n agored i niwed. Sefydlwyd y grŵp cynghori ar anableddau dysgu yn dilyn datgeliadau yn Winterbourne a gwnaeth argymhellion ar y pwnc. A byddwn yn awgrymu'n gryf i'r Gweinidog fod gwaith y grŵp hwn yn cael ei ystyried wrth gynllunio ffordd ymlaen yn dilyn adroddiad Tawel Fan. Fel y dywedais, o leiaf ym maes gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau ar gyfer rhai ag anawsterau dysgu, cafodd gwersi eu dysgu. Fodd bynnag, ni allwn gymryd yn ganiataol na fydd rhywbeth fel hyn byth yn digwydd eto yn y meysydd gwasanaeth hyn, ond bydd cynnwys pob sector wrth gynllunio gwasanaethau a datblygu rheoliadau ar gyfer diogelu o dan y Ddeddf yn help i atal Tawel Fan arall rhag digwydd yn fy marn i. Rwyf hefyd yn credu bod cynnwys arolygwyr lleyg yn y system yn sicrhau bod arolygiadau yn elwa o bersbectif defnyddwyr gwasanaeth.

I have read the report on Tawel Fan. It provokes anger and disgust in equal measure. The only good thing that can come out of it is if our systems improve as a result. I do believe there was improvement following Winterbourne, but the questions that now occur to me and that I suspect are in the minds of many of those I worked with in its aftermath are: were the lessons learned by HIW at an institutional level and were these changes extended to the care of all vulnerable people across all health settings? Sadly, this report suggests that the answer is 'no', and that, Dirprwy Lywydd, is something that we must put right now.

Rwyf wedi darllen yr adroddiad ar ward Tawel Fan. Mae'n ennyn dicter a ffieidd-dod fel ei gilydd. Yr unig beth da a all ddod ohono yw'r posibilrwydd y gallai ein systemau wella o ganlyniad iddo. Rwy'n credu bod gwelliant wedi digwydd yn sgil Winterbourne, ond y cwestiynau sy'n codi yn fy meddwl i yn awr, ac ym meddyliau nifer o'r rhai y gweithiais gyda hwy yn ei sgil rwy'n tybio, yw: a ddysgwyd y gwersi gan AGIC ar lefel sefydliadol ac a oedd y newidiadau'n ymestyn i gynnwys gofal yr holl bobl sy'n agored i niwed ym mhob lleoliad iechyd? Yn anffodus, mae'r adroddiad hwn yn awgrymu mai'r ateb yw 'na', ac mae hynny, Ddirprwy Lywydd, yn rhywbeth sy'n rhaid i ni ei gywiro ar hyn o bryd.

15:25

## Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As others have said before, the findings of the report before us today are deeply shocking. The words of those who gave evidence of what they witnessed are haunting. But any discomfort that we may feel reading them is nothing as to that of those who suffered under that regime and the suffering of their relatives, who had every right to think and to expect that their loved ones were in a place of safety, where they would be cared for.

Fel y mae eraill wedi dweud o'r blaen, mae canfyddiadau'r adroddiad sydd ger ein bron heddiw yn frawychus iawn. Mae geiriau'r rhai a roddodd dystiolaeth o'r hyn a brofwyd ganddynt yn hunllefus. Ond nid yw'r anghysur a deimlwn wrth eu darllen yn ddim o gymharu â'r hyn a brofwyd gan y rhai a ddioddefodd o dan y drefn honno a dioddefaint eu perthnasau a oedd â phob hawl i feddwl ac i ddisgwyl y byddai eu hanwyliaid mewn man diogel, lle y byddent yn cael gofal.

The report, I believe, tells us of a complete failure of all the systems that should have been in place to protect our most vulnerable citizens. It is, I believe, a complete corruption of professional standards, of internal mechanisms of reporting concerns and whistleblowing, of the board's complaints procedure, of the board's governance arrangements, and, finally, Healthcare Inspectorate Wales, who should have been the final backstop to identify these problems and put an end to them.

Rwy'n credu bod yr adroddiad yn dweud wrthym am fethiant llwyr yr holl systemau a ddylai fod wedi bod ar waith i ddiogelu ein dinasyddion mwyaf agored i niwed. Yn fy marn i, roedd yn llygriad llwyr o'r safonau proffesiynol, o systemau mewnol ar gyfer adrodd am bryderon a chwythu'r chwiban, o weithdrefn gwynion y bwrdd, o drefniadau llywodraethu'r bwrdd, ac yn olaf, o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a ddylai fod wedi bod yn fan terfynol ar gyfer nodi'r problemau hyn a rhoi diwedd arnynt.

Now, like Elin Jones did in her contribution, I think it is right to acknowledge the challenges of nursing and caring in this specialty. It's not an easy job. It's certainly not a glamorous one, and it's not a well-paid one either. But those challenges cannot excuse—cannot excuse—the behaviour of staff and the levels of care that are documented in the report. Now, those staff will be held accountable by their professional bodies. A number of them have been reported, as we hear, to the council and to the General Medical Council. But what about others? What about others? Now, in the legislation currently before this Assembly that looks to improve the regulation and inspection of social care, the Minister has made an important step forward, I believe, in acknowledging that accountability for quality care goes beyond that of those who are on the front line but actually reaches up to those who are in positions of decision making, budget setting and other responsibilities, because, in the end, if you have not got enough staff alongside you to enable you to do your job properly and you report those concerns but there are no additional staff forthcoming, what are you to do? My concern here, once again, as always in these circumstances, is that it is the front-line staff who will carry the can and those who are often better paid and better resourced will get away scot-free. That cannot be right.

Yn awr, fel y gwnaeth Elin Jones yn ei chyfraniad, rwy'n meddwl ei bod yn iawn i ni gydnabod heriau nyrsio a gofal yn yr arbenigedd hwn. Nid yw'n waith hawdd. Yn sicr, nid yw'n waith urddasol, ac nid yw'n un sy'n talu'n dda chwaith. Ond ni all yr heriau hynny esgusodi—ni allant esgusodi—ymddygiad staff a'r lefelau o ofal sy'n cael eu cofnodi yn yr adroddiad. Nawr, bydd y staff hynny'n cael eu dwyn i gyfrif gan eu cyrff proffesiynol. Fel y clywsom, cafodd nifer ohonynt eu dwyn i sylw'r cyngor a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol. Ond beth am eraill? Beth am bobl eraill? Nawr, yn y ddeddfwriaeth sydd gerbron y Cynulliad hwn ar hyn o bryd sy'n anelu i wella'r broses o reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol, mae'r Gweinidog wedi gwneud cam pwysig ymlaen, rwy'n credu, wrth gydnabod bod atebolrwydd am ofal o ansawdd yn mynd y tu hwnt i'r rhai sydd ar y rheng flaen ac mewn gwirionedd yn cyrraedd swyddi pobl sy'n gwneud penderfyniadau, yn gosod cyllidebau a chyfrifoldebau eraill, oherwydd yn y pen draw, os nad oes gennych ddigon o staff gyda chi i'ch galluogi i wneud eich gwaith yn iawn a'ch bod yn mynegi'r pryderon hynny a dim staff ychwanegol yn dod, beth rydych chi'n mynd i wneud? Fy mhryder yma, unwaith eto, fel bob amser yn yr amgylchiadau hyn, yw mai staff y rheng flaen sy'n mynd i dalu'r pris a'r rhai sy'n aml ar gyflogau gwell a mwy o adnoddau ganddynt yn dianc yn ddigerydd. Ni all hynny fod yn iawn.

It also correct to say that this report comes in a long line of critical reports into the management of this particular health board, and it does beg the question: how many more? How much more? Now, when social services in Swansea were deemed to be putting people at risk, the then Deputy Minister intervened, stopped it and put in her commissioners. When this Assembly Government thought that Anglesey council wasn't doing what was right by the citizens of Anglesey, they intervened and sent in commissioners. When Pembrokeshire education was in trouble, they sent in commissioners and in Blaenau Gwent. Now, if it's good enough for the schooling of Blaenau Gwent children or the public services of Anglesey or the social services of Swansea, what can be more important than the fact that people were cared for in this way? If this is not enough evidence for putting the health board into special measures, then I have to wonder, Deputy Presiding Officer, what is. The Government needs to act now. This is an organisation that cannot transform itself. It's quite clear. I'm not saying that they don't want to; I'm saying that they can't, they're not able to. They need help and they need it now and that must be forthcoming in a more robust way than what we've seen by simply sending Ann Lloyd to north Wales to do another report. It's got to be better than that. I've got concerns, for instance, that the very person who is now the chair of this organisation was the chief executive of Healthcare Inspectorate Wales, which was clearly an organisation itself not doing its job. So, we've got to wonder whether there is capacity within the organisation to make the changes that we need.

Mae'n wir dweud hefyd mai'r adroddiad hwn yw'r diweddaraf mewn rhes hir o adroddiadau beirniadol ar drefniadau rheoli y bwrdd iechyd hwn, ac mae'n mynnu ateb i'r cwestiwn: faint rhagor? Faint rhagor? Nawr, pan ystyrid bod y gwasanaethau cymdeithasol yn Abertawe yn rhoi pobl mewn perygl, ymyrrodd y Dirprwy Weinidog ar y pryd i'w atal a gyrrodd ei chomisiynwyr i mewn. Pan oedd y Llywodraeth hon yn meddwl nad oedd Cyngor Ynys Môn yn gwneud yr hyn a oedd yn iawn ar gyfer dinasyddion Ynys Môn, rhoddodd gamau ar waith i ymyrryd a gyrru comisiynwyr i mewn. Pan oedd addysg yn Sir Benfro mewn trafferth, gyrrwyd comisiynwyr i mewn, ac ym Mlaenau Gwent. Nawr, os yw'n ddigon da i addysg plant ym Mlaenau Gwent neu wasanaethau cyhoeddus Ynys Môn neu wasanaethau cymdeithasol Abertawe, beth a allai fod yn bwysicach na'r ffaith fod pobl wedi cael gofal yn y ffordd hon? Os nad yw hyn yn ddigon o dystiolaeth dros osod y bwrdd iechyd o dan weithdrefn mesurau arbennig, yna rhaid i mi feddwl beth sydd, Ddirprwy Lywydd. Mae angen i'r Llywodraeth weithredu yn awr. Mae hwn yn sefydliad na all drawsnewid ei hun. Mae'n eithaf clir. Nid wyf yn dweud nad ydynt yn dymuno; rwy'n dweud nad ydynt yn gallu, nid ydynt yn gallu gwneud hynny. Mae arnynt angen cymorth ac maent ei angen yn awr a rhaid i hynny ddod mewn ffordd fwy cadarn na'r hyn a welsom drwy anfon Ann Lloyd i ogledd Cymru i lunio adroddiad arall. Mae'n rhaid iddo fod yn well na hynny. Mae gen i bryderon, er enghraifft, mai'r union berson sydd bellach yn gadeirydd y sefydliad hwn oedd prif weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a oedd yn amlwg yn sefydliad nad oedd yn gwneud ei waith. Felly, mae'n rhaid i ni feddwl a oes gallu o fewn y sefydliad i wneud y newidiadau sydd eu hangen arnom.

That finally brings me, very quickly, Deputy Presiding Officer, to the issue of Healthcare Inspectorate Wales. They went to Betsi in 2012. They talked about robust training structures and strategies in place for adult protection. Well, that report looks pretty thin and hollow in the light of what's before us today. We need a new inspection regime for our healthcare, one that is outside of Government, one that is properly resourced and has the skills and the capacity to be the final safeguard.

Daw hynny â mi yn olaf, yn gyflym iawn, Ddirprwy Lywydd, at fater Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Aethant at Betsi Cadwaladr yn 2012. Buont yn siarad am roi strwythurau a strategaethau hyfforddi cadarn yn eu lle ar gyfer diogelu oedolion. Wel, mae'r adroddiad hwnnw yn edrych yn eithaf tenau a gwag yng ngoleuni'r hyn sydd ger ein bron heddiw. Mae angen trefn arolygu newydd ar ein gofal iechyd, un sy'n annibynnol oddi ar y Llywodraeth, un gydag adnoddau priodol ac sy'n meddu ar y sgiliau a'r gallu i ddarparu diogelwch terfynol.

15:31

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I totally agree with much of what's been said. I'm particularly happy that the chief executive of the board has made a sincere apology and said that things will progress and they'll progress apace. I agree with some of what Elin Jones has said about how horrified we are to read a report like this, and I certainly agree with Gwenda Thomas when she says—and I do agree with this—that lay inspectors should be introduced into the regime, because I'm afraid that one of the problems that you have in the health service, and in such a difficult area as dementia, is that there is a danger that people get desensitised to what goes on. And when I say 'desensitised', I don't mean deliberately; it just so happens that, as I think Elin said, you can't underestimate the challenge that staff feel.

Cytunaf yn llwyr â llawer o'r hyn sydd wedi cael ei ddweud. Rwy'n arbennig o falch fod prif weithredwr y bwrdd wedi cynnig ymddiheuriad didwyll ac wedi dweud y bydd pethau'n symud ymlaen ac y byddant yn symud ymlaen yn gyflym. Cytunaf â rhywfaint o'r hyn y mae Elin Jones wedi dweud am ein harswyd wrth ddarllen adroddiad fel hwn, ac rwy'n sicr yn cytuno â Gwenda Thomas pan ddywed—ac rwy'n cytuno â hyn—y dylid cyflwyno arolygwyr lleyg yn rhan o'r weithdrefn, gan fy mod yn ofni mai un o'r problemau sydd gennych yn y gwasanaeth iechyd, ac mewn maes mor anodd â dementia, yw bod perygl y caiff pobl eu dadsensiteiddio i'r hyn sy'n digwydd. Ac wrth ddweud 'dadsensiteiddio', nid wyf yn golygu yn fwriadol; fel y mae'n digwydd, fel y dywedodd Elin rwy'n meddwl, ni allwch fychanu'r her y mae staff yn ei theimlo.

Unfortunately, I know this from personal experience. I was the main carer for my mother who suffered from Alzheimer's and twice had to be sectioned in a locked unit and I saw what went on there. But what I can tell you is that I did see some very, very difficult things there that nurses and staff had to deal with; I really did. And I was horrified at some of those things that they had to face. In the main, I think they faced them with good humour and kindness, gentleness and care and compassion. Indeed, I remember talking, long after my mother's time, to the sister of the unit she was on, and her saying to me—. She'd actually written to me to say—we'd become friends over the periods of time I visited there—'I'm leaving now; I'm leaving this particular part of care because I feel burnt out.' It's a huge, huge challenge.

Yn anffodus, rwy'n gwybod hyn o brofiad personol. Fi oedd prif ofalwr fy mam a oedd yn dioddef o glefyd Alzheimer a ddwy waith, bu'n rhaid ei gosod mewn uned dan glo a gwelais yr hyn a oedd yn digwydd yno. Ond yr hyn y gallaf ei ddweud wrthych yw fy mod wedi gweld rhai o'r pethau anodd iawn, iawn yno sy'n rhaid i nyrsys a staff ddelio â hwy; o ddifrif, fe'u gwelais. Ac roeddwn yn arswydo at rai o'r pethau roedd yn rhaid iddynt eu hwynebu. Ar y cyfan, rwy'n meddwl eu bod yn eu hwynebu mewn hwyliau da a chyda charedigrwydd, addfwynder, gofal a thosturi. Yn wir, ymhell wedi cyfnod fy mam yno, rwy'n cofio siarad â phrif nyrs yr uned lle roedd fy mam wedi bod, ac fe ddywedodd wrthyf—. Fe ysgrifennodd ataf i ddweud mewn gwirionedd—roeddem wedi dod yn ffrindiau dros y cyfnodau o amser y bûm yn ymweld â'r lle—'rwy'n gadael yn awr; rwy'n gadael y maes gofal penodol hwn am fy mod yn teimlo nad oes gennyf ragor o egni ar ôl.' Mae'n her eithriadol o fawr.

What people working in such situations need is training. Yes, of course, they need training in how to handle these situations. Somebody said yesterday to me, 'Well, we all know people who suffer from dementia these days'; I think most of us do one way or another, but we're not talking about those cases where people are just on the first part of the road to what can happen with Alzheimer's and dementia. For many people, they become aggressive; for others, they don't and they remain perfectly happy with their lot in life. But I think what bothers me here is that there seems to have been no structure at all in what happened there. People and families were saying what was happening to their loved ones and very little notice was taken. And even when notice was taken, it didn't escalate at all to where it should have done. I'm surprised at that, because my experiences were quite a long time ago and I thought that things had progressed since then. I'm not just surprised, actually; I'm horrified to see that things haven't gone on. Other people must have known what was going on. We've seen contributions—I've read the report. You see people commenting—at different levels—about what was being said.

Yr hyn sydd ei angen ar bobl sy'n gweithio mewn sefyllfaoedd o'r fath yw hyfforddiant. Oes, wrth gwrs bod angen hyfforddiant arnynt ar sut i ymdrin â sefyllfaoedd fel hyn. Dywedodd rhywun wrthyf ddoe, 'Wel, rydym i gyd yn adnabod pobl sy'n dioddef o ddementia y dyddiau hyn'; rwy'n meddwl bod y rhan fwyaf ohonom mewn un ffordd neu'r llall, ond nid ydym yn sôn am yr achosion lle y mae pobl ar ran gyntaf y daith o ran yr hyn a all ddigwydd gyda chlefyd Alzheimer a dementia. I lawer o bobl, maent yn troi'n ymosodol; i eraill, nid yw hynny'n digwydd ac maent yn parhau i fod yn gwbl fodlon eu byd. Ond rwy'n credu mai'r hyn sy'n fy mhoeni yma yw ei bod yn ymddangos nad oedd unrhyw strwythur o gwbl i'r hyn a ddigwyddodd yno. Roedd pobl a theuluoedd yn dweud beth oedd yn digwydd i'w hanwyliaid ac ychydig iawn o sylw a gymerwyd o hynny. A hyd yn oed pan roddwyd sylw i'r mater, ni chafodd ei uwchgyfeirio o gwbl i ble y dylai fod wedi'i uwchgyfeirio. Rwy'n synnu at hynny, oherwydd roedd fy mhrofiadau i gryn amser yn ôl ac roeddwn yn meddwl fod pethau wedi symud ymlaen ers hynny. Nid synnu ydw i, mewn gwirionedd; rwy'n arswydo o weld nad yw pethau wedi symud ymlaen. Mae'n rhaid bod pobl eraill yn gwybod beth oedd yn digwydd. Rydym wedi gweld cyfraniadau—rwyf wedi darllen yr adroddiad. Fe welwch bobl yn gwneud sylwadau—ar wahanol lefelau—am yr hyn a oedd yn cael ei ddweud.

When you're the relative of a person with dementia, what you're actually seeing, sadly, very often, is a person you care about ceasing to exist. They cease to exist as themselves, they lose their sense of self, and they are very frightened. They are often very unhappy, but I think being scared is quite a general condition that people find themselves in, because they don't know what's happening. And that's why you need staff who understand, and can talk to relatives about what is happening, and explain carefully about what is happening.

Os ydych yn berthynas i berson â dementia, yr hyn a welwch yn aml iawn, yn anffodus, yw person rydych yn ei garu yn peidio â bodoli. Dônt i ben â bod yn hwy eu hunain, collant eu synnwyr o'u hunain, ac maent yn ofnus iawn. Maent yn aml yn anhapus iawn, ond rwy'n meddwl fod ofn yn gyflwr pur gyffredin i bobl am nad ydynt yn gwybod beth sy'n digwydd. A dyna pam y mae angen staff sy'n deall, ac yn gallu siarad â pherthnasau am yr hyn sy'n digwydd, ac sy'n gallu esbonio'n ofalus yr hyn sy'n digwydd.

Now, I tend to agree that there have been failings at many levels here. I think these families definitely need some sort of closure on what's going on, and I can understand why they feel that action has to be taken. I must say, from my perspective, I feel that, if people are proved to be culpable, they should be dealt with in the appropriate manner, at any level.

Nawr, rwy'n tueddu i gytuno bod methiannau wedi bod ar sawl lefel yma. Rwy'n meddwl bod y teuluoedd hyn yn bendant angen rhyw fodd o gau'r drws ar yr hyn sy'n digwydd, a gallaf ddeall pam eu bod yn teimlo bod yn rhaid rhoi camau gweithredu ar waith. Rhaid i mi ddweud, o fy safbwynt i, rwy'n teimlo, os profir bod pobl ar fai, dylid ymdrin â hwy yn y modd priodol, ar unrhyw lefel.

15:36

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The health board states it was alerted to serious concerns regarding patient care on the Tawel Fan mental health ward, on the Ablett unit, at Ysbyty Glan Clwyd, in December 2013, but concerns about this unit go back a lot further. The north Wales community health council has made it clear that the Welsh health Minister is responsible for setting the policy and financial frameworks within which our health board has to operate. However, past and present, whenever I've raised concerns with Welsh health Ministers regarding health board provision in north Wales, the response has been that this is a matter for the health board. Despite UK Government's action to independently investigate and act upon failures in quality of care and treatment provided by English hospitals, the Welsh Government has rejected repeated calls for an equivalent investigation in Wales.

Mae'r bwrdd iechyd yn dweud ei fod wedi cael gwybod am bryderon difrifol ynghylch gofal cleifion ar ward iechyd meddwl Tawel Fan, yn uned Ablett, Ysbyty Glan Clwyd, ym mis Rhagfyr 2013, ond mae pryderon am yr uned hon yn mynd yn ôl yn llawer pellach. Mae cyngor iechyd cymuned gogledd Cymru wedi ei gwneud yn glir mai Gweinidog iechyd Cymru sy'n gyfrifol am osod y polisi a'r fframweithiau ariannol y mae'n rhaid i'n bwrdd iechyd weithredu o'u mewn. Fodd bynnag, yn y gorffennol ac yn awr, pa bryd bynnag y lleisiais bryderon wrth Weinidogion iechyd Cymru ynghylch darpariaeth y bwrdd iechyd yng ngogledd Cymru, yr ymateb oedd mai mater i'r bwrdd iechyd yw hwn. Er gwaethaf camau Llywodraeth y DU i ymchwilio'n annibynnol a gweithredu ar fethiannau o ran ansawdd y gofal a'r driniaeth a ddarperir gan ysbytai yn Lloegr, mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod galwadau mynych am ymchwiliad cyfatebol yng Nghymru.

In 2007, I represented an Ablett unit patient, who told me that the then health trust had stated in writing that she had been abusive and threatening, but the trust couldn't produce any evidence, and admitted to destroying the CCTV tapes that recorded the alleged incident. She added that the nurse who made these accusations had been subject to disciplinary action in the past.

Yn 2007, cynrychiolais glaf yn uned Ablett, a ddywedodd wrthyf fod yr ymddiriedolaeth iechyd ar y pryd wedi datgan yn ysgrifenedig fod y claf wedi ymddwyn yn sarhaus ac yn fygythiol, ond ni allai'r ymddiriedolaeth gynhyrchu unrhyw dystiolaeth a chyfaddefodd ei bod wedi dinistrio tapiau'r camerâu teledu cylch cyfyng a gofnodai'r digwyddiad honedig. Ychwanegodd y claf fod y nyrs a wnaeth yr honiadau wedi wynebu camau disgyblu yn y gorffennol.

In 2009, I represented a constituent who alleged that the treatment received by her husband in the Ablett unit nearly killed him, that three other patients admitted around the same time as her husband had similar experiences, and that she was now worried about the treatment others may receive in this unit. Her husband suffered from Alzheimer's disease and terminal cancer. I was copied in on the complaint in respect of another patient at the time, with vascular dementia, which included distressing 'before' and 'after' photographs.

Yn 2009, cynrychiolais etholwr a honnodd fod y driniaeth a gafodd ei gŵr yn uned Ablett bron â'i ladd, fod tri chlaf arall a dderbynniwyd i'r uned oddeutu'r un adeg â'i gŵr wedi cael profiadau tebyg, a'i bod yn awr yn poeni ynglŷn â'r driniaeth y gallai pobl eraill ei chael yn yr uned hon. Roedd ei gŵr yn dioddef o glefyd Alzheimer a chanser terfynol. Cefais gopi o gŵyn mewn perthynas â chlaf arall â dementia fasgwlaidd ar y pryd, a oedd yn cynnwys lluniau 'cyn' ac 'ar ôl' torcalonnus.

The 2012 correspondence from a professor of psychiatry at Bangor's Hergest mental health unit identified two critical concerns—patient safety, and the future of the Hergest and Ablett units. This stated that the medical staffing problem has led management to contemplate closing one unit to admissions completely—either Hergest or Ablett—and that there are two ideologies at play here. One is a current fashion about service configuration, taken to ideological extremes, the other is managerialism—a set of managers who believe that what they say goes.

Nododd gohebiaeth yn 2012 gan athro seiciatreg yn uned iechyd meddwl Hergest Bangor ddau bryder allweddol—diogelwch cleifion, a dyfodol unedau Hergest a Ablett. Dywedodd yr ohebiaeth fod problem staffio ymhlith staff meddygol wedi peri i reolwyr ystyried cau un uned i dderbyniadau yn gyfan gwbl—naill ai Hergest neu Ablett—a bod dwy ideoleg ar waith yma. Mae un yn ymwneud â ffasiwn gyfredol mewn perthynas â chyfluniad gwasanaethau wedi ei ymestyn i eithafion ideolegol, ac mae'r llall yn ymwneud â rheolwriaeth—set o reolwyr sy'n credu mai'r hyn y maent hwy'n ei ddweud yw'r drefn.

Despite claims to the contrary, the failures of care on the Tawel Fan ward are not unique. A 2013 ombudsman report criticised the treatment of an older woman by Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board's Princess of Wales Hospital. In 2014, a review of the standards of care for older people at ABMU health board's Princess of Wales Hospital, and Neath Port Talbot Hospital, identified unacceptable levels of care, generating calls for a public inquiry, rejected by this health Minister.

Er gwaethaf honiadau i'r gwrthwyneb, nid yw'r methiannau gofal ar ward Tawel Fan yn unigryw. Beirniadodd adroddiad ombwdsmon yn 2013 y modd y cafodd menyw hŷn ei thrin gan Ysbyty Tywysoges Cymru Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Yn 2014, nododd adolygiad o safonau gofal i bobl hŷn yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, lefelau gofal annerbyniol, gan arwain at alwadau am ymchwiliad cyhoeddus, a gwrthodwyd y rhain gan y Gweinidog iechyd hwn.

Following the damning 2013 report on Betsi Cadwaladr University Local Health Board's governance arrangements, this health Minister established a team to lead the board's response, led, yes, by the chief executive of ABMU health board, and the acting chief executive of Betsi Cadwaladr, who had been in that role during the period to which the Government's report applied, when the chief executive was largely absent for personal reasons. At last Friday's meeting with some north Wales AMs and MPs, the health board told us that north Wales hospitals had lacked a proper management structure during the periods of which the Tawel Fan ward investigation applied, when consultants were reporting directly to the board's chief executive. When I pointed out that the chief executive had been absent for much of this time, and asked who they were, therefore, reporting to, the board's current director of strategy and former acting chief executive confirmed that it was him.

Yn dilyn adroddiad damniol 2013 ar drefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, sefydlodd y Gweinidog Iechyd dîm i arwain ymateb y bwrdd, o dan arweiniad, ie, prif weithredwr bwrdd iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, a phrif weithredwr dros dro Betsi Cadwaladr, a oedd wedi bod yn y rôl honno dros y cyfnod roedd adroddiad y Llywodraeth yn ymwneud ag ef, pan oedd y prif weithredwr yn absennol i raddau helaeth am resymau personol. Yng nghyfarfod dydd Gwener diwethaf gyda rhai o ACau ac ASau gogledd Cymru, dywedodd y bwrdd iechyd wrthym nad oedd strwythur rheoli priodol gan ysbytai gogledd Cymru dros y cyfnodau roedd ymchwiliad ward Tawel Fan yn ymwneud â hwy, pan oedd meddygon ymgynghorol yn adrodd yn uniongyrchol i brif weithredwr y bwrdd. Pan nodais fod y prif weithredwr wedi bod yn absennol am lawer o'r amser hwn, a gofyn felly wrth bwy roeddent yn adrodd, cadarnhaodd cyfarwyddwr strategaeth presennol y bwrdd a'r cyn-brif weithredwr dros dro mai wrtho ef roeddent yn adrodd.

The Ockenden report on the Tawel Fan ward identifies shocking mistreatment and institutional abuse. Its author has identified a lack of action by the senior leadership team on previous reports, highlighting specific concerns, and stated it was also likely there were significant under-reporting of serious incidents. The managers and leaders in the health board who are responsible must be held to account and, for the reasons detailed, internal investigation and disciplinary processes by the health board cannot command public confidence. As the chair of the north Wales local medical committee has said, we need an independent inquiry into this board. Now, in conclusion, I urge the Minister to address his response to the older constituents who contacted me after the publication of the report to express their horror at the report's findings and their fear for themselves and their own loved ones if they become dependent on care in the future.

Mae adroddiad Ockenden ar ward Tawel Fan yn nodi camdriniaeth frawychus a cham-drin sefydliadol. Mae ei awdur wedi nodi diffyg gweithredu gan yr uwch dîm arwain ar ganfyddiadau adroddiadau blaenorol, gan dynnu sylw at bryderon penodol, a dywedodd ei bod hefyd yn debygol fod digwyddiadau difrifol wedi'u tangofnodi'n sylweddol. Rhaid i reolwyr ac arweinwyr yn y bwrdd iechyd sy'n gyfrifol gael eu gwneud yn atebol ac am y rhesymau a nodwyd, ni all ymchwiliadau mewnol a phrosesau disgyblu gan y bwrdd iechyd ennyn hyder y cyhoedd. Fel y mae cadeirydd pwyllgor meddygol lleol gogledd Cymru wedi dweud, mae angen ymchwiliad annibynnol i'r bwrdd hwn. Nawr, i gloi, rwy'n annog y Gweinidog i gyfeirio ei ymateb i'r etholwyr hŷn a gysylltodd â mi ar ôl cyhoeddi'r adroddiad i fynegi eu harswyd ynglŷn â chanfyddiadau'r adroddiad a'u hofn drostynt eu hunain a'u hanwyliaid os byddant yn mynd yn ddibynnol ar ofal yn y dyfodol.

15:41 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, there can be no doubt in anybody's mind that the level of abuse found in Tawel Fan was extreme. It was institutionalised. It has no place anywhere within any care setting at all. It's not what we expect and we cannot allow it ever to happen again. But, we also need to give some reassurances to families who have loved ones in elderly mentally ill care settings at the minute that this is not systematic. I sincerely hope that this was an isolated episode, although the report does say it's unsure about how long before the report was actually commissioned the abuse and the behaviour that was allowed to go on at Tawel Fan was actually happening. But, I do sincerely hope that we can put some assurances in the way of those people who may have to use EMI settings in the future.

Wel, ni all fod amheuaeth ym meddwl neb fod lefel y cam-drin ar ward Tawel Fan yn eithafol. Roedd wedi'i sefydliadoli. Nid oes iddo unrhyw le yn unman mewn unrhyw leoliad gofal o gwbl. Nid dyma a ddisgwyliwn ac ni allwn ganiatáu iddo ddigwydd eto. Ond mae angen i ni roi rhywfaint o sicrwydd hefyd i deuluoedd sydd ag anwyliaid mewn lleoliadau gofal salwch meddwl i'r henoed ar hyn o bryd nad yw hyn yn systematig. Rwy'n mawr obeithio mai achos ynysig yw hwn, er bod yr adroddiad yn dweud ei fod yn ansicr pa mor hir cyn i'r adroddiad gael ei gomisiynu y caniatawyd i'r cam-drin a'r camymddwyn ddigwydd ar ward Tawel Fan mewn gwirionedd. Ond rwy'n gobeithio'n fawr y gallwn roi rhywfaint o sicrwydd i bobl a allai fod angen defnyddio lleoliadau i henoed bregus eu meddwl yn y dyfodol.

The board must have now a robust action plan and I think that we will have to ask the board in its meeting on Tuesday to seriously consider that everybody who has got any connection whatsoever with Tawel Fan must not be allowed to slip through the net. I would expect the Minister to personally monitor the board's actions and to intervene to ensure appropriate actions are taken. I don't feel that those in senior management or at junior levels within the board, on the front line or wherever throughout the hospital, should be afforded the possibility of becoming judge and jury over some others of their peers or their colleagues. That's why I have called, and I will reiterate again today my call, for an independent review encompassing a board-to-ward review. It should be done quickly and it seems sensible to me that Mrs Ockenden, who has carried out this report, should be seen as the person who has the confidence of the families involved, and she should be able to carry out the review quickly without having to go back and research more and more evidence. Nobody can escape scrutiny, or should escape scrutiny, of what has happened. It is for that reason that I don't believe the LHB can carry out any review.

Rhaid i'r bwrdd gael cynllun gweithredu cadarn yn awr a chredaf y bydd yn rhaid i ni ofyn i'r bwrdd yn ei gyfarfod ddydd Mawrth i ystyried o ddifrif na ddylid gadael i neb sydd ag unrhyw gysylltiad o gwbl â ward Tawel Fan lithro drwy'r rhwyd. Byddwn yn disgwyl i'r Gweinidog fonitro camau gweithredu'r bwrdd yn bersonol ac ymyrryd er mwyn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd. Nid wyf yn teimlo y dylai fod unrhyw bosibilrwydd i uwch reolwyr neu rai ar lefelau is o fewn y bwrdd, yn y rheng flaen neu mewn unrhyw ran o'r ysbyty gael barnu eraill o'u cymheiriaid neu eu cydweithwyr. Dyna pam y gelwais, a pham y byddaf yn ailadrodd eto heddiw fy ngalwad, am adolygiad annibynnol i gynnwys adolygiad o'r bwrdd i'r ward. Dylid ei wneud yn gyflym ac mae'n ymddangos yn synhwyrol i mi y dylai Mrs Ockenden, a gyflawnodd yr adroddiad hwn, gael ei gweld fel y person i ennyn hyder y teuluoedd dan sylw, a dylai allu cynnal yr adolygiad yn gyflym heb orfod mynd yn ôl i ymchwilio mwy a mwy o dystiolaeth. Ni all neb ddianc rhag y broses graffu, neu ni ddylai neb allu dianc rhag y broses o graffu ar yr hyn sydd wedi digwydd. Dyna pam nad wyf yn credu y gall y BILl gynnal adolygiad.

It is obvious to me that the governance arrangements of Betsi Cadwaladr are not sufficient. I see the lack of a clear accountability as one of the main issues that clearly failed those families and their loved ones. I believe whatever the board attempts to do it will be seen as having failed its most vulnerable patients and their families, and the lack of competence demonstrated by managers clearly points to a major review that is needed as to how complaints are handled when they're necessary. That review must happen. It's vital for us to be able to move forward, because I was horrified to read time and time again how families had raised genuine concerns about the care of their loved ones and, yet, they'd been dismissed in some awful manner by professional staff. Then, the families became powerless and felt powerless to pursue their concerns for fear of repercussions on their loved ones still in Tawel Fan.

Mae'n amlwg i mi nad oedd trefniadau llywodraethu Betsi Cadwaladr yn ddigonol. Rwy'n gweld mai diffyg atebolrwydd clir oedd un o'r prif broblemau amlwg a arweiniodd at wneud cam â'r teuluoedd hyn a'u hanwyliaid. Beth bynnag y ceisia'r bwrdd ei wneud, rwy'n credu y bydd pobl yn ystyried ei fod wedi gwneud cam â'i gleifion mwyaf agored i niwed a'u teuluoedd, ac mae anghymhwystra rheolwyr yn amlwg yn dynodi'r angen am adolygu'n helaeth y modd y caiff cwynion eu trin pan fo'u hangen. Rhaid i'r adolygiad hwnnw ddigwydd. Mae'n hanfodol er mwyn i ni allu symud ymlaen, gan fy mod yn arswydo wrth ddarllen dro ar ôl tro sut y lleisiodd teuluoedd bryderon dilys am ofal eu hanwyliaid ac eto, cawsant eu diystyru mewn modd ofnadwy gan staff proffesiynol gan beri i'r teuluoedd deimlo nad oedd ganddynt unrhyw rym i fynd ar drywydd eu pryderon rhag ofn i hynny beri ôl-effeithiau i'w hanwyliaid a oedd yn dal ar ward Tawel Fan.

Now, I feel that the families need to have some continued involvement with the board and, I believe, with the Government Minister, and that is why I think I will ask you, and perhaps you and the Deputy Minister, to meet those families affected. You should talk to them, you should listen to them and you should offer them the fact that, as you said earlier, we will make sure that this doesn't happen again. We have to make sure that those steps are in order, and that they are there, and we have to make sure that they are seen as being taken seriously so that those families can have that justice that they rightly seek and so deserve for their loved ones.

Nawr, rwy'n teimlo bod angen i'r teuluoedd gael parhau i ymwneud â'r bwrdd ac yn fy marn i, â Gweinidog y Llywodraeth, a dyna pam rwy'n meddwl y byddaf yn gofyn i chi, ac efallai chi a'r Dirprwy Weinidog, i gwrdd â'r teuluoedd yr effeithir arnynt. Dylech siarad â hwy, dylech wrando arnynt a dylech gynnig y ffaith, fel y dywedasoch yn gynharach, y byddwn yn gwneud yn siŵr nad yw hyn yn digwydd eto. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr fod y camau hynny mewn trefn, a'u bod yno, ac mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr fod pobl yn gweld eu bod yn cael eu hystyried o ddifrif er mwyn i'r teuluoedd gael y cyfiawnder y maent yn iawn i'w geisio ac yn ei haeddu i'w hanwyliaid.

The families will also need to have much support and advice through the next stages. So, I believe that the Government must look to intervene where they now know that the Government's arrangements at Betsi Cadwaladr university health board are weak. The Government must be confident that Betsi Cadwaladr can continue. At the moment, I don't have that confidence in Betsi Cadwaladr. The disciplinary actions that need to be taken need to be taken swiftly and need to be across all pay grades. As I've said before, nobody should be spared if they have been part and parcel of any of this institutionalised bullying; neither should they be able to be involved in any disciplinary actions of those beneath them as juniors or even as peers. As I say, the families cannot carry on waiting another 18 months for another report. They need to see that. 'Lessons learned'—that's a phrase that we use. It's quite clear to me that Betsi Cadwaladr are not capable of learning lessons. They've let the people of north Wales down time and time again and I think that this is the final nail in the coffin for Betsi Cadwaladr.

Hefyd, bydd angen i'r teuluoedd gael llawer o gefnogaeth a chyngor drwy'r camau nesaf. Felly, rwy'n credu bod yn rhaid i'r Llywodraeth ystyried ymyrryd lle y maent yn gwybod yn awr fod trefniadau'r Llywodraeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn wan. Rhaid i'r Llywodraeth fod yn hyderus y gall Betsi Cadwaladr barhau. Ar hyn o bryd, nid oes gennyf hyder o'r fath yn Betsi Cadwaladr. Rhaid i'r camau disgyblu sydd angen eu rhoi ar waith gael eu cymryd yn gyflym ac mae angen iddynt ddigwydd ar draws yr holl raddfeydd cyflog. Fel y dywedais o'r blaen, ni ddylid arbed neb os ydynt wedi bod yn rhan annatod o'r bwlio sefydliadol hwn; ni ddylent ychwaith allu cymryd rhan mewn unrhyw gamau disgyblu a roddir ar waith yn erbyn staff oddi tanynt fel staff is neu hyd yn oed staff ar yr un lefel â hwy. Fel y dywedais, ni all y teuluoedd barhau i aros 18 mis arall am adroddiad arall. Mae angen iddynt weld hynny. 'Gwersi a ddysgwyd'—dyna ymadrodd a ddefnyddiwn. Mae'n eithaf amlwg i mi nad oedd Betsi Cadwaladr yn gallu dysgu gwersi. Maent wedi gwneud cam â phobl gogledd Cymru dro ar ôl tro ac rwy'n meddwl mai dyma'r hoelen olaf yn arch Betsi Cadwaladr.

15:46 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae bod ag aelod o'r teulu neu gyfaill yn dioddef o ddementia yn rhywbeth sy'n achosi digon o boen meddwl ynddo ef ei hun, ond mae'r gofal y mae cleifion wedi ei dderbyn yn Nhawel Fan, fel sy'n cael ei amlinellu yn yr adroddiad damniol yma, wedi achosi loes a phoen meddwl dwfn iawn i unrhyw un sy'n gysylltiedig ag ef neu, o ran hynny, i unrhyw un sy'n darllen yr adroddiad yma. Mae'r adroddiad niweidiol yma yn un arall sydd wedi codi cwestiynau ym meddyliau pobl gogledd Cymru ynglŷn â bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr. Mae pobl gogledd Cymru yn flin iawn i ddarllen eto am fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn destun newyddion sydd yn achosi pryder i gleifion a'u teuluoedd. Mae'n rhywbeth sy'n digwydd yn llawer iawn rhy aml.

Having a member of one's family or a friend suffering from dementia is something that causes great anguish in and of itself, but the care that patients received at Tawel Fan, as has been outlined in this damning report, has caused great anxiety and pain to anyone linked to the unit or, for that matter, to anyone who actually reads the report. This damaging report is another that has raised questions in the minds of the people of north Wales about the Betsi Cadwaladr health board. The people of north Wales are extremely angry to read once again of the Betsi Cadwaladr health board making headlines that cause anxiety to patients and their families. This is something that happens far too often.

I'r unigolion hynny sy'n cael eu canfod i fod wedi cam-drin cleifion mewn unrhyw ffordd, yn amlwg, mae angen delio â'r unigolion hynny. Ond mae'n rhaid hefyd edrych ar faterion ehangach—yr ymddangosiad bod yna dan-gofnodi o ddigwyddiadau difrifol ar y ward. Efallai mai'r pryder mwyaf yn yr adroddiad oedd methiant arweinwyr uwch o fewn bwrdd iechyd prifysgol Betsi Cadwaladr i ymateb i risgiau yr oeddent yn gwybod mewn difrif oedd yno. Mi wnaeth y diffyg arolygiaeth yna barhau am o leiaf dwy flynedd.

Those individuals who are found to have abused patients in any way clearly must be dealt with. But we must also look at broader issues—the fact that there seemed to be underreporting of incidents on the ward. Perhaps the greatest concern in the report was the failure of senior leaders within Betsi Cadwaladr university health board to respond to the risks that they knew full well were there. That absence of inspection remained in place for at least two years.

Mae sgandal Tawel Fan yn tanlinellu'r angen, unwaith eto, am lefelau staffio uwch ar wardiau fel hyn. Mae'n amlwg fod staff o dan bwysau yn methu â darparu gofal un-i-un lle'r oedd angen hynny, ac mae hynny yn rhoi cleifion o dan risg uchel. Rwyf fi fy hun wedi codi'r cwestiwn o ddiffygion staffio yn y Siambr yma yn fwyaf diweddar mewn cyswllt ag Ysbyty Penrhos Stanley yng Nghaergybi. Rwyf wedi codi cwestiynau hefyd ynglŷn â lefelau staffio ym maes gwasanaeth meddygon teulu allan o oriau. Ymateb y Llywodraeth bryd hynny oedd i wadu, i bob pwrpas, bod yna broblem, ond i adroddiad gael ei gyhoeddi, wrth gwrs, yn yr wythnosau diwethaf, yn cadarnhau'r union beth yr oeddwn i'n tynnu sylw ato fo yn y cyd-destun hwnnw.

The Tawel Fan scandal underlines the need, once again, for higher staffing levels on wards such as this. It is clear that staff under pressure fail to provide one-to-one care where that is needed, and that puts patients at great risk. I myself have raised the question of staffing deficiencies in this Chamber—most recently in relation to Ysbyty Penrhos Stanley in Holyhead. I've also raised questions on staffing levels in out-of-hours GP services. The response of Government at that time was to deny, to all intents and purposes, that there was a problem, only for a report to be published, of course, in the past few weeks, confirming the exact problem I was highlighting in that context.

Beth bynnag, yn ogystal ag wynebu problemau ymarferol fel diffygion staffio, recriwtio a hyfforddiant, mae'n amser ymateb i'r broblem o ddiffyg atebolrwydd.

However, in addition to facing practical problems such as staffing levels, recruitment and training, it is time now to respond to the problem of a lack of accountability.

Staffing is one issue that this Government must address, certainly, but so is the issue of accountability from those at the top. Over-stretched staff at ward level are being suspended and facing disciplinary action, but senior managers must also be held accountable. Staff, patients and the general public all deserve better.

Mae staffio yn un mater sy'n rhaid i'r Llywodraeth hon fynd i'r afael ag ef, yn sicr, ond felly hefyd y mater o atebolrwydd y rhai ar y brig. Mae staff dan bwysau ar lefel y ward yn cael eu hatal o'u gwaith ac yn wynebu camau disgyblu, ond rhaid dwyn uwch reolwyr i gyfrif hefyd. Mae staff, cleifion a'r cyhoedd oll yn haeddu gwell.

It's time that the Labour Welsh Government intervened to say that this health board is failing north Wales and started to take responsibility—real responsibility—to restore pride in the region within our NHS. The Government must ensure that any further investigations or disciplinary procedures are taken out of the hands of the health board, because senior managers must be held accountable as part of that process.

Mae'n bryd i Lywodraeth Lafur Cymru ymyrryd a dweud bod y bwrdd iechyd hwn yn gwneud cam â gogledd Cymru a'i bod yn bryd iddo ddechrau cymryd cyfrifoldeb—cyfrifoldeb go iawn—i adfer balchder yn ein GIG yn yr ardal. Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod unrhyw ymchwiliadau pellach neu weithdrefnau disgyblu yn cael eu cymryd o ddwylo'r bwrdd iechyd am fod yn rhaid gwneud uwch reolwyr yn atebol yn rhan o'r broses honno.

The families of the patients who've suffered in Tawel Fan say in a letter to the health board—I know many of you have read it—that they have heard the board's public statements of regret and acceptance of failure. Now, they say they want the board to demonstrate that it is also capable of delivering redress and improvement. If it can't show that it can deliver that redress and improvement—and, let's be frank, there's plenty of evidence to suggest that it can't—well, the Government must intervene.

Mae teuluoedd cleifion sydd wedi dioddef ar ward Tawel Fan yn dweud mewn llythyr at y bwrdd iechyd—gwn fod llawer ohonoch wedi ei ddarllen—eu bod wedi clywed datganiadau cyhoeddus y bwrdd ynglŷn â'i ofid ynghylch y mater a'i fod yn derbyn bod methiannau wedi digwydd. Nawr, maent yn dweud eu bod am i'r bwrdd ddangos hefyd y gall unioni camweddau a gwella. Os na all ddangos ei fod yn gallu unioni camweddau a gwella—a gadewch i ni fod yn onest, mae digon o dystiolaeth i awgrymu na all wneud hynny—wel, mae'n rhaid i'r Llywodraeth ymyrryd.

The families deserve the utmost praise, I think, for persisting in trying to get the truth about what happened at Tawel Fan. It's shameful that they have had to wait so long to be vindicated and it's essential now that they and their relatives get justice.

Yn fy marn i, mae'r teuluoedd yn haeddu'r clod mwyaf am ddyfalbarhau a cheisio cael y gwir am yr hyn a ddigwyddodd ar ward Tawel Fan. Mae'n gywilyddus eu bod wedi gorfod aros cyhyd i gael eu clywed ac mae'n hanfodol yn awr eu bod hwy a'u perthnasau'n cael cyfiawnder.

15:51

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, Deputy Presiding Officer, I have to say that the Donna Ockenden report is probably the most heart-breaking cataloguing of some of the worst cases of negligence, institutional abuse and management failure that I have ever borne witness to. To learn of such lack of professional, dignified and compassionate care for the most vulnerable in our society leaves me feeling very heartbroken for the families and for those suffering at the hands of those whom they trusted.

Weinidog, Ddirprwy Lywydd, rhaid i mi ddweud mai adroddiad Donna Ockenden mae'n debyg yw'r catalog mwyaf torcalonnus o rai o'r achosion gwaethaf o esgeulustod, cam-drin sefydliadol a methiant i reoli y bûm yn dyst iddynt erioed. Mae dysgu am y fath ddiffyg gofal proffesiynol, urddasol a thosturiol i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn gwneud i mi dorri fy nghalon dros y teuluoedd a'r rhai sy'n dioddef dan law'r rhai y maent wedi ymddiried ynddynt.

Patients left unsupervised, some nursed on the floor, furniture used as a restraint: painful evidence from families revealing that their loved ones were badly bruised and left to run around the ward naked. One of the families said their loved one was sat in a chair, only had a pair of shorts on and was freezing, 'So, I went to get him some pillows and a blanket to put over him', but they couldn't find a blanket.

Cleifion wedi eu gadael heb oruchwyliaeth, rhai'n cael eu nyrsio ar y llawr, dodrefn yn cael eu defnyddio fel ataliaeth: tystiolaeth boenus gan deuluoedd yn datgelu bod eu hanwyliaid wedi cael eu cleisio'n wael a'u gadael i redeg o gwmpas y ward yn noeth. Dywedodd un o'r teuluoedd fod eu perthynas wedi ei roi i eistedd mewn cadair a dim ond pâr o siorts amdano, nes ei fod yn rhewi, 'Felly, es i ofyn am glustogau a blanced i'w rhoi drosto', ond ni allent ddod o hyd i flanced.

For me, as well, it's about the continence issues—shocking scenes in which a patient who was fully continent prior to admission became doubly incontinent within days. A poster from inside the clinical supplies cupboard read:

I mi hefyd, mae'n ymwneud a materion ymataliaeth—achosion brawychus lle roedd claf heb broblemau ymataliaeth cyn ei dderbyn i'r ysbyty yn gwlychu a baeddu o fewn dyddiau. Mae yna boster y tu mewn i gwpwrdd cyflenwadau clinigol sy'n dweud

'"STOPNOW!!!" Stop using pull up pads on whoever you fancy. They are certainly NOT for putting one on top of another with knickers on top for your convenience'.

'"STOPNOW!!!" Stop using pull up pads on whoever you fancy. They are certainly NOT for putting one on top of another with knickers on top for your convenience'.

This was a note to medically trained staff. But perhaps most disturbing of all is one family's account of when their relative sustained an infected, painful and swollen elbow due to constantly crawling around on dirty floors where other patients had urinated and more.

Nodyn i staff sydd wedi'u hyfforddi'n feddygol oedd hwn. Ond efallai mai'r hyn sy'n peri fwyaf o ofid yw hanes un teulu am yr adeg y cafodd eu perthynas haint parhaus a chwydd poenus ar y penelin ar ôl cropian o gwmpas yn gyson ar loriau brwnt lle roedd cleifion eraill wedi gwneud dŵr a mwy.

Now, this investigation found that there were multiple examples of inappropriate and unprofessional use of the POVA policy—yes, the protection of vulnerable adults—with staff actually using this as a protection for their own failings. One former member of staff saying:

Nawr, darganfu'r ymchwiliad fod enghreifftiau lluosog o ddefnydd amhriodol ac amhroffesiynol o'r polisi POVA—ie, y polisi Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed—gyda staff yn defnyddio hwn fel amddiffyniad dros eu methiannau eu hunain. Roedd un cyn aelod o staff yn dweud:

'We know it's going to come, we know there's going to be a massive complaint again, so that's why we POVA'd ourselves'.

'We know it's going to come, we know there's going to be a massive complaint again, so that's why we POVA'd ourselves'.

This is a tragic and shameful betrayal, as I say, of those suffering and their loved ones. For their loved ones to speak up and yet to be ignored is another betrayal.

Fel y dywedais, dyma fradychu pobl sy'n dioddef a'u hanwyliaid mewn modd trasig a chywilyddus. Mae'r ffaith fod eu hanwyliaid yn codi llais ond yn cael eu hanwybyddu yn frad arall.

Despite many of the problems having been flagged up, in March 2012 a report by Professor Robert Poole concluded that there were marked limitations in the current serious untoward incidents surveillance system. The families of Tawel Fan's patients are now quite rightly calling for those responsible for the abuse never to work in care again and I endorse their request—also the point that Darren Millar made earlier: those who have committed these atrocious crimes, as far as I'm concerned, under the guise of doing their employment, should actually now face whatever punishment they deserve.

Er gwaethaf y ffaith fod llawer o'r problemau wedi cael eu hamlygu, ym mis Mawrth 2012, daeth adroddiad gan yr Athro Robert Poole i'r casgliad fod y system arolygu gyfredol ar gyfer digwyddiadau anffafriol difrifol yn amlwg yn gyfyngedig. Mae teuluoedd cleifion Tawel Fan yn awr yn galw'n gwbl briodol am wahardd y rheini sy'n gyfrifol am y cam-drin rhag gweithio eto ym maes gofal ac rwy'n cefnogi eu cais—hefyd y pwynt a wnaeth Darren Millar yn gynharach: o'm rhan i, dylai'r rhai a gyflawnodd y troseddau erchyll hyn o dan yr esgus eu bod yn gwneud eu gwaith, wynebu pa gosbau bynnag y maent yn eu haeddu.

Now, it says in the report that requests about investigation—numerous requests were made for information on incidents and passed down the operational administration and governance team, instead of actually finding their way up to the level of responsibility. For me, we know the report is there for anybody to read, as tragic as it is. But have any lessons been learned now? What concerns me is that there's been a strategic review of older people's mental health services for the board in respect of this, and yet, even now, it is saying:

Nawr, mae'n dweud yn yr adroddiad fod ceisiadau ynghylch ymchwiliad—gwnaed ceisiadau niferus am wybodaeth am ddigwyddiadau a'u trosglwyddo i lawr y tîm gweinyddiaeth weithredol a llywodraethu, yn hytrach na dod o hyd i'w ffordd i fyny i lefel y cyfrifoldeb. I mi, gwyddom fod yr adroddiad ar gael i bawb ei ddarllen, er mor drasig ydyw. Ond a oes unrhyw wersi wedi'u dysgu bellach? Yr hyn sy'n fy mhoeni yw bod adolygiad strategol wedi'i gynnal o wasanaethau iechyd meddwl pobl hŷn ar gyfer y bwrdd mewn perthynas â hyn, ac eto, hyd yn oed yn awr, mae'n dweud:

'There is no clearly defined or identifiable strategic commissioning function'

'There is no clearly defined or identifiable strategic commissioning function'

within Betsi Cadwaladr.

yn Betsi Cadwaladr.

'Its internal planning arrangements for OPMH were described as "a movable feast" i.e. responsibilities are dispersed across several management posts with no clear definition of strategic roles and tasks.'

'Its internal planning arrangements for OPMH were described as "a movable feast" i.e. responsibilities are dispersed across several management posts with no clear definition of strategic roles and tasks.'

And

Ac

'There is no consistent or credible senior level engagement across sectors'.

'There is no consistent or credible senior level engagement across sectors'.

And that's now.

Ac yn awr yw hynny.

Health Inspectorate Wales visited in April 2015. The on-call system to deal with emergency situations was not well known to staff. This system enables staff to contact the correct person in any circumstance, as well as the local nurse/alarm-call systems needing a review in terms of location and access. There are still privacy and dignity issues now. An ongoing recommendation—now, from 2015—is that all patients are to be given a named nurse and to receive an orientation to the ward. In addition, vision panels indoors should be closed with the control on the inside of the patient's room. That hardly looks to me as though—. Those are basic fundamentals, and it hardly looks to me as though there's any sort of urgency here.

Ymwelodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn Ebrill 2015. Nid oedd y system ar alwad i ddelio â sefyllfaoedd brys yn gyfarwydd iawn i'r staff. Mae'r system yn galluogi staff i gysylltu â'r person cywir mewn unrhyw amgylchiadau, ac mae angen adolygu systemau nyrsys/larwm lleol o ran eu lleoliad a mynediad. Mae materion preifatrwydd ac urddas yn dal i fodoli yn awr. Ceir argymhelliad parhaus—yn awr, o 2015 ymlaen—y dylai pob claf gael nyrs a enwyd a chyfeiriadu ar y ward. Yn ogystal, dylai paneli gweld mewnol fod ar gau gyda'r rheolydd y tu mewn i ystafell y claf. Nid yw hynny i'w weld i mi fel—. Hanfodion sylfaenol yw'r rhain, ac nid yw'n ymddangos i mi fel pe bai unrhyw frys i wneud y pethau hyn.

I would echo calls now for special measures, and I can tell you I'm in possession of a letter from Llandudno Town Council, written recently to the First Minister, saying the council has resolved to record a vote of no confidence in Betsi Cadwaladr university health board and that it believes that the Welsh Government should intervene in the administration of the Betsi Cadwaladr university health board. I endorse that request, and I endorse the earlier request made here today. The buck stops with you, Minister. Please intervene and ensure that there are special measures placed on the Betsi Cadwaladr health board, because I do wonder: how bad does it have to get? How much must our patients and their families have to suffer before you actually take full responsibility and take some action?

Fe fyddwn yn adleisio'r galwadau yn awr am fesurau arbennig, a gallaf ddweud wrthych fy mod wedi cael llythyr gan Gyngor Tref Llandudno, a ysgrifennwyd yn ddiweddar at Brif Weinidog Cymru, yn dweud bod y cyngor wedi penderfynu cofnodi pleidlais o ddiffyg hyder ym mwrdd iechyd prifysgol Betsi Cadwaladr a'i fod yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ymyrryd yng ngweinyddiaeth bwrdd iechyd prifysgol Betsi Cadwaladr. Cefnogaf y cais, ac rwy'n cymeradwyo'r cais a wnaed yn gynharach yma heddiw. Eich cyfrifoldeb chi yw hyn yn y pen draw, Weinidog. A wnewch chi ymyrryd a sicrhau bod bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn cael ei osod dan weithdrefn mesurau arbennig, oherwydd rwy'n meddwl pa mor ddrwg sy'n rhaid i bethau fod? Faint sy'n rhaid i'n cleifion a'u teuluoedd ddioddef cyn i chi gymryd cyfrifoldeb llawn a gweithredu?

15:57

## Altaf Hussain Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thanks to my colleague Darren Millar for insisting we have a debate on the terrible events that took place on the Tawel Fan ward. My heart goes out to the patients and their families who have suffered at the hands of those entrusted with their care. This is not how I envisioned making my maiden speech; I had hoped to make my first speech a more positive one. However, having served as a consultant in the NHS for more than 25 years, I was so shocked by the report I felt I had to speak out. As a clinician, it sickens me to read this report and, as a clinician, I am ashamed that these events could take place within our health service.

Diolch i fy nghyd-Aelod Darren Millar am fynnu ein bod yn cael dadl am y digwyddiadau ofnadwy ar ward Tawel Fan. Mae fy nghalon yn gwaedu dros y cleifion a'u teuluoedd a ddioddefodd dan law'r rhai y maent wedi ymddiried ynddynt i roi gofal. Nid dyma sut y rhagwelais y byddwn yn gwneud fy araith gyntaf; roeddwn wedi gobeithio gwneud fy araith gyntaf yn un fwy cadarnhaol. Fodd bynnag, ar ôl gwasanaethu fel meddyg ymgynghorol yn y GIG am fwy na 25 mlynedd, cefais gymaint o sioc gan yr adroddiad fel y teimlwn fod yn rhaid i mi i siarad. Fel clinigydd, mae darllen yr adroddiad hwn yn fy niflasu ac fel clinigydd, mae gennyf gywilydd y gallai'r pethau hyn ddigwydd yn ein gwasanaeth iechyd.

I know, from experience, that the events that occurred at Glan Clwyd are far from typical, but, unfortunately, they are also not an isolated event. There have been other incidents within Betsi Cadwaladr, and in my own region we had the shocking treatment of elderly patients at the Princess of Wales Hospital and at Neath Port Talbot Hospital. The vast majority of staff, nurses and doctors working in our NHS provide care that is amongst the best in the world, but we need to be sure that, when that care is substandard or not there, there are systems in place to protect patients.

Gwn o brofiad fod y digwyddiadau yn Ysbyty Glan Clwyd yn bell o fod yn nodweddiadol, ond yn anffodus, nid ydynt yn ddigwyddiadau ynysig chwaith. Cafwyd digwyddiadau eraill yn Betsi Cadwaladr, ac yn fy rhanbarth fy hun gwelwyd cleifion oedrannus yn cael eu trin yn frawychus yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Mae mwyafrif helaeth y staff, y nyrsys a'r meddygon sy'n gweithio yn ein GIG yn darparu gofal sydd ymysg y gorau yn y byd, ond pan fo'r gofal yn is na'r safon neu os nad yw yno o gwbl, mae angen i ni fod yn siŵr fod systemau ar waith i ddiogelu cleifion.

Having read the report, I did not find any mention of these patients being under the treatment of any consultant. Normally, in any hospital, a patient is always admitted under the care of a treating clinician and they remain in charge of that patient. Did this happen on this ward?

Ar ôl darllen yr adroddiad, ni welais unrhyw sôn fod y cleifion hyn yn cael triniaeth o dan feddyg ymgynghorol. Fel arfer, mewn unrhyw ysbyty, caiff claf ei dderbyn bob amser dan ofal clinigydd sy'n eu trin ac maent yn parhau i fod yn gyfrifol am y claf. A ddigwyddodd hynny ar y ward hon?

Also, I note that the report referenced the NMC code and the GMC good practice guidance. I welcome the news today that seven employees have been referred to the Nursing and Midwifery Council and three to the General Medical Council, but why has it taken so long? Were they only reported because the First Minister demanded action yesterday?

Hefyd, nodaf fod yr adroddiad yn cyfeirio at god y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a chanllawiau arfer da y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Rwy'n croesawu'r newyddion heddiw fod saith o weithwyr wedi cael eu cyfeirio at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a thri i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol, ond pam y mae wedi cymryd cyhyd? Ai dim ond am fod y Prif Weinidog wedi mynnu camau gweithredu ar hyn ddoe y cawsant eu cyfeirio?

Above all, the events that occurred at Glan Clwyd show serious failings in management at all levels. We have avenues open to us to address failures by clinicians, but the managers responsible for the overall service and the culture that exists on this ward need to face similar sanctions. It is high time we had a regulatory body like the GMC for managers in the NHS.

Yn fwy na dim, mae'r digwyddiadau a ddigwyddodd yn Ysbyty Glan Clwyd yn dangos diffygion rheoli difrifol ar bob lefel. Mae gennym lwybrau agored i ni fynd i'r afael â methiannau gan glinigwyr, ond mae angen i'r rheolwyr sy'n gyfrifol am y gwasanaeth a'r diwylliant cyffredinol ar y ward hon wynebu cosbau tebyg. Mae'n hen bryd i ni gael corff rheoleiddio fel y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer rheolwyr yn y GIG.

How did the health board not know what was going on? This highlights serious flaws in clinical governance. The Minister told us, when the Andrews report was published, that nothing of this sort would be tolerated in ABMU health board or indeed anywhere else in Wales in the future. The events on this ward are the latest in a line of failures to provide suitable care across Wales, and points to failures in governance.

Sut nad oedd y bwrdd iechyd yn gwybod beth oedd yn digwydd? Mae hyn yn amlygu diffygion difrifol mewn llywodraethu clinigol. Dywedodd y Gweinidog wrthym, pan gyhoeddwyd adroddiad Andrews, na fyddai dim byd tebyg i hyn yn cael ei oddef ym mwrdd iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg nac yn wir yn unman arall yng Nghymru yn y dyfodol. Y digwyddiadau ar y ward hon yw'r diweddaraf mewn cyfres o fethiannau i ddarparu gofal addas ledled Cymru, ac mae'n dynodi bod methiannau yn y dull o lywodraethu.

Minister, for the sake of thousands of clinicians who, like myself, are appalled and sickened by these events, please order a wide inquiry into our health service. We need to reassure patients that such events cannot happen in the future, that clinical governance is fit for purpose, and that hard-working doctors and nurses are able to provide the world-class care we expect. Only by holding a full inquiry can we reassure the public and restore their confidence in our excellent NHS, which my colleagues and I were proud to serve. Thank you.

Weinidog, er mwyn y miloedd o glinigwyr sydd, fel finnau, wedi cael eu brawychu ac sy'n ffieiddio at y digwyddiadau hyn, os gwelwch yn dda a wnewch chi fynnu ymchwiliad eang i'n gwasanaeth iechyd. Mae angen i ni sicrhau cleifion na all digwyddiadau o'r fath ddigwydd yn y dyfodol, fod llywodraethu clinigol yn addas i'r diben, a bod meddygon a nyrsys gweithgar yn gallu darparu'r gofal o safon fyd-eang rydym yn ei ddisgwyl. Drwy gynnal ymchwiliad llawn yn unig y gallwn dawelu meddwl y cyhoedd ac adfer eu hyder yn ein GIG rhagorol roedd fy nghydweithwyr a minnau mor falch i wasanaethu ynddo. Diolch yn fawr.

16:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I now ask the Minister to make his reply.

Gofynnaf i'r Gweinidog roi ei ateb yn awr.

16:01

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Dirprwy Lywydd, thank you very much, and thanks to all of those who've taken part in the debate. I'm going to concentrate on trying to reply to some of the specific points that have been raised so far.

Ddirprwy Lywydd, diolch yn fawr iawn, a diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl. Rwy'n mynd i ganolbwyntio ar geisio ymateb i rai o'r pwyntiau penodol a godwyd hyd yn hyn.

I'd like to begin by thanking Elin, Sandy Mewies and Kirsty Williams for what they said about the difficulties that staff face in providing care not for people who suffer from the early stages of dementia, as Sandy said, but people whose behaviour has got beyond the point where their own families are able to cope with or to manage it. I completely agreed with what Sandy Mewies said about the need for those staff to be supported, for training to be adequate to the challenges that they face and, above all, what she said about the human qualities that are needed by anybody who is going to go on providing care in those circumstances. When all that is said, and with everything that we could agree on about the challenges that people face, nobody, Dirprwy Lywydd, I believe, could read the recordings that are set out on the pages of Donna Ockenden's report and feel anything but shock at the extent to which some of those basic human qualities of care and compassion appeared to have drained away from people who were providing care on the spot. Let's be clear as well that it isn't only nurses that we are talking about here. I can tell Mr Hussain that consultants were quite certainly involved in the care of these patients, and I can also, I think, assure him that the referrals to the GMC and to the Nursing and Midwifery Council happened many, many months ago, not in the last day.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Elin, Sandy Mewies a Kirsty Williams am yr hyn y maent wedi ei ddweud am yr anawsterau y mae staff yn eu hwynebu wrth ddarparu gofal, nid i bobl sy'n dioddef o gamau cynnar dementia, fel y dywedodd Sandy, ond pobl y mae eu hymddygiad wedi mynd y tu hwnt i'r pwynt lle y gall eu teuluoedd eu hunain ymdopi ag ef neu ei reoli. Roeddwn yn cytuno'n llwyr â'r hyn a ddywedodd Sandy Mewies am yr angen i gefnogi staff o'r fath, i hyfforddiant fod yn ddigonol i oresgyn yr heriau a wynebant, ac yn anad dim, yr hyn a ddywedodd am y rhinweddau dynol sydd eu hangen ar unrhyw un sy'n mynd i barhau i ddarparu gofal yn yr amgylchiadau hynny. Ar ôl dweud hyn, a chyda phopeth y gallem gytuno arnynt ynghylch yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu, nid wyf yn credu y byddai neb, Ddirprwy Lywydd, yn gallu darllen yr hanesion a gofnodwyd ar dudalennau adroddiad Donna Ockenden a theimlo dim heblaw sioc ynglŷn â'r graddau roedd rhai o'r rhinweddau dynol sylfaenol hynny o ofal a thosturi i'w gweld ar goll yn y bobl a oedd yn darparu gofal yn y fan a'r lle. Gadewch i ni fod yn glir hefyd nad nyrsys yn unig y soniwn amdanynt yma. Gallaf ddweud wrth Mr Hussain fod meddygon ymgynghorol yn bendant ynghlwm wrth ofal y cleifion hyn, a gallaf hefyd, rwy'n meddwl, ei sicrhau bod y cyfeiriadau i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ac i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi digwydd sawl, sawl mis yn ôl, nid ar y diwrnod olaf.

The shocking nature of those recordings I think was vividly illustrated in the point that Kirsty Williams made about the web of assurance that we have in the NHS in Wales—assurance of the level of individuals who are discharging their professional obligations, at the level of the institution, which should have checks and balances there to make sure that, if things go wrong, they're seen quickly, and at the inspectoral level, too. But, somehow, all that went on in Tawel Fan evaded that web of assurance. Therefore, I want to pick up some specific points that Members have made as to how we could further strengthen the arrangements that we have.

Rwy'n meddwl bod natur erchyll yr hanesion wedi ei darlunio'n fyw iawn yn y pwynt a wnaeth Kirsty Williams ynglŷn â'r we o sicrwydd sydd gennym yn y GIG yng Nghymru—sicrwydd ynghylch lefel yr unigolion sy'n cyflawni eu rhwymedigaethau proffesiynol, ar lefel y sefydliad, a ddylai gynnal archwiliadau i wneud yn siŵr, os yw pethau'n mynd o chwith, eu bod yn cael eu gweld yn gyflym, ac ar y lefel arolygol hefyd. Ond rywsut, llwyddodd y cyfan a ddigwyddodd ar ward Tawel Fan i osgoi'r we o sicrwydd. Felly, rwyf am grybwyll rhai pwyntiau penodol a wnaeth yr Aelodau ynghylch sut y gallem gryfhau'r trefniadau sydd gennym ymhellach.

Gwenda Thomas mentioned Winterbourne View, and it's why I have been pleased to see that Dr Margaret Flynn, who wrote the Winterbourne View report, has been involved in providing assurances about care of older people in mental health wards in north Wales. But Winterbourne View had a strong strand in it about the importance of lay inspections, and I think that is very important indeed as we go ahead. The problem, as Sandy Mewies said, is that when people work day in and day out in particular contexts, they stop seeing things that other people would regard as unacceptable. If you don't speak up the first time that you see something that you know shouldn't be going on, you can't speak up the second time you see it because, now, you yourself are complicit in what is going wrong. Having people from outside who have no familiarity with that context, who see it with fresh eyes, and who ask the questions about why what they see going on in front of them is going on, I think, is a vital component in an effective system of assurance, and I'm keen that we do more on that in future.

Soniodd Gwenda Thomas am Winterbourne View, a dyna pam rwyf wedi bod yn falch o weld bod Dr Margaret Flynn, a ysgrifennodd yr adroddiad ar Winterbourne View, wedi bod yn gysylltiedig â'r broses o ddarparu sicrwydd ynglŷn â gofal pobl hŷn ar wardiau iechyd meddwl yng ngogledd Cymru. Ond roedd rhan gadarn o hanes Winterbourne View yn ymwneud â phwysigrwydd adolygiadau lleyg, a chredaf fod hynny'n bwysig iawn yn wir wrth i ni symud ymlaen. Y broblem, fel y dywedodd Sandy Mewies, yw bod pobl sy'n gweithio o ddydd i ddydd mewn cyd-destunau penodol yn methu gweld pethau y byddai pobl eraill yn eu hystyried yn annerbyniol. Os nad ydych yn dweud rhywbeth y tro cyntaf y byddwch yn gweld rhywbeth y gwyddoch na ddylai fod yn digwydd, ni allwch ddweud dim yr eilwaith rydych yn ei weld, oherwydd yn awr, rydych chi eich hun yn rhan o'r hyn sy'n mynd o'i le. Mae cael pobl o'r tu allan nad ydynt yn gyfarwydd â'r cyd-destun hwnnw, sy'n ei weld gyda llygaid ffres ac sy'n gofyn y cwestiynau ynglŷn â pham y mae'r hyn a welant yn digwydd o'u blaenau yn digwydd, rwy'n meddwl, yn elfen hanfodol mewn system sicrwydd effeithiol, ac rwy'n awyddus i ni wneud rhagor ar hynny yn y dyfodol.

I listened carefully to what Elin Jones said about a fit and proper person test for health managers, and I'll do whatever I can to make sure that we pick up that idea in the Green Paper that I plan to publish before the summer recess, to see whether we could see how that idea could be properly applied here in Wales. We'll link that to the responsible individual idea that we are introducing through the regulation and inspection Bill, as Kirsty Williams said, and see whether we can pick that up and make it part of our assurance in the health service as well. A number of Members—Darren Millar did so in his opening remarks, but others, too—have talked about Healthcare Inspectorate Wales. I think it's fair to say that, as a result of some of the work done in this Assembly in the Health and Social Care Committee, Healthcare Inspectorate Wales is already a different organisation to the one that was there two years ago, but that isn't to say that, building on the Ruth Marks report, there aren't other things that we could do to make that inspectorate a more effective part of our landscape. As the First Minister said only yesterday, we will make a series of proposals in the Green Paper to see what reaction those who are involved in this field in Wales would have to some ideas for reform.

Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd Elin Jones am brawf person addas a phriodol ar gyfer rheolwyr iechyd, a byddaf yn gwneud beth bynnag a allaf i wneud yn siŵr ein bod yn cynnwys y syniad yn y Papur Gwyrdd y bwriadaf ei gyhoeddi cyn toriad yr haf, i weld sut y gellid cymhwyso'r syniad yn briodol yma yng Nghymru. Byddwn yn ei gysylltu â'r syniad o unigolyn cyfrifol rydym yn ei gyflwyno drwy'r Bil rheoleiddio ac arolygu, fel y dywedodd Kirsty Williams, a gweld a allwn wneud defnydd ohono a'i wneud yn rhan o'n trefniadau sicrwydd yn y gwasanaeth iechyd yn ogystal. Siaradodd nifer o'r Aelodau—gwnaeth Darren Millar hynny yn ei sylwadau agoriadol, ond eraill hefyd—am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Rwy'n credu ei bod yn deg dweud, o ganlyniad i beth o'r gwaith a wnaed yn y Cynulliad hwn yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, fod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru eisoes yn sefydliad gwahanol i'r hyn ydoedd ddwy flynedd yn ôl, ond nid yw hynny'n gyfystyr â dweud, gan adeiladu ar adroddiad Ruth Marks, nad oes yna bethau eraill y gallem eu gwneud i wneud yr arolygiaeth yn rhan fwy effeithiol o'n tirwedd. Fel y dywedodd y Prif Weinidog ddoe ddiwethaf, byddwn yn gwneud cyfres o gynigion yn y Papur Gwyrdd i weld ymateb y rhai sy'n rhan o'r maes hwn yng Nghymru i rai o'r syniadau ar gyfer diwygio.

Finally, Dirprwy Lywydd, in this list, to turn back to the notion of special measures, it's been mentioned on all sides of the Chamber. Luckily, Dirprwy Lywydd—and it is, I think, fortunate—these decisions are not left to politicians simply to act alone. When social services departments are placed in special measures, or education departments likewise, it's always because Ministers are acting on advice—advice given to them by those competent to provide that advice. We should think carefully about that, certainly here.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, yn y rhestr hon, trof yn ôl at y syniad o fesurau arbennig a grybwyllwyd ar bob ochr i'r Siambr. Yn ffodus, Ddirprwy Lywydd—ac mae'n ffodus yn fy marn i—ni chaiff y penderfyniadau hyn eu gadael i wleidyddion eu gwneud ar eu pen eu hunain. Pan fydd adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu gosod dan weithdrefn mesurau arbennig, neu adrannau addysg yn yr un modd, mae bob amser yn digwydd am fod Gweinidogion yn gweithredu yn ôl y cyngor—cyngor a roddwyd iddynt gan y rhai sy'n gymwys i roi cyngor o'r fath. Dylem feddwl yn ofalus am hynny, yn sicr.

In relation to special measures in the health field, as a result of the report of the Public Accounts Committee, we have a publicly available and set-out process through which health boards that need assistance are provided with that assistance and move up a hierarchy of intervention. As I said in my opening remarks, a meeting will take place on Monday of next week. It will take place in north Wales. It will involve the Welsh Government, the auditor general's office and HIW, as that protocol demands, and I will be advised as to the steps that I should take, and I will act on advice. That's the right and proper way in which decisions should be made.

Mewn perthynas â mesurau arbennig ym maes iechyd, yn sgil adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae gennym broses benodedig a chyhoeddus lle y rhoddir cymorth i fyrddau iechyd sydd ei angen i symud o un cam i'r llall ar hyd hierarchaeth o ymyrraeth. Fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, bydd cyfarfod yn cael ei gynnal ddydd Llun wythnos nesaf. Bydd yn cael ei gynnal yng ngogledd Cymru. Bydd yn cynnwys Llywodraeth Cymru, swyddfa'r archwilydd cyffredinol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, fel y mae'r protocol hwnnw'n ei fynnu, a byddaf yn cael cyngor ynglŷn â'r camau y dylwn eu cymryd, ac yn gweithredu ar y cyngor. Dyna'r ffordd iawn a phriodol i wneud penderfyniadau.

Behind all of that, Dirprwy Lywydd, and behind all those ways that we, rightly, take an interest in improving the service, lie the lives of those people who have been directly affected by what happened at Tawel Fan. It is hugely to their credit that those families wish to stay engaged in the process of future improvement. I entirely agree with what Ann Jones said about allowing that to continue with the assistance of Donna Ockenden to draw on her expertise, and to draw on the fact that those family members have a level of trust, as Darren Millar said, as well, in her actions to allow them to go on making that contribution.

Yn sail i hyn oll, Ddirprwy Lywydd, ac yn sail i'r holl ffyrdd y mae gennym ddiddordeb, yn gwbl briodol, mewn gwella'r gwasanaeth, mae bywydau'r bobl a effeithiwyd yn uniongyrchol gan yr hyn a ddigwyddodd ar ward Tawel Fan. Mae'n glod enfawr iddynt fod y teuluoedd hyn yn dymuno aros yn rhan o'r broses o wella yn y dyfodol. Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedodd Ann Jones am ganiatáu i hynny barhau gyda chymorth Donna Ockenden er mwyn gallu pwyso ar ei harbenigedd, ac i bwyso ar y ffaith fod gan aelodau'r teuluoedd hynny lefel o ymddiriedaeth, fel y dywedodd Darren Millar, yn ei gweithredoedd hi i'w galluogi i barhau i gyfrannu yn y fath fodd.

Dirprwy Lywydd, before I end, could I simply correct one thing for the record? In my opening remark, I said that the then chief executive of Betsi Cadwaladr University Local Health Board was suspended in June of 2013. At that point, she was in fact absent on sick leave. So, I'd be grateful if the record would show that.

Ddirprwy Lywydd, cyn i mi orffen, a gaf fi gywiro un peth ar gyfer y cofnod? Yn fy sylw cyntaf, dywedais fod prif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar y pryd wedi'i hatal o'i gwaith dros dro ym mis Mehefin 2013. Ar y pwynt hwnnw, roedd hi'n absennol oherwydd salwch mewn gwirionedd. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r cofnod ddangos hynny.

I will end by saying that everything the Welsh Government can do to make sure that we reassure people about the standards of care available to elderly people in similar settings elsewhere in Wales, we are determined to do. Most of all, we're determined to do the things that we can do to try to make sure that the circumstances that prevailed at Tawel Fan are not to be found in the Welsh NHS in the future.

Dof i ben drwy ddweud ein bod yn benderfynol o wneud popeth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau ein bod yn rhoi sicrwydd i bobl ynglŷn â safonau gofal i bobl hŷn mewn lleoliadau tebyg mewn mannau eraill yng Nghymru. Yn bennaf oll, rydym yn benderfynol o wneud y pethau y gallwn eu gwneud i geisio sicrhau nad yw'r amgylchiadau a fodolai ar ward Tawel Fan i'w gweld yn y GIG yng Nghymru yn y dyfodol.

16:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call Darren Millar to close the debate.

Galwaf yn awr ar Darren Millar i gloi'r ddadl.

16:11

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm very pleased that this house has taken such an interest in this report, and I think there have been some very good and balanced contributions from all parties on this very important report. Just to pick up on a few of the comments that have been made, I think it is entirely appropriate that that tripartite meeting, which is scheduled for Monday, should take place and offer some advice to the Minister, but, again, I will say that it is disappointing that we don't have an entirely independent inspectorate that can make decisions without having to refer to Ministers first. We know that HIW has failed on this occasion, through its existing inspection arrangements and the existing regime, to properly identify the scale of the failings on the Tawel Fan ward, and that that is part and parcel of the problems that have been uncovered by Donna Ockenden in her report. I think it's very difficult, when you have an organisation that has been identified as having failed, to own up and say there actually needs to be a greater level of intervention. So, I would just press that point with the Minister: at the end of the day, it's your decision to go and put this health board into special measures.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn fod y tŷ hwn wedi dangos cymaint o ddiddordeb yn yr adroddiad hwn, ac rwy'n meddwl ein bod wedi cael rhai cyfraniadau da a chytbwys iawn gan bob plaid ar yr adroddiad pwysig hwn. Nodaf rai yn unig o'r sylwadau a wnaed. Rwy'n meddwl ei bod yn gwbl briodol y dylai'r cyfarfod rhwng y tri sefydliad a drefnwyd ar gyfer dydd Llun, ddigwydd a chynnig cyngor i'r Gweinidog, ond unwaith eto, mae'n siomedig nad oes gennym arolygiaeth gwbl annibynnol a all wneud penderfyniadau heb orfod eu cyfeirio at Weinidogion yn gyntaf. Ar yr achlysur hwn, gwyddom fod AGIC wedi methu nodi graddau'r methiannau ar ward Tawel Fan yn gywir drwy ei threfniadau arolygu presennol a'r drefn bresennol, a bod hynny'n rhan annatod o'r problemau a ganfuwyd gan Donna Ockenden yn ei hadroddiad. Pan fydd gennych sefydliad a nodwyd fel un sydd wedi methu, rwy'n credu ei bod yn anodd iawn cyfaddef bod angen lefel uwch o ymyrraeth mewn gwirionedd. Felly, hoffwn bwysleisio'r pwynt hwnnw i'r Gweinidog: yn y pen draw, eich penderfyniad chi yw gosod y bwrdd iechyd hwn dan weithdrefn mesurau arbennig.

I've got a copy of the escalation and intervention arrangements in front of me, which, of course, were produced as a result of the Public Accounts Committee's work on governance, and I was pleased to have taken part in that piece of work, but it's very clear from the flowchart, from the process, that if the Welsh Government and external review bodies do not consider that improvement is sufficient or timely and evident, it should be notched up a gear in terms of the level of intervention. Betsi Cadwaladr is at that third level. There's a fourth one, which is special measures. You need to take that step now, Minister, and put that health board into those special measures, because, let's face it, the existing assurance arrangements that we currently have at our disposal are simply not working when it comes to that particular health board.

Mae gen i gopi o'r trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd o fy mlaen, a chawsant eu cynhyrchu, wrth gwrs, o ganlyniad i waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar lywodraethu. Roeddwn yn falch o fod wedi cymryd rhan yn y gwaith hwnnw, ond mae'n glir iawn o'r siart llif, o'r broses, os nad yw Llywodraeth Cymru a chyrff adolygu allanol yn ystyried bod gwelliant yn ddigonol neu'n amserol ac yn amlwg, dylid codi lefel yr ymyrraeth. Mae Betsi Cadwaladr ar y drydedd lefel. Mae yna bedwaredd lefel, sef mesurau arbennig. Mae angen i chi gamu ymlaen yn awr, Weinidog, a gosod y bwrdd iechyd dan weithdrefn mesurau arbennig, oherwydd, gadewch i ni wynebu'r ffaith, nid yw'r trefniadau sicrwydd sydd ar gael i ni yn gweithio ar hyn o bryd yn achos y bwrdd iechyd hwn.

We know that the ongoing intervention that's taking place by the Welsh Government is not actually causing that health board to pull up its socks and get to grips with the governance problems that the health board has. That's entirely evident from the GP out-of-hours report, which was published just a few weeks ago. Those problems still remain, and that's on the watch of the new guard that's currently in place in that health board that has replaced those individuals who you've already referred to as having departed from the organisation.

Gwyddom nad yw'r ymyrraeth barhaus sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru yn peri i'r bwrdd iechyd dan sylw i fynd ati o ddifrif i oresgyn y problemau llywodraethu sydd gan y bwrdd iechyd. Mae hynny'n gwbl amlwg o'r adroddiad ar y gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau a gyhoeddwyd ychydig wythnosau'n ôl. Mae'r problemau hynny'n parhau, a hynny o dan yr oruchwyliaeth newydd sydd ar waith ar hyn o bryd yn y bwrdd iechyd ar ôl iddynt gymryd lle'r unigolion rydych eisoes wedi sôn eu bod wedi gadael y sefydliad.

You referred to the assurances that you have as a result of spot checks that have taken place across Wales, and I welcome those unannounced spot checks, but let's face it: when you announced the first round of spot checks in the wake of the 'Trusted to Care' report, because of the scandal at the Princess of Wales Hospital and at Neath Port Talbot Hospital, you gave a four-week window for health boards to get their house in order before those spot checks were actually undertaken. That, to me, Minister, doesn't then necessarily reflect what was actually going on at the time the 'Trusted to Care' report was published across the whole of Wales, because, of course, people had the opportunity to get their house in order. Now, I'm pleased that most of those visits found that there were some good examples of excellent care being undertaken.

Fe gyfeirioch at y sicrwydd a gawsoch o ganlyniad i hapwiriadau a ddigwyddodd ledled Cymru, ac rwy'n croesawu'r hapwiriadau dirybudd hynny, ond gadewch i ni gyfaddef: pan gyhoeddoch chi'r rownd gyntaf o hapwiriadau yn sgil yr adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal', oherwydd y sgandal yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, rhoesoch gyfnod o bedair wythnos i fyrddau iechyd roi trefn arnynt eu hunain cyn cynnal yr hapwiriadau hyn. I mi, Weinidog, nid yw hynny o reidrwydd yn adlewyrchu'r hyn oedd yn digwydd mewn gwirionedd ar yr adeg y cyhoeddwyd yr adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal' ledled Cymru, oherwydd, wrth gwrs, cafodd pobl gyfle i roi trefn arnynt eu hunain. Nawr, rwy'n falch fod y rhan fwyaf o'r ymweliadau hyn wedi nodi rhai enghreifftiau da o ofal rhagorol.

As my colleague, Altaf Hussain, pointed out, the vast majority of clinicians and nursing staff do their job to an excellent standard and care very well for the patients in their care, but when people are being let down, it is important that there is an accurate reflection of the picture across Wales, and I'm not sure that those spot checks would have given us that accurate reflection at that time, given that there was that four-week delay before they actually commenced. We know that the existing inspection arrangements didn't pick up on the problems at Tawel Fan. We know also that there was insufficient learning from complaints—a number of Members picked this point up during the course of the debate. And that's in spite of the Keith Evans report. I still have ongoing complaints that I'm dealing with on behalf of constituents with the Betsi Cadwaladr health board that have been stringing along for 18 months and 2 years. This does not demonstrate that the health board is able to achieve the sea change that every one of us in this Chamber, in all political parties, actually wants to see. That's why I think it's extremely important, Minister, that you do take that step of intervention. You need to be brave enough to step up to the plate and show the leadership that the people of north Wales want the Welsh Government to intervene in the situation in the Betsi Cadwaladr health board, so that people and patients across north Wales can have that confidence rebuilt, because, frankly, there is no public confidence in that health board, I'm afraid, at the moment —as a result not only of this report, but other reports and other stories. The way that they handled, for example, the clinical services review of women's clinical services and maternity services is yet another example of the problems that we face in that particular part of the country.

Fel y nododd fy nghyd-Aelod, Altaf Hussain, mae'r mwyafrif helaeth o glinigwyr a staff nyrsio yn gwneud gwaith o safon ragorol ac yn gofalu'n dda iawn am y cleifion yn eu gofal, ond pan fydd pobl yn cael cam, mae'n bwysig fod y darlun cywir yn cael ei roi ledled Cymru, ac nid wyf yn siŵr y byddai'r hapwiriadau wedi rhoi'r darlun cywir ar yr adeg honno o ystyried bod pedair wythnos o oedi cyn iddynt gychwyn. Gwyddom na lwyddodd y trefniadau arolygu presennol i dynnu sylw at y problemau ar ward Tawel Fan. Gwyddom hefyd na ddysgwyd digon o wersi o gwynion—nododd nifer o'r Aelodau'r pwynt yn ystod y ddadl. A hynny er gwaethaf adroddiad Keith Evans. Rwy'n dal i ymdrin â chwynion parhaus a gefais gan etholwyr ynglŷn â bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr sydd wedi bod yn llusgo ymlaen ers 18 mis a 2 flynedd. Nid yw hyn yn dangos bod y bwrdd iechyd yn gallu cyflawni'r newid mawr y mae pob un ohonom yn y Siambr hon, ym mhob plaid wleidyddol, yn awyddus i'w weld mewn gwirionedd. Dyna pam rwy'n credu ei bod yn hynod o bwysig, Weinidog, eich bod yn bwrw ati i ymyrryd. Mae angen i chi fod yn ddigon dewr i ysgwyddo'r cyfrifoldeb a dangos yr arweinyddiaeth y mae pobl gogledd Cymru ei eisiau drwy i Lywodraeth Cymru ymyrryd yn y sefyllfa ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, er mwyn adfer hyder pobl a chleifion ar draws gogledd Cymru, oherwydd a dweud y gwir, nid oes gan y cyhoedd hyder yn y bwrdd iechyd ar hyn o bryd yn anffodus—o ganlyniad, nid yn unig i'r adroddiad hwn, ond adroddiadau eraill a straeon eraill. Mae'r modd y maent wedi trin yr adolygiad o wasanaethau clinigol i fenywod, er enghraifft, a gwasanaethau mamolaeth yn enghraifft arall o'r problemau sy'n ein hwynebu yn y rhan hon o'r wlad.

I was very taken with the suggestion that was put forward by Elin Jones in terms of the need for fit-and-proper-person tests, and I was grateful for the Minister responding so positively to wanting to consider that, but I would ask, Minister—. You didn't respond to any of the other points that I requested as potential points for action in terms of taking things forward. I listed five of them. A number of Members in this Chamber, many of them colleagues on the Conservative benches, called for that independent review. It's something that clinicians would welcome, because of course it would identify good practice, but it would also identify the failings in the health service across Wales, and where we need to make adjustments in the practices out there in order that we can deliver the step change in performance, and the cultural change across the health service that we need to see. Nor did you refer or respond to my suggestion that there needs to be an independent appointments process for health board members. You entirely ignored that point. I think the time has come. The Minister sat to your right has changed the process for the appointment of members of boards in the enterprise zones on the basis that it should be independent, and, yet, you're defending a system where you still appoint members to our health boards. I'm not sure why there's such a different approach, even within Welsh Government, towards these things. Nor did you respond sufficiently well as to why the Healthcare Inspectorate Wales report by Ruth Marks—. You haven't issued a full response to that as yet in terms of the recommendations that her report contained. You gave no view as to whether there ought to be an entirely independent inspectorate, and I think, again, Minister, I would encourage you—[Interruption.] I'm happy to take an intervention, if you're willing to speak, to give us those assurances. I was pleased, however, that you did suggest that, in any work going forward, you would engage, or ensure that the families of the patients on the Tawel Fan ward would be engaged, and, indeed, that Donna Ockenden should continue to be engaged in that work. I was very pleased to hear that in response, of course, both to suggestions by me, and, indeed, Ann Jones.

Roedd yr awgrym a gyflwynodd Elin Jones am yr angen am brofion person addas a phriodol yn apelio ataf yn fawr, ac roeddwn yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ymateb mor gadarnhaol i fod eisiau ystyried hynny, ond hoffwn ofyn, Weinidog—. Nid ydych wedi ymateb i unrhyw un o'r pwyntiau eraill y gofynnais amdanynt fel pwyntiau posibl ar gyfer gweithredu er mwyn symud pethau yn eu blaenau. Rhestrais bump ohonynt. Galwodd nifer o Aelodau yn y Siambr, lawer ohonynt yn gyd-Aelodau ar feinciau'r Ceidwadwyr, am adolygiad annibynnol. Mae'n rhywbeth y byddai clinigwyr yn ei groesawu, gan y byddai, wrth gwrs, yn nodi arfer da, ond byddai hefyd yn nodi'r methiannau yn y gwasanaeth iechyd ledled Cymru, a lle y mae angen i ni addasu arferion ar lawr gwlad er mwyn cyflawni'r newid mawr mewn perfformiad a'r newid diwylliannol sydd eu hangen ar draws y gwasanaeth iechyd. Ni chyfeirioch at yr awgrym a wneuthum, ac nid ydych wedi ymateb iddo chwaith, fod angen proses benodi annibynnol ar gyfer aelodau byrddau iechyd. Fe anwybyddoch y pwynt yn llwyr. Rwy'n meddwl bod yr amser wedi dod. Mae'r Gweinidog ar eich llaw dde wedi newid y broses ar gyfer penodi aelodau o fyrddau yn yr ardaloedd menter ar y sail y dylai fod yn broses annibynnol, ac eto rydych yn amddiffyn system lle rydych yn dal i benodi aelodau ein byrddau iechyd. Nid wyf yn siŵr pam y ceir dull mor wahanol o weithredu'r pethau hyn, hyd yn oed o fewn Llywodraeth Cymru. Ac nid oedd eich ymateb yn ddigon da ynglŷn â pham oedd adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gan Ruth Marks—. Nid ydych wedi cyhoeddi ymateb llawn i hynny hyd yma o ran yr argymhellion yn ei hadroddiad. Ni roesoch unrhyw safbwynt ynglŷn ag a ddylid cael arolygiaeth hollol annibynnol, ac rwy'n credu, unwaith eto, Weinidog, y byddwn yn eich annog—[Torri ar draws.] Rwy'n hapus i gymryd ymyriad, os ydych yn barod i siarad er mwyn rhoi'r sicrwydd hwnnw i ni. Roeddwn yn falch, fodd bynnag, eich bod wedi awgrymu y byddech yn cynnwys teuluoedd y cleifion ar ward Tawel Fan mewn gwaith yn y dyfodol, neu'n sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys, ac yn wir, y dylai Donna Ockenden barhau i fod yn rhan o'r gwaith hwnnw. Roeddwn yn falch iawn o glywed hynny mewn ymateb, wrth gwrs, i awgrymiadau gennyf fi, ac Ann Jones yn wir.

But, I will press this point again before I sit down: it is very important, Minister, to restore public confidence that the Welsh Government takes leadership on this issue, steps up to the plate, and puts this board into special measures until we can get the radical sea change in culture and performance that everybody in this Chamber wants to see.

Ond rwy'n mynd i bwysleisio'r pwynt hwn eto cyn i mi eistedd: Weinidog, mae'n bwysig iawn i Lywodraeth Cymru adfer hyder y cyhoedd ei bod yn arwain ar y mater hwn, yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb, ac yn gosod y bwrdd hwn dan weithdrefn mesurau arbennig nes y gallwn sicrhau'r newid radical mewn diwylliant a pherfformiad y mae pawb yn y Siambr hon am ei weld.

16:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes the debate.

Dyna ddiwedd y ddadl.

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 16:19.*

*Sandy Mewies took the Chair at 16:19.*

16:19

## 4. Dadl Cyfnod 1 ar y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)

## 4. Stage 1 Debate on the Safe Nurse Staffing Levels (Wales) Bill

Senedd.tv Fideo Video

### Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Item 4 is the Stage 1 debate on the Safe Nurse Staffing Levels (Wales) Bill, and I call on Kirsty Williams to move the motion.

Eitem 4 yw'r ddadl Cyfnod 1 ar y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru), a galwaf ar Kirsty Williams i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5772 Kirsty Williams

Motion NDM5772 Kirsty Williams

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru).

Agrees to the general principles of the Safe Nurse Staffing Levels (Wales) Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:19 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Perhaps it's a weird coincidence that we should talk about safe nurse staffing levels following on from the debate that we have just had. Donna Wilk Cardillo commented, in a book entitled 'A Daybook for Beginning Nurses', that nursing care comes in many forms. I quote:

Efallai ei fod yn gyd-ddigwyddiad rhyfedd ein bod yn sôn am lefelau diogel staff nyrsio yn dilyn y ddadl rydym newydd ei chael. Dywedodd Donna Wilk Cardillo, mewn llyfr o'r enw 'A Daybook for Beginning Nurses', fod sawl ffurf i ofal nyrsio.

'Sometimes it is the ability to make someone feel physically comfortable by various means. Other times it is the ability to improve the body's ability to achieve or maintain health. But often it is an uncanny yet well honed knack to see beyond the obvious and address, in some way, the deeper needs of the human soul.'

'Sometimes it is the ability to make someone feel physically comfortable by various means. Other times it is the ability to improve the body's ability to achieve or maintain health. But often it is an uncanny yet well honed knack to see beyond the obvious and address, in some way, the deeper needs of the human soul.'

In December last year, I laid the Safe Nurse Staffing Levels (Wales) Bill before this Assembly. The premise of this Bill was a very simple one. Nurses who have fewer patients to care for can spend more time with each patient, and, as a result, they are able to deliver better, safer care. They have more opportunity to identify and address potential problems with a patient's care. They can play a preventative, rather than a simply reactive role. That, in turn, improves patient outcomes, including saving patients' lives.

Ym mis Rhagfyr y llynedd, cyflwynais y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) gerbron y Cynulliad hwn. Mae cynsail y Bil yn un syml iawn. Mae nyrsys sydd â llai o gleifion i ofalu amdanynt yn gallu treulio mwy o amser gyda phob claf, ac o ganlyniad, maent yn gallu darparu gofal gwell a mwy diogel. Maent yn cael mwy o gyfle i nodi a mynd i'r afael â phroblemau posibl yng ngofal claf. Gallant chwarae rhan ataliol, yn hytrach na rôl adweithiol yn unig. Mae hynny, yn ei dro, yn gwella canlyniadau i gleifion, gan gynnwys achub bywydau cleifion.

Are safe nurse staffing levels the only factor in improving patient outcomes and care? Obviously not, and I don't claim that. But, there is a very large body of evidence that indicates that they are a major factor. Indeed, a Welsh Government research report published only last week acknowledges that a number of studies suggest that a registered nurse caring for more than seven patients is considered to be the point where increased risk of harm to patients occurs.

Ai lefelau diogel staff nyrsio yw'r unig ffactor wrth wella canlyniadau cleifion a gofal? Yn amlwg nid yw hynny'n wir, ac nid wyf yn honni ei fod. Ond mae corff mawr iawn o dystiolaeth sy'n dangos eu bod yn ffactor pwysig. Yn wir, mae adroddiad ymchwil gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn cydnabod bod nifer o astudiaethau'n awgrymu yr ystyrir bod nyrs gofrestredig sy'n gofalu am fwy na saith o gleifion ar y pwynt lle y ceir cynnydd yn y risg o niwed i gleifion.

The same report states that the 1:7 registered nurse-to-patient ratio threshold was breached on several wards across Wales on the day that the report's authors collected data. So, while it's clear that progress has been made by health boards towards delivering safe levels of nursing care in Wales, funded by announcements made by the health Minister, we also know that this isn't consistently in place. We also know that, when there are financial pressures, then it's the nursing workforce that is often a soft target for cuts. That's why this Bill is about ensuring that safe levels of staffing are permanently in place.

Dywed yr un adroddiad fod trothwy'r gymhareb 1:7 o nyrsys i gleifion wedi ei groesi ar nifer o wardiau ar draws Cymru ar y diwrnod y casglodd awduron yr adroddiad eu data. Felly, er bod cynnydd amlwg wedi'i wneud gan y byrddau iechyd tuag at gyflawni lefelau diogel o ofal nyrsio yng Nghymru, wedi'i gyllido gan gyhoeddiadau a wnaed gan y Gweinidog iechyd, rydym hefyd yn gwybod nad yw hyn yn cael ei weithredu'n gyson. Rydym hefyd yn gwybod, pan fo pwysau ariannol, fod y gweithlu nyrsio yn aml yn darged meddal ar gyfer toriadau. Dyna pam y mae'r Bil hwn yn ymwneud â sicrhau bod lefelau diogel o staff ar waith yn barhaol.

Over the past six months, the Bill has been rigorously scrutinised by both the Health and Social Care Committee and the Constitutional and Legislative Affairs Committee. I would like to take this opportunity to say how grateful I am to both committees for their robust consideration of the Bill and the comprehensive reports they have gone on to produce. I am delighted that both committees have indicated that, subject to certain amendments, they are supportive of the general principles of the Bill. Notably, the Health and Social Care Committee has reported that this legislation had the potential to increase momentum behind the delivery of consistently safe nurse staffing levels in Wales and that it would empower nurses to raise concerns about staffing levels and have their voices heard and ensure that progress in this area is made.

Dros y chwe mis diwethaf, mae'r Bil wedi cael ei graffu'n drylwyr gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i fynegi fy niolch i'r ddau bwyllgor am eu hystyriaeth gadarn o'r Bil a'r adroddiadau cynhwysfawr y maent wedi eu cynhyrchu. Rwy'n falch iawn fod y ddau bwyllgor wedi nodi, yn amodol ar rai newidiadau, eu bod yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. Yn fwyaf nodedig, mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi nodi bod gan y ddeddfwriaeth hon botensial i gynyddu'r momentwm sy'n sail i gyflwyno lefelau diogel cyson o staff nyrsio yng Nghymru ac y byddai'n grymuso nyrsys i fynegi pryderon ynghylch lefelau staffio, ac i leisio eu barn a sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn y maes.

I therefore wholeheartedly welcome the committees' conclusions that they are supportive of the general principles of the Bill and I hope other Members across the Chamber will reach the same conclusions here today.

Felly, rwy'n croesawu casgliadau'r pwyllgorau eu bod yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil yn llwyr a gobeithiaf y bydd Aelodau eraill ar draws y Siambr yn dod i'r un casgliadau yma heddiw.

In the space of this debate, it's not possible for me to address every one of the 23 recommendations made by both committees, many of which I hope to be able to deal with specifically at the amending stage, should the Bill go forward. But, there are a few points that I would like to pick up on that I think are particularly pertinent. In particular, I have read with considerable interest the Health and Social Care Committee's consideration of concerns raised about the use of the word 'minimum' in the Bill. I have also given careful consideration to the committee's concerns about the practical impact that the term 'minimum' might have on the flexibility needed at ward level to deliver safe nurse staffing levels. As such, I accept the committee's recommendation that the term 'minimum' be replaced with a term such as 'safe'. This is a significant change, but I believe it is intertwined with what the essence of this Bill has been about since its introduction, namely to create safe nursing care for all patients at all times, not simply a minimum number. I believe that rendering this change will help the Bill to better achieve its intended purposes to provide nurses with the time to provide compassionate care, and it will also eliminate a risk identified by the committee that minimum levels would inadvertently become interpreted as normal levels, when our objective is to provide safe levels of staffing. As we know from the evidence that the committee has received, the nursing needs of any particular ward can change on a daily basis, if not on an hourly basis, depending on the acuity—the levels of illness—of a patient on that ward. What is a safe nurse staffing level today may not be appropriate the next day. Therefore, we need that flexibility that the term 'minimum' perhaps would have constrained.

Yn ystod y ddadl hon, nid yw'n bosibl i mi fynd i'r afael â phob un o'r 23 o argymhellion a wnaed gan y ddau bwyllgor, ac rwy'n gobeithio gallu ymdrin yn benodol â sawl un yn ystod y cyfnod diwygio os yw'r Bil yn mynd yn ei flaen. Ond mae rhai pwyntiau yr hoffwn roi sylwi iddynt am fy mod yn credu eu bod yn arbennig o berthnasol. Yn benodol, darllenais gyda chryn ddiddordeb ystyriaeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol o bryderon a fynegwyd ynghylch y defnydd o'r gair 'isafswm' yn y Bil. Rwyf innau hefyd wedi rhoi ystyriaeth ofalus i bryderon y pwyllgor ynglŷn â'r effaith ymarferol y gallai'r term 'isafswm' ei chael ar yr hyblygrwydd sydd ei angen ar lefel y ward i ddarparu lefelau diogel o staff nyrsio. Fel y cyfryw, rwy'n derbyn argymhelliad y pwyllgor y dylid rhoi term fel 'diogel' yn lle 'isafswm'. Mae hwn yn newid sylweddol, ond rwy'n credu ei fod yn cydblethu â'r hyn yw hanfod y Bil ers ei gyflwyno, sef creu gofal nyrsio diogel ar gyfer pob claf bob amser, nid gosod isafswm syml. Rwy'n credu y bydd newid o'r fath yn helpu'r Bil i gyflawni'r dibenion a fwriadwyd ar ei gyfer yn well er mwyn rhoi amser i nyrsys ddarparu gofal tosturiol, a bydd hefyd yn dileu risg a nodwyd gan y pwyllgor y byddai lefelau isaf yn cael eu dehongli'n anfwriadol fel lefelau normal, er mai ein nod yw darparu lefelau staffio diogel. Fel y gwyddom o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor, gall anghenion nyrsio unrhyw ward benodol newid o ddydd i ddydd, os nad o un awr i'r llall, yn dibynnu ar aciwtedd—lefelau salwch—y cleifion ar y ward honno. Efallai na fydd yr hyn sy'n lefel diogel o staff nyrsio heddiw yn briodol yfory. Felly, mae angen yr hyblygrwydd a allai fod wedi'i gyfyngu gan y term 'isafswm'.

However, in addressing one set of problems, it's vital that we do not create new ones, so I'm also grateful to the committee for its careful consideration of whether this Bill might inadvertently result in unintended consequences. The committee has considered whether this Bill might have the result of diverting staff and resources from one setting to another, and I welcome the committee's recommendations for mitigating the risk of such consequences. But, the committee's consideration of unintended consequences has also reinforced in my mind the importance of the Bill's overarching duty that all health service bodies in all settings must have regard to the importance of ensuring that registered nurses are deployed in sufficient numbers to enable the provision of safe nursing care. As a result of the committee's scrutiny, I'm more convinced than ever that that overarching duty of the nature I've just described needs to remain in the Bill. Because of this overarching duty, if a health body diverted staff from one setting to another and, as a result, did not provide safe nursing, they would be in breach of the legislation.

Fodd bynnag, wrth fynd i'r afael ag un set o broblemau, mae'n hanfodol nad ydym yn creu rhai newydd, felly rwy'n ddiolchgar hefyd i'r pwyllgor am ystyried yn ofalus a fyddai'r Bil hwn yn arwain at ganlyniadau anfwriadol. Mae'r pwyllgor wedi ystyried a allai'r Bil arwain at ddargyfeirio staff ac adnoddau o un lleoliad i'r llall, ac rwy'n croesawu argymhellion y pwyllgor ar gyfer lliniaru'r risg o ganlyniadau o'r fath. Ond mae ystyriaeth y pwyllgor o ganlyniadau anfwriadol hefyd wedi atgyfnerthu yn fy meddwl pa mor bwysig yw dyletswydd gyffredinol y Bil fod yn rhaid i bob corff gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad ystyried pwysigrwydd sicrhau bod digon o nyrsys cofrestredig yn cael eu defnyddio i allu darparu gofal nyrsio diogel. O ganlyniad i waith craffu'r pwyllgor, rwy'n fwy argyhoeddedig nag erioed fod angen i ddyletswydd drosfwaol o'r natur rwyf newydd ei disgrifio aros yn y Bil. Oherwydd y ddyletswydd drosfwaol hon, pe bai corff iechyd yn dargyfeirio staff o un lleoliad i'r llall ac o ganlyniad, yn methu darparu gofal nyrsio diogel, byddent yn torri amodau'r ddeddfwriaeth.

I think, acting Deputy Presiding Officer, that I will split the time available to me in half to allow me to respond to Members' contributions. Once again, I'd like to place on record my gratitude to my colleagues here in the Chamber for their support for the legislation to date, the hard work of both committees and the ongoing support that I have had from professional bodies outside of this Chamber and, indeed, a significant number of Welsh constituents, Welsh people, who want this legislation passed. Today, perhaps, we have debated a shocking example of care. Too often, stories about the Welsh NHS have been about bad news. I think, today, we have an opportunity to create a great news story for the Welsh NHS by becoming the first part of the United Kingdom to enshrine this type of legislation in law. What a positive, positive story it would be for Wales and our NHS to know that we were taking this action to ensure safe staffing levels. Thank you.

Ddirprwy Lywydd dros dro, rwy'n meddwl fy mod am rannu'r amser sydd ar gael i mi yn ei hanner i fy ngalluogi i ymateb i gyfraniadau'r Aelodau. Unwaith eto, hoffwn gofnodi fy niolch i fy nghyd-Aelodau yma yn y Siambr am eu cefnogaeth i'r ddeddfwriaeth hyd yn hyn, am waith caled y ddau bwyllgor a'r gefnogaeth barhaus a gefais gan gyrff proffesiynol y tu allan i'r Siambr ac yn wir, i nifer sylweddol o etholwyr yng Nghymru, pobl Cymru, sydd am weld y ddeddfwriaeth hon yn cael ei phasio. Heddiw, rydym wedi trafod enghraifft arswydus o ofal. Yn rhy aml, mae straeon am y GIG yng Nghymru wedi ymwneud â newyddion drwg. Heddiw, rwy'n meddwl bod cyfle gennym i greu stori newyddion wych am y GIG yng Nghymru drwy ddod yn rhan gyntaf y Deyrnas Unedig i ymgorffori'r math yma o ddeddfwriaeth yn y gyfraith. Am stori gadarnhaol fyddai hi i Gymru a'n GIG i wybod ein bod yn rhoi'r camau hyn ar waith er mwyn sicrhau lefelau staffio diogel. Diolch yn fawr.

16:28

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Health and Social Care Committee, David Rees.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, David Rees.

16:28

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Gadeirydd. Mae'n bleser gennyf gyfrannu at ddadl heddiw ar ran y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Rôl y pwyllgor oedd ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnyn nhw. Cafodd ein hadroddiad ei osod gerbron y Cynulliad ar 8 Mai. Rydym ni'n gobeithio bod y dystiolaeth a gafodd ei chasglu a'r casgliadau a ddaethom iddyn nhw wedi helpu Aelodau'r Cynulliad wrth baratoi ar gyfer dadl heddiw.

Thank you, Chair. I am pleased to be able to contribute to today's debate on behalf of the Health and Social Care Committee. The committee's role was to consider the general principles of the Bill and to report on them. Our report was laid before the Assembly on 8 May. We hope that the evidence that we've gathered and the conclusions we drew have helped Assembly Members when preparing for today's debate.

Rydym ni wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r dystiolaeth a ddaeth i law, a diolch i bawb a gyfrannodd yn ysgrifenedig neu ar lafar at ein proses graffu Cyfnod 1. Rydym ni'n arbennig o ddiolchgar i aelodau o'r cyhoedd a'r gweithwyr iechyd proffesiynol a roddodd o'u hamser i rannu eu safbwyntiau gyda ni. A diolch i Kirsty Williams yn ei rôl fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil hwn.

We have given detailed consideration to the evidence received and I would like to thank all those who contributed in writing or orally to our Stage 1 scrutiny. We are particularly grateful to members of the public and health professionals who took the time to share their views with us, and we're also grateful to Kirsty Williams in her role as the Member in charge of this Bill.

Kirsty Williams has also, perhaps, taken some of the answers from my speech as she's given her views on some points already, so I thank you for that; it saves me a bit of time.

Mae Kirsty Williams hefyd wedi mynd â rhai o'r atebion o fy araith efallai gan ei bod wedi rhoi ei barn ar rai pwyntiau eisoes, felly diolch i chi am hynny; mae'n arbed ychydig o amser i mi.

The pivotal role of nurses in the delivery of high quality, effective care for patients is widely acknowledged. A number of recent high-profile reports on the performance of the NHS in England and Wales—and in today's debate as well—have drawn attention to the importance of nurse staffing levels for patient outcomes. Committee members unanimously support the aim of this Bill, which seeks to ensure that nurses are deployed in sufficient numbers to deliver safe nursing care for patients at all times.

Mae rôl ganolog nyrsys yn darparu gofal effeithiol o ansawdd uchel i gleifion yn cael ei chydnabod yn eang. Mae nifer o adroddiadau proffil uchel diweddar ar berfformiad y GIG yng Nghymru a Lloegr—ac yn y ddadl heddiw yn ogystal—wedi tynnu sylw at bwysigrwydd lefelau diogel o staff nyrsio ar gyfer sicrhau canlyniadau i gleifion. Mae aelodau'r pwyllgor yn unfryd eu cefnogaeth i nod y Bil hwn sy'n ceisio sicrhau bod nifer digonol o nyrsys yn cael eu defnyddio i ddarparu gofal nyrsio diogel i gleifion bob amser.

The next question we turned to, therefore, was whether legislation was actually needed to deliver this aim, or whether there are other ways to achieve this outcome. The committee acknowledges that the Minister has powers to deliver a large proportion of the Bill's provisions. Nevertheless, Members are persuaded that legislation could be beneficial in order to increase the momentum behind the delivery of consistently safe nurse staffing levels in Wales, and to concentrate minds in a way general guidance may not.

Y cwestiwn nesaf a drafodwyd gennym, felly, oedd i ba raddau roedd angen deddfwriaeth i gyflawni'r nod hwn mewn gwirionedd, neu a oes ffyrdd eraill o gyflawni'r un canlyniad. Mae'r pwyllgor yn cydnabod bod gan y Gweinidog bwerau i gyflwyno cyfran helaeth o ddarpariaethau'r Bil. Serch hynny, mae'r Aelodau wedi cael eu perswadio y gallai deddfwriaeth fod yn fuddiol er mwyn cynyddu'r momentwm sy'n sail i gyflwyno lefelau diogel cyson o staff nyrsio yng Nghymru, a chanolbwyntio meddyliau mewn ffordd na all canllawiau cyffredinol ei wneud.

Our report therefore concludes that the Assembly should support the Bill's general principles at Stage 1. This conclusion is drawn on the basis that primary legislation could build on the tools the Minister already has at his disposal. However, this is not unconditional. Our report states clearly that a number of amendments are required before this legislation is passed into law. In particular, we believe that further work is needed to mitigate some of the potentially significant unintended consequences that could be created by the Bill as currently drafted. These are set out in detail in our report and its 19 recommendations.

Mae ein hadroddiad, felly, yn dod i'r casgliad y dylai'r Cynulliad gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1. Doir i'r casgliad hwn ar y sail y gallai deddfwriaeth sylfaenol adeiladu ar yr adnoddau sydd eisoes ar gael i'r Gweinidog. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ddiamod. Mae ein hadroddiad yn datgan yn glir fod angen nifer o welliannau cyn y gellir pasio'r ddeddfwriaeth hon. Yn benodol, credwn fod angen gwaith pellach i liniaru rhai o'r canlyniadau anfwriadol sylweddol posibl y gellid eu creu gan y Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd. Nodir y rhain yn fanwl yn ein hadroddiad a'i 19 o argymhellion.

Evidence presented to the committee highlights a number of areas in which the Bill could have unintended negative impacts, which have already been mentioned by Kirsty Williams in some aspects. But we were particularly concerned about the evidence that suggests that legislating to require certain staffing levels on a ward of one clinical area could lead to the diversion of resources and staff away from other clinical areas. Now, I know that Kirsty Williams has strengthened her view on the overarching duty she includes in the Bill, and we understand that she has put that in to mitigate the risks of this happening. However, we remain worried that the Bill as drafted could have a detrimental impact on other wards and settings. To this end, we do recommend that provision be made within the Bill to ensure that compliance with staffing ratios in adult in-patient wards in acute hospitals, as worded at the moment, does not have an adverse effect on other NHS settings.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor yn tynnu sylw at nifer o feysydd lle y gallai'r Bil arwain at effeithiau negyddol anfwriadol y crybwyllwyd rhai agweddau arnynt eisoes gan Kirsty Williams. Ond roeddem yn arbennig o bryderus ynglŷn â'r dystiolaeth sy'n awgrymu y gallai deddfu i'w gwneud yn ofynnol cael lefelau staffio penodol ar ward mewn un maes clinigol arwain at ddargyfeirio adnoddau a staff o feysydd clinigol eraill. Nawr, gwn fod Kirsty Williams wedi cryfhau ei safbwynt ynghylch y ddyletswydd drosfwaol y mae'n ei chynnwys yn y Bil, a deallwn ei bod wedi ei chynnwys er mwyn lliniaru'r risg o hyn yn digwydd. Fodd bynnag, rydym yn parhau i boeni y gallai'r Bil fel y'i drafftiwyd gael effaith niweidiol ar wardiau a lleoliadau eraill. I'r perwyl hwn, rydym yn argymell y dylid gwneud darpariaeth yn y Bil i sicrhau nad yw cydymffurfiaeth â'r cymarebau staffio ar wardiau cleifion mewnol sy'n oedolion mewn ysbytai aciwt, fel y'i geiriwyd ar hyn o bryd, yn cael effaith niweidiol ar leoliadau eraill y GIG.

Our report also draws attention to the Bill's potential to lead to an increase, in the short term, in the use of agency and bank nursing staff. This could raise costs and potentially impact upon the quality of care provided to patients as a consequence of staff being less familiar with the wards on which they are going to work. The Bill should make provision for ensuring that emphasis is placed on achieving a reasonable balance of permanent and agency or bank nursing staff when complying with the statutory ratios to help alleviate this concern. The lack of existing workforce capacity was also overwhelmingly cited as one of the most significant barriers, with the current numbers of qualified nurses being of concern to witnesses and Members alike.

Mae ein hadroddiad hefyd yn tynnu sylw at botensial y Bil i arwain at gynnydd, yn y tymor byr, yn y defnydd o staff asiantaeth a staff cronfeydd nyrsio. Gallai hyn godi costau ac effeithio ar ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion o bosibl, o ganlyniad i'r ffaith y byddai staff yn llai cyfarwydd â'r wardiau y maent yn gweithio arnynt. Dylai'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer gwneud yn siŵr fod pwyslais yn cael ei roi ar sicrhau cydbwysedd rhesymol o staff parhaol a staff asiantaeth neu staff cronfeydd nyrsio wrth gydymffurfio â'r cymarebau statudol i helpu i leddfu'r pryder hwn. Nodwyd yn eang iawn hefyd mai diffyg capasiti'r gweithlu presennol yw un o'r rhwystrau mwyaf arwyddocaol, gyda'r niferoedd presennol o nyrsys cymwysedig yn destun pryder i dystion ac Aelodau fel ei gilydd.

Aligned to the issue of staffing capacity, some witnesses referred to deficiencies in workforce planning as another barrier to the Bill's implementation, arguing that an insufficient numbers of nurses were currently being trained to meet demand. While our report acknowledges the potential the Bill has to create a working environment that will attract and retain nurses, as has been talked about to us, we do not believe that it's likely to happen quickly nor on the scale necessary to meet the current shortages and any additional demand created as a consequence of the Bill's requirements. We therefore recommend that the Member in charge considers making provision on the face of the Bill to require comprehensive workforce planning, and suggest that she explores provisions of this nature already in force in Scotland.

Ochr yn ochr â mater capasiti staffio, cyfeiriodd rhai tystion at ddiffygion wrth gynllunio'r gweithlu fel rhwystr arall i weithrediad y Bil, gan ddadlau nad oedd niferoedd digonol o nyrsys yn cael eu hyfforddi ar hyn o bryd i ateb y galw. Er bod ein hadroddiad yn cydnabod potensial y Bil i greu amgylchedd gwaith a fydd yn denu ac yn cadw nyrsys, fel y soniwyd wrthym, nid ydym yn credu bod hynny'n debygol o ddigwydd yn gyflym nac ar y raddfa angenrheidiol i gwrdd â'r prinder presennol ac unrhyw alw ychwanegol a grëir o ganlyniad i ofynion y Bil. Felly, rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn ystyried gwneud darpariaeth ar wyneb y Bil i'w gwneud yn ofynnol creu cynlluniau cynhwysfawr ar gyfer y gweithlu, ac yn awgrymu ei bod yn archwilio darpariaethau o'r fath sydd eisoes mewn grym yn yr Alban.

We also believe the Bill should be amended to provide clarity about the particular settings to which it intends initially to apply the staffing ratios. While the Bill as currently drafted requires staffing ratios to apply in adult in-patient wards in acute hospitals, we did note that it is Kirsty Williams' intention that they apply initially to adult medical and surgical wards in acute hospitals only. This should be made clear in the Bill.

Rydym hefyd yn credu y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i ddarparu eglurder ynghylch y lleoliadau penodol y mae'n bwriadu defnyddio'r cymarebau staffio ynddynt ar y cychwyn. Er bod y Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd yn galw am ddefnyddio cymarebau staffio mewn wardiau i gleifion mewnol sy'n oedolion mewn ysbytai aciwt, nodwn mai bwriad Kirsty Williams yw eu defnyddio i gychwyn ar wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion mewn ysbytai acíwt yn unig. Dylai hyn gael ei wneud yn glir yn y Bil.

We understand the rationale for applying those provisions, because of the evidence base that was used. Nevertheless, we still have significant concerns about the exclusion of mental health wards, as it happens—we were just talking about that earlier—and the potential unintended consequence of staff being moved from other settings within acute hospitals, but also of staff being moved from community hospitals as well. So, those are possibilities. We want that to be reviewed as a matter of urgency, and to seek whether there is sufficient evidence for basing staffing ratios on additional NHS settings, perhaps looking at the NICE movements as well, because they've actually moved into other settings within the NHS in England.

Rydym yn deall y sail resymegol dros gymhwyso'r darpariaethau hynny, oherwydd y sylfaen dystiolaeth a ddefnyddiwyd. Serch hynny, mae gennym bryderon sylweddol o hyd ynglŷn ag eithrio wardiau iechyd meddwl, fel mae'n digwydd—roeddem yn siarad am hynny'n gynharach—a'r canlyniad anfwriadol posibl o staff yn cael eu symud o leoliadau eraill mewn ysbytai aciwt, ond hefyd o staff yn cael eu symud o ysbytai cymunedol yn ogystal. Felly, mae'r rhain yn bosibl. Rydym am i hynny gael ei adolygu fel mater o frys, ac edrych i weld a oes digon o dystiolaeth ar gyfer seilio cymarebau staffio ar leoliadau GIG ychwanegol, gan edrych o bosibl ar symudiadau NICE hefyd, am eu bod wedi symud i leoliadau eraill yn y GIG yn Lloegr.

Moving on, evidence we received during the course of our inquiry pointed to the need to address issues relating to Welsh NHS commissioned or funded care. We were particularly concerned about the issues raised in respect of care commissioned or funded by the NHS in the nursing home sector. While we recognise the overarching duty is there, we want to ensure that safe staffing levels capture commissioned and funded care, and we believe the Bill should require the Welsh Government to issue additional guidance in respect of that wider duty, particularly if the health service is giving regard to the levels when making arrangements to commission and/or fund care in non-Welsh-NHS settings as well.

Gan symud ymlaen, mae'r dystiolaeth a gawsom yn ystod ein hymchwiliad wedi tynnu sylw at yr angen i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gofal a gomisiynir neu a ariennir gan y GIG yng Nghymru. Roeddem yn arbennig o bryderus ynghylch y materion a godwyd mewn perthynas â gofal a gomisiynir neu a ariennir gan y GIG yn y sector cartrefi nyrsio. Er ein bod yn cydnabod fod y ddyletswydd drosfwaol yno, rydym eisiau sicrhau bod lefelau diogel o staff mewn gofal a gomisiynir a gofal a ariennir, a chredwn y dylai'r Bil ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ychwanegol mewn perthynas â'r ddyletswydd ehangach honno, yn enwedig os yw'r gwasanaeth iechyd yn ystyried y lefelau hefyd wrth wneud trefniadau i gomisiynu a/neu ariannu gofal mewn lleoliadau GIG y tu allan i Gymru.

We took a specific interest in the mechanisms for dealing with non-compliance. Are they robust enough to enforce this Bill properly? We acknowledge the Minister has powers to direct health boards where performance is deemed to be inadequate, but, to this end, we want to recommend that the Member in charge give consideration to strengthening the Bill's provisions in addressing non-compliance.

Roedd gennym ddiddordeb penodol yn y systemau ar gyfer ymdrin â diffyg cydymffurfiaeth. A ydynt yn ddigon cadarn i orfodi'r Bil hwn yn iawn? Rydym yn cydnabod bod gan y Gweinidog bwerau i gyfarwyddo byrddau iechyd lle y bernir bod perfformiad yn annigonol, ond i'r perwyl hwn, rydym yn awyddus i argymell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn ystyried cryfhau darpariaethau'r Bil i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio.

I will now turn to the Bill's financial implications. We note the Minister's concerns about the credibility of the financial information presented in the explanatory memorandum, and we also note Kirsty Williams's view that health boards' staffing plans should already be included in the necessary funding to deliver the staffing ratio according to the chief nursing officer's all-Wales nurse staffing principles. But we still remain to be convinced that the increases that we expect in the expenditure on bank and agency staff would not occur in the short term as a consequence of the implementation. We do accept that they may decrease as time goes on—we acknowledge that—but clearly the short term needs to be looked at.

Trof yn awr at oblygiadau ariannol y Bil. Nodwn bryderon y Gweinidog ynghylch hygrededd y wybodaeth ariannol a gyflwynir yn y memorandwm esboniadol, ac rydym hefyd yn nodi barn Kirsty Williams y dylai cynlluniau staffio byrddau iechyd fod wedi eu cynnwys eisoes yn y cyllid angenrheidiol ar gyfer cyflwyno'r gymhareb staffio yn ôl egwyddorion staffio nyrsys Cymru gyfan y prif swyddog nyrsio. Ond rydym yn dal i fod heb ein hargyhoeddi na fyddai'r cynnydd a ddisgwyliwn yn y gwariant ar staff cronfeydd nyrsio a staff asiantaeth yn digwydd yn y tymor byr o ganlyniad i'w gweithredu. Rydym yn derbyn y gallant ostwng wrth i amser fynd yn ei flaen—rydym yn cydnabod hynny—ond mae'n amlwg fod angen edrych ar y tymor byr.

The final chapter of our report deals with the Bill's subordinate legislation, the definitions used on its face and the Bill's commencement provisions. I haven't got time in this session to discuss that, so you can look at the report, but I would like to finish off, Chair, on a couple of points. We believe the Member in charge should consider whether a sunrise clause may be a more realistic alternative to commencement on Royal Assent. We believe this approach should be considered as effective guidance will be required, staffing shortages will need to be overcome, and the training of nurses will need to be overcome before the Bill's provisions can be implemented meaningfully. In the event of the Assembly agreeing these general principles today, we hope that the Member in charge and the Minister will accept the conclusions and recommendations contained in our report when they bring forward amendments at Stage 2.

Mae pennod olaf ein hadroddiad yn ymdrin ag is-ddeddfwriaeth y Bil, y diffiniadau a ddefnyddir ar ei wyneb a darpariaethau cychwyn y Bil. Nid oes gennyf amser yn y sesiwn hon i drafod hynny, felly gallwch edrych ar yr adroddiad, ond hoffwn orffen, Gadeirydd, gydag un neu ddau o bwyntiau. Credwn y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ystyried a all cymal 'codiad haul' fod yn ddewis amgen mwy realistig yn hytrach na chychwyn ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Credwn y dylid ystyried y dull hwn gan y bydd angen arweiniad effeithiol, bydd angen goresgyn materion prinder staff, a bydd angen dod i ben â hyfforddi nyrsys cyn y gellir gweithredu darpariaethau'r Bil yn ystyrlon. Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol hyn heddiw, gobeithiwn y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol a'r Gweinidog yn derbyn y casgliadau a'r argymhellion yn ein hadroddiad wrth iddynt gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2.

16:37

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

16:37 **David Melding** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, acting Presiding Officer. We reported on this Bill on 6 May and we made four recommendations. I just need to make a few brief remarks. This is the fifth piece of Members' legislation that the committee has considered. The Bill has been brought forward because the Member in charge doesn't feel existing policies are delivering the outcomes that are desired, namely safe nurse staffing levels. We note that there is a level of debate about whether legislation is needed to address this particular concern, but this is something we often find when discussing Members' legislation, so we do believe it's something for this Chamber to determine. We do believe that making the changes that we have recommended would help ensure that the Bill delivers the Member's objectives. And if the Member is saying that a legislative vehicle is required in this policy area, we do think that it needs to be as effective a legislative vehicle as possible, hence our recommendations to strengthen it.

Diolch i chi, Lywydd dros dro. Cyflwynasom adroddiad ar y Bil hwn ar 6 Mai a gwnaethom bedwar argymhelliad. Mae angen i mi wneud ychydig o sylwadau cryno. Dyma'r pumed darn o ddeddfwriaeth gan Aelodau y mae'r pwyllgor wedi ei ystyried. Mae'r Mesur wedi cael ei gyflwyno am nad yw'r Aelod sy'n gyfrifol yn teimlo bod y polisïau presennol yn cyflawni'r canlyniadau sy'n ddymunol, sef lefelau diogel o staff nyrsio. Rydym yn nodi bod yna ddadl ynghylch yr angen am ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â'r pryder arbennig hwn, ond mae hyn yn rhywbeth a welwn yn aml wrth drafod deddfwriaeth gan Aelodau, felly credwn ei fod yn rhywbeth i'r Siambr hon ei benderfynu. Rydym yn credu y byddai gwneud y newidiadau rydym wedi eu hargymell yn helpu i sicrhau bod y Bil yn cyflawni amcanion yr Aelod. Ac os yw'r Aelod yn dweud bod angen cyfrwng deddfwriaethol yn y maes polisi hwn, rydym yn credu bod angen iddo fod yn gyfrwng deddfwriaethol mor effeithiol â phosibl, a dyna pam y gwnawn ein hargymhellion i'w gryfhau.

Section 10A contains extensive duties for Welsh Ministers to give guidance to health service bodies to ensure compliance with the duty to have appropriate staffing levels. However, statutory guidance is the weakest legislative tool available to the Assembly, and we therefore recommend that the Member in charge tables amendments to deliver the objectives of this section through regulations subject to the negative procedure. We agree with the Minister that there are too few definitions on the face of the Bill, and we therefore believe the Bill would be strengthened by the inclusion of more definitions on the face of the Bill.

Mae adran 10A yn cynnwys dyletswyddau helaeth i Weinidogion Cymru roi canllawiau i gyrff gwasanaeth iechyd er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd i gael lefelau staffio priodol. Fodd bynnag, canllawiau statudol yw'r offeryn deddfwriaethol gwannaf sydd ar gael i'r Cynulliad, ac felly rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno gwelliannau i gyflawni amcanion yr adran hon drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog nad oes digon o ddiffiniadau ar wyneb y Bil, ac felly rydym yn credu byddai'r Bil yn cael ei gryfhau drwy gynnwys mwy o ddiffiniadau ar wyneb y Bil.

Turning to the point of commencement, the Bill currently states that the Act will come into force on Royal Assent, as has been referred to by the Chair of the Health and Social Care Committee. However, it cannot come into force until the guidance has been issued, so we therefore recommend that the Member in charge includes a commencement power within the Bill. Thank you, acting Presiding Officer.

Gan droi at y pwynt cychwyn, mae'r Bil ar hyn o bryd yn datgan y bydd y Ddeddf yn dod i rym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, fel y dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, ni all ddod i rym nes y bydd y canllawiau wedi eu cyhoeddi, felly rydym yn argymell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cynnwys pŵer cychwyn o fewn y Bil. Diolch i chi, Lywydd dros dro.

16:39 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.

16:39 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Chair. I've listened very carefully to this afternoon's debate, of course, and the efforts that the Member in charge has made so far to persuade the National Assembly that she is able to respond to the reports of the Constitutional and Legislative Affairs Committee and the Health and Social Care Committee sufficiently to allow the Bill to proceed. I too am very grateful to both committees for the work that they've done on the Bill. The Government's position remains that reached by the Health and Social Care Committee: the Bill could be beneficial in adding to the tools already available to achieve necessary levels of nurse staffing, but that essential amendments are required if the Bill is to achieve that ambition. Indeed, as we've heard from the Chair of the committee, amendment is essential in order to avoid unintended consequences of the Bill and to address the risk that, as currently drafted, it could inadvertently end up doing more harm than good.

Diolch yn fawr, Gadeirydd. Rwyf wedi gwrando'n ofalus iawn ar y ddadl y prynhawn yma, wrth gwrs, ac ar yr ymdrechion a wnaeth yr Aelod sy'n gyfrifol hyd yn hyn i berswadio'r Cynulliad Cenedlaethol ei bod yn gallu ymateb i adroddiadau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddigonol i ganiatáu i'r Bil fynd rhagddo. Rwyf innau hefyd yn ddiolchgar iawn i'r ddau bwyllgor am y gwaith y maent wedi ei wneud ar y Bil. Mae safbwynt y Llywodraeth yn dal i fod yr un fath ag un y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: gallai'r Bil fod o fudd i ychwanegu at yr offerynnau sydd ar gael eisoes i sicrhau lefelau angenrheidiol o staff nyrsio, ond bod gofyn cael gwelliannau hanfodol os yw'r Bil yn mynd i gyflawni'r uchelgais hwnnw. Yn wir, fel y clywsom gan Gadeirydd y pwyllgor, mae diwygio'n hanfodol ar gyfer osgoi canlyniadau anfwriadol y Bil, ac er mwyn mynd i'r afael â'r risg y gallai arwain yn anfwriadol yn y diwedd, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, at wneud mwy o ddrwg nag o les.

I therefore welcome the recommendations of the Constitutional and Legislative Affairs Committee that the proposed legislation be strengthened by defining some key terms on the face of the Bill. I also very much agree with the conclusion of that committee that the Bill should not come into force until the guidance on which its practical operation will rely has been fully produced.

Felly, rwy'n croesawu argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylid cryfhau'r ddeddfwriaeth arfaethedig drwy ddiffinio rhai termau allweddol ar wyneb y Bil. Rwyf hefyd yn cytuno'n fawr iawn â chasgliad y pwyllgor hwnnw na ddylai'r Bil ddod i rym nes bod y canllawiau y bydd ei weithrediad ymarferol yn dibynnu arnynt wedi eu cynhyrchu'n llawn.

As for the recommendations of the Health and Social Care Committee, its report echoes, and in some important ways extends, the two matters to which I have referred in the CLAC report. The health committee too calls for definition of key terms to be included on the face of the Bill and it also endorses the need for a sufficient lead-in time to be secured in order to develop guidance and to recruit any additional staff needed to meet the Bill's purposes.

O ran argymhellion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae ei adroddiad yn adleisio, ac mewn rhai ffyrdd pwysig yn ymestyn y ddau fater y cyfeiriais atynt yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Mae'r pwyllgor iechyd hefyd yn galw am ddiffiniad o'r termau allweddol i'w cynnwys ar wyneb y Bil ac mae hefyd yn cadarnhau'r angen i sicrhau digon o amser paratoi ar gyfer datblygu canllawiau ac i recriwtio unrhyw staff ychwanegol y bydd eu hangen i gwrdd â dibenion y Bil.

In the time available to me, Chair, I want to set out a number of changes that would have to be reflected in any amended Bill in order to secure Government support. While I'm keen to work positively and constructively with the Member in charge to achieve such changes, I'm equally clear that, without them, the Bill will struggle to obtain our endorsement.

Yn yr amser sydd ar gael i mi, Gadeirydd, rwyf am nodi nifer o newidiadau y byddai'n rhaid eu hadlewyrchu mewn Bil diwygiedig er mwyn sicrhau cefnogaeth y Llywodraeth. Er fy mod yn awyddus i weithio'n gadarnhaol ac yn adeiladol gyda'r Aelod sy'n gyfrifol i gyflawni newidiadau o'r fath, rwyf yr un mor glir y byddai'n anodd i ni gymeradwyo'r Bil heb y newidiadau hynny.

Now, at root, Chair, there are only two such essential matters. Firstly, the Government firmly believes that the Bill must be clarified so that the figure that represents the right number of nurses to provide the necessary care for patients in the particular circumstances of any adult acute medical or surgical ward in Wales—and we agree that the product of the Bill should be a number that can be identified and publicised—that figure should be the product of what is called the triangulated method, not a component of it.

Nawr, yn y bôn, Gadeirydd, dau fater hanfodol o'r fath sydd yna. Yn gyntaf, mae'r Llywodraeth yn credu'n gryf fod yn rhaid gwneud y Bil yn fwy eglur fel bod y ffigur sy'n cynrychioli'r nifer cywir o nyrsys i ddarparu'r gofal angenrheidiol i gleifion yn amgylchiadau arbennig unrhyw ward feddygol neu lawfeddygol aciwt i oedolion yng Nghymru—ac rydym yn cytuno y dylai'r Bil gynnwys nifer y gellir ei nodi a rhoi cyhoeddusrwydd iddo—dylai'r ffigur hwnnw fod yn gynnyrch yr hyn a elwir yn ddull triongli, ac nid yn gydran ohono.

The Government agrees that, while there will be an agreed number of nurses, that will vary in accordance with the particular circumstances that apply at any time. And because of that, because of the need for that sort of flexibility, the number, we believe, should be derived through three interrelated strands, all of which should appear on the face of the Bill—use of the chief nursing officer's acuity tool, a set of nurse-sensitive indicators, and the professional judgment of senior staff on the spot.

Er y bydd nifer cytunedig o nyrsys, mae'r Llywodraeth yn cytuno y bydd yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau penodol sy'n bodoli ar unrhyw adeg. Ac oherwydd hynny, oherwydd yr angen am y math hwnnw o hyblygrwydd, dylid pennu'r nifer, yn ein barn ni, drwy dair elfen ryng-gysylltiedig, a dylai pob un ohonynt ymddangos ar wyneb y Bil—y defnydd o offeryn aciwtedd y prif swyddog nyrsio, cyfres o ddangosyddion sy'n sensitif i nyrsys, a barn broffesiynol uwch staff yn y fan a'r lle.

The second area in which amendment will be essential, if it is to secure Government support, is that the Bill must set up a reporting regime against its new requirements that is proper and proportionate. Now, I agree that such a regime is necessary, but I also agree very much with the Health and Social Care Committee's conclusion in its twelfth recommendation that the Bill, as currently drafted, must be reviewed to ensure that its reporting requirements do not create additional bureaucracy, in particular for nursing staff, and that these are aligned with the frequency and the structure of existing reporting requirements.

Yr ail faes lle y bydd gwelliant yn hanfodol, os yw i sicrhau cefnogaeth y Llywodraeth, yw bod yn rhaid i'r Bil sefydlu trefn adrodd ar ei ofynion newydd sy'n briodol ac yn gymesur. Yn awr, rwy'n cytuno bod trefn o'r fath yn angenrheidiol, ond rwyf hefyd yn cytuno i raddau helaeth â chasgliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn argymhelliad deuddeg fod yn rhaid adolygu'r Bil, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, i sicrhau nad yw ei ofynion adrodd yn creu biwrocratiaeth ychwanegol, yn enwedig i staff nyrsio, a bod y trefniadau adrodd yn cyfateb i amlder a strwythur y gofynion adrodd sy'n bodoli eisoes.

Chair, let me add just two final points for this afternoon. Firstly, Members will have seen that I will not be moving a financial resolution this afternoon. I agree with the Health and Social Care Committee that the Member in charge should undertake further analysis of the potential increases in expenditure that will arise as a result of the Bill. I've written already to Kirsty Williams offering some assistance in carrying out that work. As it isn't satisfactorily concluded by this afternoon, however, I don't believe that this is the right moment to move a financial resolution.

Gadeirydd, gadewch i mi ychwanegu dau bwynt terfynol ar gyfer y prynhawn yma. Yn gyntaf, bydd yr Aelodau wedi gweld na fyddaf yn cyflwyno cynnig ariannol y prynhawn yma. Rwy'n cytuno â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gynnal dadansoddiad pellach o'r cynnydd posibl yn y gwariant a fydd yn codi o ganlyniad i'r Bil. Rwyf wedi ysgrifennu at Kirsty Williams eisoes yn cynnig cymorth gyda'r gwaith hwnnw. Gan nad yw wedi cael ei gwblhau'n foddhaol erbyn y prynhawn yma, fodd bynnag, nid wyf yn credu mai dyma'r adeg iawn i gyflwyno cynnig ariannol.

Secondly, Chair, and finally, I wanted to set out a Government commitment in relation to the second recommendation of the Health and Social Care Committee. There's been much discussion, as Members have already heard, during Stage 1, as to whether the Bill is necessary at all, or whether its objectives could be met by other means already available to Ministers.

Yn ail, Gadeirydd, ac yn olaf, roeddwn eisiau nodi ymrwymiad y Llywodraeth mewn perthynas ag ail argymhelliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cafwyd llawer o drafod, fel y mae'r Aelodau eisoes wedi clywed, yn ystod Cyfnod 1, ynglŷn ag a yw'r Bil yn angenrheidiol o gwbl, neu a ellid diwallu ei amcanion drwy ddulliau eraill sydd eisoes ar gael i Weinidogion.

Now, while, as I said at the outset, I continue to conclude that the Bill could strengthen the repertoire of tools available, I agree with the committee that much could be achieved without it. If the Bill, therefore, finally failed to reach the statute book, I'm happy to confirm today that it would be my intention to fulfil the recommendation of the committee's report that I should use my powers of direction under the National Health Service (Wales) Act of 2006 to ensure that relevant health service bodies are required to use the validated acuity tool as part of their process to determine recommended staffing ratios to deliver the right levels of nursing here in Wales. I also provide a commitment, as suggested by the committee, to consult the National Assembly fully in advance of issuing any such guidance or making any regulations with this purpose, using the powers of direction available to me.

Nawr, fel y dywedais ar y dechrau, er fy mod yn dal i fod o'r farn y gallai'r Bil gryfhau'r amrywiaeth o offerynnau sydd ar gael, rwy'n cytuno â'r pwyllgor y gellid cyflawni llawer hebddo. Felly, pe bai'r Bil yn methu â chyrraedd y llyfr statud yn y pen draw, rwy'n hapus i gadarnhau heddiw mai fy mwriad yw cyflawni argymhelliad adroddiad y pwyllgor y dylwn ddefnyddio fy mhwerau cyfarwyddo o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i sicrhau ei bod yn ofynnol i gyrff perthnasol y gwasanaeth iechyd ddefnyddio'r offeryn aciwtedd a ddilyswyd yn rhan o'u proses ar gyfer pennu cymarebau staffio a argymhellir i ddarparu'r lefelau cywir o nyrsio yma yng Nghymru. Rwyf hefyd yn ymrwymo, fel yr awgrymodd y pwyllgor, i ymgynghori â'r Cynulliad Cenedlaethol yn llawn cyn cyhoeddi unrhyw ganllawiau o'r fath neu wneud unrhyw reoliadau gyda'r diben hwn mewn golwg, gan ddefnyddio'r pwerau cyfarwyddo sydd ar gael i mi.

For this afternoon, then, Chair, in that context and with those caveats in mind, I confirm that the Government will support the Bill's progress to its amending stages this afternoon.

Am y prynhawn yma, felly, Gadeirydd, yn y cyd-destun hwn a chyda'r cafeatau hynny mewn golwg, rwy'n cadarnhau y bydd y Llywodraeth yn cefnogi symud y Bil ymlaen i'w gamau diwygio y prynhawn yma.

16:46 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I rise in support of the motion before the Assembly today to allow the Bill to proceed to Stage 2 of the legislative process. At this point, I just want to pay tribute to the Royal College of Nursing for the tremendous campaign that they have waged in support of Kirsty Williams's Bill, which, of course, all stems from their Time to Care campaign, which many Assembly Members on all sides of this house subscribed to quite some time ago.

Codaf i gefnogi'r cynnig sydd gerbron y Cynulliad heddiw i ganiatáu i'r Bil symud ymlaen i Gyfnod 2 y broses ddeddfu. Ar y pwynt hwn, hoffwn dalu teyrnged i Goleg Brenhinol y Nyrsys am yr ymgyrch aruthrol y maent wedi'i hymladd i gefnogi Bil Kirsty Williams, sydd, wrth gwrs, yn deillio'n gyfan gwbl o'u hymgyrch Amser i Ofalu a gefnogwyd gan lawer o Aelodau'r Cynulliad ar bob ochr i'r tŷ gryn amser yn ôl.

I'm very pleased also that the Minister has confirmed, at last—and it shouldn't have taken this long—that in the absence of this Bill proceeding, should it not proceed beyond Stage 2 et cetera, he will use his powers of direction. I'm sorry, Minister, that it has taken you so long to get to that point. If you'd have told us that at the outset, then I think it would have given us much more clarity on the Government's position. But I do accept his goodwill towards needing to make sure that there is some movement on safe nurse staffing levels across Wales. As we have already heard, we've got the words ringing in our ears of Donna Ockerton from the pages of her report—if that's possible. This was a problem that was identified on the Tawel Fan ward, the fact that there were unsafe nurse staffing levels, and I'm afraid it's been a feature of far too many reports about the NHS in recent years when failings in care have been apparent.

Rwy'n falch iawn hefyd fod y Gweinidog wedi cadarnhau, o'r diwedd—ac ni ddylai fod wedi cymryd cyhyd—pe na bai'r Bil yn symud yn ei flaen, os na fyddai'n cyrraedd ymhellach na Chyfnod 2 ac ati, y byddai'n defnyddio ei bwerau cyfarwyddo. Mae'n ddrwg gennyf, Weinidog, ei bod wedi cymryd cymaint o amser i chi i gyrraedd y pwynt hwnnw. Pe baech wedi dweud hynny wrthym ar y dechrau, rwy'n credu y byddai wedi rhoi llawer mwy o eglurder i ni ynglŷn â safbwynt y Llywodraeth. Ond rwy'n derbyn ei ewyllys da tuag at yr angen i wneud yn siŵr fod rhywfaint o symud ar lefelau diogel o staff nyrsio ledled Cymru. Fel y clywsom eisoes, mae gennym eiriau Donna Ockerton yn canu yn ein clustiau oddi ar dudalennau ei hadroddiad—os yw hynny'n bosibl. Roedd hon yn broblem a nodwyd ar ward Tawel Fan, y ffaith fod yno lefelau anniogel o staff nyrsio, ac rwy'n ofni ei fod wedi bod yn nodwedd o lawer gormod o adroddiadau am y GIG yn y blynyddoedd diwethaf pan ddaeth methiannau mewn gofal yn amlwg.

We, too, however, on the Conservative benches, would like to see some amendments made to the Bill. It is clear to us that there needs to be much more prescription about the sorts of tools and sanctions that might be used with those health boards that fail to meet their obligations under the Bill, perhaps financial penalties, et cetera, up to the cost of providing safe nurse staffing if they don't provide safe nurse staffing. That might be something that the Member in charge might want to consider.

Fodd bynnag, byddem ninnau ar feinciau'r Ceidwadwyr hefyd yn hoffi gweld rhai newidiadau yn cael eu gwneud i'r Bil. Mae'n amlwg i ni fod angen llawer mwy o gyfarwyddiadau ynghylch y mathau o offerynnau a sancsiynau y gellid eu defnyddio gyda'r byrddau iechyd sy'n methu â chyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Bil, cosbau ariannol efallai, ac ati, hyd at gost darparu lefelau diogel o staff nyrsio os nad ydynt yn darparu lefelau diogel o staff nyrsio. Gallai hynny fod yn rhywbeth i'r Aelod sy'n gyfrifol ei ystyried.

We also feel that there needs to be much more work on those measures in the Bill around how you can measure the success or otherwise of the proposed legislation or regulation and guidance that might arise from the Bill. So, nutrition and hydration, for example, are things that have come to the attention of this National Assembly on many occasions. They're directly linked to the ability of caregivers to have time to care and are clearly linked to nurse staffing levels, and we feel that they would be useful additions to the list and Schedule at the back of the Bill of those things that could be measured.

Teimlwn hefyd fod angen llawer mwy o waith ar y mesurau yn y Bil sy'n ymwneud â sut i fesur llwyddiant neu fel arall y ddeddfwriaeth neu reoliadau a chanllawiau arfaethedig a allai godi o'r Bil. Felly, mae maeth a hydradiad, er enghraifft, yn bethau a ddaeth i sylw'r Cynulliad Cenedlaethol hwn ar sawl achlysur. Maent yn cysylltu'n uniongyrchol â gallu rhai sy'n rhoi gofal i gael amser i ofalu ac mae cysylltiad clir rhyngddynt a lefelau staff nyrsio. Teimlwn y byddent yn ychwanegiadau defnyddiol at y rhestr a'r Atodlen yng nghefn y Bil o'r pethau y gellid eu mesur.

We also want to see the extension of the scope of the Bill to incorporate safe nurse staffing in other care settings, not just in terms of community hospital settings, but also, indeed, into paediatric care environments, where acute paediatric care is taking place—and beyond, actually, into private hospitals and the nursing home sector, because that's what those other parts of the sector were calling for. Let's not forget that 50 per cent of nursing beds are actually provided by the private sector, so there needs to be a joined-up approach, because what you don't want to do is rob Peter to pay Paul in terms of plugging the gaps and the shortage of nursing that we might have in our hospitals to the detriment of those other care environments provided by the private sector. So, I think it is important that there's proper engagement with the independent sector and that they are also incorporated within the scope of the Bill.

Rydym hefyd am weld cwmpas y Bil yn cael ei ymestyn i ymgorffori lefelau diogel o staff nyrsio mewn lleoliadau gofal eraill, nid yn unig ysbytai cymunedol, ond hefyd yn wir, mewn lleoliadau gofal pediatrig, lle y rhoddir gofal pediatrig aciwt—a thu hwnt i hynny, mewn gwirionedd, mewn ysbytai preifat a'r sector cartrefi nyrsio, oherwydd dyna beth oedd y rhannau eraill hynny o'r sector yn galw amdano. Gadewch i ni beidio ag anghofio bod 50 y cant o welyau nyrsio yn cael eu darparu mewn gwirionedd gan y sector preifat, felly mae angen dull gweithredu cydgysylltiedig, oherwydd yr hyn nad ydych am ei wneud yw dwyn o un llaw i dalu'r llall o ran llenwi'r bylchau a'r prinder nyrsys y gallem ei wynebu yn ein hysbytai er anfantais i'r lleoliadau gofal eraill a ddarperir gan y sector preifat. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig sicrhau ymgysylltiad priodol â'r sector annibynnol a'u bod hefyd yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas y Bil.

We also think there need to be amendments around workforce planning requirements to engage people beyond the health boards in workforce planning. We know that the Welsh Government's record on workforce planning is woefully inadequate. That's why we've got problems in the system at the moment, not just in terms of the provision of nurses but also in terms of the provision of clinicians. I think that we desperately need to see a bit more work on amendments to the Bill in that respect. I can hear the Minister muttering. I'm not quite sure whether he's responding to me, and I'm happy to take an intervention, Minister. No? You don't want to intervene.

Rydym hefyd yn credu bod angen gwelliannau mewn perthynas â gofynion cynllunio gweithlu i ymgysylltu â phobl y tu hwnt i'r byrddau iechyd wrth gynllunio'r gweithlu. Gwyddom fod record Llywodraeth Cymru ar gynllunio'r gweithlu yn druenus o annigonol. Dyna pam y mae gennym broblemau yn y system ar hyn o bryd, nid yn unig o ran y ddarpariaeth o nyrsys ond hefyd o ran y ddarpariaeth o glinigwyr. Credaf fod taer angen i ni weld ychydig mwy o waith ar welliannau i'r Bil yn hynny o beth. Gallaf glywed y Gweinidog yn mwmial. Nid wyf yn hollol siŵr a yw'n ymateb i mi, ac rwy'n hapus i gymryd ymyriad, Weinidog. Na? Nid ydych am ymyrryd.

16:50 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

You're running out of time.

Rydych yn mynd yn brin o amser.

16:50 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I know I'm running out of time. I just want to reinforce that we do support the principal aims of this Bill. I think that there were reservations, which were brought to the attention of the committee when it looked at the provisions in the Bill, from other health professionals, particularly the physiotherapists, about the potential for the impact on those other professions, but what I would say is I think that this is potentially a very useful start to the process of ensuring safe and appropriate staffing levels, and there may be scope to extend it, I hope, in the future to those other professionals who have engagement with patients.

Gwn fy mod yn brin o amser. Rwyf ond eisiau atgyfnerthu ein bod yn cefnogi prif amcanion y Bil. Rwy'n meddwl bod amheuon gan weithwyr iechyd proffesiynol eraill, yn enwedig y ffisiotherapyddion, ynghylch y posibilrwydd o effaith ar y proffesiynau eraill hynny, a chawsant eu dwyn i sylw'r pwyllgor pan edrychodd ar y darpariaethau yn y Bil. Ond yr hyn yr hoffwn ei ddweud yw fy mod yn meddwl bod hwn o bosibl yn ddechrau defnyddiol iawn i'r broses o sicrhau lefelau diogel a phriodol o staff, a gall fod lle i'w ymestyn, gobeithio, yn y dyfodol i gynnwys gweithwyr proffesiynol eraill sydd ag ymgysylltiad â chleifion.

16:51 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) — Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch i Kirsty Williams am gyflwyno'r ddeddfwriaeth o'n blaenau ni a'r Mesur yma i drafod heddiw. Diolch i'r RCN ac eraill hefyd sydd wedi hyrwyddo'r achos am ddeddfwriaeth o'r math yma.

I thank Kirsty Williams for introducing this legislation that is before us and this Bill that we are discussing today. I also thank the RCN and others who have promoted the case for legislation of this kind.

Fe gychwynnais i'r cyfnod o sgrwtineiddio ar y Mesur yma heb safbwynt pendant a ddylid ai peidio osod sail ddeddfwriaethol i lefelau staffio nyrsio. Yn dilyn y dystiolaeth a'r sgrwtini, rwyf wedi dod i'r casgliad pendant ei bod hi'n briodol, yn ddefnyddiol ac yn amserol i greu deddfwriaeth i sicrhau lefel staffio nyrsio diogel ar wardiau. Mae yna dri phrif reswm pam rwyf i wedi dod i'r casgliad yma erbyn hyn.

I started the scrutiny period of this Bill without having taken a specific stance as to whether we should actually place nurse staffing levels on a statutory footing. Following the evidence and the scrutiny, I have come to the firm conclusion that it would be appropriate, useful and timely to create legislation to secure safe nurse staffing levels on wards. There are three main reasons why I have now come to that conclusion.

Yn gyntaf, un o fy mhrif amheuon cychwynnol i am y Mesur oedd y byddai'n gwbl anymarferol ar lefel ward i gyflwyno cyfradd nyrs i glaf, ond ar lefel weithredol mae hyn yn digwydd, neu'n agos at ddigwydd, ar nifer o wardiau erbyn hyn beth bynnag. Mae'r cyfundrefnau a'r canllawiau eisoes yn eu lle i hwyluso gweithrediad y ddeddfwriaeth yma. Ers Ebrill 2012, mae'r prif swyddog nyrsio wedi cyhoeddi canllawiau anstatudol ar egwyddorion staff nyrsio, sy'n cynnwys egwyddor na ddylai nifer y cleifion i bob nyrs gofrestredig fod yn fwy na saith yn y dydd ac 11 yn y nos. Ers Mai 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod yr offeryn aciwtedd a dibyniaeth yn ei le i helpu ysbytai i bennu lefelau lleol o staff nyrsio. Yng Ngorffennaf 2014, wrth gwrs, fe gyhoeddodd NICE ei 'Safe staffing for nursing in adults inpatient wards in acute hospitals' a'r canllawiau penodol hynny. Felly, mae'r canllawiau a'r dulliau o fesur lefelau diogel o staffio yn eu lle. Mater, felly, o weithredu hyn yn gyson ym mhob ward yng Nghymru sydd ei angen bellach. Felly, mae deddfwriaeth yn cyfrannu yn benodol iawn at sicrhau y gweithrediad cyson yna.

First, one of my main initial doubts about the Bill was that it would be entirely impractical on a ward level to introduce a nurse-patient ratio, but this actually happens, or is close to happening, on a number of wards now in any case. The regimes and guidelines are already in place to facilitate the implementation of this legislation. Since April 2012, the chief nursing officer has issued non-statutory guidance on the principles of nursing staff, which includes the principle that the number of patients assigned to each registered nurse should not exceed seven during the day and 11 at night. Since May 2014, the Welsh Government has put in place the acuity and dependency tool to assist hospitals in setting local nurse staffing levels. In July 2014, of course, NICE published their 'Safe staffing for nursing in adults inpatient wards in acute hospitals' and those specific guidelines. Therefore, the guidance and the methods for measuring safe staffing levels are in place. It's therefore a matter of implementing these consistently across all wards in Wales. Therefore, legislation makes a very specific contribution to ensuring that consistent implementation.

Yr ail reswm fy mod i wedi symud i ffafrio deddfwriaeth yw fy mod i wedi cael fy mherswadio bod yna le i ddeddfu yn benodol iawn ar nyrsio yn hytrach nag ar holl staff meddygol ac iechyd ar unrhyw ward. Fe glywom ni dystiolaeth, fel y mae rhai wedi cyfeirio ato, gan weithwyr iechyd proffesiynol eraill y byddai yna sgil-effeithiau ar eu lefelau staffio nhw o bosib, ac na ddylid ystyried nyrsys yn unigol ond y tîm iechyd yn ei gyfanrwydd mewn ysbytai. Ond mae'n amlwg i mi nawr bod yna le penodol i warchod y nifer o nyrsys ar ward. Nhw sydd yna yn barhaol. Nhw sydd yna 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Nhw sy'n gofalu am y claf, yn lladmerydd dros y claf, ac yn linc hanfodol rhwng y claf a'r teulu a'r tîm iechyd ehangach. Felly, mae'n briodol i greu deddfwriaeth gychwynnol i nyrsys yn unig.

The second reason why I switched to favouring legislation is that I've been persuaded of the scope to legislate very specifically for nursing rather than for all clinical and health staff on any given ward. We heard evidence, as some have referred to, from other health professionals that there could be implications for their own staffing levels, and that nurses shouldn't be considered separately but as part of the medical team as a whole in hospitals. However, it's clear to me now that there is a specific role to safeguard the number of nurses on wards. They're the ones who are there permanently. They're there 24 hours a day, seven days a week. They care for the patients, they advocate for the patient, and they are a crucial link between the patient and the family and the wider health team. So, it's appropriate to create initial legislation for nurses.

Y rheswm olaf y des i i'r casgliad i gefnogi'r Mesur yw thema a ddatblygodd yn ystod y dystiolaeth, yn adrodd y diffyg grym a oedd gan nyrs ar ward. 'Powerlessness' oedd y disgrifiad a ddefnyddiwyd gan un tyst. Pan fydd gan nyrsys bryder am lefel staffio'r ward, a phan nad oes neb o'u rheolwyr nhw yn clywed nac yn gwrando ar eu pryderon a'u rhybuddion nhw, yna maen nhw yn ddi-rym ar y ward. Fe fydd y ddeddfwriaeth benodol yma yn rhoi'r grym i nyrsys yn eu trafodaethau parhaus nhw gyda'u rheolwyr. Felly, fe fyddaf i'n cefnogi'r Mesur yma i fynd i'r cam nesaf. Mae eraill wedi crybwyll—a Chadeirydd y pwyllgor yn benodol—rai o'r newidiadau a'r gwelliannau y byddai'r pwyllgor yn hoffi eu gweld. Yn benodol, mae gyda fi ddiddordeb mewn edrych sut y gellid sicrhau nad yw nyrsys o fannau eraill y mae byrddau iechyd yn gyfrifol amdanyn nhw yn cael eu llusgo i mewn i wardiau sy'n cael eu cyfro yn benodol gan y ddeddfwriaeth yma, o feysydd eraill ac o wardiau eraill.

The final reason I came to the conclusion to support the Bill was the theme that emerged in evidence, reporting the lack of power of nurses on a ward. 'Powerlessness' was the description used by one witness. When nurses have concerns about staffing levels on wards, and when none of their managers hear or will listen to their concerns and warnings, then they are powerless on the ward. This specific legislation will give nurses that power in their ongoing discussions with their managers. Therefore, I will be supporting this Bill to proceed to the next stage. Others have mentioned—and the Chair of the committee in particular—some of the amendments and improvements that the committee would like to see. In particular, I am interested in seeing how we can ensure that nurses from other areas that health boards are responsible for will not be roped into the wards that are covered specifically by this legislation, from other areas and from other wards.

Rwy'n meddwl yn benodol iawn ei bod hi'n iawn ystyried a ddylid cynnwys wardiau ysbytai cymunedol yn y Mesur yma. Yn benodol, heddiw, wrth gwrs, rŷm ni wedi bod yn trafod lefelau staffio ar wardiau iechyd meddwl. Fe wnaeth y pwyllgor dreulio tipyn o amser, a dweud y gwir, yn trafod wardiau iechyd meddwl. Er fy mod i'n deall y bydd wardiau iechyd meddwl yn cael eu cyfro gan y 'duty' cyffredinol, rwy'n credu y bydd rhai ohonom ni, o bosib, eisiau edrych i weld a ydy hi'n bosib i wella'r Mesur hwn yn benodol ac i gynnwys wardiau iechyd meddwl mewn ysbytai acíwt hefyd yn y ddeddfwriaeth yma. Ond, am heddiw, rwy'n hapus i gefnogi'r Mesur i'r cam nesaf ac i gadarnhau taw pleidlais rydd a fydd gan Aelodau Plaid Cymru y prynhawn yma.

I'm thinking very specifically that it is right for us to consider whether to include community hospital wards in the scope of this Bill. Specifically, today, of course, we have been discussing staffing levels on mental health wards. The committee spent some time, in fact, discussing mental health wards. Although I do understand that mental health wards will be covered by the more general duty, I do think that some of us perhaps would want to look to see whether it's possible to amend this Bill specifically in order to include mental health wards in acute hospitals in this legislation. But, for today, I am happy to support the Bill to move forward to the next stage and to confirm that Plaid Cymru Members will have a free vote this afternoon.

16:56 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Kirsty Williams to reply to the debate.

Galwaf ar Kirsty Williams i ymateb i'r ddadl.

16:56 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, acting Deputy Presiding Officer. Could I thank Members for their contribution to the debate this afternoon? I'm very grateful for their comments. First, it was remiss of me, in thanking the Members of both committees, not also to thank the Minister, actually, who has been very generous with his time, and the time of his officials, in discussing the proposals before us. It was remiss of me not to mention that, because I am grateful for that, too.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd dros dro. A gaf fi ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniad i'r ddadl y prynhawn yma? Rwy'n ddiolchgar iawn am eu sylwadau. Yn gyntaf, wrth ddiolch i Aelodau'r ddau bwyllgor, roeddwn ar fai yn anghofio diolch hefyd i'r Gweinidog, mewn gwirionedd, sydd wedi bod yn hael iawn gyda'i amser, ac amser ei swyddogion, wrth drafod y cynigion sydd ger ein bron. Roeddwn ar fai yn anghofio sôn am hynny, oherwydd rwy'n ddiolchgar am hynny hefyd.

In opening, the Chair of the committee talked about some of the practical issues in implementing the legislation, especially with regard to simply asking do we have enough nurses available in Wales to staff this system? What I would say to that is that we know from international experience—this law was introduced, for instance, in parts of Australia—that it had the effect of actually bringing nurses back into the profession. People who had left because of the pressures of their work actually came back into the nursing profession. By speaking to nurses, what we do know is that many of them choose to leave the NHS—a regular job in the NHS—and go into bank or agency nursing because they find that a potentially less stressful way of doing it.

Wrth agor, soniodd Cadeirydd y pwyllgor am rai o'r problemau ymarferol gyda gweithredu'r ddeddfwriaeth, yn enwedig o ran gofyn yn syml iawn a oes gennym ddigon o nyrsys yng Nghymru i staffio'r system hon? Yr hyn a ddywedwn yw ein bod yn gwybod o brofiad rhyngwladol—cyflwynwyd y ddeddf hon mewn rhannau o Awstralia er enghraifft—ei bod wedi arwain mewn gwirionedd at ddod â nyrsys ôl i mewn i'r proffesiwn. Daeth pobl a oedd wedi gadael oherwydd y pwysau gwaith yn ôl i mewn i'r proffesiwn nyrsio mewn gwirionedd. Drwy siarad â nyrsys, yr hyn rydym yn ei wybod yw bod llawer ohonynt yn dewis gadael y GIG—swydd reolaidd yn y GIG—a throi at gronfeydd nyrsio neu asiantaethau nyrsio am eu bod yn teimlo bod hynny'n ffordd o'i wneud heb gymaint o straen.

16:58 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

16:58 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course.

Wrth gwrs.

16:58 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for taking the intervention. I totally agree with that point, and we didn't disagree with it. What we were concerned about was the timescale from the time you would get permission, or Royal Assent, to the time you actually wanted to implement it. Would enough come back in in that period of time? They will come back, but we need to establish working conditions that are attractive to them. That's what we were concerned about.

Diolch i'r Aelod am dderbyn yr ymyriad. Cytunaf yn llwyr â'r pwynt hwnnw, ac nid oeddem yn anghytuno â hynny. Yr hyn roeddem yn poeni amdano oedd yr amserlen o'r amser y byddech yn cael caniatâd, neu Gydsyniad Brenhinol, i'r adeg y byddech yn awyddus i'w weithredu. A fyddai digon yn dod yn ôl yn ystod y cyfnod hwnnw o amser? Byddant yn dod yn ôl, ond mae angen i ni bennu amodau gwaith sy'n ddeniadol iddynt. Am hynny roeddem yn poeni.

16:58 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, and rightly so, but I believe that sending out a clear message to nurses that they will work on wards that are adequately staffed, and that they will have colleagues alongside them who will allow them to do the job that they have trained for is a powerful way in which we can potentially address some of the issues around staffing. It also will actually require health boards to advertise permanent posts. What we do know is, sometimes, health boards play fast and loose with their recruitment as a way of actually saving money. Actually, there are some issues around that that, hopefully, will be overcome.

Wrth gwrs, a hynny'n briodol, ond credaf fod anfon neges glir i nyrsys y byddant yn gweithio ar wardiau sy'n cael eu staffio'n ddigonol, ac y bydd ganddynt gydweithwyr ochr yn ochr â hwy a fydd yn eu galluogi i wneud y gwaith y maent wedi eu hyfforddi ar ei gyfer yn ffordd bwerus y gallem fynd i'r afael â rhai o'r problemau mewn perthynas â staffio. Bydd hefyd mewn gwirionedd yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd hysbysebu swyddi parhaol. Yr hyn rydym yn ei wybod yw bod byrddau iechyd, weithiau, yn llac gyda'u prosesau recriwtio fel ffordd o arbed arian. A dweud y gwir, mae rhai materion yn codi mewn perthynas â hynny a gaiff eu goresgyn, gobeithio.

16:59 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:59 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

16:59 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There was some evidence, quite rightly, of that and I just want to speak in support of it. We were told that there were hundreds of vacancies in the Abertawe Bro Morgannwg health board, for example, and yet only 19 were actually being advertised at the time that we looked.

Roedd rhywfaint o dystiolaeth o hynny, yn gwbl briodol, ac rwyf am siarad i gefnogi hyn. Dywedwyd wrthym fod cannoedd o swyddi gwag ym mwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg, er enghraifft, ac eto 19 yn unig a oedd yn cael eu hysbysebu pan aethom i edrych.

16:59 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Darren, for that. It illustrates the point that I'm trying to make. David also talked about other settings, as did Elin Jones. Believe me, as someone whose constituents rely on a network of community hospitals, I don't want to do anything that would jeopardise the provision of those services. I really don't. But, as the committee members will know, at present, the evidence of impact—and that's what we're trying to do: making sure the money that we spend, where we spend it, and what we spend it on, has an impact—the evidence suggests at the moment that those acute wards is where we have the evidence, and the Bill is drafted in a way so that, as evidence becomes available—and it's being worked on now; you know, NICE, Welsh Government, Powys local hospital are all working on tools for how you can address what's a safe staffing ratio in a community hospital—. What does a district nurse—I still call them district nurses—what's a safe district nurse-patient ratio? Those issues are being worked on now, and the Bill is drafted in such a way that it would allow the Welsh Government Ministers to extend the provisions to other settings. So, we've tried to futureproof it.

Diolch i chi, Darren. Mae'n dangos y pwynt rwy'n ceisio ei wneud. Soniodd David hefyd am leoliadau eraill, fel y gwnaeth Elin Jones. Credwch fi, fel rhywun y mae ei etholwyr yn dibynnu ar rwydwaith o ysbytai cymunedol, nid wyf am wneud unrhyw beth a fyddai'n peryglu darpariaeth y gwasanaethau hynny, nac ydw wir. Ond fel y bydd aelodau'r pwyllgor yn gwybod, ar hyn o bryd, mae'r dystiolaeth o effaith—a dyna beth rydym yn ceisio ei wneud: sicrhau bod yr arian a wariwn, lle rydym yn ei wario, a'r hyn rydym yn ei wario arno, yn cael effaith—mae'r dystiolaeth yn awgrymu ar hyn o bryd fod y dystiolaeth i'w gweld ar y wardiau acíwt, ac mae'r Bil wedi'i ddrafftio mewn ffordd, wrth i dystiolaeth ddod i law—ac mae gwaith yn cael ei wneud arno yn awr; wyddoch chi, mae NICE, Llywodraeth Cymru, ysbyty lleol Powys i gyd yn gweithio ar offerynnau ar gyfer sut i fynd i'r afael â beth sy'n gymhareb staffio ddiogel mewn ysbyty cymunedol—. Beth y mae nyrs ardal—rwy'n dal i'w galw'n nyrsys ardal—beth sy'n gymhareb ddiogel o gleifion i nyrs ardal? Mae gwaith yn cael ei wneud ar y materion hynny ar hyn o bryd, ac mae'r Bil wedi'i ddrafftio yn y fath fodd fel y byddai'n caniatáu i Weinidogion Llywodraeth Cymru ymestyn y darpariaethau i leoliadau eraill. Felly, rydym wedi ceisio ei wneud yn addas ar gyfer y dyfodol.

As to the issue around the figures, both the Minister and the Chair of the committee talked about the funding. I'm grateful for the Minister's assistance in this, and we will be bringing forward, hopefully, a more robust set of figures that will give the confidence both to the Minister and to the committee about that.

O ran mater y ffigurau, siaradodd y Gweinidog a Chadeirydd y pwyllgor am y cyllid. Rwy'n ddiolchgar am gymorth y Gweinidog ar hyn, a byddwn yn cyflwyno, gobeithio, set fwy cadarn o ffigurau a fydd yn rhoi hyder i'r Gweinidog ac i'r pwyllgor fel ei gilydd ynghylch hynny.

The Minister talked about the triangulated approach, and I'm in agreement with the Minister that it's by working on that triangulated approach we can get to a number that is appropriate. And I think what is particularly important in that triangulated approach is professional judgment, is allowing the nurse in charge of the ward to be able to make that call. I think that's a particularly important element of it, by empowering that person to be able to make those professional judgments.

Soniodd y Gweinidog am y dull triongli, ac rwy'n cytuno â'r Gweinidog mai drwy weithio ar y dull triongli y gallwn ddod o hyd i nifer sy'n briodol. Ac rwy'n meddwl mai'r hyn sy'n arbennig o bwysig yn y dull triongli yw barn broffesiynol, caniatáu i'r nyrs sydd yng ngofal y ward benderfynu ynghylch hynny. Rwy'n credu bod hynny'n elfen arbennig o bwysig ohono, drwy roi grym i'r person allu gwneud penderfyniadau proffesiynol o'r fath.

I don't want to overload people by a regime that is going to have to create loads and loads and loads of extra paperwork, and this is where, acting Presiding Officer, I get caught between a rock and a hard place. Darren Miller wants a longer list of measures at the end of the legislation, while the Minister wants a shorter list of measures at the end of the legislation, because he thinks what I'm already proposing is too onerous, and I guess there'll be a debate to be had as the Bill goes forward, hopefully, as to what is the appropriate level. But let me be clear: effective monitoring of the legislation is absolutely necessary, but I don't want that nurse in charge on the ward spending her time doing loads and loads of tick-box exercises and filling in forms to justify what has or hasn't happened. That's not what I want there to be as a result of this; I want that nurse in charge of the ward being able to run that ward, mentor his or her nurses, and provide great care.

Nid wyf am greu baich gormodol i bobl gyda chyfundrefn sy'n mynd i orfod creu llwythi a llwythi o waith papur ychwanegol, a dyma lle, Lywydd dros dro, y caf fy nal yn y canol. Mae Darren Miller am gael rhestr hwy o fesurau ar ddiwedd y ddeddfwriaeth, ond mae'r Gweinidog eisiau rhestr fyrrach o fesurau ar ddiwedd y ddeddfwriaeth am ei fod yn credu bod yr hyn rwy'n ei gynnig eisoes yn rhy feichus, ac rwy'n dyfalu y bydd dadl i'w chael wrth i'r Bil symud ymlaen, gobeithio, o ran beth fydd yn lefel briodol. Ond gadewch i mi fod yn glir: mae monitro'r ddeddfwriaeth yn effeithiol yn gwbl angenrheidiol, ond nid wyf eisiau i'r nyrs sydd â gofal am y ward dreulio ei hamser yn gwneud llwythi a llwythi o ymarferion ticio blychau a llenwi ffurflenni i gyfiawnhau'r hyn sydd wedi digwydd neu heb ddigwydd. Nid dyna rwyf ei eisiau o ganlyniad i hyn; rwyf am i'r nyrs sydd â gofal am y ward allu rhedeg y ward, mentora ei nyrsys, a darparu gofal gwych.

On the issue around other professional groups, I don't want to be in any way disrespectful of other professional groups, but Elin Jones did highlight what I've always believed in: nurses are in a unique position within the NHS. It is nurses, not doctors, not physios, not dieticians, not OTs, who spend 24 hours a day with that patient. And therefore I think there is a specific need to get this right for the nursing profession.

O ran grwpiau proffesiynol eraill, nid wyf am fod yn amharchus mewn unrhyw fodd tuag at grwpiau proffesiynol eraill, ond tynnodd Elin Jones sylw at yr hyn rwyf bob amser wedi ei gredu: mae nyrsys mewn sefyllfa unigryw yn y GIG. Nyrsys, nid meddygon, nid ffisiotherapyddion, nid deietegwyr, nid therapyddion galwedigaethol, sy'n treulio 24 awr y dydd gyda'r claf. Ac am hynny, rwy'n meddwl bod angen penodol i gael hyn yn iawn ar gyfer y proffesiwn nyrsio.

I'm about to run out of time, acting Presiding Officer. I will continue to work hopefully collaboratively with the Minister and members of the health committee as we go through to the next stage, and I do so in the honest belief that I think that we have something before us that could be transformative for patient care and for the quality of nursing here in Wales and the way in which nurses are supported in our country. We saw earlier on today that when nurses are not supported, it can go badly wrong, but when they are, they can transform and save people's lives.

Mae fy amser ar fin dod i ben, Lywydd dros dro. Byddaf yn parhau i gydweithio gyda'r Gweinidog ac aelodau'r pwyllgor iechyd, gobeithio, wrth i ni fynd ymlaen i'r cam nesaf, ac rwy'n gwneud hynny yn y gred onest fy mod yn meddwl bod gennym rywbeth yma a allai weddnewid gofal cleifion ac ansawdd nyrsio yma yng Nghymru a'r ffordd y caiff nyrsys eu cefnogi yn ein gwlad. Gwelsom yn gynharach heddiw y gall pethau fynd yn ddifrifol o chwith pan na chaiff nyrsys eu cefnogi, ond pan fyddant yn cael cefnogaeth, gallant drawsnewid ac achub bywydau pobl.

17:04

### Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. The proposal is to agree to the general principles of the Safe Nurse Staffing Levels (Wales) Bill. Does any Member object? In that case, the motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch yn fawr. Y cynnig yw derbyn egwyddorion cyffredinol Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru). A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Os felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

## 5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Buddsoddi Mewnol

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 3 a 4 yn enw Elin Jones, a gwelliant 2 yn enw Aled Roberts.*

## 5. Welsh Conservatives Debate: Inward Investment

*The following amendments have been selected: amendments 1, 3 and 4 in the name of Elin Jones, and amendment 2 in the name of Aled Roberts.*

17:04 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move on now to item 5, the Welsh Conservatives' debate on inward investment, and I call on William Graham to move the motion.

Rydym bellach yn symud ymlaen yn awr at eitem 5, dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar fewnfuddsoddi, a galwaf ar William Graham i gyflwyno'r cynnig.

Cynnig NDM5773 Paul Davies

Motion NDM5773 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

1. Calls on the Welsh Government to:

a) diffinio ei strategaeth i gynyddu mewnfuddsoddiad i Gymru dros y pum mlynedd nesaf; a

a) define its strategy to increase inward investment to Wales over the next five years; and

b) cydweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn lleoliad cystadleuol a deniadol ar gyfer mewnfuddsoddi.

b) collaborate with the UK Government to ensure that Wales remains a competitive and attractive location for inward investment.

2. Yn cydnabod bod gostyngiad Llywodraeth y DU yn y dreth gorfforaeth wedi gwneud Cymru a'r DU ymhlith y mannau mwyaf deniadol i fuddsoddi ynddynt.

2. Recognises that the UK Government's reduction in corporation tax has made Wales and the UK one of the most attractive places to invest.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:04 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, acting Deputy Presiding Officer. Members may or may not be avid television watchers, but, recently, our screens have been dominated by magic and the supernatural: zombies, dragons, phantoms, poltergeists, shape-shifters and, of course, the SNP. [Laughter.] The real magic is sadly lacking in the Assembly Government's approach to the Welsh economy. In the 1970s and 1980s Wales attracted a steady stream of inward investment by offering a package of incentives to companies looking to locate, including grants, low labour costs and land for development. Inward investment in Wales was seen as a simple, short-term package of cheap land and low labour costs. There was little deviation from this standardised package and, consequently, the development of a long-term strategy was sadly ignored. Dr John Ball, lecturer in economics at Swansea University, described the situation as 'employment at any price'.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd dros dro. Gall aelodau fod yn wylwyr teledu brwd neu fel arall, ond, yn ddiweddar, mae ein sgriniau wedi cael eu dominyddu gan hud a'r goruwchnaturiol: sombïaid, dreigiau, ysbrydion, poltergeistiaid, gweddnewidwyr ac, wrth gwrs, yr SNP. [Chwerthin.] Mae'r hud go iawn yn anffodus yn brin yn ymagwedd Llywodraeth y Cynulliad at economi Cymru. Yn y 1970au a'r 1980au denodd Cymru lif cyson o fewnfuddsoddiad drwy gynnig pecyn o gymhellion i gwmnïau a oedd yn chwilio am leoliad, gan gynnwys grantiau, costau llafur isel a thir ar gyfer datblygiad. Roedd mewnfuddsoddi yng Nghymru yn cael ei weld fel pecyn syml, tymor byr o dir rhad a chostau llafur isel. Nid oedd fawr o wyro oddi wrth y pecyn safonol hwn ac, o ganlyniad, yn anffodus cafodd y gwaith o ddatblygu strategaeth tymor hir ei anwybyddu. Disgrifiodd Dr John Ball, darlithydd mewn economeg ym Mhrifysgol Abertawe, y sefyllfa fel 'cyflogaeth am unrhyw bris'.

If you fast forward to the present, it would seem that nothing has changed. One can compare the packages of the 1970s and 1980s with today's enterprise zones, in which we do not see any targets, and there seems to be no clarity surrounding performance of the zones. Welsh Conservatives have long called for the extension of enhanced capital allowances, so far to no avail. If Welsh enterprise zones are to be a long-term success, Labour Ministers must boost transparency and work far closer with UK Government.

Os symudwch ymlaen yn gyflym at y presennol, byddai'n ymddangos nad oes dim wedi newid. Gall rhywun gymharu pecynnau'r 1970au a'r 1980au â'r parthau menter presennol, lle na welwn unrhyw dargedau, ac ymddengys nad oes unrhyw eglurder ynghylch perfformiad y parthau. Ers tro mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi galw am ymestyn lwfansau cyfalaf uwch, ond yn ofer hyd yn hyn. Os yw ardaloedd menter yng Nghymru am lwyddo yn y tymor hir, rhaid i Weinidogion Llafur hybu tryloywder a chydweithio'n llawer agosach â Llywodraeth y DU.

Similarly the 'employment at any price' strategy of old is still rearing its head in the guise of Welsh Labour's failed flagship policy of Jobs Growth Wales. Serious question marks continue to hang over this scheme, not least following the shambles surrounding its recent collapse. An independent report has already highlighted concerns over outcomes, particularly with regard to the suggestion that, without the scheme, almost 75% would have found employment anyway. Contrast this with the Conservative-led UK Government, who have created 1,000 new jobs every day, created 2 million new apprenticeships and provided 25,000 start-up loans to new businesses. One must ask ourselves: why does clear economic success elude the Welsh Government, but England is demonstrably better?

Yn yr un modd mae'r hen strategaeth o 'gyflogaeth am unrhyw bris' yn dal i godi ei phen yn ar ffurf polisi blaenllaw aflwyddiannus Llafur Cymru sef Twf Swyddi Cymru. Mae amheuon difrifol yn parhau ynghylch y cynllun hwn, yn enwedig yn dilyn y llanast o gwmpas ei gwymp diweddar. Mae adroddiad annibynnol eisoes wedi tynnu sylw at bryderon am ganlyniadau, yn enwedig o ran yr awgrym y byddai bron 75% wedi dod o hyd i waith beth bynnag heb y cynllun. Cymharwch hyn â Llywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr, sydd wedi creu 1,000 o swyddi newydd bob dydd a chreu 2 filiwn o brentisiaethau newydd a darparu 25,000 o fenthyciadau dechrau arni i fusnesau newydd. Rhaid i rywun ofyn i ni'n hunain: pam mae Llywodraeth Cymru yn methu â sicrhau llwyddiant economaidd clir, tra bo Lloegr yn amlwg yn well?

Indeed, the Welsh Government overemphasise the role of inward investment in the Welsh economy. They use past inward investment figures as one of their greatest achievements, yet the rise of 191 per cent must be considered in context. In 2012-13, although the number of foreign direct investment projects rose by 191 per cent, this was from a very low base, with projects increasing from just 23 to 67. The number has risen to 79 in 2013-14.

Yn wir, mae Llywodraeth Cymru'n rhoi gormod o bwyslais ar rôl mewnfuddsoddi yn economi Cymru. Maent yn defnyddio ffigurau mewnfuddsoddi o'r gorffennol fel un o'u cyflawniadau mwyaf, ond mae'n rhaid ystyried y cynnydd o 191 y cant mewn cyd-destun. Yn 2012-13, er bod nifer y prosiectau buddsoddi uniongyrchol tramor wedi codi 191 y cant, roedd hyn o sylfaen isel iawn, gyda phrosiectau'n cynyddu o ddim ond 23 i 67. Cododd y nifer i 79 yn 2013-14.

The true figures show that, since 2006, the Welsh share of UK investment projects has fallen well below earlier figures. Wales has become one of the worst-performing areas of the UK in terms of FDI, and is still failing to exceed this limit of 4.6 per cent of the UK share of inward investment. This is historically very much lower than the high point of the 1980s and 1990s. In the 1990s, Wales used to secure around 15% of all inward investment projects into the UK. Despite this, the Welsh Government have confidently predicted that the UK Trade and Investment inward investment figures for 2014-15 will be the best ever yet. Welsh Conservatives also hope that this will be the case, but how does the Minister plan to achieve this? With sporadic trade missions and an unclear strategy for FDI, any minimal improvement could achieve this end. But, without any strategic or measurable targets in place, how can we be sure that we will see continued and sustainable growth in Welsh FDI in years to come? The level is sporadic and unsustainable, calling into question the Welsh Government's strategic framework for attracting inward investment.

Mae'r gwir ffigurau'n dangos bod cyfran Cymru o brosiectau buddsoddi yn y DU, ers 2006, wedi gostwng yn llawer is na'r ffigurau cynharach. Mae Cymru wedi mynd yn un o'r ardaloedd sy'n perfformio waethaf yn y DU o ran buddsoddiad uniongyrchol o dramor (FDI), ac mae'n dal i fethu â goresgyn y terfyn hwn o 4.6 y cant o gyfran y DU o fewnfuddsoddi. Mae hyn yn hanesyddol yn llawer iawn is nag uchafbwynt y 1980au a'r 1990au. Yn yr 1990au, roedd Cymru'n arfer sicrhau tua 15% o'r holl brosiectau mewnfuddsoddi i'r DU. Er gwaethaf hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi rhagfynegi yn hyderus y bydd ffigurau mewnfuddsoddi Masnach a Buddsoddi'r DU ar gyfer 2014-15 y gorau erioed. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig hefyd yn gobeithio y bydd hyn yn digwydd, ond sut mae'r Gweinidog yn bwriadu cyflawni hyn? Gyda theithiau masnach achlysurol a strategaeth FDI aneglur, gallai unrhyw welliant lleiaf gyflawni hynny. Ond, heb unrhyw dargedau strategol na mesuradwy ar waith, sut y gallwn fod yn sicr y byddwn yn gweld twf cynaliadwy a pharhaol yn FDI Cymru yn y blynyddoedd i ddod? Mae'r lefel yn ysbeidiol ac anghynaliadwy, ac yn bwrw amheuon ar fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer denu mewnfuddsoddiad.

The Enterprise and Business Committee's report on the Welsh Government's approach to the promotion of trade and inward investment highlighted the lack of clarity about Wales's position on trade and inward investment, both in terms of our aspirations and the results that the Government delivers. The committee heard that it has become more difficult to monitor performance in this area, and witnesses felt that there was 'a lack of transparency'.

Pwysleisiodd adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ddull Llywodraeth Cymru o hyrwyddo masnach a mewnfuddsoddi y diffyg eglurder ynghylch safbwynt Cymru ar fasnach a mewnfuddsoddi, o ran ein dyheadau a'r canlyniadau y mae'r Llywodraeth yn eu cyflawni. Clywodd y pwyllgor ei bod wedi mynd yn anos monitro perfformiad yn y maes hwn, ac roedd tystion yn teimlo bod 'diffyg tryloywder'.

Several of the recommendations asked for improvements in the statistical data that the Welsh Government collects and publishes in this area, with transparent key performance indicators on inward investment to be published annually. The committee was extremely disappointed that the Government rejected this recommendation, arguing that commercial confidentiality prevents it from giving the full picture. The WDA used to manage to publish more detail, and I feel that this is an area that the Minister could usefully look at again. Professor Munday described the data currently published on foreign direct investment as 'almost completely useless' and argued that the data led to misinterpretation of performance, again citing the suggestion that inward investment increased by 191 per cent in 2012-13.

Roedd nifer o'r argymhellion yn gofyn am welliannau yn y data ystadegol y mae Llywodraeth Cymru yn eu casglu a'u cyhoeddi yn y maes hwn, gyda dangosyddion perfformiad allweddol tryloyw ar fewnfuddsoddi i gael eu cyhoeddi'n flynyddol. Roedd y pwyllgor yn hynod siomedig bod y Llywodraeth wedi gwrthod yr argymhelliad hwn, gan ddadlau bod cyfrinachedd masnachol yn eu hatal rhag rhoi'r darlun llawn. Arferai'r WDA lwyddo i gyhoeddi mwy o fanylion, a theimlaf fod hwn yn faes y byddai'n ddefnyddiol i'r Gweinidog roi sylw iddo eto. Yn ôl yr Athro Munday, roedd y data a gyhoeddwyd ar fuddsoddiad tramor uniongyrchol ar hyn o bryd 'bron yn gwbl ddiwerth' a dywedodd fod y data wedi arwain at gamddehongli perfformiad, unwaith eto'n dyfynnu'r awgrym bod mewnfuddsoddi wedi cynyddu 191 y cant yn 2012-13.

In 2014, London, followed by Scotland, was the most attractive location for new and existing investors. When asked, only 2 per cent of existing and potential investors thought Wales was an attractive location to establish operations. Sadly, this sends out a clear message that more must be done to develop Welsh infrastructure and resources, improving our rail and road links and increasing the skills of our work base, to ensure that Wales can be better integrated into the wider UK economy. This can only be achieved by the Welsh Government committing to work collaboratively and constructively with the UK Government in implementing long-term, effective policies.

Yn 2014, Llundain, wedi'i ddilyn gan yr Alban, oedd y lleoliad mwyaf deniadol i fuddsoddwyr newydd a phresennol. Pan ofynnwyd iddynt, dim ond 2 y cant o fuddsoddwyr presennol a darpar fuddsoddwyr oedd yn meddwl bod Cymru'n lleoliad deniadol i sefydlu gweithrediadau. Yn anffodus, mae hyn yn anfon neges glir bod yn rhaid gwneud mwy i ddatblygu seilwaith ac adnoddau Cymraeg, gwella ein cysylltiadau rheilffyrdd a ffyrdd a chynyddu sgiliau ein gweithwyr, er mwyn sicrhau bod modd integreiddio Cymru'n well i mewn i economi ehangach y DU. Dim ond trwy ymrwymo i gydweithio'n adeiladol â Llywodraeth y DU i roi polisïau effeithiol hirdymor ar waith y gall Llywodraeth Cymru gyflawni hyn.

After all, inward investment is not just about bringing large companies into an economy. There should be a greater focus on attracting entrepreneurs to come from all over the world to set up businesses here in Wales.

Wedi'r cyfan, mae mewnfuddsoddi'n golygu mwy na dod â chwmnïau mawr i mewn i economi. Dylai fod mwy o ffocws ar ddenu entrepreneuriaid o bob cwr o'r byd i ddod i sefydlu busnesau yma yng Nghymru.

A report from the Centre for Entrepreneurs shows that 14 per cent of start-up businesses in the United Kingdom were founded by immigrant entrepreneurs. They have created nearly half a million UK businesses, which currently employ 8.3 million people. Given this, it is great to see that there has been a concerted effort in recent years by the UK Government to attract entrepreneurs and investors to relocate here through various activities that encourage individuals through the entrepreneur visa process. One of these is the global entrepreneur programme, run by UKTI. Providing direct assistance helps early stage technology businesses or start-ups that want to relocate their business to the UK. This includes help with business plans, introductions to potential investors and mentoring from experienced entrepreneurs. According to the latest figures, the programme has so far helped to relocate 340 businesses and create over 1,000 jobs in the economy and raised over £1 billion of private investment for companies in a range of sectors including creative, digital and internet-based businesses, clean technologies such as wind energy and next-generation lighting, and engineering applications supporting aerospace, construction and chemical production.

Mae adroddiad gan y Centre for Entrepreneurs yn dangos bod 14 y cant o fusnesau newydd yn y Deyrnas Unedig yn cael eu sefydlu gan entrepreneuriaid sy'n fewnfudwyr. Maent wedi creu bron hanner miliwn o fusnesau yn y DU, sydd ar hyn o bryd yn cyflogi 8.3 miliwn o bobl. O ystyried hyn, mae'n wych gweld y bu ymdrech ar y cyd yn y blynyddoedd diwethaf gan Lywodraeth y DU i ddenu entrepreneuriaid a buddsoddwyr i adleoli yma drwy amrywiol weithgareddau sy'n annog unigolion drwy'r broses fisa i entrepreneuriaid. Un o'r rhain yw'r rhaglen entrepreneuriaid byd-eang, a gynhelir gan UKTI. Mae darparu cymorth uniongyrchol yn helpu cyw fusnesau technoleg neu fusnesau newydd sydd am symud eu busnes i'r DU. Mae hyn yn cynnwys rhoi cymorth gyda chynlluniau busnes, eu cyflwyno i ddarpar fuddsoddwyr a sesiynau mentora gan entrepreneuriaid profiadol. Yn ôl y ffigurau diweddaraf, hyd yma mae'r rhaglen wedi helpu i adleoli 340 o fusnesau a chreu dros 1,000 o swyddi yn yr economi a chodi dros £1 biliwn o fuddsoddiad preifat i gwmnïau mewn amrywiaeth o sectorau gan gynnwys busnesau creadigol, digidol ac ar y rhyngrwyd, technolegau glân fel ynni gwynt a goleuadau'r genhedlaeth nesaf, a chymwysiadau peirianneg i gefnogi'r maes awyrofod, adeiladu a chynhyrchu cemegol.

SMEs make up 53 per cent of the UK's export market, meaning there is far greater diversity in British exports. The British Government introduced quite ambitious targets, aiming to source 100,000 new exporters by 2020. This reveals a steadfast commitment by the UK Government to diversify the export economy. The Welsh Government have shown no initiative to put in place any similar strategy. Such a target would provide innumerable benefits for Welsh SMEs and would send a clear message to businesses throughout Wales that the Welsh Government supports businesses and wants them to expand. Indeed, here in Wales, we have an over-reliance on large enterprises to export Welsh produce. These large organisations are small in number and do not provide a stable and reliable foundation for a successful economy.

Mae busnesau bach a chanolig (BBaChau) yn cyfrif am 53 y cant o farchnad allforio'r DU, sy'n golygu bod allforion Prydain yn llawer mwy amrywiol. Cyflwynodd Llywodraeth Prydain dargedau eithaf uchelgeisiol, gyda'r nod o ganfod 100,000 o allforwyr newydd erbyn 2020. Mae hyn yn dangos ymrwymiad cadarn gan Lywodraeth y DU i sicrhau amrywiaeth yn yr economi allforio. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i roi unrhyw strategaeth debyg ar waith. Byddai targed o'r fath yn darparu manteision di-rif i BBaChau yng Nghymru a byddai'n anfon neges glir i fusnesau ledled Cymru fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau ac yn awyddus iddynt ehangu. Yn wir, yma yng Nghymru, rydym yn dibynnu'n ormodol ar fentrau mawr i allforio cynnyrch o Gymru. Mae'r sefydliadau mawr hyn yn fach o ran nifer ac nid ydynt yn darparu sylfaen sefydlog a dibynadwy ar gyfer economi lwyddiannus.

The economist Dr John Ball has highlighted how the Welsh Government have a fixation with securing overseas investment, as opposed to nurturing growth from within. He states that a tradition of inward investment, which in a sense continues with call centres and large retailers replacing manufacturing, has resulted both in an employee culture and a consequent lack of successful Welsh businesses. Fortunately, there are exceptions, such as Brains Brewery and Iceland. But these are exceptions. Perhaps we should start rebuilding the Welsh economy with a simple assertion: no successful economy was ever built on external ownership.

Mae'r economegydd Dr John Ball wedi amlygu sut mae gan Lywodraeth Cymru obsesiwn gyda sicrhau buddsoddiad tramor, yn hytrach na meithrin twf o'r tu mewn. Dywed fod traddodiad o fewnfuddsoddi, sydd mewn ffordd yn parhau wrth i ganolfannau galwadau ac adwerthwyr mawr ddisodli'r diwydiant gweithgynhyrchu, wedi arwain at ddiwylliant o weithwyr cyflogedig a phrinder o fusnesau Cymreig llwyddiannus o ganlyniad i hynny. Yn ffodus, mae eithriadau megis Brains Brewery ac Iceland. Ond eithriadau ydynt. Efallai y dylem ddechrau ailadeiladu economi Cymru gyda honiad syml: nid oes economi lwyddiannus erioed wedi ei hadeiladu ar berchnogaeth allanol.

When we commissioned the report into trade and inward investment, some businesses were not even clear as to the Government's policy or ambition on exports, with the Federation of Small Businesses pointing out that we lack targets, unlike both the Scottish and UK Governments. The written response suggests that the Government is satisfied with its work to support exporters. If that is indeed the case, I would have thought that publishing annual performance indicators would be a useful tool for the Government to market the strength of its potential. Underlying many of these issues is the lack of a clear economic development strategy. The frequent changes to the support structures for trade and inward investment, and the decline in the quality of data used to measure performance, seem to be symptomatic of a general loss of focus. We heard evidence that questioned whether the Government had a strategy, and, at the very least, it would seem that more could be done to communicate the strategy to key partners. In a similar vein, we heard several comments about the weakness of the Welsh brand when it comes to trade and inward investment.

Pan gomisiynwyd yr adroddiad ar fasnach a mewnfuddsoddi, roedd rhai busnesau yn ansicr hyd yn oed ynglŷn â pholisi neu uchelgais y Llywodraeth ar allforion, a nododd y Ffederasiwn Busnesau Bach ein bod yn brin o dargedau, yn wahanol i Lywodraethau'r Alban a'r DU fel ei gilydd. Mae'r ymateb ysgrifenedig yn awgrymu bod y Llywodraeth yn fodlon ar ei gwaith o ran cefnogi allforwyr. Os yw hynny'n wir, byddwn wedi meddwl y byddai cyhoeddi dangosyddion perfformiad blynyddol yn offeryn defnyddiol i'r Llywodraeth er mwyn marchnata cryfder ei photensial. Y sail i lawer o'r materion hyn yw diffyg strategaeth ddatblygu economaidd glir. Ymddengys fod y newidiadau aml i'r strwythurau cymorth ar gyfer masnach a mewnfuddsoddi, a'r dirywiad yn ansawdd y data a ddefnyddir i fesur perfformiad, yn arwydd o golli ffocws cyffredinol. Clywsom dystiolaeth a oedd yn amau a oedd gan y Llywodraeth strategaeth, ac, o leiaf, byddai'n ymddangos y gellid gwneud mwy i gyfleu'r strategaeth i bartneriaid allweddol. Yn yr un modd, clywsom nifer o sylwadau am wendid y brand Cymreig pan ddaw i fasnachu a mewnfuddsoddi.

The latest report from the UK's innovation agency, Nesta, is of particular interest in understanding how other small nations have developed their economies successfully. The first common feature of these countries is the ability to turn good ideas and early stage innovation into commercial success. This is largely undertaken as a partnership between the public and the private sector, with innovation within businesses co-funded by Government or its agencies. This mirrors the Welsh Conservatives' policy of 'Destination Cymru'. Thank you very much.

Mae'r adroddiad diweddaraf gan Nesta, asiantaeth arloesi'r DU, o ddiddordeb arbennig o ran deall sut mae cenhedloedd bychain eraill wedi datblygu eu heconomïau yn llwyddiannus. Nodwedd gyffredin gyntaf y gwledydd hyn yw'r gallu i droi syniadau da ac arloesed cynnar yn llwyddiant masnachol. Gwneir hyn yn bennaf fel partneriaeth rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus, gydag arloesi mewn busnesau yn cael ei gydariannu gan y Llywodraeth neu ei hasiantaethau. Mae hyn yn adlewyrchu polisi'r Ceidwadwyr Cymreig sef 'Cyrchfan: Cymru'. Diolch yn fawr iawn.

17:14 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Four amendments have been selected to the motion. I call on Rhun ap Iorwerth to move amendments 1, 3 and 4, tabled in the name of Elin Jones.

Mae pedwar gwelliant wedi cael eu dewis i'r cynnig. Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gynnig gwelliannau 1, 3 a 4, a gyflwynir yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Add as new point 1 and renumber accordingly:*

*Yn nodi'r feirniadaeth ynghylch strategaeth mewnfuddsoddi Llywodraeth Cymru yn adroddiad Prifysgol Caerdydd 'Selling Wales: The Role of Agencies in Attracting Inward Investment'.*

*Notes the criticisms of the Welsh Government's inward investment strategy in Cardiff University's report entitled 'Selling Wales: The Role of Agencies in Attracting Inward Investment'.*

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:*

*Insert as new sub-point at the end of point 1:*

*sicrhau bod gwaith holl adrannau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â gwerthu Cymru dramor yn cael ei gydlynu a sicrhau bod y neges yn gyson.*

*ensure co-ordination between all Welsh Government departments involved in selling Wales abroad and ensure that the message is consistent.*

*Gwelliant 4—Elin Jones*

*Amendment 4—Elin Jones*

*Cynnwys ar ddiwedd pwynt 2:*

*At the end of point 2, insert:*

*ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU er mwyn caniatáu i Lywodraeth Cymru osod cyfradd y dreth gorfforaeth yng Nghymru.*

*and calls on the Welsh Government to make representations to the UK Government to allow the Welsh Government to set the rate of corporation tax in Wales.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1, 3 a 4.*

*Amendments 1, 3 and 4 moved.*

17:14 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Gadeirydd.

Thank you, Chair.

The WDA stood out in its early days because it was a trailblazer. It had less competition from other regional bodies. Also, Wales had less competition too. So, the Welsh Government's current activities in trade and inward investment certainly operate in a different environment than the WDA did 20 or 30 plus years ago. So, how's Wales performing now? Well, as with most economic indices, figures for foreign direct investment at sub-UK level are quite vague. The only data published is for the number of foreign direct investment projects and for jobs created or safeguarded by foreign direct investment. There are no published data for value of investments, which is very, very important as a figure. As much as I, or anybody else, welcome anything that appears to be positive news in this field, we can't really reach firm conclusions about where exactly we stand.

Roedd y WDA yn amlwg yn ei dyddiau cynnar am ei bod ar flaen y gad. Roedd llai o gystadleuaeth oddi wrth gyrff rhanbarthol eraill. Hefyd, roedd gan Gymru lai o gystadleuaeth. Felly, mae gweithgareddau cyfredol Llywodraeth Cymru mewn masnach a mewnfuddsoddi yn sicr yn gweithredu mewn amgylchedd gwahanol nag y gwnaeth y WDA 20 neu 30 mlynedd a mwy yn ôl. Felly, sut mae Cymru'n perfformio nawr? Wel, fel gyda'r rhan fwyaf o fynegeion economaidd, mae ffigurau ar gyfer buddsoddiad uniongyrchol tramor ar lefel is na'r DU yn eithaf amwys. Yr unig ddata sy'n cael eu cyhoeddi yw nifer y prosiectau buddsoddi uniongyrchol o dramor a'r swyddi a gaiff eu creu neu eu diogelu drwy fuddsoddiad uniongyrchol o dramor. Ni chyhoeddir data ar werth buddsoddiadau, sy'n ffigur pwysig iawn, iawn. Er fy mod i, neu unrhyw un arall, yn croesawu unrhyw beth a allai fod yn newyddion cadarnhaol yn y maes hwn, mewn gwirionedd ni allwn ddod i gasgliadau pendant am ein hunion sefyllfa.

Turning to our amendments, then—and I move amendments 1, 3 and 4 tabled in the name of Elin Jones—amendment 1 notes Cardiff University's report, entitled 'Selling Wales: The Role of Agencies in Attracting Inward Investment'. Now, that report shows how important inward investment is to the Welsh economy, boosting the economy through job creation, through increased tax revenue, of course, and also generating spillovers for the local economy. The importance of repairing our inward investment strategy, boosting our inward investment strategy, is quite clear. We must remember as well that a significant proportion of current employment in Wales is based on previous inward investment successes—Admiral being a quite obvious one. It started with a £1 million Welsh Development Agency grant; it now employs over 5,000 people, with an annual turnover of over £2 billion.

Wrth droi at ein gwelliannau, felly—a chynigiaf welliannau 1, 3 a 4 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones—mae gwelliant 1 yn nodi adroddiad Prifysgol Caerdydd, sef 'Selling Wales: The Role of Agencies in Attracting Inward Investment'. Yn awr, mae'r adroddiad hwnnw'n dangos pa mor bwysig yw mewnfuddsoddi i economi Cymru, wrth hybu'r economi drwy greu swyddi, drwy fwy o refeniw treth, wrth gwrs, a chreu gorlifiant i'r economi leol hefyd. Mae pa mor bwysig yw atgyweirio ein strategaeth mewnfuddsoddi a hybu ein strategaeth mewnfuddsoddi yn gwbl glir. Rhaid inni gofio hefyd fod cyfran sylweddol o gyflogaeth bresennol yng Nghymru yn seiliedig ar lwyddiannau mewnfuddsoddi blaenorol ac mae Admiral yn un reit amlwg. Dechreuodd gyda grant gan Awdurdod Datblygu Cymru gwerth £1 miliwn; mae bellach yn cyflogi dros 5,000 o bobl, gyda throsiant blynyddol o dros £2 biliwn.

As I said earlier, the situation has changed since those early days of the WDA, where our selling point was our low-wage economy. Now, it's a good thing that we've moved away from that, but that shift brings with it new challenges, and the 'Selling Wales' report does highlight some issues that clearly need to be addressed by Government. One key criticism in the report is inconsistency in messaging and poor co-ordination between different bodies involved in selling Wales abroad, and that is addressed in amendment 3. This is something the Enterprise and Business Committee also heard on many occasions during a recent inquiry of ours. The committee went further, too, and suggested that bringing the promotion of inward investment in-house has not only muddied the message, but also restricted risk taking, which Professor Max Munday, the director of the Welsh economy research unit, reminded us is a little bit more difficult in a more civil service orientated environment. The criticisms of the 'Selling Wales' report—and I should emphasise this, too—in many instances are based on what staff themselves are saying.

Fel y dywedais yn gynharach, mae'r sefyllfa wedi newid ers dyddiau cynnar hynny'r WDA, pan oeddem yn hyrwyddo rhagoriaeth ein heconomi cyflog-isel. Yn awr, mae'n beth da ein bod wedi symud i ffwrdd oddi wrth hynny, ond daw'r newid hwnnw â heriau newydd yn ei sgil, ac mae'r adroddiad 'Selling Wales' yn tynnu sylw at rai materion y mae angen i'r Llywodraeth yn amlwg fynd i'r afael â nhw. Un feirniadaeth allweddol yn yr adroddiad yw anghysondeb o ran negeseuon a chydlynu gwael rhwng gwahanol gyrff sy'n ymwneud â gwerthu Cymru dramor, ac mae hynny'n cael sylw yng ngwelliant 3. Mae hyn yn rhywbeth y clywodd y Pwyllgor Menter a Busnes hefyd ar sawl achlysur yn ystod uno'n hymchwiliadau diweddar. Aeth y pwyllgor ymhellach, hefyd, ac awgrymodd fod dod â hybu mewnfuddsoddi yn fewnol nid yn unig wedi cymylu'r neges, ond mae hefyd wedi cyfyngu ar gymryd risg, a chawsom ein hatgoffa gan yr Athro Max Munday, cyfarwyddwr uned ymchwil economi Cymru, fod hynny ychydig bach yn anos mewn amgylchedd sy'n fwy cysylltiedig â'r gwasanaeth sifil. Mae'r feirniadaeth yn adroddiad 'Selling Wales'—a dylwn bwysleisio hyn, hefyd—mewn llawer o achosion yn cael eu seilio ar yr hyn a ddywed y staff eu hunain.

I'll turn to amendment 4. A range of factors, apart from taxation, contribute to economic growth, but corporation tax really does offer a powerful tool to facilitate increased performance. Wales needs the tools to generate growth in our economy. We can't continue to depend on a Government in London interested, understandably, in a one-size-fits-all, UK-wide fiscal regime. We can't expect that to tailor things specifically to the interests of Wales. The Silk commission, I'll remind you, recommended that corporation tax be devolved to Wales in the event of its being devolved to other parts of the UK. All parties represented in this Chamber agreed to that principle. All of us had nominees on the Silk commission for a reason: so that we could all agree, hopefully, today on this amendment.

Trof at welliant 4. Mae amrywiaeth o ffactorau, heblaw am drethi, yn cyfrannu at dwf economaidd, ond mae treth gorfforaeth yn wir yn cynnig arf pwerus i hwyluso mwy o berfformiad. Mae Cymru angen yr arfau i greu twf yn ein heconomi. Ni allwn barhau i ddibynnu ar Lywodraeth yn Llundain y mae ei diddordeb, a hawdd deall hynny, mewn cyfundrefn ariannol unffurf ar gyfer y DU gyfan. Ni allwn ddisgwyl i hynny deilwra pethau'n benodol i fuddiannau Cymru. A gaf i eich atgoffa fod y comisiwn Silk wedi argymell bod treth gorfforaeth yn cael ei datganoli i Gymru os digwydd i hynny gael ei ddatganoli i rannau eraill o'r DU. Mae pob plaid a gynrychiolir yn y Siambr hon wedi cytuno â'r egwyddor honno. Roedd gan bob un ohonom enwebeion ar y comisiwn Silk am reswm: fel y gallem i gyd gytuno, gobeithio, ar y gwelliant hwn heddiw.

17:18 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

17:18 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

17:18 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thanks for giving way. During the recent general election campaign, in an interview given by the leader of Plaid Cymru, she said that she felt that you could have different rates of corporation tax in different regions of Wales. Do you agree with that?

Diolch am ildio. Yn ystod ymgyrch yr etholiad cyffredinol diwethaf, mewn cyfweliad a roddwyd gan arweinydd Plaid Cymru, dywedodd ei bod yn teimlo y gallai fod gennych wahanol gyfraddau treth gorfforaeth mewn gwahanol rannau o Gymru. A ydych yn cytuno â hynny?

17:18 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We don't have the powers at this point in time to do that, but obviously there are all sorts of arguments on the way we can regionalise this throughout Wales. Regionalising corporation tax isn't one that I'm going to be commenting on today. Certainly, we need the principle that, where we have the devolution of corporation tax in other parts of the UK, Wales cannot be left behind. We must remember, as I'm reminded here, that in parts of Wales where we have enterprise zones, there are specific measures that are put in place to boost the economies of those parts of Wales. We need to recognise where steps have to be put in place in order to generate economic growth through whatever means.

Nid oes gennym y pwerau ar hyn o bryd i wneud hynny, ond yn amlwg mae pob math o ddadleuon ynglŷn â'r ffordd y gallwn drefnu hyn yn rhanbarthol ledled Cymru. Nid yw rhanbartholi treth gorfforaeth yn rhywbeth yr wyf am wneud sylwadau amdano heddiw. Yn sicr, mae angen yr egwyddor, os yw treth gorfforaeth wedi'i datganoli mewn rhannau eraill o'r DU, na ddylai Cymru gael ei gadael ar ôl. Rhaid i ni gofio, fel y cefais fy atgoffa yma, yn y rhannau hynny o Gymru lle mae gennym ardaloedd menter, fod mesurau penodol sy'n cael eu rhoi ar waith i roi hwb i economïau'r rhannau hynny o Gymru. Mae angen i ni gydnabod ble mae'n rhaid rhoi camau ar waith er mwyn cynhyrchu twf economaidd drwy ba bynnag fodd.

So, anyway, if we could compromise through the Silk commission, we should be able to, as I say, reach agreement on amendment 4 today. I remind Members, in closing, that corporation tax is being devolved to Northern Ireland; it should now, we all agreed—

Felly, beth bynnag, pe gallem gyfaddawdu drwy'r comisiwn Silk, fel y dywedais dylem allu cytuno ar welliant 4 heddiw. Carwn atgoffa'r Aelodau, wrth gloi, fod y dreth gorfforaeth yn cael ei datganoli i Ogledd Iwerddon; yn awr, y dylai, fel yr ydym i gyd wedi cytuno—

17:19 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can you wind up, please?

A allwch ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

17:19 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

[Continues.]—in the Silk commission, be devolved to Wales, too.

[Yn parhau.] —yn y comisiwn Silk, gael ei datganoli i Gymru, hefyd.

17:19 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on Eluned Parrott to move amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliant 2, a gyflwynir yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:*

*Insert as new sub-point at the end of point 1:*

*'datblygu cysylltiadau trawsffiniol effeithiol i gynyddu buddsoddiad o'r tu allan yn ogystal â gwella potensial allforio Cymru.'*

*'develop effective cross-border links to increase inward investment as well as improving Wales's export potential.'*

*Cynigiwyd gwelliant 2.*

*Amendment 2 moved.*

17:19 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Gadeirydd. I'd like to move amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Diolch, Gadeirydd. Hoffwn gynnig gwelliant 2, a gyflwynir yn enw Aled Roberts.

I'd like to thank the Welsh Conservatives for bringing another debate about the economy to the Chamber today. When looking at boosting the Welsh economy, I think it's appropriate to look at the issues holistically, and while I'm not surprised that the Welsh Conservatives are focusing yet again on inward investment, this can only ever be part of a strategy to boost Wales's productivity and levels of wealth for the people of Wales. So, whilst inward investment is clearly a very important part and has in the past been an extremely significant part of that strategy, there's a huge danger in oversimplifying things. It's not going to be a magic bullet. It is not going to be the solution that fixes our economy in one stroke.

Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am ddod â dadl arall am yr economi i'r Siambr heddiw. Wrth edrych ar hybu economi Cymru, credaf ei bod yn briodol edrych ar y materion yn gyfannol, ac er nad wyf yn synnu bod y Ceidwadwyr Cymreig yn canolbwyntio unwaith eto ar fewnfuddsoddi, dim ond rhan o strategaeth i hybu cynhyrchiant Cymru a lefelau cyfoeth pobl Cymru y gall hyn byth fod. Felly, er bod mewnfuddsoddi yn amlwg yn rhan bwysig iawn o'r strategaeth honno ac mae wedi bod yn rhan sylweddol yn y gorffennol, mae perygl enfawr wrth orsymleiddio pethau. Nid yw'n mynd i fod yn ffon hud. Ni fydd yn ateb problemau ein heconomi gydag un trawiad.

We've seen that in Wales to our cost, what happens when we have this focus on inward investment that is purely about the numbers coming in, and not about how we can make sure that those businesses stay with us, remain with us, and become embedded in our economy. We cannot afford that kind of simplistic approach in future.

Rydym wedi gweld hynny yng Nghymru o brofiad, yr hyn sy'n digwydd pan mae ein ffocws ar fewnfuddsoddi sy'n canolbwyntio ar y nifer sy'n dod i mewn, ac nid ar sut y gallwn wneud yn siŵr bod y busnesau hynny yn aros gyda ni, yn parhau gyda ni, ac yn gwreiddio yn ein heconomi. Ni allwn fforddio'r math hwnnw o ymagwedd syml yn y dyfodol.

So, what I would suggest is that what we need really is to make sure that the strategy that we're adopting is a comprehensive one that balances imports, exports and inward investment together, and these things are interrelated. They're not things that exist in silos in and of themselves. I think imports is an interesting one, because we overlook it so much, but we have some very strong importers working in Wales, and they can be very big employers and very important contributors to our economy. They create wealth, of course, by adding value to the imported products that they're bringing in and then selling it on. Yet, when we're talking in debates in this Chamber about the economy, I very rarely hear people talking about how fantastic it is to import goods, because, of course, that has a negative impact in the first instance on GDP balance of trade.

Felly, yr hyn y byddwn yn ei awgrymu yw mai'r hyn yr ydym ei angen mewn gwirionedd yw gwneud yn siŵr bod y strategaeth yr ydym yn ei mabwysiadu yn un gynhwysfawr sy'n cydbwyso mewnforion, allforion a mewnfuddsoddi â'i gilydd, ac mae'r pethau hyn yn gydgysylltiedig. Nid pethau sy'n bodoli'n annibynnol ar ei gilydd mohonynt. Credaf fod mewnforion yn ddiddorol, gan ein bod yn eu hesgeuluso gymaint, ond mae gennym rai mewnforwyr cryf iawn yn gweithio yng Nghymru, a gallant fod yn gyflogwyr mawr iawn ac yn gyfranwyr pwysig iawn i'n heconomi. Maent yn creu cyfoeth, wrth gwrs, drwy ychwanegu gwerth at y cynnyrch maent yn ei fewnforio ac yna ei werthu ymlaen. Eto i gyd, pan fyddwn yn siarad mewn dadleuon yn y Siambr hon am yr economi, anaml iawn y clywaf bobl yn dweud pa mor wych yw hi i fewnforio nwyddau, oherwydd, wrth gwrs, mae hynny'n cael effaith negyddol yn y lle cyntaf ar gydbwysedd cynnyrch domestig gros masnach.

Looking at exports as well, as I say, these things are very closely interrelated, because if you're building bridges and you're building relationships with people overseas in terms of business to look at inward investment, there are of course opportunities for Welsh-based businesses to export as well at the same time. We have some great opportunities, particularly in certain niche markets here in Wales, to exploit, which I think we could do a lot more with. In opening, William Graham mentioned the creative industries. Film and television obviously have been big success stories for us, and there is huge potential there to grow that, but, actually, beyond film and television, we also need to look at things like design: digital design, computer game design and the opportunity for software design. All of these things are exciting opportunities that Wales is well placed to address. There's no cause for complacency there, or indeed for cheap jokes about zombies, but we have the skills here in Wales to make sure that those creative industries really thrive. We have people here who can be well employed in those industries, too.

O edrych ar allforion hefyd, fel y dywedais, mae'r pethau hyn yn cydgysylltu'n agos iawn, oherwydd os ydych yn adeiladu pontydd ac yn meithrin perthynas â phobl dramor o safbwynt busnes i edrych ar fewnfuddsoddi, mae cyfleoedd wrth gwrs i fusnesau Cymreig allforio hefyd ar yr un pryd. Mae gennym rai cyfleoedd gwych i fanteisio arnynt, yn enwedig mewn marchnadoedd arbenigol penodol yma yng Nghymru, a chredaf y gallwn wneud llawer mwy. Wrth agor, soniodd William Graham am y diwydiannau creadigol. Mae ffilm a theledu yn amlwg wedi bod yn llwyddiant mawr i ni, ac mae potensial enfawr i ddatblygu ymhellach, ond, mewn gwirionedd, y tu hwnt i ffilm a theledu, mae angen hefyd i ni edrych ar bethau fel dylunio: dylunio digidol, dylunio gemau cyfrifiadurol a'r cyfle ar gyfer dylunio meddalwedd. Mae'r holl bethau hyn yn gyfleoedd cyffrous y mae Cymru mewn sefyllfa dda i fanteisio arnynt. Does dim rheswm i orffwys ar ein rhwyfau, nac yn wir i wneud hwyl am ben sombïaid, ond mae gennym y sgiliau yma yng Nghymru all sicrhau bod y diwydiannau creadigol hynny yn wir yn ffynnu. Mae gennym bobl yma a allai ennill cyflogaeth dda yn y diwydiannau hynny, hefyd.

Another niche market that I think is very interesting for Wales is looking particularly at medical engineering. I was very privileged to visit Cardiff University's Medicentre and see some of the spin-out projects that they have based there—businesses that are very, very specialist but fantastic at what they do. For example, I met the inventor of a simulator for teaching people how to do ultrasound on pregnant ladies. It is much better to do ultrasound if you're not very good at it on somebody who isn't anxious about their unborn child than on someone who is. So, things along those lines obviously have a fantastic social value, but they are obvious opportunities for us as well, and our universities are a wonderful opportunity if we make the most of them.

Marchnad arbenigol arall y credaf sy'n ddiddorol iawn i Gymru yw edrych yn benodol ar beirianneg feddygol. Cefais y fraint fawr o ymweld â Medicentre Prifysgol Caerdydd a gweld rhai o'r prosiectau deillio sydd wedi eu lleoli yno—busnesau sy'n arbenigol iawn iawn, ond yn wych yn yr hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, bu i mi gyfarfod â dyfeisydd efelychydd ar gyfer addysgu pobl sut i wneud prawf uwchsain ar ferched beichiog. Os nad ydych chi'n dda iawn am wneud prawf uwchsain, mae'n llawer gwell ei wneud heb orfod poeni am bryderon rhieni sydd â phlentyn yn y groth. Felly, mae i bethau o'r fath werth cymdeithasol gwych, ond maent hefyd yn cynnig cyfle amlwg i ni, ac mae ein prifysgolion yn gyfle gwych os ydym yn manteisio i'r eithaf arnynt.

Turning back to inward investment as part of that parcel, if you like, counting the value of those investments as an indicator of success is obviously an easy thing to do, but creating wealth from those investments is an entirely different matter. It's not just about the cash value of that investment or the number of investments; it's about the jobs created and the value of those individual jobs to those people employed, and it's about assessing the contribution of those new investors to Wales's GDP as well, and how productive those new investors are, and, of course, how well embedded they are in local supply chains and what contribution they make through that, too. Not only as well, though, do we want to think about attracting those investors by removing barriers to entering the UK market, we have to make it a difficult decision for them to leave as well. We have to erect what they call 'barriers to exit'. So, those kinds of barriers are things like making sure that our investors are encouraged to embed themselves in their local supply chain, making sure that we've got a skilled specialist workforce that they'll be able to use but find difficult to leave behind, and making sure that our transport links are what they need to be, particularly perhaps looking, in terms of exports, at our rather undervalued ports.

Gan droi yn ôl at fewnfuddsoddi, fel rhan o'r parsel hwnnw, os mynnwch, mae cyfrif gwerth y buddsoddiadau hynny fel arwydd o lwyddiant yn amlwg yn beth hawdd i'w wneud, ond mae creu cyfoeth o'r buddsoddiadau hynny yn fater cwbl wahanol. Nid dim ond gwerth ariannol y buddsoddiad hwnnw neu nifer y buddsoddiadau sy'n bwysig; mae'n ymwneud hefyd â'r swyddi a grëwyd a gwerth y swyddi unigol hynny i'r bobl hynny a gyflogir, ac mae'n ymwneud ag asesu cyfraniad y buddsoddwyr newydd hynny i GDP Cymru hefyd, a pha mor gynhyrchiol yw'r buddsoddwyr newydd hynny, ac, wrth gwrs, pa mor dda maent wedi eu sefydlu mewn cadwyni cyflenwi lleol a pha gyfraniad a wnânt drwy hynny, hefyd. Hefyd, fodd bynnag, nid dim ond meddwl am ddenu'r buddsoddwyr hynny trwy ddileu rhwystrau mynediad i farchnad y DU y dylem ei wneud, mae'n rhaid i ni hefyd ei wneud yn benderfyniad anodd iddynt adael. Mae'n rhaid i ni godi'r hyn y maent yn ei alw'n 'rhwystrau gadael'. Felly, y mathau hynny o rwystrau yw pethau fel gwneud yn siŵr bod ein buddsoddwyr yn cael eu hannog i sefydlu eu hunain yn eu cadwyn gyflenwi leol, gan wneud yn siŵr bod gennym weithlu medrus arbenigol y byddant yn gallu ei ddefnyddio ond sy'n anodd iddynt ei adael ar ôl, a gwneud yn siŵr bod ein cysylltiadau trafnidiaeth yr hyn y mae angen iddynt fod, yn arbennig efallai gan edrych, o ran allforion, ar roi mwy o werth ar ein porthladdoedd.

So, as I say, in those terms, it is part of a wider package, but we do need to work much more closely with perhaps other British agencies to make sure that we're maximising the opportunities on all three fronts that we have.

Felly, fel y dywedais, yn y termau hynny, mae'n rhan o becyn ehangach, ond mae angen i ni weithio'n llawer agosach gydag asiantaethau eraill Prydain efallai i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar bob un o'r tair ffrynt sydd gennym.

17:25 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, I think one thing on which we are all agreed here is the importance and relevance of good-quality long-term investment in Wales's economy and, in particular, in improving the nation's productivity. I find myself agreeing with a considerable amount of Eluned's contribution just a few moments ago because, despite what William Graham said about the excellent investment record for the UK as a whole, even the Westminster Government acknowledges that the UK's productivity as a whole still lies behind some of our major competitor countries. That in itself limits the ability of any colour UK Government to encourage the spread of wealth creation across the regions and nations, rather than concentrating in the areas where it's currently at its most impressive. The development of HS2 and the Northern Powerhouse are, I know, quite controversial with some parties here in the Chamber, but all that does is simply highlight the point that, as far as Wales is concerned, the Welsh Government has had power over economic development for 16 years already and the power to attract and develop that wealth creation here.

Credaf ein bod i gyd yn gytûn yma pa mor bwysig a pherthnasol yw sicrhau buddsoddiad tymor hir o ansawdd da yn economi Cymru ac, yn benodol, o ran gwella cynhyrchiant y genedl. Cefais fy hun yn cytuno â llawer iawn o gyfraniad Eluned ychydig funudau yn ôl oherwydd, er gwaethaf yr hyn a ddywedodd William Graham am hanes buddsoddi ardderchog ar gyfer y DU gyfan, mae Llywodraeth San Steffan hyd yn oed yn cydnabod bod cynhyrchedd y DU yn ei chyfanrwydd yn parhau y tu ôl i rai o'r prif wleydd sy'n cystadlu â ni. Mae hynny ynddo'i hun yn cyfyngu ar allu unrhyw liw o Lywodraeth y DU i annog lledaeniad creu cyfoeth ar draws y rhanbarthau a'r gwledydd, yn hytrach na'i gyfyngu i'r ardaloedd lle'i gwelir ar ei gryfaf ar hyn o bryd. Gwn fod datblygiad HS2 a'r Northern Powerhouse, yn bwnc dadleuol ymhlith rhai pleidiau yma yn y Siambr, ond y cyfan y mae hynny'n ei wneud yw tanlinellu'r pwynt, cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn, fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi bod â grym dros ddatblygiad economaidd ers 16 mlynedd a'r pŵer i ddenu a datblygu'r gwaith hwnnw o greu cyfoeth yma.

In that time, inward investment into Wales has slumped, with 31,000 jobs and 171 foreign sites disappearing in those first 10 years. So, Minister, every single one of those 79 foreign investors we now have couldn't be more welcome. They may have come here on the back of time and effort, but the impression we have on this side of the Chamber is that that work was successful almost through luck rather than judgment, opportunism rather than strategy. Now, I know, Minister, that you will say that your sector approach is your strategy and that relationships with anchor companies are valuable in their own right and are the key to success, but it remains as obscure as ever how this approach levers best value for supply networks—and I specifically say 'networks' not 'chains' here, because that matters when 90% of our business base is small and medium-sized enterprises.

Yn y cyfnod hwnnw, mae mewnfuddsoddiad i Gymru wedi disgyn, gyda 31,000 o swyddi a 171 o safleoedd tramor wedi diflannu yn y 10 mlynedd cyntaf. Felly, Weinidog, mae gwir groeso i bob un o'r 79 o fuddsoddwyr tramor sydd gennym yn awr. Efallai eu bod wedi dod yma yn sgîl amser ac ymdrech, ond yr argraff a gawn ar yr ochr hon o'r Siambr yw y bu i'r gwaith hwnnw lwyddo bron trwy hap a damwain yn hytrach na deall, trwy achub ar gyfle yn hytrach na strategaeth. Yn awr Weinidog, gwn y byddwch yn dweud mai eich dull sectoraidd yw eich strategaeth a bod y berthynas â chwmnïau angori yn werthfawr ynddynt eu hunain, ac maent yn allweddol i lwyddiant, ond mae'n dal mor aneglur ag erioed sut mae'r dull hwn yn cyflawni gwerth gorau ar gyfer rhwydweithiau cyflenwi—ac rwy'n dweud 'rhwydweithiau' nid 'cadwyni' yn benodol, oherwydd mae hyn yn bwysig pan fo 90% o'n sylfaen fusnes yn fentrau bach a chanolig eu maint.

So, I have a few questions on how certain Government activities might feature in that sector-based strategy. Now, first of all, on Cardiff Airport, there is very good news from Flybe this week, of course, especially in growing the Munich route. Business connections with the south of Germany, the wealthiest part of Germany, should be capitalised upon, but the growth in holiday destination routes—no bad thing in themselves—takes money out of Wales rather than bringing it in. So, I'd be very keen to hear how your plans for the airport deal with rebalancing business and leisure journeys for the purpose of inward investment, how you're looking to capitalise upon the development of the global air hub in the south-east of England, wherever it's going to be, and how you will be bringing the new conference centre at the Celtic Manor Resort into both strategies.

Felly, mae gennyf rai cwestiynau ar sut y gallai rhai o weithgareddau'r Llywodraeth ymddangos yn y strategaeth sy'n seiliedig ar sectorau. I ddechrau, o ran Maes Awyr Caerdydd, cawsom newyddion da iawn gan Flybe yr wythnos hon, wrth gwrs, yn enwedig datblygu llwybr Munich. Dylid manteisio i'r eithaf ar gysylltiadau busnes â de'r Almaen, y rhan gyfoethocaf o'r Almaen, ond mae'r twf mewn llwybrau i gyrchfannau gwyliau—ac nid drwg o beth yw'r rheiny—yn cymryd arian allan o Gymru yn hytrach na dod ag arian i mewn. Felly, byddwn i'n awyddus iawn i glywed sut y mae eich cynlluniau ar gyfer y maes awyr yn ymdrin ag ail-gydbwyso teithiau busnes a hamdden at ddiben mewnfuddsoddi, sut yr ydych yn mynd ati i fanteisio ar ddatblygu'r ganolfan awyr fyd-eang yn ne-ddwyrain Lloegr, lle bynnag y mae'n mynd i fod, a sut y byddwch yn dod â chanolfan gynadledda newydd Canolfan y Celtic Manor i mewn i'r ddwy strategaeth.

Secondly, on the regeneration investment fund for Wales, RIFW, I think we should forget the EU referendum for a minute because nothing is going to put investors off Wales more than a scandal involving potential misuse of investment moneys that the main investment sales body, the Welsh Government, has failed to resolve. So, I'd be very pleased to have an update on that.

Yn ail, ynglŷn â chronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio, CBCA, credaf y dylem anghofio am refferendwm yr UE am funud gan nad oes dim yn mynd i gael gwaeth dylanwad ar fuddsoddwyr na sgandal yn ymwneud â'r camddefnydd posibl o arian buddsoddi y mae'r prif gorff gwerthiant buddsoddi, sef Llywodraeth Cymru, wedi methu â'i ddatrys. Felly, byddwn i'n falch iawn o gael y wybodaeth ddiweddaraf am hynny.

Thirdly, destination management plans. Now, these are not just for tourism but the investor, the investor who wants to come where the skills base is high, where she can bring her family up somewhere where enterprise is valued, where the education system is ambitious, and where the environment is cared for. Destination plans are part of your department, Minister, so I hope you're impressed by their success. You're paying for them, after all.

Yn drydydd, y cynlluniau rheoli cyrchfannau. Yn awr, nid pethau ar gyfer twristiaeth yw'r rhain yn unig ond y buddsoddwr hefyd, y buddsoddwr sydd am ddod i le gyda sylfaen sgiliau uchel, lle gall fagu teulu ble rhoddir gwerth ar fenter, lle mae'r system addysg yn uchelgeisiol, a lle mae gofal am yr amgylchedd. Mae cynllunio cyrchfannau yn rhan o'ch adran, Weinidog, felly gobeithiaf eich bod wedi'ch plesio gan eu llwyddiant. Rydych chi'n talu amdanynt, wedi'r cyfan.

Fourthly, Welsh Government accepted the Constitutional and Legislative Affairs Committee recommendations last March that the Welsh presence in Brussels needs to be rebalanced to include more business representation. The comparison with Scotland that we received through evidence was pretty stark. In accepting the recommendations at the time, the Government said that there are, finally, trade and investment officers in Brussels now, and that they have a strong relationship with UK Trade and Investment. Yet our share of inward investment for the UK is, as we'll hear, 4.6 per cent, at its highest point, when our population is 4.8 per cent of the UK population. Of course, the Barnett formula income that we receive is based on 5.9 per cent of the UK population. I'm beginning to feel that Wales's relationship with Brussels seems to be characterised by being eligible for more convergence funding rather than a better rebalancing of our economy between enterprise and handout from the EU—and, potentially, London, for that matter. Now, is that the right relationship to be at the heart of any inward investment strategy?

Yn bedwerydd, derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol fis Mawrth diwethaf fod angen i bresenoldeb Cymru ym Mrwsel gael ffocws newydd i gynnwys mwy o gynrychiolaeth busnes. Roedd y gymhariaeth â'r Alban a gawsom trwy dystiolaeth yn gwbl glir. Wrth dderbyn yr argymhellion ar y pryd, dywedodd y Llywodraeth o'r diwedd fod swyddogion buddsoddi a masnach ym Mrwsel bellach, a bod ganddynt berthynas gref â Masnach a Buddsoddi'r DU. Ac eto, fel y byddwn yn clywed, ein cyfran ni o fewnfuddsoddi ar gyfer y DU yw 4.6 y cant, ar y pwynt uchaf, tra bod ein poblogaeth yn 4.8 y cant o boblogaeth y DU. Wrth gwrs, mae incwm fformiwla Barnett a dderbyniwn yn seiliedig ar 5.9 y cant o boblogaeth y DU. Rydw i'n dechrau teimlo bod perthynas Cymru â Brwsel fel petai'n dangos ein bod yn gymwys i gael mwy o arian cydgyfeirio yn hytrach na gwell ail-gydbwyso ein heconomi rhwng menter a chyfraniadau'r UE—ac, o bosibl, Llundain, o ran hynny. Nawr, ai dyma'r berthynas gywir ddylai fod wrth wraidd unrhyw strategaeth fewnfuddsoddi?

If the UK's main trade market is the EU, why on earth aren't we using that to really sell Wales as the place to do business? Now, Minister, you'll have seen 'Destination Cymru', our excellent document here. You will know that we see the private sector itself as critical to the success of any inward investment strategy. You're a cheerleader for advisory groups, so how about going a step further, Minister, get passed the muddied message, and have a distinctive, independent private sector investment council, made up of business representatives, to work alongside you, using their skills to attract and develop inward investment? I see time is against me, so I'll leave it at that. Thank you, Minister.

Os mai prif farchnad fasnach y DU yw'r UE, pam ar y ddaear nad ydym yn defnyddio hynny i wir werthu Cymru fel y lle i wneud busnes? Nawr, Weinidog, byddwch wedi gweld 'Cyrchfan Cymru', y ddogfen ardderchog hon sydd gennym. Byddwch yn gwybod ein bod yn ystyried y sector preifat ei hun yn hanfodol i lwyddiant unrhyw strategaeth fewnfuddsoddi. Rydych chi'n frwd o blaid grwpiau cynghori, felly beth am fynd gam ymhellach, Weinidog, gan fynd heibio'r neges aneglur, a chael cyngor buddsoddi sector preifat annibynnol, ar wahân, sy'n cynnwys cynrychiolwyr busnes, i weithio ochr yn ochr â chi, gan ddefnyddio'u sgiliau i ddenu a datblygu mewnfuddsoddiad? Gwelaf fod amser yn fy erbyn, felly byddaf yn tewi gyda hyn. Diolch yn fawr, Weinidog.

17:30

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the opportunity to participate in this debate. Without sounding at all churlish and to start on a somewhat negative note, it is quite common—. I'll try not to—. Conservative debates on inward investment do tend to sometimes have a ring of familiarity. They start off with the misreading of some dodgy numbers and with the inevitable conclusion that things ain't what they used to be. This is, to some extent, what we've heard this afternoon.

Diolch i chi am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon. Heb swnio'n anfoesgar o gwbl ac i ddechrau ar nodyn braidd yn negyddol, mae'n eithaf cyffredin—. Ceisiaf beidio—. Mae dadleuon y Ceidwadwyr ar fewnfuddsoddi'n tueddu weithiau i fod fel tiwn gron. Maent yn dechrau gan gamddehongli rhai rhifau amheus gyda'r casgliad anochel nad yw pethau fel yr arferent fod. Dyma, i ryw raddau, yw'r hyn a glywsom y prynhawn yma.

I have to say, although I very much enjoy listening to the Conservative economy spokesperson, I do wish, sometimes, he would read the second paragraph. We heard the numbers that he gave us—and I assumed that you'd give these numbers so I was able to prepare and research them myself, before you stood up. You used the number that identifies the proportion of UK jobs attracted to Wales at the highest point of inward investment over the last 30 years and you came to a figure of 20 per cent, which is entirely accurate, of course. The current figure, which you didn't give us, is 9.4 per cent. You then used a figure of the total number of UK projects, which was 20 per cent. The highest in the last 30 years was between 1991 and 1992—20 per cent; today's figure is 4.5 per cent.

Rhaid i mi ddweud, er fy mod yn mwynhau gwrando ar lefarydd y Ceidwadwyr ar yr economi yn fawr iawn, carwn, weithiau, pe bai'n darllen yr ail baragraff. Clywsom y rhifau a roddodd i ni—ac roeddwn wedi dyfalu y byddech yn rhoi'r rhifau hyn felly gellais baratoi a'u hymchwilio fy hun, cyn i chi sefyll i fyny. Bu i chi ddefnyddio'r rhif sy'n nodi cyfran y swyddi yn y DU a ddenwyd i Gymru ar bwynt uchaf mewnfuddsoddi yn ystod y 30 mlynedd diwethaf a daethoch i ffigur o 20 y cant, sy'n gwbl gywir, wrth gwrs. Mae'r ffigur cyfredol, na roesoch i ni, yn 9.4 y cant. Wedyn, bu i chi ddefnyddio ffigur sy'n gyfanswm ar gyfer nifer prosiectau'r DU, sef 20 y cant. Yr uchaf yn y 30 mlynedd diwethaf oedd rhwng 1991 a 1992—20 y cant; y ffigur heddiw yw 4.5 y cant.

Now, had you read the second paragraph, you would have received a bit more information—perhaps more important information—that that 20.9 per cent in 1984 represents 9,412 jobs; the 9.4 per cent today represents 10,441 jobs. The 20 per cent 15 years ago represented 72 projects; the 4.5 per cent today represents 79 projects. So, if you actually look behind those numbers, although—

Nawr, pe baech wedi darllen yr ail baragraff, byddech wedi cael ychydig mwy o wybodaeth—gwybodaeth bwysicach o bosibl-fod y 20.9 y cant hynny yn 1984 yn cynrychioli 9,412 o swyddi; mae'r 9.4 y cant heddiw yn cynrychioli 10,441 o swyddi. Mae'r 20 y cant 15 mlynedd yn ôl yn cynrychioli 72 o brosiectau; mae'r 4.5 y cant heddiw yn cynrychioli 79 o brosiectau. Felly, os edrychwch mewn gwirionedd y tu ôl i'r rhifau hynny, er—

*Suzy Davies a gododd—*

*Suzy Davies rose—*

17:32 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will let you intervene.

Rwy'n caniatáu i chi ymyrryd.

Although, as Rhun ap Iorwerth very well put it, the context is entirely different, the numbers—the real numbers—are higher today than they have been at any time in the past. I give way.

Fel y dywedodd Rhun ap Iorwerth yn dda iawn, er bod y cyd-destun yn hollol wahanol, mae'r rhifau—y gwir rifau—yn uwch heddiw nag y maent wedi bod ar unrhyw adeg yn y gorffennol. Rwy'n ildio.

17:32 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for giving way there. You mentioned the second paragraph, but it might have been worth listening to the second speech on this as well, because the figures you refer to were mentioned in that.

Diolch yn fawr iawn i chi am ildio. Soniasoch am yr ail baragraff, ond efallai y byddai wedi bod yn werth gwrando ar yr ail araith ar hyn hefyd, gan fod y ffigurau yr ydych yn cyfeirio atynt wedi eu crybwyll yn honno.

17:33 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I did hear the second speech, but I'd heard it before as well, I'm afraid. The issue here is that there was no golden era when the WDA or another body went around the world and created a fundamental change to the Welsh economy. The period to which those statistics refer was a period when we saw relative decline in Welsh economic performance. We did not see a correlation at that time between a successful WDA and growth in the Welsh economy. We didn't see that; that's not what happened. We did not see, and nobody here on the Conservative benches—

Bu i mi glywed yr ail araith, ond fe'i clywais hithau o'r blaen hefyd, mae arna i ofn. Y pwynt yma yw nad oedd unrhyw oes aur pan oedd y WDA neu gorff arall yn mynd o amgylch y byd ac yn creu newid sylfaenol i economi Cymru. Mae'r cyfnod y mae'r ystadegau hynny yn cyfeirio ato'n gyfnod pan welsom ddirywiad cymharol ym mherfformiad economaidd Cymru. Doedden ni ddim yn gweld cydberthynas ar y pryd hwnnw rhwng Awdurdod Datblygu Cymru llwyddiannus a thwf yn economi Cymru. Doedden ni ddim yn gweld hynny; nid dyna ddigwyddodd. Doedden ni ddim yn gweld, a does neb yma ar feinciau'r Ceidwadwyr —

*Nick Ramsay a gododd—*

*Nick Ramsay rose—*

17:33 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm happy to give way again if you wish.

Rwy'n hapus i ildio eto os dymunwch.

[Continues.]—will be able to show me or demonstrate that that inward investment drive over those decades, over those years, was able to lead to a significant improvement in the relative economic performance of the Welsh economy. You can't show that because it didn't happen and that is why any analysis of the Welsh economy and any analysis of economic policy that simply regards—

[Yn parhau.]—all ddangos i mi neu ddangos y bu i'r hwb hwnnw i fewnfuddsoddiad yn ystod y degawdau hynny, dros y blynyddoedd hynny, allu arwain at welliant sylweddol ym mherfformiad economaidd cymharol economi Cymru. Ni allwch chi ddangos hynny oherwydd nid oedd wedi digwydd a dyna pam y bydd unrhyw ddadansoddiad o economi Cymru ac unrhyw ddadansoddiad o'r polisi economaidd sydd ond yn edrych —

*Nick Ramsay a gododd—*

*Nick Ramsay rose—*

17:34 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Let me finish this sentence.

Gadewch imi orffen y frawddeg hon.

17:34 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You did ask.

Chi ofynnodd.

17:34 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay. You've Googled it, have you? [Laughter.]

Iawn. Rydych chi wedi chwilio ar Google, ydych chi? [Chwerthin.]

[Continues.]—that simply regards inward investment as a vitality test or a target will fail more significant tests. I give way.

[Yn parhau.]–sydd ond yn edrych ar fewnfuddsoddi fel prawf bywiogrwydd neu darged yn methu profion mwy arwyddocaol. Rwy'n ildio.

17:34 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Alun. I do love your contributions, so I thought I'd engage in the banter. Are you honestly telling this Chamber that you think that the Welsh Development Agency was not a successful organisation and that the Government at the time should not have been focusing on the outcomes that it should have? I hear what you're saying about the need to address poverty as well, but come on, get real: the WDA was a great brand.

Diolch i chi, Alun. Rwy'n hoff iawn o'ch cyfraniadau, felly credais y dylwn ymuno yn yr hwyl. A ydych o ddifrif yn dweud wrth y Siambr hon yn eich barn chi nad oedd Awdurdod Datblygu Cymru yn sefydliad llwyddiannus ac na ddylai'r Llywodraeth ar y pryd fod wedi bod yn canolbwyntio ar y canlyniadau y dylai eu cael? Rwy'n clywed yr hyn yr ydych yn ei ddweud am yr angen i fynd i'r afael â thlodi hefyd, ond dewch ymlaen, wynebwch y gwir: roedd y WDA yn frand rhagorol.

17:34 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It was a great brand; I accept that. I don't disagree with you at all. But on the numbers, it didn't work. It didn't work. I asked you to intervene on the subject of numbers and whether it actually succeeded in increasing economic activity in Wales. You didn't do that, and I assume that you are still trying to Google something. [Laughter.] But I'll give way if you succeed in the next few minutes.

Rwy'n derbyn hynny, red yn frand rhagorol. Nid wyf yn anghytuno â chi o gwbl. Ond o ran y rhifau, nid oedd yn gweithio. Nid oedd yn gweithio. Gofynnais ichi ymyrryd ynghylch rhifau ac a oedd mewn gwirionedd wedi llwyddo i gynyddu gweithgarwch economaidd yng Nghymru. Ni wnaethoch wneud hynny, ac rwy'n cymryd eich bod yn dal i geisio chwilio ar Google am rywbeth. [Chwerthin.] Ond byddaf yn ildio os byddwch yn llwyddo yn yr ychydig funudau nesaf.

But let me say this, inward investment is an important component of policy, but it should not be and never should be the totality of policy. Inward investment is an important part of ensuring a growing, thriving and vibrant economy, but—and I will conclude on this, Chair—the key issue for me, and the key issue, I think, for this Chamber is a successful economic policy that is targeted on eliminating poverty from Wales, that is targeted on ensuring that we have sustainable growth in our most vulnerable and fragile communities, and an economic policy that sees inward investment as being a part of a thriving local economy and not simply life support for a failing economy.

Ond gadewch i mi ddweud hyn, mae mewnfuddsoddi yn elfen bwysig o bolisi, ond nid dyna ddylai fod crynswth y polisi, nid ar unrhyw gyfri. Mae mewnfuddsoddi yn rhan bwysig o sicrhau economi ffyniannus a bywiog sy'n tyfu, ond—a byddaf yn tewi ar hyn, Gadeirydd—y pwynt allweddol i mi, a phwynt allweddol, mi gredaf, i'r Siambr hon yw polisi economaidd llwyddiannus sy'n targedu'r gwaith o ddileu tlodi o Gymru, sy'n targedu'r gwaith o sicrhau bod gennym dwf cynaliadwy yn ein cymunedau mwyaf agored i niwed a bregus, a pholisi economaidd sy'n gweld mewnfuddsoddi yn rhywbeth sy'n rhan o economi leol ffyniannus nid dim ond rhywbeth sy'n cynnal bywyd mewn economi ddiffygiol.

17:36 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm pleased to actually contribute once again to a Welsh Conservative debate on inward investment, because it's something that we take very seriously. We know that foreign investment by multinational companies, you know, certainly provides a platform for new ideas and technologies in Wales, and we need those highly skilled jobs coming here. In the 1970s and 1980s, Wales offered a package of incentives to companies looking to locate here: grants, low labour costs and cheap land for development, to name but a few. During the 1990s, Wales's share of all inward investment projects to the UK was around 15 per cent. Now, as eastern Europe has developed, Wales has struggled to compete and, since then, has seen a steady decline. Despite the Welsh Government spending almost £2.5 million in one year alone on 14 overseas offices, Wales's share of foreign direct investment has remained stagnant at between 3.4 per cent and 4.7 per cent since 2006.

Rwy'n falch o gyfrannu mewn gwirionedd unwaith eto at ddadl y Ceidwadwyr Cymreig ar fewnfuddsoddi, am ei fod yn rhywbeth yr ydym yn ei gymryd o ddifrif. Gwyddom fod buddsoddiad tramor gan gwmnïau amlwladol, wyddoch chi, yn sicr yn darparu llwyfan ar gyfer syniadau a thechnolegau newydd yng Nghymru, ac mae angen i'r swyddi medrus iawn hynny ddod yma. Yn y 1970au a'r 1980au, roedd Cymru'n cynnig pecyn o gymhellion i gwmnïau a oedd yn awyddus i ddod yma: grantiau, costau llafur isel a thir rhad ar gyfer datblygu, i enwi dim ond rhai. Yn ystod y 1990au, roedd cyfran Cymru o'r holl brosiectau mewnfuddsoddi i'r DU tua 15 y cant. Yn awr, wrth i ddwyrain Ewrop ddatblygu, mae Cymru wedi cael trafferth i gystadlu ac, ers hynny, mae wedi profi dirywiad cyson. Er i Lywodraeth Cymru wario bron £2.5 miliwn mewn un flwyddyn yn unig ar 14 o swyddfeydd tramor, mae cyfran Cymru o fuddsoddiad tramor uniongyrchol wedi aros yn llonydd ar rhwng 3.4 y cant a 4.7 y cant ers 2006.

So, it does really beg the question whether some of the priorities of the Welsh Government actually are the best value for building our business base here in Wales. The Ernst & Young attractiveness survey of 2014 found that only 2 per cent of existing and potential investors thought Wales was an attractive location to establish operations. This is a clear demonstration of the Welsh Labour Government's lack of strategic vision for attracting inward investment.

Felly, yn wir, rhaid gofyn y cwestiwn, a yw rhai o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd yn rhoi'r gwerth gorau ar gyfer adeiladu ein sylfaen fusnes yma yng Nghymru. Canfu arolwg apêl Ernst & Young yn 2014 mai dim ond 2 y cant o fuddsoddwyr presennol a darpar fuddsoddwyr oedd yn meddwl bod Cymru'n lleoliad deniadol i sefydlu gweithrediadau. Mae hyn yn dangos yn glir ddiffyg Llywodraeth Lafur Cymru o ran gweledigaeth strategol ar gyfer denu buddsoddiad mewnol.

Despite the decline of Wales as a choice destination for FDI, the UK remains the most favoured location in Europe for inward investment. I wonder why that is. In 2013-14, it saw the best level of FDI ever recorded, securing 1,773 projects, helping to create 66,390 jobs and safeguarding a further 45,000. The UK Government's initiatives to cut corporation tax have had a significant impact on improving the attractiveness of the UK for foreign direct investment. Central to the Conservative-led coalition's economic strategy was its bold decision to reduce the burden of corporation tax by the largest percentage in our nation's history: a cut from 28 per cent to 20 per cent. Those are the tools, those are the measures that build investment and confidence in an economy and inward investment.

Er gwaethaf dirywiad Cymru fel cyrchfan ddewisol ar gyfer FDI, y DU sy'n parhau i fod y lleoliad mwyaf ffafriol yn Ewrop ar gyfer mewnfuddsoddi. Tybed pam. Yn 2013-14, gwelodd y lefel orau o FDI a gofnodwyd erioed, gan sicrhau 1,773 o brosiectau, a helpu i greu 66,390 o swyddi a diogelu 45,000 pellach. Mae mentrau Llywodraeth y DU i dorri treth gorfforaeth wedi cael effaith sylweddol ar wella apêl y DU ar gyfer buddsoddiad tramor uniongyrchol. Yn ganolog i strategaeth economaidd y glymblaid dan arweiniad y Ceidwadwyr oedd eu penderfyniad dewr i leihau baich y dreth gorfforaeth â'r canran mwyaf yn hanes ein cenedl: toriad o 28 y cant i 20 y cant. Dyna'r dulliau, dyna'r mesurau sy'n meithrin buddsoddiadau a hyder mewn economi ac mewn mewnfuddsoddi.

The UK offers the most competitive corporation tax in the G20. Twenty-five per cent of international investors interviewed by Ernst & Young stated that reducing corporation tax would improve the UK's attractiveness. So, we are on the right track; you're not. The UK is doing well—

Mae'r DU yn cynnig y dreth gorfforaeth fwyaf cystadleuol yn y G20. Dywedodd dau ddeg pump y cant o fuddsoddwyr rhyngwladol a gafodd eu cyfweld gan Ernst & Young y byddai lleihau treth gorfforaeth yn gwella apêl y DU. Felly, rydym ar y trywydd iawn; nid ydych chi. Mae'r DU yn gwneud yn dda—

17:38 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You've spent a lot of time on corporation tax—probably a bit too long, to be fair—but if you're going to do that and you believe that corporation tax is the prime determinant of economic success, will you support the devolution of corporation tax to enable the success of the Welsh economy?

Rydych chi wedi treulio llawer o amser ar y dreth gorfforaeth—yn ôl pob tebyg ychydig yn rhy hir, a bod yn deg—ond os ydych chi'n mynd i wneud hynny a'ch bod yn credu mai'r dreth gorfforaeth yw'r prif benderfynydd ar gyfer llwyddiant economaidd, a ydych am gefnogi datganoli treth gorfforaeth er mwyn galluogi i economi Cymru lwyddo?

17:39 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are other initiatives that the UK Conservative Government is bringing forward, and I can assure you that we will, actually, look to reduce a lot of bureaucracy and red tape that are strangling the businesses already here.

Mae mentrau eraill y mae Llywodraeth Geidwadol y DU yn eu cyflwyno, a gallaf eich sicrhau y byddwn, mewn gwirionedd, yn mynd ati i leihau llawer o fiwrocratiaeth sy'n tagu busnesau sydd eisoes yma.

According to Chris Sutton, chair of CBI Wales:

Yn ôl Chris Sutton, cadeirydd CBI Cymru:

'At a UK level, we have a very attractive corporate tax environment and a flexible labour market.... We have a strong backbone of multi-nationals and we need a structured programme of engagement to ensure that we retain what we have, to work with them to re-invest at the end of their life cycle and to bring the next project to Wales.'

'At a UK level, we have a very attractive corporate tax environment and a flexible labour market.... We have a strong backbone of multi-nationals and we need a structured programme of engagement to ensure that we retain what we have, to work with them to re-invest at the end of their life cycle and to bring the next project to Wales' .

With discussions to devolve corporation tax, the Welsh Government could be issued the perfect tool to incentivise business growth here in Wales. More must be done, however, to ensure that the benefits of FDI are maximised. Dr John Ball argues that future investment must be based on modern skills, modern processes and products. Past FDI hailed the culture of call centres, centring on employees not entrepreneurs—I said that wrong. We need highly skilled and diverse investment that will bring with it positive long-term economic prosperity.

Gyda thrafodaethau i ddatganoli'r dreth gorfforaeth, gallai Llywodraeth Cymru dderbyn yr union offeryn i gymell twf busnesau yma yng Nghymru. Rhaid gwneud mwy, fodd bynnag, i sicrhau bod manteision FDI yn cael eu defnyddio i'r eithaf. Mae Dr John Ball yn dadlau y dylai buddsoddi yn y dyfodol fod yn seiliedig ar sgiliau modern, cynhyrchion a phrosesau modern. Mae FDI yn y gorffennol wedi hyrwyddo diwylliant canolfannau galw, gan ganolbwyntio ar weithwyr nid entrepreneuriaid—dywedais hynny'n anghywir. Mae arnom angen buddsoddiad tra medrus ac amrywiol a fydd yn dod â ffyniant economaidd hirdymor cadarnhaol yn ei sgîl.

The Welsh Conservatives have a strong strategy to do just that. The establishment of a private sector investment council to work with the Welsh Government trade investment team would attract and develop inward investment. We would work with the private sector, and that is critical to ensuring the aftercare of FDI, business networking support, training support and assistance in policy and expansion. This will ensure that once companies are here, they will be here to stay. We will encourage, we will nurture, and we will incentivise those businesses.

Mae gan y Ceidwadwyr Cymreig strategaeth gref i wneud yr union beth hwnnw. Byddai sefydlu cyngor buddsoddi sector preifat i gydweithio â thîm buddsoddi masnach Llywodraeth Cymru yn denu a datblygu mewnfuddsoddiadau. Byddem yn gweithio gyda'r sector preifat, ac mae hynny'n hanfodol er mwyn sicrhau ôl-ofal FDI, cymorth rhwydweithio busnes, cymorth o ran hyfforddiant a chymorth o ran polisi ac ehangu. Bydd hyn yn sicrhau bod cwmnïau, unwaith y byddant wedi cyrraedd, yma i aros. Byddwn yn annog, byddwn yn meithrin, a byddwn yn cymell y busnesau hynny.

According to Chris Sutton, the secret to FDI success here is creating a stable and consistent policy background, and a business environment that is attractive to investors at both a macro UK level and devolved policy from the Welsh Government. The UK Government are upholding their end of this, but I think it's fair to say that the Welsh Government is out of its depth.

Yn ôl Chris Sutton, y gyfrinach i lwyddiant yr FDI yma yw creu cefndir polisi sefydlog a chyson, ac amgylchedd busnes sy'n ddeniadol i fuddsoddwyr ar lefel macro'r DU a pholisi datganoledig gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth y DU yn llwyddo i wneud hyn, ond credaf ei bod yn deg dweud bod Llywodraeth Cymru allan o'i dyfnder.

17:41 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wind up, please.

Terfynwch, os gwelwch yn dda.

17:41 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay. I urge the Welsh Government to work with the new UK Government and ensure that Wales remains an attractive place for foreign investors to come and do business.

Iawn. Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i gydweithio â Llywodraeth newydd y DU a sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn lle deniadol i fuddsoddwyr tramor ddod i wneud busnes.

17:41 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I don't want to repeat anything that's already been said in the Chamber, or that my colleagues have very competently covered, so I'm going to forget the speech that's prepared here and I'm going to talk about my experience of setting up and running a business for 11 years in Wales.

Wel, nid oes arnaf eisiau ailadrodd unrhyw beth sydd eisoes wedi cael ei ddweud yn y Siambr, neu bethau y mae fy nghyd-aelodau wedi ymdrin yn fedrus iawn â nhw, felly rwyf am anghofio'r araith rwyf wedi'i pharatoi ac am siarad am fy mhrofiad o sefydlu a rhedeg busnes am 11 mlynedd yng Nghymru.

It's a very laudable aim to hear that we want to eliminate poverty. We've been trying to do that for hundreds of years. It's a very laudable aim. If we're going to improve things like staffing levels in hospitals, we need a prosperous country to fund that. That will have to come not from handouts in London or Europe, but from Wales generating its own wealth and prosperity.

Mae clywed ein bod am ddileu tlodi yn nod canmoladwy iawn. Rydym wedi bod yn ceisio gwneud hynny ers cannoedd o flynyddoedd. Mae'n nod canmoladwy iawn. Os ydym yn mynd i wella pethau fel lefelau staffio mewn ysbytai, mae arnom angen gwlad ffyniannus i ariannu hynny. Bydd rhaid i hynny ddibynnu nid ar gardod o Lundain neu Ewrop, ond ar allu Cymru i gynhyrchu ei chyfoeth a'i ffyniant ei hunan.

Now, the question we need to ask in this strategy is: is Wales attractive to foreign investment? Is it? What is it they're looking for? Do the people on that side of the Chamber even know what a foreign investor might be looking for, and why they're not rating Wales top of the list? Scotland was mentioned earlier. Whereas, whilst running a business for 11 years, I lived in Scotland for 12 years, and I can tell you something about the Scots: they look forward, they look outward, and they've always done business with the world, not just Europe. It is time to get real. Europe is not the only game in town. You talk to the young 20 or 30-year-olds. They are interested in working in a global world—a global market. They will go; they will work right across the world. They'll work in central America; they'll work in Asia—

Nawr, y cwestiwn y mae angen i ni ei ofyn yn y strategaeth hon yw: a yw Cymru'n ddeniadol i fuddsoddwyr tramor? A yw hi? Am beth y mae buddsoddwyr yn chwilio? A yw'r bobl ar yr ochr acw o'r Siambr hyd yn oed yn gwybod beth y gallai buddsoddwr tramor fod yn chwilio amdano, a pham nad ydynt yn rhoi Cymru ar frig y rhestr? Cyfeiriodd rhywun at yr Alban yn gynharach. Pan oeddwn yn rhedeg busnes am 11 mlynedd, roeddwn yn byw yn yr Alban am 12 mlynedd, a gallaf ddweud wrthych rywbeth am yr Albanwyr: maent hwy'n edrych ymlaen, maent yn edrych tuag allan, ac maent wedi gwneud busnes erioed gyda'r byd, nid dim ond yn Ewrop. Mae'n bryd i ni wynebu realiti. Nid Ewrop yw'r unig farchnad yn y byd. Ewch i siarad â phobl ifanc 20 neu 30 oed. Mae ganddynt ddiddordeb mewn gweithio'n fyd-eang— mewn marchnad fyd-eang. Maent yn barod i deithio; ac yn barod i weithio ym mhob cwr o'r byd. Maent yn barod i weithio yng Nghanolbarth America; a gweithio yn Asia—

*Alun Davies a gododd—*

*Alun Davies rose—*

17:43 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention? No. Sit down, Alun, please.

A wnewch chi dderbyn ymyriad? Na. Eisteddwch i lawr, Alun, os gwelwch yn dda.

17:43 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, not just yet. Maybe in a short while, when I have finished.

Na, nid eto. Efallai mewn munud, pan fyddaf wedi gorffen.

17:43 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Carry on, please. Carry on, please.

Ewch yn eich blaen, os gwelwch yn dda. Ewch yn eich blaen, os gwelwch yn dda.

17:43 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Now, the other thing is: let us not just think about large foreign investors. Yes, it's good when they come here; it's not so good when they close up and go away, because this Government and local government are left with dealing with the fallout, and that is costly.

Nawr, y mater arall: ni ddylem feddwl am ddim ond buddsoddwyr tramor mawr. Ydyw, mae'n dda eu gweld yn cyrraedd; ond nid cystal yw eu gweld yn cau eu busnes a gadael, gan fod y Llywodraeth hon a llywodraeth leol yn gorfod ymdopi â'r canlyniadau, ac mae hynny'n gostus.

We need to think about the small businesses. They're over 50 per cent of the Welsh economy. They may be small, but together they add up. They add up to a major part of our economy. Think about where Apple started: a guy who fell out with his boss and started working in his garage. Laura Ashley, who, at the end of a long day's work, worked on her company on her kitchen table in her bedsit. We need to spot the stars. That needs to be part of our strategy too. We need to look at these small businesses, and then we need to help the stars to grow. They are out there. Edwards of Conway, the butchers, are exporting now. It is not just a local butcher's shop, but exporting. They are a star. What can we do to help them grow? I'm glad to hear that the creative industries were mentioned. The economy isn't just made up of one element, and the creative industries have been ignored far too long. Just look at the hidden earnings they bring in to the Treasury. We could do a lot more. One of the things Wales majors in is creativity. We are the land of poetry and soul and drama, so we should be leading in that field.

Mae angen i ni feddwl am y busnesau bach. Nhw yw dros 50 y cant o economi Cymru. Efallai eu bod yn fach, ond gyda'i gilydd maent yn llawer. Maent yn gyfran fawr o'n heconomi. Meddyliwch sut y dechreuodd Apple: dyn oedd wedi cael cweryl gyda'i bennaeth a dechrau gweithio yn ei garej. Laura Ashley, a oedd, ar ddiwedd diwrnod gwaith hir, yn gweithio ar ei chwmni ar fwrdd y gegin yn ei fflat un ystafell. Mae angen i ni ddarganfod y sêr. Mae angen i hynny fod yn rhan o'n strategaeth hefyd. Mae angen i ni edrych ar y busnesau bach hyn, ac yna mae angen helpu'r sêr i dyfu. Maent allan yno. Mae Edwards y cigyddion o Gonwy, yn allforio erbyn hyn. Nid dim ond siop cigydd lleol yw hi bellach, maent yn allforio. Maent yn seren. Beth allwn ni ei wneud i'w helpu i dyfu? Rwy'n falch o glywed pobl yn sôn am y diwydiannau creadigol. Nid dim ond un elfen sy'n perthyn i'r economi, ac mae'r diwydiannau creadigol wedi cael eu hanwybyddu lawer yn rhy hir. Does ond rhaid i ni edrych ar yr enillion cudd a ddaw yn eu sgîl i'r Trysorlys. Gallem wneud llawer mwy. Un o brif bethau Cymru yw ei chreadigrwydd. Ni yw gwlad barddoniaeth ac enaid a drama, felly dylem fod yn arwain yn y maes hwnnw.

Training: we've got to have people who can work in these industries, so we need to address training. I will finish on this point. I think we need to reinvent apprenticeships. The days of people signing on for seven years and on low wages are over. We need to think of ways of bringing young people into industries, getting experiences and moving on. I don't think we've done enough there.

Hyfforddiant: mae'n rhaid i ni gael pobl sy'n gallu gweithio yn y diwydiannau hyn, felly mae angen inni fynd i'r afael â hyfforddiant. Rwyf am gloi gyda'r pwynt hwn. Credaf fod angen ailddyfeisio prentisiaethau. Mae'r dyddiau pan oedd pobl yn llofnodi am saith mlynedd ar gyflog isel wedi mynd heibio. Mae angen i ni feddwl am ffyrdd o ddod â phobl ifanc i mewn i ddiwydiannau, i gael profiadau a symud ymlaen. Nid wyf yn credu ein bod wedi gwneud digon o hynny.

*David Rees a gododd—*

*David Rees rose—*

17:46 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you.

Diolch yn fawr.

17:46 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. You talk about encouraging young people. Do you—? Have you finished?

Diolch yn fawr. Rydych yn sôn am annog pobl ifanc. Ydych chi—? A ydych chi wedi gorffen?

17:46 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ydw.

17:46 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Oh. [Laughter.]

O. [Chwerthin.]

17:46 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Galwaf ar Edwina Hart Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth,.

17:46 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much indeed, Chair. I, of course, welcome the opportunity today to contribute to the debate on our inward investment strategy. When William Graham in his opening remarks referred to demons, dragons and whatever, I thought he was going to start a discussion on the creative industries, which of course has been a great success in terms of the Welsh economy, where we have film studios from Monmouthshire all the way to west Wales full, and there is certainly room for more investment within those areas. The pleasing point about the development of creative industries, which was a sector that was identified in the last administration, is that we've actually got the skills for those creative industries. If you go to the conservatoire, they just want these pupils and they want more of them. We have been very innovative, taking on Janet Haworth's point, about how we've dealt with apprenticeships in creative, which is to actually ask them what they want and change the format of what we are doing, which I think is the smart way to deal with some of these issues, for young people to be able to get employment, obviously, into the future.

Diolch yn fawr iawn yn wir, Gadeirydd. Rwyf, wrth gwrs, yn croesawu'r cyfle heddiw i gyfrannu at y ddadl ar ein strategaeth fewnfuddsoddi. Pan gyfeiriodd William Graham yn ei sylwadau agoriadol at gythreuliaid, dreigiau ac yn y blaen, credais ei fod yn mynd i ddechrau trafodaeth ar y diwydiannau creadigol, sydd wrth gwrs wedi bod yn llwyddiant mawr o ran economi Cymru, lle mae gennym stiwdios ffilm o Sir Fynwy yr holl ffordd i orllewin Cymru yn llawn, ac yn sicr mae lle i fwy o fuddsoddi yn yr ardaloedd hynny. Y pwynt braf am ddatblygiad y diwydiannau creadigol, a oedd yn sector a nodwyd yn y weinyddiaeth ddiwethaf, yw bod gennym mewn gwirionedd y sgiliau ar gyfer y diwydiannau creadigol hynny. Os ewch chi i'r conservatoire, dyma'r disgyblion y maent am eu cael a chael mwy ohonynt. Yr ydym wedi bod yn arloesol iawn, gan fynd i'r afael â phwynt Janet Haworth, ynghylch sut yr ydym wedi ymdrin â phrentisiaethau yn y maes creadigol, sef trwy ofyn iddynt beth maen nhw eisiau mewn gwirionedd a newid fformat yr hyn yr ydym yn ei wneud, sydd, mi gredaf, yn ffordd gall o ymdrin â rhai o'r materion hyn, er mwyn i bobl ifanc allu cael cyflogaeth, yn amlwg, yn y dyfodol.

If I may, I will deal first with the amendments. I have to say that we will be opposing amendment 1, which is about 'Selling Wales: The Role of Agencies in Attracting Inward Investment'. We note the criticism contained in the report, but I believe the reasoning is flawed and it is on an old database. The report cites poor performance in 2010, and the world has moved on. But I do appreciate Rhun ap Iorwerth's contribution in more general terms. The points he made about the WDA, the low-paid economy and that message—the world has moved on substantially, as he and Alun Davies indicated, in terms of how we deal with issues. We will obviously be supporting amendment 3, which is about co-ordination between the Welsh Government departments and others. It's very important that our departments in Wales liaise with each other to ensure that the message provided by our overseas team is consistent. Our marketing material for the Just Ask Wales campaign has been translated into a number of different languages to ensure that the message is accurately conveyed. That also follows on from some points that Suzy Davies raised about the role of the Brussels office—about the importance of dialogue there. Obviously, the Brussels office operation has been beefed up, as it were. When I've been on trade missions elsewhere, we've had staff who have been able to come, and I think that's been particularly useful. Suzy also, of course, alluded to the airport. Well, of course, it's important that, as we send passengers out, we have passengers back to spend in Wales, which is obviously a key issue, and there's focus on some of the work that has been going on in the airport area. We are very supportive, I have to say, of the amendment in the name of Aled Roberts here. Even with our already successful approach to activities, we are always looking at ways to improve our inward investment and export performance. I was very much taken, I think, with Eluned Parrott's point about imports, and how you add value to imports, and how there's a circle there. We do have to look at the economy in a very interesting and constructive way. As well as improved performance in foreign direct investment, we've also seen a marked improvement in investment by companies headquartered elsewhere in the UK, which is also very important for us. In 2013-14, we recorded 43 investments, of which 18 were new to Wales. This rose to 58 in 2014-15, of which 21 were new investments. Many of those received support from us as a Welsh Government, in terms of what we are able to offer. More than a quarter of these investments were companies located in England, on the English-Welsh border.

Os caf, carwn ymdrin yn gyntaf â'r gwelliannau. Mae'n rhaid i mi ddweud y byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 1, sy'n ymwneud â Selling Wales: The Role of Agencies in Attracting Inward Investment. Nodwn y feirniadaeth a geir yn yr adroddiad, ond credaf fod y rhesymeg yn ddiffygiol ac y mae ar hen gronfa ddata. Mae'r adroddiad yn dyfynnu perfformiad gwael yn 2010, ac mae'r byd wedi symud ymlaen. Ond rwy'n gwerthfawrogi cyfraniad Rhun ap Iorwerth yn fwy cyffredinol. Mae'r pwyntiau a wnaeth ynglŷn â'r WDA, yr economi cyflog isel a'r neges honno—mae'r byd wedi symud ymlaen yn sylweddol, fel y nododd ef ac Alun Davies, o ran sut yr ydym yn ymdrin â materion. Byddwn yn amlwg yn cefnogi gwelliant 3, sy'n ymwneud â chydgysylltu rhwng adrannau Llywodraeth Cymru ac eraill. Mae'n bwysig iawn bod ein hadrannau yng Nghymru yn cysylltu â'i gilydd er mwyn sicrhau bod y neges a ddarperir gan ein tîm tramor yn gyson. Mae ein deunydd marchnata ar gyfer yr ymgyrch Just Ask Wales wedi cael ei gyfieithu i nifer o ieithoedd gwahanol er mwyn sicrhau bod y neges yn cael ei chyfleu yn gywir. Mae hynny hefyd yn dilyn ymlaen o rai pwyntiau a gododd Suzy Davies am rôl y swyddfa ym Mrwsel—pwysigrwydd deialog yno. Yn amlwg, mae gweithrediaeth swyddfa Brwsel wedi cael ei chryfhau, fel petai. Pan oeddwn i wedi bod ar deithiau masnach mewn mannau eraill, roedd gennym staff a oedd wedi gallu dod, a chredaf fod hynny wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol. Cyfeiriodd Suzy hefyd, wrth gwrs, at y maes awyr. Wel, wrth gwrs, mae'n bwysig, wrth i ni anfon teithwyr allan, fod gennym deithwyr yn dod i mewn i wario yng Nghymru, sydd yn amlwg yn fater allweddol, ac mae ffocws ar beth o'r gwaith sydd wedi bod ar y gweill o ran y maes awyr. Rydym yn gefnogol iawn, rhaid i mi ddweud, i'r gwelliant yn enw Aled Roberts yn hyn o beth. Hyd yn oed gyda'n hagwedd sydd eisoes yn llwyddiannus o ran gweithgareddau, rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella ein perfformiad mewnfuddsoddi ac allforio. Roedd gennyf gryn ddiddordeb ym mhwynt Eluned Parrott am fewnforion, a sut rydych yn ychwanegu gwerth at fewnforion, a'r cylch sy'n bodoli yno. Oes, mae'n rhaid i ni edrych ar yr economi mewn ffordd ddiddorol ac adeiladol iawn. Yn ogystal â gwell perfformiad mewn buddsoddiad uniongyrchol tramor, rydym hefyd wedi gweld gwelliant amlwg mewn buddsoddiad gan gwmnïau sydd â phencadlys mewn mannau eraill yn y DU, sydd hefyd yn bwysig iawn i ni. Yn 2013-14, bu i ni gofnodi 43 o fuddsoddiadau, ac o'r rhain roedd 18 yn newydd i Gymru. Cododd hyn i 58 yn 2014-15, gyda 21 yn fuddsoddiadau newydd. Derbyniodd llawer o'r rhain gefnogaeth gennym ni fel Llywodraeth Cymru, o ran yr hyn y gallwn ei gynnig. Mae mwy na chwarter y buddsoddiadau hyn yn gwmnïau a leolir yn Lloegr, ar y ffin rhwng Lloegr a Chymru.

Our new export zone provides companies in Wales with a one-shop stop, and gives them support and advice on how to export, and expert focus and support provided by the Government. But if I can say on exports, there's certainly more of a role for SMEs to be exporting. Well, it is quite clear in the discussions in the economic renewal council that we have with business that sometimes there's a feeling, 'I'm safe where I am, my business is ticking over, what more do I have to do?' And we do have to increase that to make them say what a good product they are actually dealing with. I was very much taken with your point about the butchers in Conwy, because we probably all get stuff from butchers in Scotland as well, always sending us their very products. And of course, now that we do have the internet and you can market like that, there's more of an opportunity to do it without big structures out there. You can actually do quite a lot of things online, and I think that's very important.

Mae ein parth allforio newydd yn darparu siop-un-stop i gwmnïau yng Nghymru, ac yn rhoi cymorth a chyngor iddynt ar sut i allforio, a ffocws arbenigol a'r cymorth a ddarperir gan y Llywodraeth. Ond os caf ddweud ar allforion, yn sicr mae mwy o rôl i fusnesau bach a chanolig fod yn allforio. Wel, mae'n eithaf amlwg yn y trafodaethau yn y cyngor adnewyddu'r economi a gynhaliwn gyda busnesau y gwelwn y teimlad hwnnw, 'Rwy'n ddiogel lle'r wyf fi, mae fy musnes yn llwyddo, beth mwy sydd angen i mi ei wneud?' Ac mae'n rhaid i ni hybu hynny a gwneud iddynt ddweud cystal yw'r cynnyrch sydd ganddynt mewn gwirionedd. Roedd eich pwynt am y cigydd yng Nghonwy yn dra diddorol i mi, gan ein bod yn ôl pob tebyg i gyd yn cael pethau oddi wrth gigyddion yn yr Alban, yn ogystal â'u bod bob amser yn anfon eu cynnyrch hwy atom ni. Ac wrth gwrs, bellach gan fod gennym y rhyngrwyd ac y gallwch farchnata fel hynny, mae mwy o gyfle i wneud hynny heb gael strwythurau mawr allan yn y maes. Mewn gwirionedd gallwch wneud cryn dipyn o bethau ar-lein, ac rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn.

If I can deal with the issue, I have to say, on corporation tax, we always want more powers in Wales, and corporation tax could potentially give us a powerful tool, I believe, to create economic development. However, can we recognise one thing about corporation tax? It's highly volatile in terms of it, and the risk to the Welsh budget could be substantial. There would also be many practical and legal issues to overcome before the devolution of corporation tax. In general, we believe there's a good case for corporation tax to be retained as a single across-the-UK tax. However, we do recognise that Northern Ireland has had it, but of course they do have the border with the Republic there. The Silk commission agreed that we should have it, it should be devolved, but it did say, if it was devolved to Northern Ireland and Scotland we should have it, and of course, the Smith commission does not recommend the devolution of corporation tax to Scotland. Therefore, at this time, there is discussion on this and we will be abstaining on that particular amendment, because we do want more powers, but we have to look at the logic of some of the issues that are arising.

Os caf sôn am dreth gorfforaeth, rhaid i mi ddweud, rydym bob amser am gael mwy o bwerau yng Nghymru, a gallai'r dreth gorfforaeth o bosibl roi arf pwerus i ni, yn fy marn i, er mwyn creu datblygiad economaidd. Fodd bynnag, a gawn ni gydnabod un peth am y dreth gorfforaethol? Mae'n gyfnewidiol iawn o ran treth, a gallai'r risg i gyllideb Cymru fod yn sylweddol. Hefyd byddai llawer o faterion ymarferol a chyfreithiol i'w goresgyn cyn datganoli treth gorfforaeth. Yn gyffredinol, credwn fod achos da o blaid cadw treth gorfforaeth yn dreth sengl ar draws y DU. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod Gogledd Iwerddon wedi cael y dreth, ond wrth gwrs mae ganddynt hwy'r ffin gyda'r Weriniaeth yno. Cytunodd y comisiwn Silk y dylem gael y dreth, y dylid ei datganoli, ond roedd yn dweud, pe bai'n cael ei datganoli i Ogledd Iwerddon a'r Alban y dylem ni ei chael, ac wrth gwrs, nid yw'r comisiwn Smith yn argymell datganoli'r dreth gorfforaeth i'r Alban. Felly, ar hyn o bryd, mae hyn yn destun trafodaeth a byddwn yn ymatal ar y gwelliant arbennig, oherwydd rydym am gael mwy o bwerau, ond mae'n rhaid i ni edrych ar resymeg rhai o'r materion sy'n codi.

Now, I have to say in terms of inward investment, we've had our strongest performance for 30 years, in 2013-14, and I think Alun Davies has illustrated quite clearly some of the figures around that. We've had a number of inward investments for the year, some companies like Triumph, Deloitte, Glen Dimplex, Alert Logic, and they've all come because of what we've been able to offer them. Many of these new companies come, creating brand-new jobs, new investment and the new technologies and, of course, then, with the new technologies, you need to develop the new supply chain opportunities to existing companies. And Janet Finch-Saunders quoted the Ernst & Young attractiveness survey, which also shows that foreign direct investment projects recorded in Wales were dramatically up and indicated that we had a very strong FDI performance.

Nawr, rhaid i mi ddweud o ran mewnfuddsoddi, rydym wedi cael ein perfformiad cryfaf ers 30 mlynedd, yn 2013-14, a chredaf fod Alun Davies wedi dangos yn gwbl glir rai o'r ffigurau o gwmpas hynny. Rydym wedi cael nifer o fuddsoddiadau o'r tu allan yn ystod y flwyddyn, mae rhai cwmnïau fel Triumph, Deloitte, Glen Dimplex, Alert Logic, ac maent i gyd wedi dod oherwydd yr hyn yr ydym wedi gallu ei gynnig. Mae llawer o'r cwmnïau newydd hyn yn dod, gan greu swyddi newydd sbon, buddsoddiad newydd a'r technolegau newydd ac, wrth gwrs, wedyn, gyda'r technolegau newydd, mae angen i chi ddatblygu cyfleoedd cadwynau cyflenwi newydd i gwmnïau presennol. Dyfynnodd Janet Finch-Saunders arolwg apêl Ernst & Young, sydd hefyd yn dangos bod prosiectau buddsoddi uniongyrchol o dramor a gofnodwyd yng Nghymru wedi codi'n ddramatig gan ddangos bod gennym berfformiad FDI cryf iawn.

Now, the motion refers to collaboration with the UK Government. We have a relationship with UK Government and the UKTI, and of course, as a party, we value that relationship, because we value the union in terms of being in the United Kingdom and all the work we can do to attract investment into the UK. As I always say, when we look at the investment that came in with Jaguar Land Rover, there was disappointment that it wasn't in Wales, but, at the end of the day, as a Government, we put resource in to make sure our supply chain could get into that golden opportunity, with the work we've particularly done in Llanelli with Gestamp, which is a major supplier.

Nawr, mae'r cynnig yn cyfeirio at gydweithio â Llywodraeth y DU. Mae gennym berthynas â Llywodraeth y DU a'r UKTI, ac wrth gwrs, fel plaid, rydym yn gwerthfawrogi'r berthynas honno, oherwydd ein bod yn gwerthfawrogi'r undeb o ran bod yn y Deyrnas Unedig a'r holl waith y gallwn ei wneud i ddenu buddsoddiad i mewn i'r DU . Fel yr wyf bob amser yn ei ddweud, wrth edrych ar y buddsoddiad a ddaeth gyda Jaguar Land Rover, roedd siom nad oedd yng Nghymru, ond, ar ddiwedd y dydd, fel Llywodraeth, rydym yn rhoi adnoddau i mewn i wneud yn siŵr y gallai ein cadwyn gyflenwi gael lle yn y cyfle euraidd hwnnw, gyda'r gwaith yr ydym wedi ei wneud yn arbennig yn Llanelli gyda Gestamp, sy'n brif gyflenwr.

We've obviously got a memorandum of understanding with UKTI, and we've got secondees working with us, and it's very important that we have that relationship with the UKTI, because they are across the globe. They are in areas where we're not. We've got, obviously, offices abroad that deal with issues, but it's also important that we are there, and we've got some co-located teams with the UKTI, which I also think are very useful. We've also recently appointed someone to lead on Welsh Government activities in the USA, Canada and Mexico—our biggest market—and we've also worked closely with UKTI to ensure that Wales is represented on a range of areas.

Yn amlwg mae gennym femorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda UKTI, ac mae gennym bobl ar secondiad yn cydweithio â ni, ac mae'n bwysig iawn bod gennym y berthynas honno â'r UKTI, oherwydd eu bod ar draws y byd. Maent mewn ardaloedd lle nad ydym ni. Yn amlwg, mae gennym swyddfeydd tramor sy'n delio â materion, ond mae hefyd yn bwysig ein bod yno, ac rydym wedi cael rhai timau wedi'u cydleoli â'r UKTI, sydd mi gredaf yn ddefnyddiol iawn. Rydym hefyd wedi penodi rhywun i arwain ar weithgareddau Llywodraeth Cymru yn yr UDA, Canada ac yn ddiweddar ym Mecsico—ein marchnad fwyaf —ac rydym hefyd wedi cydweithio'n agos ag UKTI i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli ar ystod o feysydd.

Whilst I've indicated on corporation tax, and I know this is an issue we'll return to, one of the big issues that's raised with us is actually not about corporation tax; it's about the availability of a skilled and motivated workforce, and this is why there's this training agenda. When I speak to foreign-owned companies in Wales, they often tell me about the importance of having a Government that will work to create jobs in Wales and work with them. So, trade and inward investment are there for us.

Er fy mod wedi sôn am y dreth gorfforaeth, a gwn fod hwn yn fater y byddwn yn dychwelyd ato, doedd un o'r prif faterion a gododd gyda ni mewn gwirionedd ddim yn ymwneud â threth gorfforaeth; mae'n ymwneud ag argaeledd gweithlu medrus a brwdfrydig, a dyma pam y mae gennym yr agenda hyfforddiant hon. Pan fyddaf yn siarad â chwmnïau sy'n eiddo tramor yng Nghymru, maent yn aml yn dweud wrthyf am bwysigrwydd cael Llywodraeth a fydd yn gweithio i greu swyddi yng Nghymru ac yn cydweithio â hwy. Felly, mae masnach a mewnfuddsoddi yno i ni.

There were a number of points made by Members. In terms of Jobs Growth Wales, let me make it clear: it's a flagship project for us as a Labour Government. We've got the money in that in the financial year. We've £9.3 million in the programme, together with European Union funds. It will secure nearly 3,000 young people this year across the whole of Wales. This is a success story; let's not try and undermine that. Can I make it absolutely clear that we are on the ball? We're not, as somebody suggested, out of our depth. We're not out of our depth; we're clearly trying to aim for the sky and achieve what we can, because the important thing to alleviate poverty is to get people into employment and work.

Roedd nifer o bwyntiau a wnaed gan yr Aelodau. O ran Twf Swyddi Cymru, gadewch i mi ddweud yn glir: mae'n brosiect blaenllaw i ni fel Llywodraeth Lafur. Mae'r arian gennym yn y prosiect hwnnw yn y flwyddyn ariannol. Mae gennym £9.3 miliwn yn y rhaglen, ynghyd â chronfeydd yr Undeb Ewropeaidd. Bydd yn sicrhau bron i 3,000 o bobl ifanc eleni ar draws Cymru gyfan. Mae hon yn stori o lwyddiant; gadewch i ni beidio â thanseilio hynny. A gaf i eich sicrhau bod ein bys ar y pỳls? Nid ydym, fel y bu i rywun awgrymu, allan o'n dyfnder. Nid ydym allan o'n dyfnder; rydym yn amlwg yn ceisio anelu am y sêr a chyflawni'r hyn a allwn, oherwydd y peth pwysig i liniaru tlodi yw cael pobl i mewn i gyflogaeth a gwaith.

17:54

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Nick Ramsay to reply to the debate.

Galwaf ar Nick Ramsay i ymateb i'r ddadl.

17:54 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. Of course, those two aren't mutually exclusive, Minister. You can be out of your depth and still aim for the sky, but I took the basis of what you are saying. Can I thank everyone, including the Minister, who has taken part in today's debate and particularly thank Janet Howarth? I think you broke new boundaries today, Janet. I always thought that maiden speeches in Chambers were supposed to be heard in silence, but I think you had two attempted interventions—you had the minister emeritus, Alun Davies, bobbing up and down like a jack-in-the-box, so you’re obviously hitting the ground running and hitting the right buttons there. I thank you, and the other speakers as well.

Diolch yn fawr. Wrth gwrs, nid yw’r ddau beth hynny yn annibynnol ar ei gilydd, Weinidog. Gallwch fod allan o'ch dyfnder ac yn dal i anelu at y sêr, ond derbyniaf sail yr hyn yr ydych yn ei ddweud. Hoffwn ddiolch i bawb, gan gynnwys y Gweinidog, sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl heddiw a diolch yn arbennig i Janet Howarth. Credaf eich bod yn torri ffiniau newydd heddiw, Janet. Roeddwn bob amser wedi meddwl bod areithiau cyntaf yn y Siambr i fod i gael eu clywed mewn tawelwch, ond credaf i chi gael dau ymyriad-cawsoch yr emeritws weinidog, Alun Davies, yn sboncio i fyny ac i lawr fel sioncyn y gwair, felly mae’n amlwg eich bod yn barod at eich gwaith ac yn taro'r botymau iawn yno. Diolch i chi, a'r siaradwyr eraill hefyd.

Just going back to what you said, Minister, in the middle of your contribution. You spoke about supply chains and distribution links, and in a number of questions over the last year or so, following visits that you made to companies in my constituency, I’ve spoken to you about the importance of developing those. Often, companies and SMEs do actually want to stay and deal with other Welsh companies, but they need to have those opportunities mapped. It’s not just a question about financial support. Sometimes I think we probably give the impression it’s all about that, and it’s not; there are other opportunities, such as mapping opportunities, that can help.

A gaf i fynd yn ôl at yr hyn a ddywedasoch, Weinidog, yng nghanol eich cyfraniad. Rydych yn siarad am gadwyni cyflenwi a chysylltiadau dosbarthu, ac mewn nifer o gwestiynau yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, yn dilyn ymweliadau a wnaethoch â chwmnïau yn fy etholaeth, rwyf wedi siarad â chi am bwysigrwydd datblygu rheiny. Yn aml, mae cwmnïau a busnesau bach a chanolig mewn gwirionedd eisiau aros a delio â chwmnïau eraill yng Nghymru, ond mae angen iddynt gael y cyfleoedd hynny wedi eu mapio. Nid dim ond mater o gymorth ariannol yw hyn. Weithiau credaf ein bod yn debygol o roi'r argraff fod y cyfan yn ymwneud â hyn, ond nid ydyw; mae cyfleoedd eraill, megis cyfleoedd mapio, a all helpu.

There has of course been inward investment in Wales over the past 20 years or 30 years. No-one denies that. What we’ve been saying, and what this debate says, is that some opportunities have not been developed in the way that they could have been. Critically, a lot of statistics have been bandied around today, but, critically, Wales has been unable to exceed the 4.6 per cent share of inward investment in the UK. Many Members have mentioned aftercare, and, certainly, we believe on this side of the Chamber this needs to be improved. That’s why we launched ‘Destination Cymru’. It’s not just about getting businesses here. It is of course about keeping them here, and that hasn’t always happened as well as it could in the past, a point that was made by my colleague Janet Finch-Saunders. The Welsh Government does indeed need to better understand the needs of Welsh businesses, and I think, in fact, the Minister alluded to this in her comments, when she spoke about the importance of communication links. It’s very easy for us, as Janet Howarth said, to think we know what businesses want, and to put our interpretation onto that, but all-important in the world of business and encouraging inward investment is to actually understand what it is they need. I think sometimes you can be surprised about the sort of climate that they need, and about the exact incentives that they need. So, that communication is all-important, and, indeed, at the European level as well.

Wrth gwrs mae mewnfuddsoddi wedi bod yng Nghymru yn ystod yr 20 mlynedd neu’r 30 mlynedd diwethaf. Nid oes neb yn gwadu hynny. Yr hyn yr ydym wedi bod yn ei ddweud, a beth mae’r ddadl yn ei ddweud, yw nad yw rhai cyfleoedd wedi cael eu datblygu yn y ffordd y gallent. Yn allweddol, mae llawer o ystadegau wedi eu crybwyll heddiw, ond, yn hollbwysig, mae Cymru wedi llwyddo i ragori ar y gyfran o 4.6 y cant o fewnfuddsoddiad yn y DU. Mae llawer o Aelodau wedi sôn am ôl-ofal, ac, yn sicr, yr ochr hon o'r Siambr credwn fod angen gwella hyn. Dyna pam y bu i mi lansio 'Cyrchfan Cymru'. Nid dim ond cael busnesau i ddod yma yw’r unig nod. Wrth gwrs, mae ynglŷn â’u cadw yma, ac nid yw hynny wedi digwydd bob amser cystal ag y gallai yn y gorffennol, pwynt a wnaed gan fy nghyd-aelod Janet Finch-Saunders. Yn wir mae angen i Lywodraeth Cymru ddeall anghenion busnesau Cymru yn well, a chredaf mewn gwirionedd fod y Gweinidog wedi cyfeirio at hyn yn ei sylwadau, pan siaradodd am bwysigrwydd cysylltiadau cyfathrebu. Mae'n hawdd iawn i ni, fel y dywedodd Janet Howarth, feddwl ein bod yn gwybod beth mae busnesau ei eisiau, a rhoi ein dehongliad o hynny, ond yn hollbwysig yn y byd busnes ac er mwyn annog mewnfuddsoddi rhaid deall mewn gwirionedd yr hyn sydd ei angen arnynt. Credaf weithiau y byddech chi’n synnu at y math o hinsawdd sydd ei angen arnynt, ac am yr union gymhellion sydd eu hangen arnynt. Felly, mae’r cyfathrebu hwnnw yn holl bwysig, ac, yn wir, ar lefel Ewropeaidd hefyd.

Now, as a number of speakers have mentioned, it is often difficult to determine the Welsh Government's successes and where they might be, certainly compared with the UK Government's successes. Rhun ap Iorwerth mentioned in his contribution—. In fact, there's an eternal ongoing problem of data in Wales. I think in every contribution I've made in this Chamber in at least the last five years I've said that we don't have sufficient data, and that's been a problem since the Assembly was established, but going back before that as well. I think it's something every committee report alludes to, and something that we certainly need to get to grips with. As you rightly said, Rhun, the Enterprise and Business Committee did indeed say that bringing operation in-house when the WDA was dissolved—brought in-house to the Welsh Government—did limit all-important risk taking. It's not about saying that the WDA was the best thing since sliced bread, and it was perfect. Of course it wasn't; no organisation is. But there is no doubt at all in my mind that when that transition happened, back in the bonfire of the quangos as it was called back then, something was lost that should have been retained. I think all parties here would like to see that restored. The Minister is on record as saying that, in the past. You've lambasted a bit for this, Minister, and actually I think that's a bit unfair. When you said that you hadn't got the brand of Wales right, I think that was an important acknowledgement that it hasn't been perfectly right over the last 10 years, and there are improvements that can be made there, but that can only be done by working out exactly what businesses want, as I mentioned before.

Nawr, fel y mae nifer o siaradwyr wedi sôn, mae'n aml yn anodd penderfynu ar lwyddiannau Llywodraeth Cymru a lle y gallent fod, yn sicr o gymharu â llwyddiannau Llywodraeth y DU. Soniodd Rhun ap Iorwerth yn ei gyfraniad—. Yn wir, mae problem barhaus dragwyddol ynghylch data yng Nghymru. Credaf ym mhob cyfraniad a wneuthum yn y Siambr hon yn ystod y pum mlynedd diwethaf o leiaf, rwyf wedi dweud nad oes gennym ddigon o ddata, ac mae hynny wedi bod yn broblem ers sefydlu'r Cynulliad, ond mynd yn ôl cyn hynny hefyd . Credaf ei fod yn rhywbeth y mae pob adroddiad pwyllgor yn cyfeirio ato, ac yn rhywbeth yn sicr, mae angen i ni fynd i'r afael ag ef. Fel y dywedasoch yn gywir, Rhun, dywedodd y Pwyllgor Menter a Busnes yn wir fod dod â gweithrediad yn fewnol wrth ddiddymu'r WDA—ei ddwyn yn fewnol i Lywodraeth Cymru—yn cyfyngu ar y posibilrwydd hollbwysig o gymryd risg. Nid yw hynny'n gyfystyr â dweud mai Awdurdod Datblygu Cymru oedd y peth gorau erioed, a'i fod yn berffaith. Wrth gwrs nad yw hynny'n wir; nid yw unrhyw sefydliad yn berffaith. Ond nid oes amheuaeth o gwbl yn fy meddwl, pan ddigwyddodd y cyfnod pontio, yn ôl yng nghoelcerth y cwangos fel y'i gelwid bryd hynny, collwyd rhywbeth a ddylai fod wedi cael ei gadw. Credaf yr hoffai pob plaid yma weld hynny'n cael ei adfer. Mae'r Gweinidog wedi dweud hynny ar goedd, yn y gorffennol. Rydych chi wedi lladd ychydig ar hyn, Weinidog, ac mewn gwirionedd credaf fod hynny'n braidd yn annheg. Pan fyddwch yn dweud nad ydych wedi cael brand Cymru yn iawn, credaf fod hynny'n gydnabyddiaeth bwysig nad yw wedi bod yn gwbl berffaith dros y 10 mlynedd diwethaf, ac mae gwelliannau y gellir eu gwneud iddo, ond dim ond trwy weithio allan yr union bethau mae busnesau'n eu dymuno y gellir gwneud hynny, fel y soniais o'r blaen.

Eluned Parrott—you said initially that inward investment should not just be about the figures, but as I've gone on about the importance of the figures, I won't dwell too much on that aspect of your contribution. You did go on to make the intriguing—well, you talked about the experimental ultrasound simulator, which interested us, for carrying—. I'll get this right, going back—it's a simulator for scanning pregnant women. I'm sure most women would appreciate the simulator actually carrying the baby for them as well. Maybe in future developments will happen that will take us somewhere down there. But, certainly, you made the interesting point about how, in Wales, there are developments being made that I don't think are always that publicly known, and not even known about in this Chamber. So, when examples like that are put before us, I think we need to take notice of them and realise exactly how much innovation is happening in Wales.

Eluned Parrott—i ddechrau dywedasoch na ddylai mewnfuddsoddi fod ynghylch y ffigurau yn unig, ond gan fy mod wedi mynd ymlaen am bwysigrwydd y ffigurau, ni fyddaf yn treulio gormod ar yr agwedd honno ar eich cyfraniad. Aethoch ymlaen i sôn yn ddigon diddorol—wel, soniasoch am yr efelychydd uwchsain arbrofol, a oedd o ddiddordeb i ni, ar gyfer cario—fe af yn ôl i gael hyn yn gywir—efelychydd ydyw ar gyfer sganio merched beichiog. Rwy'n siŵr y byddai'r rhan fwyaf o fenywod yn gwerthfawrogi'r efelychydd mewn gwirionedd yn cario'r baban ar eu cyfer hefyd. Efallai cawn ddatblygiadau yn y dyfodol a fydd yn mynd â ni ar hyd y ffordd honno. Ond, yn sicr, gwnaethoch y pwynt diddorol, yng Nghymru, sut mae datblygiadau yn cael eu gwneud nad wyf yn credu eu bod bob amser yn hysbys i'r cyhoedd, na hyd yn oed yn hysbys i'r Siambr hon. Felly, pan fydd enghreifftiau fel hyn yn cael eu rhoi ger ein bron, credaf fod angen i ni gymryd sylw ohonynt a sylweddoli faint yn union o arloesed sy'n digwydd yng Nghymru.

Suzy Davies, the all-important spread of wealth across the UK, of course, that is part of the UK Government's responsibility. But, yes, economic development is a key aspect of the Welsh Government's policy, and, as we say so often, it is a question of priorities and it's for the Welsh Government here to set out those in a clear and meaningful strategy. I think, too often in the past, sometimes we've seen inward investment opportunities that have happened I think sometimes in spite of the current strategic arrangement, which is there in part but is woefully inadequate in other parts. That needs to be addressed.

Suzy Davies, mae'n hollbwysig bod cyfoeth yn cael ei ledaenu ar draws y DU, wrth gwrs, sy'n rhan o gyfrifoldeb Llywodraeth y DU. Ond, ydyw, mae datblygiad economaidd yn agwedd allweddol ar bolisi Llywodraeth Cymru, ac, fel y byddwn yn ei ddweud yn aml, mae'n fater o flaenoriaethau a lle Llywodraeth Cymru yw eu gosod allan mewn strategaeth glir ac ystyrlon. Credaf ein bod yn rhy aml yn y gorffennol, ar brydiau wedi gweld cyfleoedd mewnfuddsoddi sydd wedi digwydd weithiau er gwaethaf y trefniant strategol presennol, sydd yno yn rhannol, ond yn druenus o annigonol mewn rhannau eraill. Mae angen rhoi sylw i hyn.

Last, but not least in terms of the contributions, I must go back to Alun Davies's comments. I always enjoy your contributions, Alun. You never quite know whether you're going to attack us or your own front bench. Today, it was kind of us, I think. 'Minister emeritus', as I do like to call you. I wasn't actually Googling, I was on Facebook, but you weren't to know that. You know I'm not that quick on computers, so I couldn't get those figures up as quick as you wanted me to. But you wanted an intervention and you got one. I would go back again to—I don't think we were at completely disparate dialogues there, actually.

Yn olaf, ond nid lleiaf o ran y cyfraniadau, mae'n rhaid i mi fynd yn ôl at sylwadau Alun Davies. Rwyf bob amser yn mwynhau eich cyfraniadau, Alun. Dydych chi byth yn gwybod yn iawn a ydych yn mynd i ymosod arnom ni neu'ch mainc flaen eich hun. Heddiw, credaf mai ni o bosibl oedd y targed. 'Weinidog emeritws', fel yr hoffaf eich galw. Nid oeddwn yn chwilio Google mewn gwirionedd, roeddwn ar Facebook, ond doeddech chi ddim i wybod hynny. Gwyddoch nad fi yw'r cyflymaf ar gyfrifiaduron, felly ni allwn ganfod y ffigurau hynny mor gyflym ag yr oeddech am i mi wneud. Ond eich dymuniad oedd cael ymyriad a bu i chi gael ymyriad. Af yn ôl eto i—ni chredaf fod ein deialogau yn gyfan gwbl wahanol, mewn gwirionedd.

Of course, it's not just about the economic outcomes and the figures, it's about: are issues like poverty being dealt with? Are people's lives actually improving? You've been making these comments now over a few debates. You're building a narrative here, I suspect. And it is a very good one. Of course you need to have those outcomes for people out there on the ground. But, in the meantime, you need a good economy, and, in the meantime, you need solid inward investment. So, support the motion.

Wrth gwrs, nid dim ond am y canlyniadau economaidd a'r ffigurau y mae hyn, mae'n ymwneud ag: a yw materion fel tlodi yn cael eu datrys? A yw bywydau pobl yn gwella mewn gwirionedd? Rydych chi wedi bod yn gwneud y sylwadau hyn yn awr am lawer o ddadleuon. Credaf eich bod yn datblygu naratif yma. Ac mae'n un da iawn. Wrth gwrs rhaid i chi gael y canlyniadau hynny i'r bobl hynny ar lawr gwlad. Ond, yn y cyfamser, mae angen economi da, ac, yn y cyfamser, mae angen mewnfuddsoddi solet. Felly, rwy'n cefnogi'r cynnig.

18:01 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] Therefore, I'll defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Felly, byddaf yn gohirio'r pleidleisio dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# 6. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Deddf Hawliau Dynol

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies, a gwelliant 2 yn enw Elin Jones.*

# 6. Welsh Liberal Democrats Debate: The Human Rights Act

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies, and amendment 2 in the name of Elin Jones.*

18:01 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Item 6 is the Welsh Liberal Democrats' debate—the Human Rights Act. I call on Kirsty Williams to move the motion.

Eitem 6 yw dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru—Deddf Hawliau Dynol. Galwaf ar Kirsty Williams i gyflwyno'r cynnig.

Cynnig NDM5770 Aled Roberts

Motion NDM5770 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw ymgais gan Lywodraeth y DU i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998, a fyddai'n tanseilio setliad datganoli Cymru ac yn gam yn ôl o ran hyrwyddo a diogelu hawliau dynol.

Firmly opposes any attempt by the UK Government to repeal the Human Rights Act 1998, which would undermine our Welsh devolution settlement and be a retrograde step in the promotion and protection of human rights.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

18:01 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, acting Deputy Presiding Officer.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd dros dro.

I begin by formally moving the motion that is on the order paper this afternoon. I do so because, as a party, we believe that human rights are fundamental and universal and the abuse of human rights should not be tolerated. Every person's human rights must be respected, regardless of their background or where they live. Those principles were embedded within our legal system by the passing of the Human Rights Act 1998. These human rights laws have protected some of the most vulnerable in society. They have stopped the state spying on us. They have helped victims of rape and of domestic abuse. They have supported peaceful protest, protected soldiers, guarded against slavery, supported those in institutional care, shielded press freedoms, provided answers for grieving families, preserved the right to a fair trial, prevented indiscriminate stop and search, and have protected minorities.

Dechreuaf drwy gyflwyno'r cynnig sydd ar y papur gorchymyn y prynhawn yma yn ffurfiol. Rwy'n gwneud hynny oherwydd, fel plaid, credwn fod hawliau dynol yn sylfaenol ac yn gyffredinol ac ni ddylai cam-drin hawliau dynol gael ei oddef. Rhaid i hawliau dynol pob unigolyn gael eu parchu, waeth beth yw eu cefndir neu ble maent yn byw. Cafodd yr egwyddorion hynny eu hymgorffori yn ein system gyfreithiol trwy basio Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae'r cyfreithiau hawliau dynol hyn wedi diogelu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Maent wedi atal y wladwriaeth rhag ysbïo arnom. Maent wedi helpu dioddefwyr trais a cham-drin domestig. Maent wedi cefnogi protest heddychlon, gwarchod milwyr, amddiffyn yn erbyn caethwasiaeth, cefnogi rhai mewn gofal sefydliadol, gwarchod rhyddid y wasg, darparu atebion ar gyfer teuluoedd sy'n galaru, cadw'r hawl i gael achos teg, atal stopio a chwilio diwahân, ac wedi diogelu lleiafrifoedd.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 18:03.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 18:03.*

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

The Act enshrines Europe's human rights laws, which were designed by British lawyers to reflect British values of justice, tolerance and decency after the horrors of the second world war. Therefore, Deputy Presiding Officer, it was ironic that, as many in this country gathered to mark the seventieth anniversary of VE day, Government officials and civil servants were reheating plans to scrap our Human Rights Act at the very time when we remembered the millions of men and women and civilians who gave their lives defending liberty and human rights that were threatened between 1939 and 1945.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys cyfreithiau hawliau dynol Ewrop, a gynlluniwyd gan gyfreithwyr Prydain i adlewyrchu gwerthoedd Prydeinig sef cyfiawnder, goddefgarwch a gwedduster ar ôl erchylltra'r ail ryfel byd. Felly, Ddirprwy Lywydd, yr oedd yn eironig, gan fod llawer yn y wlad hon wedi ymgasglu i nodi degfed pen-blwydd a thrigain diwrnod VE, fod swyddogion y Llywodraeth a gweision sifil yn ailgynhesu cynlluniau i gael gwared ar ein Deddf Hawliau Dynol ar yr union adeg pan fyddwn yn cofio'r miliynau o ddynion a menywod a sifiliaid a aberthodd eu bywydau yn amddiffyn hawliau rhyddid a dynol a oedd dan fygythiad rhwng 1939 a 1945.

Now, I do acknowledge that, since then, following the Queen's Speech, there seems to me to have been a little backtracking on behalf of the new Conservative Government on their plans for the time being. But a No. 10 spokesperson this week clarified the Prime Minister's position on what needs to happen, namely scrapping the Human Rights Act and breaking the link between the European convention on human rights and here and making the Supreme Court in the UK the ultimate arbiter of human rights in the UK—that's what the intention is. Such an ambition would basically require us to leave the European convention on human rights and would leave the United Kingdom in the ranks of countries like Belarus, Kazakhstan, Russia and Azerbaijan.

Nawr, rwy'n cydnabod, ers hynny, yn dilyn Araith y Frenhines, ei bod yn ymddangos i mi y bu ychydig o wrthgilio ar ran y Llywodraeth Geidwadol newydd ar eu cynlluniau am y tro. Ond eglurodd llefarydd Rhif 10 yr wythnos hon safbwynt y Prif Weinidog fod angen i hyn ddigwydd, sef cael gwared ar y Ddeddf Hawliau Dynol a thorri'r cysylltiad rhwng y confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol ac yma a gwneud y Goruchaf Lys yn ganolwr terfynol y DU ar hawliau dynol yn y DU—dyna beth yw'r bwriad. Byddai uchelgais o'r fath yn y bôn yn ei gwneud yn ofynnol i ni adael y confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol gan adael y Deyrnas Unedig ymhlith rhengoedd o wledydd fel Belarws, Kazakhstan, Rwsia ac Azerbaijan.

The irony is that the UK puts upholding human rights and international law supposedly at the centre of its foreign policy. I wonder how, as a country, we can do that, how we can lead by example, when we are about to have a Government that will trash our own domestic human rights protections.

Yr eironi yw bod y DU yn rhoi cynnal hawliau dynol a chyfraith ryngwladol yn ôl y sôn, wrth wraidd ei pholisi tramor. Tybed, fel gwlad, sut y gallwn wneud hynny, sut mae modd i ni arwain trwy esiampl, pan rydym ar fin cael Llywodraeth a fydd yn chwalu ein dulliau ni o amddiffyn ein hawliau dynol gartref.

Obviously, these proposals have huge consequences for this institution, and I will talk a little bit more about that later, as will my colleagues, but perhaps it’s worth while reminding ourselves what the Human Rights Act does not do. Some say it has to go because it was a piece of socialist legislation. Well, actually, the Act was passed with cross-party support at that time in the House of Commons, and that’s in contrast with what the Conservatives are now proposing, which is a deeply partisan bill of rights that clearly does have very little cross-party support. Some people say that the HRA has been imposed upon us by the EU, but that’s not the case. The Human Rights Act was independently passed by the UK Parliament in 1998. It incorporates the convention for the protection of human rights, which was adopted by the European Council in 1950; it is completely separate to the EU. And, as I said previously, the UK played a major role in negotiating the convention, which it voluntarily adopted in 1951.

Yn amlwg, mae'r cynigion hyn yn arwain at ganlyniadau enfawr i’r sefydliad hwn, a byddaf yn siarad ychydig mwy am hynny yn nes ymlaen, fel y bydd fy nghyd-aelodau, ond efallai ei fod yn werth chweil ein hatgoffa ein hunain beth nad yw'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ei wneud. Mae rhai yn dweud fod yn rhaid ei dileu am ei bod yn ddarn o ddeddfwriaeth sosialaidd. Wel, mewn gwirionedd, cafodd y Ddeddf ei phasio gyda chefnogaeth drawsbleidiol ar y pryd yn Nhŷ'r Cyffredin, ac mae hynny mewn cyferbyniad â'r hyn y mae'r Ceidwadwyr yn ei gynnig yn awr, sef bil pleidiol dros ben o hawliau sy'n amlwg heb fawr o gefnogaeth glir ar draws y pleidiau. Mae rhai pobl yn dweud bod y Ddeddf wedi'i gorfodi arnom gan yr UE, ond nid yw hynny'n wir. Cafodd y Ddeddf Hawliau Dynol ei phasio’n annibynnol gan Senedd y DU yn 1998. Mae'n ymgorffori'r confensiwn ar gyfer diogelu hawliau dynol, a fabwysiadwyd gan y Cyngor Ewropeaidd yn 1950; mae'n gwbl ar wahân i'r UE. Ac, fel y dywedais o'r blaen, chwaraeodd y DU ran bwysig wrth drafod y confensiwn, y bu iddi ei mabwysiadu’n wirfoddol yn 1951.

Apparently, the HRA prevents us from deporting foreigners. There is no general prohibition in the HRA of the deportation of non-nationals. It is often international law, like the prohibition on torture, that prevents countries sending a person anywhere where there is a substantial risk that they would be tortured. If we condemn torture, then we must also condemn the outsourcing of torture, too, I would argue.

Yn ôl y sôn, mae’r Ddeddf yn ein hatal rhag alltudio tramorwyr. Nid oes un gwaharddiad cyffredinol yn y Ddeddf ar alltudio pobl nad ydynt yn wladolion. Mae cyfraith ryngwladol yn aml, fel y gwaharddiad ar artaith, yn atal gwledydd rhag anfon rhywun i unrhyw le lle mae risg sylweddol y byddent yn cael eu harteithio. Os ydym yn condemnio artaith, yna rhaid i ni hefyd gondemnio artaith mewn gwledydd eraill hefyd, byddwn yn dadlau.

Apparently, the HRA must go because it undermines parliamentary sovereignty. Actually, the Human Rights Act has increased British sovereignty. Before our HRA, cases went to the European Court of Human Rights in Strasbourg without any judgment of a British court; today, British judges now rule on all claims arising out of the United Kingdom and they actually help influence Strasbourg case law.

Yn ôl y sôn, mae'n rhaid diddymu'r Ddeddf am ei bod yn tanseilio sofraniaeth seneddol. Mewn gwirionedd, mae'r Ddeddf Hawliau Dynol wedi cynyddu sofraniaeth Prydain. Cyn ein Deddf ni, roedd achosion yn mynd i Lys Hawliau Dynol Ewrop yn Strasbwrg heb unrhyw ddyfarniad gan lys Prydeinig; heddiw, barnwyr Prydeinig bellach sy’n dyfarnu pob hawliad sy'n deillio o'r Deyrnas Unedig ac maent mewn gwirionedd yn helpu i ddylanwadu ar gyfraith achos Strasbwrg.

Then the other myth: under the HRA, British courts are bound by the European Court of Human Rights. On the contrary, our Human Rights Act is quite clear: British courts are not required to follow the judgments of the European Court of Human Rights blindly. They must take account of them, but domestic judges can, and often do, depart from Strasbourg case law to take account of the United Kingdom’s own laws and traditions.

Wedyn, mae myth arall: o dan y Ddeddf, mae llysoedd Prydain yn cael eu rhwymo gan Lys Hawliau Dynol Ewrop. I'r gwrthwyneb, mae ein Deddf Hawliau Dynol yn hollol glir: nid yw'n ofynnol i lysoedd Prydain ddilyn dyfarniadau Llys Hawliau Dynol Ewrop yn ddigyfaddawd. Mae'n rhaid iddynt eu hystyried, ond mae barnwyr gartref yn gallu gwyro oddi wrth gyfraith achosion Strasbwrg i ystyried deddfau a thraddodiadau'r Deyrnas Unedig ei hun, ac maent yn gwneud hynny’n aml.

So, if that’s what the HRA is not, Deputy Presiding Officer, let’s look at what the Human Rights Act actually does for real people. What it does is provide protection for vulnerable citizens. Let me give you the example of K versus an NHS Trust in 2013. A local authority wanted to let doctors sterilise a 21-year-old young woman with Down’s syndrome. The court focused on her best interests, and said the decision had to be the least restrictive of a person’s rights and freedom of action, and it would not allow the sterilisation based on article 8, the right to respect for private and family life, and article 12, the right to found a family. Or the case of 90-year-olds Richard and Beryl Driscoll: they lived together for more than 65 years until, in 2006, Mr Driscoll had to be moved into a residential care home. He could not walk unaided and his wife was blind. She relied on her husband as her eyes and he relied on her for his mobility. They wanted to remain together, but the council said it wasn’t possible to accommodate them in the same nursing home. But thanks to a campaign that argued that their treatment breached their human rights, specifically their right to a family life, the council was forced to backtrack and they were reunited.

Felly, os nad dyna yw’r Ddeddf, Ddirprwy Lywydd, gadewch i ni edrych ar yr hyn y mae’r Ddeddf Hawliau Dynol yn ei wneud o blaid pobl go iawn. Yr hyn mae'n ei wneud yw darparu diogelwch i ddinasyddion sy'n agored i niwed. Gadewch i mi roi enghraifft i chi o K yn erbyn un o Ymddiriedolaethau’r GIG yn 2013. Mae awdurdod lleol yn awyddus i adael i feddygon ddiffrwythloni merch ifanc 21 mlwydd oed â syndrom Down. Canolbwyntiodd y llys ar ei budd gorau hithau, gan ddweud bod yn rhaid i’r penderfyniad fod y lleiaf cyfyngol ar hawliau person a'i ryddid i weithredu, ac nad oedd am ganiatáu'r diffrwythloni ar sail erthygl 8, yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, ac erthygl 12, yr hawl i sefydlu teulu. Neu achos y cwpl 90 oed, Richard a Beryl Driscoll: yn 2006 roedd y pâr wedi bod yn cydfyw am fwy na 65 mlynedd, tan i Mr Driscoll gael ei symud i gartref gofal preswyl. Ni allai gerdded heb gymorth ac roedd ei wraig yn ddall. Roedd hi'n dibynnu ar lygaid ei gŵr i weld drosti ac roedd ef yn dibynnu arni hithau er mwyn mynd o gwmpas. Eu dymuniad oedd aros gyda'i gilydd, ond dywedodd y cyngor nad oedd modd darparu ar eu cyfer yn yr un cartref nyrsio. Ond diolch i ymgyrch a fu'n dadlau bod eu triniaeth yn torri ar eu hawliau dynol, yn benodol eu hawl i fywyd teuluol, rhaid oedd i’r cyngor dynnu’n ôl a daethant yn ôl at ei gilydd.

Or the children’s rights that were better protected in immigration detention centres via case law, or the patients who have the right to determine treatment in their best interests. In R (on the application of Oliver Leslie Burke) v. the General Medical Council and the Disability Rights Commission 2005, the court said that withdrawing life-prolonging treatment without a patient’s consent would constitute inhuman and degrading treatment and violate the right to life and respect for private life under articles 2, 3 and 8 of the ECHR. And you can’t be sacked without knowing why, thanks to the case of Devaney v. the UK 2002. That’s what we are talking about today: ensuring that individual citizens have these rights, and have the opportunity to challenge the state.

Neu’r hawliau plant a gafodd eu hamddiffyn yn well mewn canolfannau cadw mewnfudwyr trwy gyfraith achos, neu'r cleifion sydd â'r hawl i benderfynu ar driniaeth er eu lles gorau. Yn yr achos R (ar gais Oliver Leslie Burke) yn erbyn Y Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Comisiwn Hawliau Anabledd 2005, dywedodd y llys y byddai tynnu triniaeth estyn bywyd yn ôl heb ganiatâd y claf yn gyfystyr â thriniaeth annynol a diraddiol ac yn groes i'r hawl i fywyd a pharch at fywyd preifat o dan erthyglau 2, 3 ac 8 o Siarter Hawliau Dynol Ewrop. Ac ni allwch gael eich diswyddo heb wybod pam, diolch i achos Devaney yn erbyn Y DU 2002. Dyna yw’r hyn yr ydym yn sôn amdanynt heddiw: sicrhau bod gan ddinasyddion unigol yr hawliau hyn, a’u bod yn cael y cyfle i herio'r wladwriaeth.

I said earlier that it has big consequences for the devolution settlement, and I think the UK Government risks this at their peril. The dual system of human rights that we have means that we have incorporated into our own law here in the Assembly aspects of this. The First Minister gave the example of the social services and wellbeing legislation. And, under the Sewel convention, any repeal or change to the Human Rights Act 1998 would require permission of this Assembly via a legislative consent memorandum, and we will support Plaid Cymru’s amendment here today, because that is the case.

Dywedais yn gynharach fod gan hyn ganlyniadau mawr ar gyfer y setliad datganoli, a chredaf mai peryglus yw i Lywodraeth y DU gymryd y camau hyn. Mae'r system ddeuol o hawliau dynol sydd gennym yn golygu ein bod wedi cynnwys yn ein cyfraith ein hunain yma yn y Cynulliad agweddau o hyn. Rhoddodd y Prif Weinidog yr enghraifft o’r ddeddfwriaeth lles a gwasanaethau cymdeithasol. Ac, o dan gonfensiwn Sewel, byddai unrhyw ddiddymu neu newid i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 angen caniatâd y Cynulliad hwn drwy gyfrwng memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, a byddwn ni’n cefnogi gwelliant Plaid Cymru yma heddiw, oherwydd bod hynna’n wir.

It’s interesting to note that, when there was a working group set up to look at this during the last Parliament, that working group via the minority report said, rather than objecting to the HRA, the devolved institutions in Scotland, Wales and in Northern Ireland actually embraced it. And I think we are potentially heading towards a constitutional crisis should we find a Government in Westminster intent on repealing this legislation if it cannot get the agreement of the Assembly, the Northern Irish Assembly and the Scottish Parliament. That’s even before you start talking about the relationships between southern and Northern Ireland.

Mae'n ddiddorol nodi, pan sefydlwyd gweithgor i edrych ar hyn yn ystod y Senedd ddiwethaf, fod y gweithgor hwnnw drwy'r adroddiad lleiafrifol wedi dweud, yn hytrach na gwrthwynebu'r Ddeddf, fod sefydliadau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon mewn gwirionedd yn ei chroesawu. A chredaf y gallem fod yn wynebu argyfwng cyfansoddiadol os cawn ein hun yn y sefyllfa lle mae Llywodraeth San Steffan yn benderfynol o ddiddymu’r ddeddfwriaeth hon os nad yw'n gallu cael cytundeb y Cynulliad, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd yr Alban. Mae hynny hyd yn oed cyn i chi ddechrau siarad am y berthynas rhwng de a Gogledd Iwerddon.

I want to give this Assembly an early opportunity to demonstrate to the Conservative Government in London that we value the Human Rights Act, we value human rights here in Wales and we will take every opportunity to resist their diminution and their repeal.

Rwyf am roi cyfle i'r Cynulliad hwn ddangos i'r Llywodraeth Geidwadol yn Llundain ein bod yn gwerthfawrogi'r Ddeddf Hawliau Dynol, ein bod yn gwerthfawrogi hawliau dynol yma yng Nghymru, ac y byddwn yn manteisio ar bob cyfle i wrthsefyll eu cyfyngu a'u diddymu.

18:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the two amendments to the motion. I call on Andrew R.T. Davies to move amendment 1, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Andrew R. T. Davies i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Dileu popeth a rhoi yn ei le:*

*Delete all and replace with:*

*1. Yn nodi'r ymrwymiad maniffesto a wnaed gan y Blaid Geidwadol yn ystod etholiad cyffredinol 2015 i gyflwyno Bil Hawliau Prydeinig; a*

*1. Notes the manifesto commitment made by the Conservative Party during the 2015 general election to introduce a British Bill of Rights; and*

*2. Yn cydnabod bwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno cynigion i gyflawni'r ymrwymiad hwn.*

*2. Recognises the intention of the UK Government to bring forward proposals to meet this commitment.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

18:11

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I formally move the amendment in the name of Paul Davies that is on the order paper today, which asks the Assembly to note the manifesto commitment by the Conservative party made in our manifesto put before the electorate in 2015, and endorsed by the electorate to look at this particular issue and bring forward a British bill of rights. We are the majority party in Westminster, Westminster is the sovereign Parliament and, ultimately, as a Government, we do have a right to bring forward our manifesto commitments. That is a fact.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n cynnig y gwelliant sydd ar y papur gorchymyn heddiw yn ffurfiol yn enw Paul Davies, sy'n gofyn i'r Cynulliad nodi'r ymrwymiad maniffesto gan y Blaid Geidwadol a wnaed yn ein maniffesto a roddwyd gerbron yr etholwyr yn 2015, ac a gefnogwyd gan yr etholwyr i edrych ar y mater penodol hwn a chyflwyno bil hawliau Prydeinig. Ni yw'r blaid fwyafrifol yn San Steffan, San Steffan yw'r Senedd sofran ac, yn y pen draw, fel Llywodraeth, mae gennym hawl i gyflwyno ein hymrwymiadau maniffesto. Mae hynny'n ffaith.

And it is interesting to note that since the election—almost three or four days after the election—all the other parties in this place were saying that we were going to do away with the Secretary of State for Wales's job and that there was not going to be a Wales Bill in the first Queen's Speech. All these things have actually happened, and, ultimately—

Ac mae'n ddiddorol nodi, ers yr etholiad—tri neu bedwar diwrnod bron ar ôl yr etholiad—roedd yr holl bleidiau eraill yn y lle hwn yn dweud ein bod yn mynd i ddiddymu swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac nad oedd Bil Cymru yn mynd i fod yn Araith gyntaf y Frenhines. Mae'r holl bethau hyn wedi digwydd mewn gwirionedd, ac, yn y diwedd—

18:12

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I intervene on you there?

A gaf i ymyrryd arnoch yn awr?

18:12

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, let me get going a bit more first, Alun, and then I'll gladly take your intervention; you must be on overtime this afternoon.

Wel, gadewch i mi gychwyn arni'n gyntaf Alun, ac yna byddaf yn fwy na pharod i gymryd eich ymyriad; rhaid eich bod yn gweithio goramser y prynhawn yma.

It is a fact that we are not proposing to do away with human rights whatsoever, as the mover of the motion tried to imply. I think the word she used was 'trash' our human rights. How scandalous to say such a thing. We do not believe that. We are the party that actually promotes human rights. [Interruption.] Over our history, we have a proven and very proud track record of standing up for human rights the length and breadth of this country, but also the length and breadth of the continent of Europe and the length and breadth of the world, because we stand full square in making sure that democracy is protected. But it is a fact that there is a discussion and there is a point to be made around where the sovereignty of decision making is made, and it is a belief that has been put forward by the Conservative party that it should be solely at the discretion of UK courts to determine human rights in this country. I'll take your intervention.

Mae'n ffaith nad yw'n fwriad gennym ddiddymu hawliau dynol o gwbl, fel y mae cyflwynydd y cynnig yn ceisio'i awgrymu. Credaf mai'r gair a ddefnyddiodd hi oedd 'chwalu' ein hawliau dynol. Dyna beth cywilyddus i'w ddweud. Nid ydym ni'n credu hyn. Ni yw'r blaid sydd mewn gwirionedd yn hyrwyddo hawliau dynol. [Torri ar draws.] Mae ein hanes yn dangos, ac mae gennym dystiolaeth ac rydym yn falch iawn o'r hanes sydd gennym o sefyll dros hawliau dynol ar hyd a lled y wlad hon, ond hefyd ar hyd a lled cyfandir Ewrop a hyd a lled y byd, gan ein bod yn sefyll yn gwbl gadarn o blaid diogelu democratiaeth. Ond mae'n ffaith bod trafodaeth a phwynt i'w wneud ynghylch lle mae sofraniaeth gwneud penderfyniadau yn cael ei wneud, ac mae'n gred sydd wedi'i chyflwyno gan y blaid Geidwadol y dylai hyn fod yn ôl disgresiwn llysoedd y DU yn unig i benderfynu ar hawliau dynol yn y wlad hon. Derbyniaf eich ymyriad.

18:14

## Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The crashing irony, of course, is, prior to the Human Rights Act 1998, you had to go to Strasbourg. Because of the consequences of the Human Rights Act 1998, you can now seek redress in the UK courts. But the point I was going to make to you is this: you won 36 per cent of the vote as a Conservative party across the United Kingdom—does that give you the tight to run roughshod over our democratic settlement, which has been entrenched by referendum?

Yr eironi byddarol, wrth gwrs, yw, cyn Deddf Hawliau Dynol 1998, roedd yn rhaid i chi fynd i Strasbwrg. Oherwydd canlyniadau Deddf Hawliau Dynol 1998, gallwch nawr geisio iawn yn llysoedd y DU. Ond y pwynt yr oeddwn yn mynd i'w roi i chi yw hyn: bu i chi ennill 36 y cant o'r bleidlais fel plaid Geidwadol ar draws y Deyrnas Unedig—a yw hynny'n rhoi i chi'r hawl i sarnu ein setliad democrataidd, sydd wedi cael ei hen sefydlu gan refferendwm?

18:14

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I do not accept at all that there is any intention to ride roughshod over any settlement, hence that is why, with the manifesto talks about putting proposals forward for a British Bill of rights, those discussions will be had between all the Governments and administrations that make up the democratic settlement in these islands, but actually if you look at the guidance that is given out, the UK Parliament—and I opened with these remarks—is sovereign in these decisions. And, ultimately, that is set out in the Government of Wales Act 2006 and, ultimately, that is the settlement that we have—

Nid wyf yn derbyn o gwbl bod unrhyw fwriad i sathru ar unrhyw setliad, felly dyna pam, gyda'r sgyrsiau maniffesto ynghylch cyflwyno cynigion ar gyfer Bil o hawliau Prydeinig, y bydd y trafodaethau hynny i'w cynnal rhwng yr holl Lywodraethau a gweinyddiaethau sy'n rhan o setliad democrataidd yr ynysoedd hyn, ond mewn gwirionedd os edrychwch ar y canllawiau sy'n cael eu rhoi allan, a bu i mi agor gyda'r sylwadau—Senedd y DU yw'r sofran yn y penderfyniadau hyn. Ac, yn y pen draw, mae hyn yn cael ei nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ac, yn y pen draw, dyna'r setliad sydd gennym—

18:14

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Would the Member give way?

A yw'r Aelod yn barod i ildio?

18:15

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

[Continues.]—but I would very much hope—. Yes, I'll gladly give way.

[Yn parhau.]—ond rwy'n mawr obeithio—. Gwnaf, rwy'n barod i ildio.

18:15

## Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Let's accept for the moment his proposition that the Parliament is sovereign rather than the people. Does he believe nevertheless—

Gadewch i ni dderbyn am y tro ei gynnig mai'r Senedd yw'r sofran yn hytrach na'r bobl. A yw'n credu serch hynny—

18:15

## Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The Parliament is the people.

Y Senedd yw'r bobl.

18:15 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Does he nevertheless believe that the Sewel convention means that the assent of this Assembly should be gained before any such changes are made?

Serch hynny a yw'n credu bod confensiwn Sewel yn golygu y dylai cydsyniad y Cynulliad hwn gael ei sicrhau cyn bod unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu gwneud?

Senedd.tv Fideo Video

18:15 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

What I'm saying to you is that Parliament is sovereign because Parliament are the people's representatives—

Yr hyn rwy'n ei ddweud wrthych yw mai'r Senedd sy'n sofran gan mai'r Senedd yw cynrychiolydd y bobl—

Senedd.tv Fideo Video

18:15 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Parliament has the convention.

Gan y Senedd y mae'r confensiwn.

Senedd.tv Fideo Video

18:15 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Ultimately, those discussions will be ongoing, and it will be for the Government in Westminster to actually work with all administrations and representative bodies across the United Kingdom. That is a given. We have a respect agenda, and that respect agenda has been adhered to in the last Government, 2010 to 2015, and it will be respected in the 2015 to 2020 Government. I don't know about the other parties who form the administrations in other areas—if they want to have a pitched fight over something there doesn't need to be a pitched fight over—because, at the heart of this, is the protection of people's rights. That is sacrosanct in any thinking. But ultimately, we believe that there is merit in bringing forward a British bill of rights that would enshrine many and all of the things that we hold dear within these islands. That is of critical importance, and to actually say that there has been rowing back—. The Queen's Speech contained 28 Bills. Twenty-eight Bills in the Queen's Speech. That is a massive legislative programme for a Government to bring forward. There is a recognition at the heart of Government that there is work to be done on this particular aspect of the manifesto, and that work will be undertaken, but it is the ability for our Government in Westminster to bring forward their manifesto commitments, making sure that we enshrine at its heart human rights. This is not about trashing human rights that some minority parties would wish to try and make an issue of because they think it will pay dividends at the ballot box. We've seen what the public think of your policies and, ultimately, we are the Government.

Yn y pen draw, bydd y trafodaethau hynny'n parhau, a mater i Lywodraeth San Steffan mewn gwirionedd fydd cydweithio â phob gweinyddiaeth a chorff cynrychiadol ar draws y Deyrnas Unedig. Mae hynny'n wybyddus. Mae gennym agenda o barch, ac mae'r agenda honno o barch wedi cael ei chadw gan y Llywodraeth ddiwethaf, 2010 tan 2015, a bydd yn cael ei pharchu gan Lywodraeth 2015 tan 2020. Ni wn i am y partïon eraill sy'n ffurfio'r gweinyddiaethau mewn ardaloedd eraill—os ydynt am gael brwydr dros rywbeth nad oes angen brwydro amdano—oherwydd, wrth wraidd hyn, y mae diogelu hawliau pobl. Mae hynny'n gysegredig i bob meddylfryd. Ond yn y pen draw, credwn fod rhinwedd mewn cyflwyno bil o hawliau Prydeinig a fyddai'n ymgorffori llawer a phob un o'r pethau sy'n annwyl i ni yn yr ynysoedd hyn. Mae hynny'n hollbwysig, ac mewn gwirionedd mae dweud ein bod wedi teithio tuag yn ôl—. Roedd Araith y Frenhines yn cynnwys 28 o Filiau. Roedd dau ddeg wyth o Filiau yn Araith y Frenhines. Mae hynny'n rhaglen ddeddfwriaethol enfawr i Lywodraeth ei chyflwyno. Mae cydnabyddiaeth wrth galon y Llywodraeth fod gwaith i'w wneud ar yr agwedd benodol hon o'r maniffesto, ac y bydd y gwaith hwnnw'n cael ei wneud, ond y gallu sydd gan ein Llywodraeth yn San Steffan i gyflwyno ymrwymiadau eu maniffesto, gan sicrhau ein bod yn ymgorffori hawliau dynol yn ganolog ynddo. Nid yw hyn ynglŷn â chwalu hawliau dynol fel y mae rhai pleidiau lleiafrifol am geisio codi llais amdano am eu bod yn credu y bydd yn talu ar ei ganfed yn y blwch pleidleisio. Rydym wedi gweld yr hyn y mae'r cyhoedd yn ei feddwl am eich polisïau, ac yn y pen draw, ni yw'r Llywodraeth.

Senedd.tv Fideo Video

18:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on Simon Thomas to move amendment 2, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu ei bod yn ofynnol bod unrhyw gynnig i ddiddymu, diwygio neu ddisodli Deddf Hawliau Dynol 1998 yn cael cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fynegi drwy Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.*

*Believes that any proposal to abolish, amend or replace the Human Rights Act 1998 requires the assent of the National Assembly expressed through a Legislative Consent Motion.*

*Cynigiwyd gwelliant 2.*

*Amendment 2 moved.*

Senedd.tv Fideo Video

18:17 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do move amendment 2 and I hope—I did hope—that the whole Assembly could vote for amendment 2. I'm very saddened that the leader of the Conservative Party does not want to respect the Sewel convention in the vote today and believes that, somehow, it can be ignored. Let's have a little history here. The Human Rights Act transposes into UK legislation the provisions of the European convention on human rights. The European convention on human rights originated in a speech in The Hague by Winston Churchill in 1948, when he went against Clem Attlee's socialism, actually. Clem Attlee didn't want him to make the speech. He set out that human rights could be a bulwark against Soviet aggression, as was seen at that time, and a healing mechanism for the Nazi horrors that had preceded it. The convention was then written by a Conservative lawyer, David Maxwell Fyfe, and then the UK was the first Government to sign the convention in 1951. All the Human Rights Act does is transpose that convention, which is a Conservative creation but, of course, accepted by all parties, into our British constitution. But there's a further step, which is the reason for our amendment, which is that, in turn, that Human Rights Act has been written into our Welsh constitution by being part of our legislative framework. In other words, this place cannot pass any legislation until we are convinced and have assured ourselves that it meets the requirements of the Human Rights Act. So, citizens in Wales and, as it happens, in Northern Ireland and Scotland as well, have a kind of double guarantee. They can go to the Supreme Court in the UK with a Human Rights Act legal claim, if you like, but they also have a guarantee that we will not pass laws here that will transgress their rights under the European convention, as read into the Human Rights Act.

Rwy'n cynnig gwelliant 2 ac rwy'n gobeithio—roeddwn i wedi gobeithio—y gallai'r Cynulliad cyfan bleidleisio o blaid gwelliant 2. Tristwch mawr i mi yw nad yw arweinydd y Blaid Geidwadol yn dymuno parchu'r confensiwn Sewel yn y bleidlais heddiw a'i fod yn credu, rywsut, y gellir ei anwybyddu. Gadewch i ni edrych ar ychydig o hanes yma. Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn trosi i mewn i ddeddfwriaeth y DU ddarpariaethau'r confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol. Mae'r confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol yn tarddu o araith yn yr Hag gan Winston Churchill ym 1948, pan aeth yn erbyn sosialaeth Clem Attlee, mewn gwirionedd. Nid oedd Clem Attlee am iddo wneud yr araith. Roedd yn datgan y gallai hawliau dynol fod yn amddiffynfa yn erbyn ymddygiad ymosodol Sofietaidd, fel y gwelwyd ar y pryd, ac yn fecanwaith iachaol ar gyfer yr erchyllterau Natsïaidd a ddigwyddodd cynt. Yna cafodd y confensiwn ei ysgrifennu gan gyfreithiwr y Ceidwadwyr, David Maxwell Fyfe, ac wedyn Llywodraeth y DU oedd y gyntaf i lofnodi'r confensiwn yn 1951. Y cyfan y mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ei wneud yw trosi'r confensiwn, sy'n greadigaeth Geidwadol ond, sydd wrth gwrs, wedi'i derbyn gan bob plaid, i mewn i gyfansoddiad Prydain. Ond mae cam pellach, sef y rheswm dros ein gwelliant, sef, yn ei dro, fod y Ddeddf Hawliau Dynol wedi ei hysgrifennu i mewn i'n cyfansoddiad Cymreig drwy fod yn rhan o'n fframwaith deddfwriaethol. Mewn geiriau eraill, ni all y lle hwn basio unrhyw ddeddfwriaeth hyd nes y byddwn yn argyhoeddedig ac wedi sicrhau ein hunain ei bod yn bodloni gofynion y Ddeddf Hawliau Dynol. Felly, mae gan ddinasyddion yng Nghymru ac, fel mae'n digwydd, yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, yn ogystal, ryw fath o warant ddwbl. Gallant fynd at y Goruchaf Lys yn y DU â hawliad cyfreithiol y Ddeddf Hawliau Dynol, os mynnwch, ond hefyd mae ganddynt sicrwydd na fyddwn yn pasio deddfau yma a fydd yn mynd yn groes i'w hawliau o dan y confensiwn Ewropeaidd, fel y'u darllenir i mewn i'r Ddeddf Hawliau Dynol.

Now, I don't understand, therefore, the proposal for a new British rights Bill. The reason I don't understand it is that I can't see it does anything to replace the Human Rights Act unless, of course, it's really about withdrawing from the convention, and, if it's really about withdrawing from the convention, then it's about throwing out 60 years of Conservative belief in human rights, and it is also about overthrowing 60 years of international co-operation on human rights, and it is about throwing up barriers and throwing up the drawbridges and not building bridges with other nations. I say as a Welsh nationalist that surely the transposition of English common law into the European framework must be something we should celebrate. It's our law—and I say that as a UK citizen—being written into European legislation and European constitution, separately to the European Union. But, of course, membership of the European Union can also only happen if you accept the European convention and are a member of the Council of Europe.

Nawr, nid wyf yn deall, felly, y cynnig am Fil Hawliau Prydeinig newydd. Y rheswm nad wyf yn ei ddeall yw na allaf weld ei fod yn gwneud unrhyw beth i ddisodli'r Ddeddf Hawliau Dynol oni bai, wrth gwrs, mai'r bwriad mewn gwirionedd yw tynnu yn ôl o'r confensiwn, ac, os yn wir mai tynnu'n ôl o'r confensiwn yw'r nod, yna mae ynglŷn â throi cefn ar 60 mlynedd o gred y Ceidwadwyr mewn hawliau dynol, ac mae hefyd ynglŷn â chefnu ar 60 mlynedd o gydweithrediad rhyngwladol ar hawliau dynol, ac ynglŷn â chodi rhwystrau a chau'r bont godi yn hytrach nag adeiladu pontydd rhyngom a chenhedloedd eraill. Fel cenedlaetholwr Cymreig, rwy'n dweud yn sicr y dylem weld trosi cyfraith gwlad Lloegr i mewn i'r fframwaith Ewropeaidd fel rhywbeth i'w ddathlu. Wele ein cyfraith ni—a dywedaf hynny fel dinesydd y DU—yn cael ei hysgrifennu i mewn i ddeddfwriaeth Ewropeaidd a chyfansoddiad Ewropeaidd, ar wahân i'r Undeb Ewropeaidd. Ond, wrth gwrs, mae bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd hefyd yn amodol ar dderbyn y confensiwn Ewropeaidd a bod yn aelod o Gyngor Ewrop.

So, there are several protections here for all UK citizens; why would we want to risk these protections on an ideological battle around the British Bill of Human Rights, which is not needed and which does not protect people in Wales, in particular?

Felly, mae yma nifer o ddulliau diogelu i bob dinesydd yn y DU; pam y byddem am beryglu'r dulliau hyn ar draul brwydr ideolegol ynghylch y Bil Hawliau Dynol Prydeinig, sy'n ddiangen ac nad yw'n diogelu pobl yng Nghymru, yn benodol?

Now, the central thing that we are proposing as an amendment—. Of course, we support the motion brought forward by the Liberal Democrats, but we did think it was worth putting this amendment to the Chamber as a whole, because there is some legal confusion, it should be said, about a convention. A Sewel convention is a convention. Now, we know, of course, that the Silk commission made a very strong recommendation that the Sewel convention—we call it the legislative consent motion here—should apply in Wales in the same way as in Scotland. Since then, the Smith commission in Scotland says that it should be placed on a constitutional footing, but we haven't had the same recommendation specifically made for Wales. But Silk, by saying we should be treated in the same way as Scotland, and then Smith saying that Scotland should have it as written into that constitution, suggests to me that, therefore, the assent of this Assembly is needed under constitutional convention, whether—. You know, it's the UK Parliament that wanted this convention. It is strong to advocate that this place needs its assent for the changes to the Human Rights Act, as the Northern Ireland Assembly does and as has already been acknowledged for Scotland—it has already been acknowledged for Scotland.

Nawr, y peth canolog yr ydym yn ei gynnig fel diwygiad—. Wrth gwrs, rydym yn cefnogi'r cynnig a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol, ond credwn ei fod yn werth rhoi'r diwygiad hwn gerbron y Siambr yn ei gyfanrwydd, oherwydd rhaid dweud bod rhywfaint o ddryswch cyfreithiol, ynghylch confensiwn. Mae confensiwn Sewel yn gonfensiwn. Nawr, wrth gwrs, gwyddom fod y comisiwn Silk wedi gwneud argymhelliad cryf iawn y dylai'r confensiwn Sewel—a elwir yma yn gynnig cydsyniad deddfwriaethol—fod yn gymwys yng Nghymru yn yr un modd ag yn yr Alban. Ers hynny, mae'r comisiwn Smith yn yr Alban yn dweud y dylid ei osod ar sylfaen gyfansoddiadol, ond nid yw'r un argymhelliad wedi ei wneud yn benodol ar gyfer Cymru. Ond gan fod Silk wedi dweud y dylem gael ein trin yn yr un modd â'r Alban, ac yna Smith wedi dweud y dylai'r Alban ei gael wedi ei ysgrifennu yn y cyfansoddiad, mae hyn yn awgrymu i mi, felly, fod angen cydsyniad y Cynulliad hwn o dan gonfensiwn cyfansoddiadol, p'un—. Gwyddoch mai Senedd y DU oedd o blaid y confensiwn hwn. Mae'n argymell yn gryf fod angen i'r lle hwn gael ei gydsyniad ar gyfer y newidiadau i'r Ddeddf Hawliau Dynol, fel y mae Cynulliad Gogledd Iwerddon yn ei wneud ac fel sydd eisoes wedi cael ei gydnabod ar gyfer yr Alban—mae eisoes wedi cael ei gydnabod ar gyfer yr Alban.

18:21

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

18:22

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I certainly will.

Gwnaf yn siŵr.

18:22

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You are quite right to say that there is a difference in the Scottish principle here but, under the Welsh principle, that does not run. I hope that there will be a consensus to have a discussion with the Welsh Government—I accept that—but an LCM is not an object of law; it is a political tool, it is.

Yr ydych yn llygad eich lle i ddweud bod gwahaniaeth yma o ran egwyddor yr Alban ond, o ran egwyddor Cymru, nid yw hynny'n dilyn. Gobeithio y bydd consensws i gael trafodaeth â Llywodraeth Cymru—rwy'n derbyn hynny—ond nid gwrthrych y gyfraith yw Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol; arf gwleidyddol ydyw.

18:22

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I disagree that it's a political tool; I think it is a constitutional convention. You break constitutional conventions at your peril. Dominic Grieve, your previous attorney general, who had the faith of David Cameron to be his attorney general in the previous Government, agrees with Plaid Cymru and other Members on this that this is a constitutional convention that must be observed, otherwise, there is a risk of undermining this union. Now, Plaid Cymru might want to undermine this union, but, on this issue, we want to protect human rights, we want to protect the access of Welsh citizens to human rights and to being protected in our courts, and we don't want to make Welsh citizens go to Strasbourg to argue their case. There's no need to change this particular arrangement; it does well for the people of Wales.

Rwy'n anghytuno mai arf gwleidyddol ydyw; credaf ei fod yn gonfensiwn cyfansoddiadol. Peth peryglus yw torri confensiynau cyfansoddiadol. Yn ôl Dominic Grieve, eich atwrnai cyffredinol blaenorol, y rhoddodd David Cameron ei ffydd ynddo i fod yn atwrnai cyffredinol yn ei Lywodraeth flaenorol, mae yntau'n cytuno â Phlaid Cymru ac ag Aelodau eraill fod y confensiwn hwn yn un cyfansoddiadol sy'n rhaid ei ddilyn, fel arall, mae perygl o danseilio'r undeb hwn. Nawr, efallai fod Plaid Cymru am danseilio'r undeb hwn, ond, o ran y mater hwn, rydym ni am amddiffyn hawliau dynol, rydym am amddiffyn gallu dinasyddion Cymru i ddefnyddio'u hawliau dynol ac i gael eu gwarchod yn ein llysoedd, ac nid ydym am wneud i ddinasyddion Cymru orfod mynd i Strasbwrg i ddadlau eu hachos. Does dim angen newid y trefniant penodol hwn; mae'n gwneud yn dda ar gyfer pobl Cymru.

18:23 **Peter Black** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

I wanted to start by quoting from Shami Chakrabati's new book, 'On Liberty' about the Human Rights Act, in which she says that human rights laws can protect us from premature death and wholly avoidable degradation; from modern-day slavery and unlawful detention. They guarantee fairness in the courtroom where no-one wants or expects to be, but any one of us could find ourselves one day. Human rights laws safeguard privacy, intimacy and family life. They protect a free conscience and the creativity that can flow from it. They defend free association and expression and the vital democratic action and participation in a good society that are otherwise impossible. Any modern Bill of human rights worth the ink must protect other people's children from all corners of the planet, otherwise, how can our own children really be protected? Dignity, equality and fairness and the greatest of all qualities, which is empathy.

Roeddwn am ddechrau drwy ddyfynnu o lyfr newydd Shami Chakrabati, sef 'On Liberty' ynglŷn â'r Ddeddf Hawliau Dynol, lle mae'n dweud y gall cyfreithiau hawliau dynol ein hamddiffyn rhag marwolaeth gynamserol a rhag sarhad y gellir ei osgoi'n gyfan gwbl; rhag caethwasiaeth cyfoes a charcharu anghyfreithlon. Maent yn gwarantu tegwch gerbron llys lle nad oes neb yn disgwyl nac yn dymuno bod, ond y gallai pob un ohonom orfod ei wynebu rhyw ddiwrnod. Mae cyfreithiau hawliau dynol yn diogelu preifatrwydd, cyfeillgarwch a bywyd teuluol. Maent yn diogelu rhyddid cydwybod a'r creadigrwydd a all ddeillio ohono. Maent yn amddiffyn rhyddid cyswllt a mynegiant a'r gweithrediadau a'r gyfranogaeth ddemocrataidd mewn cymdeithas dda sydd fel arall yn amhosibl. Mae'n rhaid i unrhyw Fil hawliau dynol modern gwerth ei halen amddiffyn plant pobl eraill ym mhob cwr o'r blaned, fel arall, sut y gall ein plant ein hunain gael eu diogelu mewn gwirionedd? Urddas, cydraddoldeb a thegwch a'r mwyaf o'r holl rinweddau, sef empathi.

I think that sums up exactly why we feel that the Human Rights Act needs to be protected and why the present arrangement, which is working very well and ensuring that British citizens do not have to go outside the British courts for justice, should be retained as it is. Because, as has been pointed out by previous speakers, these are British rights drafted by British lawyers. As Simon Thomas pointed out, they were forged in the aftermath of the atrocities of the second world war and fought for by Winston Churchill. They are designed to place public authorities in the UK under a strict, non-negotiable obligation to treat people with fairness, equality and dignity.

Credaf fod hyn yn crynhoi'r union reswm ein bod yn teimlo bod angen i'r Ddeddf Hawliau Dynol gael ei diogelu a pham y dylid cadw'r trefniant presennol, sy'n gweithio'n dda iawn ac yn sicrhau nad oes rhaid i ddinasyddion Prydeinig fynd y tu allan i lysoedd Prydain i gael cyfiawnder. Oherwydd, fel y nodwyd gan siaradwyr blaenorol, mae'r rhain yn hawliau Prydeinig a ddrafftiwyd gan gyfreithwyr Prydeinig. Fel y dywedodd Simon Thomas, cawsant eu saernïo yn sgîl erchyllterau'r ail ryfel byd a thrwy ymdrechion Winston Churchill. Eu hamcan yw rhoi awdurdodau cyhoeddus y DU o dan rwymedigaeth lem a diymwad y dylid trin pobl yn deg, yn gyfartal a chydag urddas.

Time and time again, they've been all that has stood in the way of injustice, most usually against the individual by an over-powerful state. Our Human Rights Act has already achieved so much. It's held the state to account for spying on us; safeguarded our soldiers and supported peaceful protest. It's helped rape victims, defended domestic violence victims and guarded against slavery. It's protected those in care, shielded press freedom and provided answers for grieving families. Our current human rights legislation has also blocked blanket interception of private messages by the state. It's protected our right to a fair trial and prevented indiscriminate police stop and search.

Dro ar ôl tro, mae'r Ddeddf wedi sefyll yn ffordd anghyfiawnder, gan amlaf yn erbyn yr unigolyn gan wladwriaeth or-bwerus. Mae ein Deddf Hawliau Dynol eisoes wedi cyflawni cymaint. Mae wedi dal y wladwriaeth i gyfrif am ysbïo arnom ni; diogelu ein milwyr a chefnogi protest heddychlon. Mae wedi helpu dioddefwyr trais rhywiol, amddiffyn dioddefwyr trais domestig a gwarchod yn erbyn caethwasiaeth. Mae wedi gwarchod pobl sy'n derbyn gofal, amddiffyn rhyddid y wasg a rhoi atebion i deuluoedd mewn galar. Mae ein deddfwriaeth hawliau dynol gyfredol hefyd wedi atal y wladwriaeth i ryng-gipio negeseuon preifat yn awtomatig. Mae wedi gwarchod ein hawl i wrandawiad teg ac atal yr heddlu i stopio a chwilio'n ddiwahân.

To walk away from the Human Rights Act and the European convention on human rights would remove, at a stroke, the moral authority we have when we engage with other countries. What sort of message would this Government be sending to brutal dictators across the world if we abandoned our human rights obligations? As Kirsty Williams pointed out earlier on, if we pulled out of the European convention on human rights, we would join Belarus, hardly a bastion of liberal democracy, as the only other European country not to sign up to it.

Byddai troi ein cefnau ar y Ddeddf Hawliau Dynol a'r confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol ar amrantiad, yn dileu'r awdurdod moesol sydd gennym pan fyddwn yn ymgysylltu â gwledydd eraill. Pa fath o neges y byddai'r Llywodraeth hon yn ei chyfleu i unbeniaid creulon ar draws y byd pe baem yn diddymu ein rhwymedigaethau hawliau dynol? Fel y dywedodd Kirsty Williams yn gynharach, os trown ein cefnau ar y confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol, byddem yn ymuno â Belarws, sydd ymhell o fod yn gadarnle democratiaeth ryddfrydol, a ni fyddai'r unig wlad arall yn Ewrop i beidio â'i fabwysiadu.

These are fundamental rights that we all have and they define how we treat our citizens and offer our citizens protection from the state. David Cameron has shown that he cares less about the rights of the British people than he does about placating his frothing-at-the-mouth anti-European backbenchers. Deputy Presiding Officer, not only are these proposals from the new Conservative Government simply pandering to xenophobia, they are illogical and they are illiterate. A spokesman for No. 10 said this week

'The prime minister's position on what needs to happen… is…breaking the link between the ECHR and here, and making the supreme court in the UK the ultimate arbiter of human rights in the UK.'

The truth is, as has been pointed out, under the Human Rights Act, courts must only take into account judgments of the European court; they are not bound by them. So, isn't the Supreme Court in the UK already the ultimate arbiter of human rights in the UK? The courts cannot bind Parliament either; they can only advise Parliament. So, even the argument that we are handing powers to the court is not correct either, because, ultimately, it is Parliament that decides what happens.

Chris Grayling's paper lists one of the main aims of the Conservatives proposed bill of rights as being to

'End the ability of the European Court of Human Rights to force the UK to change the law'

so that it becomes an advisory body only. But, the ECHR has no power to order a change in UK law at present, only to issue a declaration of incompatibility if it finds UK legislation incompatible with convention rights. It has no power to ignore the legislation and, ultimately, the UK Parliament can still override any convention-friendly interpretation by the UK courts, reflecting the sovereignty of the British Parliament. For these reasons and many others, the Conservative Government's proposals are incoherent and the argument being put forward by the leader of the opposition here is also incoherent, because the ultimate authority lies with the people, and the people's rights are protected by the European courts and the Human Rights Act, and that is protected by Parliament.

Mae'r rhain yn hawliau sylfaenol sydd gan bob un ohonom ac maent yn diffinio sut yr ydym yn trin ein dinasyddion ac yn cynnig diogelwch i'n dinasyddion rhag y wladwriaeth. Mae David Cameron wedi dangos ei fod yn poeni llai am hawliau pobl Prydain nag y mae'n ei wneud am dawelu ei feincwyr cefn gwrth-Ewropeaidd piwis. Ddirprwy Lywydd, nid yn unig ymae'r cynigion hyn gan y Llywodraeth Geidwadol newydd yn syml yn porthi senoffobia, maent yn afresymegol ac maent yn anllythrennog. Dywedodd llefarydd ar ran Rhif 10 yr wythnos hon

'The prime minister's position on what needs to happen… is…breaking the link between the ECHR and here, and making the supreme court in the UK the ultimate arbiter of human rights in the UK '

Y gwir yw, fel y nodwyd, o dan y Ddeddf Hawliau Dynol, rhaid i lysoedd ystyried dyfarniadau'r llys Ewropeaidd yn unig; nid ydynt yn cael eu rhwymo ganddynt. Felly, onid yw Goruchaf Lys y DU yn ddyfarnwr eithaf ar hawliau dynol yn y DU yn barod? Ni all y llysoedd rwymo Senedd chwaith; dim ond cynghori'r Senedd yw eu rôl. Felly, nid yw'r ddadl ein bod yn trosglwyddo pwerau i'r llys yn gywir chwaith hyd yn oed, oherwydd, yn y pen draw, y Senedd sy'n penderfynu beth sy'n digwydd.

Mae papur Chris Grayling yn rhestru un o brif amcanion bil hawliau arfaethedig y Ceidwadwyr fel rhai a all

'End the ability of the European Court of Human Rights to force the UK to change the law'

fel y daw yn gorff ymgynghorol yn unig. Ond, nid oes gan Siarter Hawliau Dynol Ewrop unrhyw rym i orchymyn newid yng nghyfraith y DU ar hyn o bryd, dim ond i gyhoeddi datganiad anghydnawsedd os yw'n canfod deddfwriaeth y DU yn anghydnaws â hawliau'r confensiwn. Nid oes ganddo unrhyw bŵer i anwybyddu'r ddeddfwriaeth ac, yn y pen draw, gall Senedd y DU barhau i ddiystyru unrhyw ddehongliad confensiwn-gyfeillgar gan lysoedd y DU, gan adlewyrchu sofraniaeth Senedd Prydain. Am y rhesymau hyn a llawer o rai eraill, mae cynigion y Llywodraeth Geidwadol yn ddigyswllt ac mae'r ddadl sy'n cael ei chynnig gan arweinydd yr wrthblaid yma hefyd yn ddigyswllt, oherwydd mae'r awdurdod yn y pen draw gyda'r bobl, ac mae hawliau pobl yn cael eu diogelu gan y llysoedd Ewropeaidd a'r Ddeddf Hawliau Dynol, ac mae'r rheiny'n cael eu gwarchod gan y Senedd.

18:28 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I feel I should start with an apology to Members for troubling the Chamber twice in successive debates, but it is my right to speak and I will exercise it. In terms of the proposals currently before the United Kingdom Parliament, I'm sure that Andrew R.T. Davies, the leader of the opposition, articulates a perfectly reasonable constitutional convention. But the United Kingdom, if it's anything, isn't the subject and isn't the creation of dry constitutional law. It's a living, breathing constitution that changes with time and changes with the consent of the people. The consent of the people is absolutely essential in this, because I do not believe that the United Kingdom Government has the right to legislate our devolution settlement out of existence if they wish to do so. I believe it's the people of Wales who have that sovereignty, because it is the people of Wales who have voted to create this place and the people of Wales who voted to sustain this place. The UK constitution is not the plaything of any single Government, no matter what rights it might claim for itself. The United Kingdom constitution is something we all own, and we all have the right to be a part of changing.

Rwy'n teimlo y dylwn i ddechrau trwy ymddiheuro i'r Aelodau am boeni'r Siambr ddwywaith mewn dadleuon olynol, ond mae gen i hawl i siarad a byddaf yn arfer yr hawl. O ran y cynigion sydd gerbron Senedd y Deyrnas Unedig, rwy'n siŵr bod Andrew R. T. Davies, arweinydd yr wrthblaid, yn mynegi confensiwn cyfansoddiadol cwbl resymol. Ond os yw'n unrhyw beth, nid yw'r Deyrnas Unedig yn destun nac yn greadigaeth cyfraith gyfansoddiadol sych. Mae'n gyfansoddiad byw sy'n anadlu ac sy'n newid gydag amser ac yn newid gyda chydsyniad y bobl. Mae caniatâd y bobl yn gwbl hanfodol i hyn, oherwydd ni chredaf fod gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yr hawl i ddeddfu ar ddifodiant ein setliad datganoli os dyna eu dymuniad. Credaf mai pobl Cymru sydd â'r sofraniaeth honno, gan mai pobl Cymru bleidleisiodd o blaid creu'r lle hwn a phobl Cymru a bleidleisiodd i gynnal y lle hwn. Nid rhyw fân degan yw cyfansoddiad y DU yn i unrhyw Lywodraeth sengl, ni waeth pa hawliau y gall eu hawlio ar gyfer ei hun. Mae cyfansoddiad y Deyrnas Unedig yn rhywbeth yr ydym i gyd yn berchen arno, ac mae gennym oll yr hawl i fod yn rhan o newid.

I understand where you are coming from in terms of the points you made, but I think there's a more fundamental sovereignty at play here, and a more fundamental issue at play, which goes beyond simply a constitutional seminar. Can we say this: this is a part of our European civilisation? The creation of the convention and the universal declaration of human rights was born of conflict, but it was also born of vision, and it is a sad reflection on today's Conservative party that it rejects the vision of Winston Churchill, and it rejects the vision of people who fought that war, and people who had experience of being in the trenches in the first world war. Remember that we don't simply remember the sacrifice of those people, we remember why they made those sacrifices, and it was to defend our liberties, our civilisation, and our freedoms.

Rwy'n deall eich safbwynt o ran y pwyntiau a wnaethoch, ond credaf fod sofraniaeth fwy sylfaenol ar waith yma, a mater mwy sylfaenol, sy'n mynd y tu hwnt i seminar cyfansoddiadol. A gawn ni ddweud hyn: mae hyn yn rhan o'n gwareiddiad Ewropeaidd? Mae'r confensiwn a'r datganiad cyffredinol o hawliau dynol wedi deillio o wrthdaro, ond mae hefyd yn deillio o weledigaeth, ac mae'n adlewyrchiad trist ar y Blaid Geidwadol heddiw ei fod yn gwrthod gweledigaeth Winston Churchill, ac mae'n gwrthod gweledigaeth pobl a fu'n ymladd y rhyfel hwnnw, a phobl a oedd â phrofiad o fod yn y ffosydd yn ystod y rhyfel byd cyntaf. Cofiwch nad dim ond cofio aberth y bobl hynny yr ydym, ond cofio pam y bu iddynt wneud yr ebyrth hynny, sef i amddiffyn ein hawliau, ein gwareiddiad, a'n rhyddid.

Now, I don't make the argument that, prior to 1998, this country of ours was some sort of lawless desert. I don't make that argument at all, but I do make the argument that the Human Rights Act has given us greater sovereignty here, and has given us greater access to rights here and elsewhere. You were wrong when you said that we would have to go to Strasbourg and the rest of it, and that Strasbourg and the European court would have particular rights here and there. In fact, prior to 1998, if you wanted to exercise your rights under this legislation, you would have to go to Strasbourg because there was no alternative. Today, we have not only, as Simon Thomas pointed out, introduced British and English legal backgrounds into European law, but we've also given people the right to exercise those rights here in the United Kingdom. That is something that is absolutely fundamental.

Nawr, nid wyf yn dadlau fod y wlad hon sydd gennym yn rhyw fath o anialwch digyfraith cyn 1998. Nid dyna fy nadl o gwbl, ond rwy'n dadlau bod y Ddeddf Hawliau Dynol wedi rhoi mwy o sofraniaeth i ni yma, ac wedi rhoi mwy o fynediad i hawliau yma ac mewn mannau eraill. Roeddech yn anghywir pan ddywedasoch y byddai'n rhaid i ni fynd i Strasbwrg ac ati, ac y byddai gan Strasbwrg a'r llys Ewropeaidd hawliau penodol yma ac acw. Yn wir, cyn 1998, os oeddech yn awyddus i ymarfer eich hawliau o dan y ddeddfwriaeth hon, byddai'n rhaid i chi fynd i Strasbwrg gan nad oedd unrhyw ddewis arall. Heddiw, fel y dywedodd Simon Thomas, nid yn unig ein bod wedi cyflwyno cefndiroedd cyfreithiol Prydeinig a Saesneg i mewn i gyfraith Ewropeaidd, ond rydym hefyd wedi rhoi'r hawl i bobl arfer yr hawliau hynny yma yn y Deyrnas Unedig. Mae hynny'n rhywbeth sy'n gwbl hanfodol.

It's of little surprise that the Conservative party is so split on where to go, and that David Cameron is unable to articulate, 10 years after he set up a group of people to look at how you would do this, how you would actually dismantle the Human Rights Act. I think it is fundamentally wrong.

Nid yw'n fawr o syndod bod y blaid Geidwadol mor rhanedig ynghylch lle i fynd, a bod David Cameron, 10 mlynedd ar ôl iddo sefydlu grŵp o bobl i edrych ar sut y byddech yn gwneud hyn, yn methu â dweud sut y byddech mewn gwirionedd yn datgymalu'r Ddeddf Hawliau Dynol. Credaf fod hyn yn sylfaenol anghywir.

In doing so, we need to go beyond the pages of some newspapers. It's an absolute tragedy that the modern Conservative party seems to be in thrall to the Rothermere press, playing a tabloid game in order to undermine our basic human rights. Do you know the basic rights that are most important? Not the rights of the strong and the powerful, but the rights of the weak and the vulnerable. The rights of people who need the protection of law and who need the protection of a legal framework that will give them redress. It's easy for the well-paid and the privileged to trade the rights of the poor and the vulnerable. Let us not go down that road. Let us stand here and say that we will do more than that. We will represent what our people want. We will not give our consent to this piece of legislation, but we will stand up for our European civilisation, and we will stand up for our European and human rights.

Wrth wneud hynny, mae angen i ni fynd y tu hwnt i dudalennau rhai o'r papurau newydd. Mae'n drasiedi pur bod y blaid Geidwadol gyfoes yn ymddangos mor gaeth i'r wasg Rothermere, yn chwarae'r gêm tabloid er mwyn tanseilio ein hawliau dynol sylfaenol. Ydych chi'n gwybod pa hawliau sylfaenol sydd bwysicaf? Nid hawliau'r cryf a'r pwerus, ond hawliau'r gwan a'r bregus. Hawliau'r bobl hynny sydd angen cyfraith i'w hamddiffyn a fframwaith cyfreithiol i'w hamddiffyn ac i unioni anghyfiawnder. Mae'n hawdd i weithwyr sy'n cael cyflog da a phobl freintiedig werthu hawliau'r tlawd a'r bregus. Gadewch inni beidio â dilyn y llwybr hwnnw. Gadewch i ni sefyll yma a dweud ein bod am wneud mwy na hynny. Awn ati i gynrychioli'r hyn mae ein pobl ei eisiau. Nid ydym am gydsynio i'r darn hwn o ddeddfwriaeth, ond safwn o blaid ein gwareiddiad Ewropeaidd, a safwn dros ein hawliau Ewropeaidd a dynol.

18:32

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Alun Davies is absolutely right. It is ironic that the new Conservative Government's proposals to scrap the Human Rights Act in order to—and I quote—

Mae Alun Davies yn llygad ei le. Mae'n eironig y byddai bwriad y Llywodraeth Geidwadol newydd i ddileu'r Ddeddf Hawliau Dynol er mwyn—ac rwy'n dyfynnu—

'Break the formal link between British courts and the European Court of Human Rights',

'Break the formal link between British courts and the European Court of Human Rights',

would actually serve to scrap the very legislation enacted to bring those rights home, to make those rights enshrined in the ECHR directly enforceable in our British courts. This means that people no longer had to take their causes to Strasbourg, as we've already heard stated around this Chamber. We understand that this reduced both time and costs for applicants, and these applicants very often were not people of means. They were vulnerable people who needed to bring their cases forward. It has indeed increased, rather than diminished, British sovereignty.

mewn gwirionedd yn fodd i gael gwared ar yr union ddeddfwriaeth a ddeddfwyd i ddod â'r hawliau hyn gartref, i wneud yr hawliau hynny a ymgorfforir yn Siarter Hawliau Dynol Ewrop yn uniongyrchol orfodadwy yn ein llysoedd Prydeinig. Mae hyn yn golygu nad oedd rhaid i bobl bellach fynd â'u hachosion i Strasbwrg, fel y clywsom eisoes yn cael ei ddweud yn y Siambr hon. Deallwn fod hyn yn llai o ran amser a chostau i geisyddion, nad oeddent yn aml iawn yn bobl gefnog. Pobl fregus oeddynt oedd angen i'w hachosion gael eu clywed. Yn wir mae wedi cynyddu, yn hytrach na chyfyngu ar sofraniaeth Brydeinig.

It's a matter of profound regret that ideologically driven politicians, frustrated at the application of the Act by the courts, rather than by the Act itself, should fuel hostility by claiming that the Human Rights Act is some foreign law, which principally benefits criminals and terrorists. Not only does this ignore the fact that these are British rights, as we've heard, drafted by British lawyers—and only years after the opening up of Belsen and Dachau and the atrocities that had been carried out that defamed humanity—they fail to understand that, time and again, it has been all that has stood in the way of injustice, most usually against the individual, by an over-powerful state.

Mae'n destun gofid dwys fod gwleidyddion ideolegol brwd, sy'n rhwystredig gyda chymhwysiad y Ddeddf gan y llysoedd, yn hytrach na chan y Ddeddf ei hun, yn ennyn gelyniaeth drwy honni bod y Ddeddf Hawliau Dynol yn rhyw gyfraith dramor, sy'n bennaf er budd troseddwyr a therfysgwyr . Nid yn unig y mae hyn yn anwybyddu'r ffaith bod y rhain yn hawliau Prydeinig, fel y clywsom, a ddrafftiwyd gan gyfreithwyr Prydeinig—dim ond ychydig flynyddoedd ar ôl agor Belsen a Dachau a'r erchyllterau a gyflawnwyd a fu'n waradwydd ar ddynoliaeth—maent yn methu â deall, dro ar ôl tro, mai dyma'r cyfan a safodd yn ffordd anghyfiawnder, gan amlaf yn erbyn yr unigolyn, gan wladwriaeth or-bwerus.

Among the cases brought as a direct result of the Human Rights Act is that of Private Cheryl James of Llangollen, whose death at Deepcut barracks left her father, Des, and her mother, Doreen, fighting for nearly 20 years to gain the justice that they believe their daughter rightly deserves. It's difficult to believe that, without the protection afforded to them by the Human Rights Act, there would've been any prospect of justice or redress in this tragic case. Or there is the case of Kolanis v. UK, 2005, where a woman was detained in hospital for over a year after the mental health review tribunal directed her conditional release, stating that she had been

Un o'r achosion a gyflwynwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r Ddeddf Hawliau Dynol yw achos Preifat Cheryl James o Langollen, y mae ei marwolaeth ym marics Deepcut wedi golygu bod ei thad, Des, a'i mam, Doreen, wedi ymladd am bron 20 mlynedd i sicrhau'r cyfiawnder y maent yn credu y mae eu merch yn ei lwyr haeddu. Mae'n anodd credu, heb y warchodaeth a gawsant yn sgîl y Ddeddf Hawliau Dynol, na fyddent wedi bod ag unrhyw obaith o gyfiawnder nac uniondeb yn yr achos trasig hwnnw. Neu achos Kolanis yn erbyn y Deyrnas Unedig, 2005, lle'r oedd gwraig wedi ei chadw yn yr ysbyty am dros flwyddyn ar ôl i'r tribiwnlys adolygu iechyd meddwl roi cyfarwyddyd i'w rhyddhau'n amodol, gan ddweud ei bod wedi bod yn

‘symptom free for…the last 8 to 12 months.’

'symptom free for…the last 8 to 12 months.'

The court found that waiting a year to have her continued detention examined by a court breached her right to liberty, and her right to have the lawfulness of that detention properly determined by a court.

Dyfarnodd y llys fod aros am flwyddyn i lys archwilio a ddylid parhau i’w chadw yn torri ar ei hawl i ryddid, a’i hawl i gael dyfarniad priodol gan lys ar gyfreithlondeb ei chaethiwed.

Or there is the case of MS v. the UK, 2008, where a man was detained by the police for four days when he urgently needed psychiatric care. He got damages, as this was an affront to his human dignity and amounted to degrading treatment, breaching his rights under articles 3 and 13. Or there are cases where human rights legislation has blocked blanket interception of private messages by the state, protecting our rights to a fair trial and preventing indiscriminate police stop and search, as we have heard.

Neu mae achos MS yn erbyn Y DU yn 2008, lle y cafodd dyn ei gadw gan yr heddlu am bedwar diwrnod pan oedd angen gofal seiciatrig brys arno. Cafodd iawndal, gan fod hyn yn sarhad ar ei urddas dynol ac yn gyfystyr â thriniaeth ddiraddiol, gan dorri ar ei hawliau o dan erthyglau 3 a 13. Neu mae achosion lle mae deddfwriaeth hawliau dynol wedi atal rhyng-gipio negeseuon preifat awtomatig gan y wladwriaeth, diogelu ein hawliau i wrandawiad teg ac atal yr heddlu rhag stopio a chwilio’n ddiwahân, fel y clywsom.

It is deeply worrying that the Conservative proposals include limiting human rights to the most serious cases. Who decides? Where do you draw the line? It is profoundly arrogant to think that politicians should decide which of our liberties are worthy of protection, and when cases are too trivial to be considered.

Mae'n wir yn destun pryder bod cynigion y Ceidwadwyr yn cynnwys cyfyngu ar hawliau dynol i'r achosion mwyaf difrifol. Pwy sy'n penderfynu? Ble rydych chi'n tynnu’r llinell? Mae'n gwbl drahaus i feddwl y dylai gwleidyddion benderfynu pa rai o'n hawliau sy’n haeddu cael eu hamddiffyn, a pha achosion fydd yn rhy ddibwys i gael eu hystyried.

There is certainly scope to promote a deeper understanding of human rights, and the UK’s obligations under the ECHR, but this must be framed within rational debate, not nationalistic hysteria. We need to improve the teaching of citizenship and the understanding of citizenship and human rights in our schools, to promote a greater understanding of their value. I’m proud that, in Government, our party ensured that human rights were added to the citizenship curriculum in England. It is crucial to ensure that young people today are informed about those rights, as well as their origins, so that they have a greater understanding of their role as citizens within a community and of the relationship between citizen and state. In Government, Liberal Democrats fought to stop the Conservatives undermining our human rights. Now we need to bring together a broad coalition across party to ensure that these profoundly flawed plans do not go forward.

Yn sicr mae lle i hyrwyddo dealltwriaeth ddyfnach o hawliau dynol, a rhwymedigaethau'r DU o dan Siarter Hawliau Dynol Ewrop, ond mae'n rhaid i hyn gael ei fframio o fewn dadl resymegol, nid hysteria cenedlaetholgar. Mae angen i ni wella’r gwaith o addysgu dinasyddiaeth a gwella dealltwriaeth o ddinasyddiaeth a hawliau dynol yn ein hysgolion, er mwyn hyrwyddo mwy o ddealltwriaeth o'u gwerth. Rwy'n falch bod ein plaid yn y Llywodraeth, wedi sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu hychwanegu at y cwricwlwm dinasyddiaeth yn Lloegr. Mae'n hanfodol sicrhau bod pobl ifanc heddiw yn wybodus am yr hawliau hynny, yn ogystal â'u tarddiad, fel bod ganddynt fwy o ddealltwriaeth o'u rôl fel dinasyddion o fewn cymuned ac o'r berthynas rhwng y dinesydd a'r wladwriaeth. Fel rhan o’r Llywodraeth, ymlafniodd y Democratiaid Rhyddfrydol i atal y Ceidwadwyr rhag tanseilio ein hawliau dynol. Nawr mae angen i ni ddod at ein gilydd yn glymblaid eang ar draws y pleidiau i sicrhau nad yw’r cynlluniau hynod ddiffygiol hyn yn mynd yn eu blaenau.

18:37 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm speaking against this motion today because I believe we need to scrap the Human Rights Act and replace it with a British bill of rights. When the European convention on human rights was written in the aftermath of the second world war, it set out the basic human rights we should respect. Great Britain has a proud record of protecting human rights at home and of standing up for those values abroad. Our clear intention is to stay in the convention and to incorporate the original human rights into our own British bill of rights and responsibilities. Our commitment to fundamental human rights has not changed. Deputy Presiding Officer, our commitment to fundamental human rights has not changed—I repeat again. What has changed is how those rights have been interpreted by the European Court of Human Rights. It is the interpretation of the charter that has led things to go wrong. The distinguished judge, Lord Hoffmann, who served as a Lord of Appeal in Ordinary from 1995, has made a number of criticisms of how the European Court of Human Rights operates. He accuses the court of not limiting itself to the strict judicial discipline of interpretation and applying convention rights. In Lord Hoffmann's words—and I quote his words now—the court,

Siaradaf yn erbyn y cynnig hwn heddiw oherwydd y credaf fod angen i ni ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol a rhoi bil hawliau Prydeinig yn ei le. Pan ysgrifennwyd y confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol yn sgîl yr ail ryfel byd, nododd hawliau dynol sylfaenol y dylem eu parchu. Mae gan Brydain Fawr hanes balch o amddiffyn hawliau dynol gartref ac o sefyll dros y gwerthoedd hynny dramor. Ein bwriad clir yw aros yn y confensiwn ac ymgorffori'r hawliau dynol gwreiddiol i mewn i'n bil Prydeinig ein hunain o hawliau a chyfrifoldebau. Nid yw ein hymrwymiad i hawliau dynol sylfaenol wedi newid. Ddirprwy Lywydd, nid yw ein hymrwymiad i hawliau dynol sylfaenol wedi newid—rwy'n ailadrodd eto. Yr hyn sydd wedi newid yw sut y mae'r hawliau hynny wedi cael eu dehongli gan Lys Hawliau Dynol Ewrop. Dehongliad y siarter sydd wedi achosi i bethau fynd o chwith. Mae'r barnwr nodedig, yr Arglwydd Hoffmann, a wasanaethodd fel Arglwydd Apêl mewn Cyffredin o 1995, wedi gwneud sawl beirniadaeth ar y modd y mae Llys Hawliau Dynol Ewrop yn gweithredu. Mae'n cyhuddo'r llys o beidio â chyfyngu ei hun i'r ddisgyblaeth lem farnwrol o ddehongli a chymhwyso hawliau confensiwn. Yng ngeiriau'r Arglwydd Hoffmann—a dyfynnaf ei eiriau yn awr—dywed fod y llys,

'has been unable to resist the temptation to aggrandise its jurisdiction and to impose uniform rules on member states.'

' has been unable to resist the temptation to aggrandise its jurisdiction and to impose uniform rules on member states. '

The European Court of Human Rights has developed the word 'mission creep', expanding human rights into new areas such as the right to privacy and the right to family life. [Laughter.] Stop. It's a serious matter. [Interruption.] I will explain now. [Interruption.]

Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi datblygu'r term ' mission creep', sy'n ehangu hawliau dynol i feysydd newydd megis yr hawl i breifatrwydd a'r hawl i fywyd teuluol. [Chwerthin.] Stopiwch. Mae'n fater difrifol. [Torri ar draws.] Egluraf yn awr. [Torri ar draws.]

18:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Please, please, Mohammad. It's important we hear both sides. I literally cannot listen—or hear, rather—the argument. [Laughter.] I don't want barracking whilst the Member proceeds.

Trefn. Os gwelwch yn dda, os gwelwch yn dda, Mohammad. Mae'n bwysig ein bod yn clywed y ddwy ochr. Yn wir ni allaf wrando—neu'n hytrach glywed—y ddadl. [Chwerthin.] Nid wyf am glywed heclo tra bo'r Aelod yn siarad.

18:40 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. This has led to decisions of a political nature being taken that directly affect the law in the United Kingdom. Many of these decisions are controversial, such as giving prisoners the right to vote and blocking the deportation. Criminals who present a risk to our security—

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae hyn wedi arwain at gymryd penderfyniadau o natur wleidyddol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gyfraith yn y Deyrnas Unedig. Mae llawer o'r penderfyniadau hyn yn ddadleuol, megis rhoi'r hawl i garcharorion bleidleisio ac atal allgludo. Mae troseddwyr sy'n peri risg i'n diogelwch—

*Peter Black a gododd—*

*Peter Black rose—*

18:40 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wait a minute. These are criminals who actually pose a danger to our security, and many infringe their right to family life.

Arhoswch funud. Mae'r rhain yn droseddwyr sydd mewn gwirionedd yn beryglus i'n diogelwch, ac mae llawer yn tramgwyddo ar eu hawl i fywyd teuluol.

18:41 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that. The prisoners you refer to haven't been deported or are not being deported because of a long-standing convention that they shouldn't be deported to countries that practise torture or the death penalty. Would you want them tortured or executed?

Diolch i chi am hynny. Nid yw'r carcharorion rydych yn cyfeirio atynt wedi cael eu hallgludo neu nid ydynt yn cael eu hallgludo oherwydd confensiwn hirsefydlog sy'n dweud na ddylent gael eu hallgludo i wledydd sy'n arteithio neu'n defnyddio'r gosb eithaf. A fyddech am iddynt gael eu harteithio neu eu dienyddio?

18:41 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Listen. Actually, we are going to improve in this country rather than—. We are not changing anything. We are using our own convention here. By making these rulings, the court is attempting to overrule decisions of our democratically elected Parliament, and overturn our own courts' careful application of human rights. Actually, we are the ones who lead human rights, not Europe. Remember this: we are the ones.

Gwrandewch. A dweud y gwir, rydym yn mynd i wella yn y wlad hon yn hytrach na—. Nid ydym yn newid unrhyw beth. Rydym yn defnyddio ein confensiwn ein hunain yma. Trwy wneud y dyfarniadau hyn, mae'r llys yn ceisio gwrthod penderfyniadau ein Senedd a etholwyd yn ddemocrataidd, ac yn gwyrdroi sut mae ein llysoedd ein hunain yn cymhwyso'n ofalus 'hawliau dynol'. A dweud y gwir, ni yw'r rhai sy'n arwain ar hawliau dynol, nid Ewrop. Cofiwch hyn: ni yw'r rhai hynny.

The actions of the ECHR, in my opinion, are in danger of undermining public confidence in human rights. We need to restore the balance between rights and responsibilities. A new British bill of rights will make clear when human rights should apply, and those rights should be balanced with responsibilities. It will stop terrorists, Deputy Presiding Officer, and other serious foreign criminals using spurious human rights arguments to prevent deportation. British courts will no longer be required to take into account ruling from the courts in Strasbourg. Our own Supreme Court will be the ultimate arbiter of human rights matters in the United Kingdom. To those who say the abolition of human rights will send the wrong signal to other countries, I would say this: you judge a country's commitment to human rights by its actions and not by the pieces of paper it signs. A British bill of rights would mean our commitment to human rights remains as strong as ever.

Mae camau gweithredu'r Siarter Hawliau Dynol Ewrop, yn fy marn i, mewn perygl o danseilio hyder y cyhoedd ym maes hawliau dynol. Mae angen i ni adfer y cydbwysedd rhwng hawliau a chyfrifoldebau. Bydd Bil Hawliau Prydain newydd yn nodi'n glir pryd y dylai hawliau dynol fod yn berthnasol, a dylai'r hawliau hynny gael eu cydbwyso â chyfrifoldebau. Bydd yn atal terfysgwyr, Ddirprwy Lywydd, a throseddwyr tramor difrifol eraill sy'n defnyddio dadleuon hawliau dynol ffug er mwyn atal cael eu hallgludo. Ni fydd yn ofynnol mwyach i lysoedd Prydain ystyried dyfarniad gan y llysoedd yn Strasbourg. Ein Goruchaf Lys ein hunain fydd yn dyfarnu yn y pen draw ynghylch materion hawliau dynol yn y Deyrnas Unedig. I'r rhai sy'n dweud y bydd diddymu hawliau dynol yn anfon yr arwydd anghywir i wledydd eraill, byddwn yn dweud hyn: wrth ei gweithredoedd rydych yn barnu ymrwymiad gwlad i hawliau dynol ac nid wrth y darnau o bapur y mae'n eu harwyddo. Byddai Bil Hawliau Prydain yn golygu bod ein hymrwymiad i hawliau dynol yn parhau mor gryf ag erioed.

In an article in 2009, the former Attorney General, Dominic Grieve, said that a bill of rights would be compatible with the ECHR. In areas where ECHR rights are absolute, such as article 3—

Mewn erthygl yn 2009, dywedodd y cyn Dwrnai Cyffredinol, Dominic Grieve, y byddai bil hawliau'n gydnaws â Siarter Hawliau Dynol Ewrop. Mewn meysydd lle mae hawliau'r Siarter Hawliau Dynol Ewrop yn absoliwt, megis erthygl 3—

18:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Conclude with this, please.

Gorffennwch gyda hyn, os gwelwch yn dda.

18:43 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—on the prohibition of torture, this protection will not be removed. I agree. A British bill of rights—

[Yn parhau.]—ar y gwaharddiad o artaith, ni fydd yr amddiffyniad hwn yn cael ei ddileu. Rwy'n cytuno. Mae Bil Hawliau Prydain—

18:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finish now.

Gorffennwch yn awr.

18:43 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—is compatible with the rights in the text of the European convention, and rooted in our values would restore common sense to human rights in this country.

[Yn parhau.]—yn gydnaws â'r hawliau yn nhestun y confensiwn Ewropeaidd, ac wedi'i wreiddio yn ein gwerthoedd a byddai'n adfer synnwyr cyffredin i hawliau dynol yn y wlad hon.

18:43 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What an interesting discussion. Who actually fought for human rights? It wasn't lawyers. It was hundreds and thousands of men and women who sacrificed their lives. They were the ones who fought for human rights. Following those dark times, these Acts were enacted. Are you really sitting here and saying we can't look at it again, that we can't look and evaluate it and see how it's working for our people in these islands? As my colleagues have said, on the way it's perceived, not just in Europe but right across the world, are you saying it's perfect? Well, I don't believe it's perfect, and I'll tell you what: the people out there don't believe it's perfect, because there has been a rumble of concern about the abuse of this legislation.

Am drafodaeth ddiddorol. Pwy mewn gwirionedd a frwydrodd dros hawliau dynol? Nid y cyfreithwyr ond y cannoedd ar filoedd o ddynion a menywod a aberthodd eu bywydau. Nhw oedd y rhai a fu'n ymladd dros hawliau dynol. Yn dilyn yr amseroedd tywyll hynny, cafodd y Deddfau hyn eu deddfu. A ydych chi mewn gwirionedd yn eistedd yma ac yn dweud na allwn edrych arni eto, na allwn edrych a'i gwerthuso a gweld sut mae'n gweithio ar gyfer pobl yr ynysoedd hyn? Fel mae fy nghydweithwyr wedi dweud, ar y ffordd y caiff ei chanfod, nid yn unig yn Ewrop ond ar draws y byd, a ydych yn dweud ei bod yn berffaith? Wel, ni chredaf i ei bod yn berffaith, a dywedaf hyn: nid yw'r bobl allan yna yn credu ei bod yn berffaith, oherwydd bu teimladau o anesmwythyd ynghylch camddefnyddio'r ddeddfwriaeth hon.

I can remember seeing one lawyer quoted as saying that this Act has become a haven, a sheltering place, now, for those who seek to abuse the human rights of others. It is time to have a look at it. That is all our Government is saying: we are brave enough to listen to that and say we're prepared to give parliamentary time to look at this Act, to see whether it does need some reformation. It was written a long time ago, and times have changed. Human rights haven't changed, but the times we live in have changed, and the threats we experience have changed, and the people out there are not entering into an academic discussion about this. When they feel their rights have been abused, that's very personal, that's very direct.

Rwy'n cofio gweld un cyfreithiwr a ddyfynnwyd yn dweud bod y Ddeddf hon wedi dod yn hafan, yn lloches, bellach, i'r rhai sy'n ceisio camddefnyddio hawliau dynol pobl eraill. Mae'n bryd i ni fwrw golwg arni. Dyna'r cyfan mae ein Llywodraeth yn ei ddweud: ein bod yn ddigon dewr i wrando ar hynny a dweud ein bod yn barod i roi amser seneddol i edrych ar y Ddeddf hon, i weld a oes angen rhywfaint o ddiwygio. Cafodd ei hysgrifennu amser maith yn ôl, ac mae'r oes wedi newid. Nid yw hawliau dynol wedi newid, ond mae'r amseroedd yr ydym yn byw ynddynt wedi newid, a'r bygythiadau sy'n ein hwynebu wedi newid, ac nid yw'r bobl allan yna yn cynnal trafodaeth academaidd am hyn. Pan fyddant yn teimlo bod eu hawliau wedi cael eu camddefnyddio, mae hynny'n bersonol iawn, mae hynny'n uniongyrchol iawn.

18:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister for Communities and Tackling Poverty, Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths.

18:45 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I do welcome the opportunity to respond to this debate on behalf of the Government. The First Minister's made very clear our position on the proposed repeal of the Human Rights Act, and that is, the Welsh Government will oppose any attempt by the UK Government to repeal the Human Rights Act. We will do all we can to ensure the rights presently enjoyed by the people of Wales are not eroded by any proposals coming from the UK Government.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu'r cyfle i ymateb i'r ddadl hon ar ran y Llywodraeth. Gwnaeth y Prif Weinidog ein safbwynt ar ddiddymiad arfaethedig y Ddeddf Hawliau Dynol yn glir iawn, hynny yw, y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu unrhyw ymgais gan Lywodraeth y DU i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau nad yw'r hawliau sy'n cael eu mwynhau ar hyn o bryd gan bobl Cymru yn cael eu herydu gan unrhyw gynigion sy'n dod gan Lywodraeth y DU.

As a Government, we have been consistent in our position on these proposals. Back in October, during a Plenary debate on the annual report on the Equality and Human Rights Commission Wales, several Members spoke of their concern over the Conservative manifesto pledge. I will repeat what I said then: the Human Rights Act is a way for the people of Wales to challenge inequality and injustice. The Act protects the basic rights of the people of Wales, and I believe the UK Government's proposal to repeal the Human Rights Act would be a step backwards for equality and human rights. It is for these reasons we oppose the Welsh Conservatives' amendment 1, and we support the original motion brought forward by the Welsh Liberal Democrats.

Fel Llywodraeth, rydym wedi bod yn gyson yn ein barn ar y cynigion hyn. Yn ôl ym mis Hydref, yn ystod dadl y Cyfarfod Llawn ar adroddiad blynyddol Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, bu nifer o Aelodau yn siarad am eu pryder ynghylch yr addewid ym maniffesto'r Ceidwadwyr. Ailadroddaf yr hyn a ddywedais ar y pryd: mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ffordd i bobl Cymru herio anghydraddoldeb ac anghyfiawnder. Mae'r Ddeddf yn diogelu hawliau sylfaenol pobl Cymru, a chredaf y byddai cynnig Llywodraeth y DU i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol yn gam yn ôl i gydraddoldeb a hawliau dynol. Dyna pam rydym yn gwrthwynebu gwelliant 1 y Ceidwadwyr Cymreig, a chefnogwn y cynnig gwreiddiol a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru.

There has been much speculation as to how the UK Government would go about repealing the Human Rights Act. As things stand, the UK Government has given no clear indication of how it would actually implement the repeal, how it would go about replacing it, or what consideration it's given to the role of devolved governance. We understand a legislative consent motion is very likely to be needed, and as a matter of principle, we would in any case expect the UK Government to seek this Assembly's agreement to any proposals, and we therefore support Plaid Cymru's amendment 2.

Bu llawer o ddyfalu ynghylch sut y byddai Llywodraeth y DU yn mynd ati i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol. Fel y mae pethau, nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi unrhyw arwydd clir ynghylch sut y byddai mewn gwirionedd yn gweithredu'r diddymiad, sut y byddai'n mynd ati i'w disodli, neu pa ystyriaeth ar roddwyd i rôl llywodraethu datganoledig. Deallwn y bydd angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol fwy na'r tebyg, ac fel mater o egwyddor, byddem beth bynnag yn disgwyl i Lywodraeth y DU geisio cytundeb y Cynulliad hwn i unrhyw gynigion, ac felly rydym yn cefnogi gwelliant 2 Plaid Cymru.

We wait to see what is put forward by the UK Government. A UK bill of rights that does not command the support of the devolved Governments and legislatures, at least in respect of devolved matters, could cause serious constitutional issues. There is little, if any, momentum within Wales for such a Bill, or against the current European convention arrangements.

Rydym yn aros i weld beth fydd Llywodraeth y DU yn ei gyflwyno. Gallai Bil Hawliau i'r DU nad yw'n ennyn cefnogaeth y Llywodraethau a'r deddfwrfeydd datganoledig, o leiaf mewn perthynas â materion sydd wedi'u datganoli, greu problemau cyfansoddiadol difrifol. Prin yw'r momentwm, os o gwbl, o fewn Cymru am Fil o'r fath, neu yn erbyn trefniadau presennol y confensiwn Ewropeaidd.

Human rights are embedded in the actions of the Welsh Government and of this Assembly. They are enshrined in the Welsh Government's founding legislation and are reflected in our guiding principles. They've been carefully woven into the Government of Wales Act 2006, and continue to influence our policies, our legislation and our decisions. I was very pleased to hear Andrew R.T. Davies say that the Conservatives are all about a respect agenda, so, like Simon Thomas, I wonder why you are not supporting amendment 2. In his intervention, the leader of the opposition said he hoped that the UK Government would consult with the Welsh Government. I would hope, and I would expect, they will not just consult with the Welsh Government, but also with the National Assembly.

Mae hawliau dynol yn cael eu hymgorffori yng ngwaith Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad hwn. Maent wedi eu hymgorffori yn neddfwriaeth sefydlu'r Llywodraeth Cymru ac yn cael eu hadlewyrchu yn ein hegwyddorion arweiniol. Maent wedi eu gweu'n ofalus i mewn i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac yn parhau i ddylanwadu ar ein polisïau, ein deddfwriaeth a'n penderfyniadau. Roeddwn yn falch iawn o glywed Andrew RT Davies yn dweud mai'r agenda parch sy'n bwysig i'r Ceidwadwyr, felly, fel Simon Thomas, yr wyf yn synnu nad ydych yn cefnogi gwelliant 2. Yn ei ymyriad, dywedodd arweinydd yr wrthblaid ei fod yn gobeithio y byddai Llywodraeth y DU yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru. Byddwn yn gobeithio, a byddwn yn disgwyl, eu bod nid yn unig yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru ond hefyd gyda'r Cynulliad Cenedlaethol.

18:48 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

18:48 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

18:48

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You've already said that you will not listen to anything, because you said that you don't accept any change at all to the current status quo, so you're the one shutting the door in the face of the hand that wants to speak to you, by the Westminster Government. What is the point of having that discussion if you're shutting the door? What's the point?

Rydych eisoes wedi dweud na fyddwch yn gwrando ar unrhyw beth, oherwydd dywedasoch nad ydych yn derbyn unrhyw newid o gwbl i'r drefn bresennol, felly chi yw'r un sy'n cau'r drws yn wyneb y llaw sy'n awyddus i siarad â chi, gan Lywodraeth San Steffan. Beth yw'r pwynt o gael y drafodaeth honno os ydych yn cau'r drws? Beth yw'r pwynt?

18:48

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I don't think the leader of the opposition heard what I said. I said I would expect it to consult with the Welsh Government, but I would also expect it to consult with the National Assembly for Wales.

Nid wyf yn meddwl bod arweinydd yr wrthblaid wedi clywed yr hyn a ddywedais. Dywedais y byddwn yn disgwyl iddynt ymgynghori â Llywodraeth Cymru, ond byddwn hefyd yn disgwyl iddynt ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

The groundbreaking Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 strengthened and built on the rights-based approach of the Welsh Government's policy making for children and young people. In 2014, the duty contained in the Measure was extended, and Welsh Ministers are now under a duty to have due regard to the requirements of children's rights in the exercising of any of their functions. Wales has led the way in the UK and Europe in developing policy for older people by establishing the strategy for older people in Wales and the world's first older people's commissioner, both of which reflect the UN principles for older persons. Our framework for action on independent living sets out how the Welsh Government is taking forward the implementation of the convention on the rights of disabled people.

Torrwyd tir newydd gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, a wnaeth gryfhau ac adeiladu ar yr ymagwedd seiliedig ar hawliau gan Lywodraeth Cymru o greu polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn 2014, cafodd y ddyletswydd sydd wedi ei chynnwys yn y Mesur ei hymestyn, ac mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru bellach i roi sylw dyledus i ofynion hawliau plant wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Mae Cymru wedi arwain y ffordd yn y DU ac Ewrop wrth ddatblygu polisi ar gyfer pobl hŷn drwy sefydlu strategaeth ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru a'r comisiynydd pobl hŷn cyntaf yn y byd, ac mae'r ddau beth yn adlewyrchu egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn. Mae ein fframwaith ar gyfer gweithredu ar fyw'n annibynnol yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen i weithredu'r Confensiwn ar hawliau pobl anabl.

Unfortunately, the Human Rights Act has recently been much maligned in some national newspapers, and cases have been hand-picked to give a one-sided and very negative representation of the Act. However, we are all aware there are many positive examples of cases where the Act has made a huge difference to the lives of people in the UK, and both Kirsty Williams and Peter Black highlighted some of those examples. I'd like to add that the Act has been used to ensure disabled people receive adequate care and accommodation. Its provisions have helped keep families together and ensure older couples are not separated when moving into care homes. It's been used when people have been unlawfully detained and to hold the police to account when they have failed victims of crime. These cases do not fit the current image currently being portrayed in the media. It appears some people have difficulty with the idea of human rights applying to everyone. If we start picking and choosing whether certain people are entitled to certain rights, like Alun Davies, I believe we will begin a journey down a very worrying path. This Welsh Labour Government is driven by values of fairness, social justice and equality. We are committed to making Wales a country where all can enjoy the same opportunities and where everyone can fulfil their potential. I believe the Human Rights Act has been, and should continue to be, a major part of this vision for Wales.

Yn anffodus, mae'r Ddeddf Hawliau Dynol wedi bod dan y lach yn ddiweddar mewn rhai papurau newydd cenedlaethol, ac mae achosion wedi cael eu dewis a'u dethol yn ofalus i roi darlun unochrog a negyddol iawn o'r Ddeddf. Fodd bynnag, rydym i gyd yn ymwybodol iawn bod llawer o enghreifftiau cadarnhaol o achosion lle mae'r Ddeddf wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau pobl yn y DU, ac amlygodd Kirsty Williams a Peter Black ill dau rai o'r enghreifftiau hynny. Hoffwn ychwanegu bod y Ddeddf wedi cael ei ddefnyddio i sicrhau bod pobl anabl yn derbyn gofal a llety digonol. Mae ei darpariaethau wedi helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd a sicrhau nad yw parau hŷn yn cael eu gwahanu wrth symud i mewn i gartrefi gofal. Mae wedi cael ei defnyddio pan fydd pobl wedi eu cadw yn anghyfreithlon ac i ddwyn yr heddlu i gyfrif pan fyddant wedi methu dioddefwyr troseddau. Nid yw'r achosion hyn yn cyd-fynd â'r ddelwedd bresennol sy'n cael ei phortreadu yn y cyfryngau. Mae'n ymddangos bod rhai pobl yn cael anhawster gyda'r syniad o hawliau dynol sy'n berthnasol i bawb. Os byddwn yn dechrau dewis a dethol a oes gan rai pobl benodol yr hawl i hawliau penodol, fel Alun Davies, credaf y byddwn yn cychwyn ar daith sy'n destun gofid mawr. Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn cael ei gyrru gan werthoedd tegwch, cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb. Rydym wedi ymrwymo i wneud Cymru yn wlad lle gall pawb fwynhau'r un cyfleoedd a lle gall pawb gyflawni eu potensial. Credaf fod y Ddeddf Hawliau Dynol wedi bod, ac y dylai barhau i fod, yn rhan bwysig o'r weledigaeth hon ar gyfer Cymru.

18:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Eluned Parrott to reply.

Eluned Parrott i ymateb.

18:51 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. You know, I can't believe it's even necessary to have this debate today, but, my word, is it necessary. Tory proposals to rip up our Human Rights Act and replace it with a British one are, frankly, incomprehensible to me. On the question of, 'Can we look at things again?', well, yes, we can, but Governments should only legislate to improve on what we already have, and you have to ask yourself the question: is there any possibility that that is what we have here? When did being British become more important in our society than being human? Isn't being human a universal condition? Isn't that universal humanity better protected as part of an international structure, designed specifically to ensure that the iniquities of world war II, those appalling breaches of people's human rights, that absolute loss of humanity that Europe suffered during that dreadful war, can never happen again? It can only never happen again if we work as international units, if we collaborate with our neighbours, with our colleagues and with people who also care about human rights, about human dignity, and about the right to human life.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Wyddoch chi, ni allaf gredu bod hyd yn oed angen i ni gael y ddadl hon heddiw, ond, ar fy ngwir, mae'n angenrheidiol. Mae cynigion y Torïaid i rwygo ein Deddf Hawliau Dynol a'i disodli ag un Brydeinig, a bod yn blwm ac yn blaen, yn annealladwy i mi. O ran y cwestiwn o, 'A gawn ni edrych ar bethau eto?', wel, gallwn yn wir, ond dylai Llywodraethau ond deddfu i wella ar yr hyn sydd gennym yn barod, ac mae'n rhaid i chi ofyn i chi'ch hun y cwestiwn: a oes unrhyw bosibilrwydd mai dyna sydd gennym yma? Pryd ddaeth bod yn Brydeinig yn fwy pwysig yn ein cymdeithas na bod yn ddynol? Onid yw bod yn ddynol yn gyflwr cyffredinol? Onid yw'r ddynoliaeth gyffredinol honno yn cael ei hamddiffyn yn well fel rhan o strwythur rhyngwladol, a gynlluniwyd yn benodol i sicrhau nad yw anghyfiawnderau'r ail ryfel byd, y tramgwyddo dychrynllyd hynny ar hawliau dynol pobl, y golled absoliwt o ddynoliaeth a ddioddefodd Ewrop yn ystod y rhyfel erchyll hwnnw, fyth yn gallu digwydd eto? Yr unig ffordd na all fyth digwydd eto yw os ydym yn gweithio fel unedau rhyngwladol, os ydym yn cydweithio â'n cymdogion, â'n cydweithwyr a chyda phobl sydd hefyd yn poeni am hawliau dynol, am urddas dynol, ac am yr hawl i fywyd dynol.

As speaker after speaker has demonstrated this afternoon, these proposals are illogical nonsense. They're a constitutional crisis in waiting and, sadly, I fear, they're a xenophobic dog whistle designed solely to appease the right wing but with the sad likely impact of undermining the rights of our most vulnerable citizens, whilst driving wedges between our communities. It is ignorant, it is divisive, it is illiberal and it is wrong. If this were a proposal of my Government, I would be burning with shame, and I think you need to reflect on why that would be.

Fel y mae siaradwr ar ôl siaradwr wedi dangos y prynhawn yma, mae'r cynigion hyn yn ffwlbri afresymegol. Maent yn argyfwng cyfansoddiadol sy'n cyniwair ac, yn anffodus, ofnaf eu bod nhw'n chwiban ci senoffobig sydd â'r nod unswydd o dawelu'r adain dde, ond gyda'r effaith debygol drist o danseilio hawliau ein dinasyddion mwyaf agored i niwed, gan greu rhaniadau rhwng ein cymunedau. Mae'n anwybodus, mae'n peri rhwyg, mae'n anrhyddfrydol ac mae'n anghywir. Pe bai hwn yn gynnig gan fy Llywodraeth, byddwn yn llosgi gyda chywilydd, a chredaf fod angen i chi ystyried pam y byddai hynny.

I’ve heard the Human Rights Act described as a haven. Yes, it is a haven. It is a haven for the weak, the vulnerable, the sick, the poor, the disabled—those people in our society who have the least voice and the least influence, and, my goodness, with this UK Government starting off on this foot, aren’t those people going to need a haven? I am proud that, in Government, my party, for whatever else we did, stopped the Tories from riding roughshod over our hard-won rights by preventing this from happening before, and I think it’s a sign of things to come that, in the very first week—actually, in the very first day—of a Conservative majority Government, the very first thing that they were doing was this blatant, aggressive and, I would say, cowardly attack on our human rights. By drawing up plans to scrap the Human Rights Act and laying the groundwork to pull us out of the European convention on human rights, I think the Tories are really revealing their true colours at last. Furthermore, in their breathtaking disregard for the devolved nations and the conventions on which this United Kingdom is held together, you are showing us the dangers to which you are prepared to expose this United Kingdom to satisfy the extremists on the right wing of your own political benches. That is why we have tabled this motion today, to send a strong message from Wales that we will not accept any attempt to repeal the fundamental protections provided by the Human Rights Act and that we believe that this is a retrograde step in the promotion and protection of human rights, which will not stand and will not go unnoticed. And this is certainly a debate that we must continue to fight. We must make sure that our voices are absolutely clear. Wales will not accept the repeal of the Human Rights Act. And, whilst the leader of the opposition may crow that he believes that he has a mandate for this—you may have a mandate in the UK as a result of the first-past-the-post electoral system, but only 37 per cent of the UK population supported your manifesto, and a hugely smaller proportion here, or, indeed, in Scotland. Neither Wales nor Scotland will accept the repeal of the Human Rights Act. We will not allow it through our conventions and you risk breaking up the United Kingdom, which you claim to wish to protect, as a result.

Rwyf wedi clywed y Ddeddf Hawliau Dynol yn cael ei disgrifio fel hafan. Ydy, mae'n hafan. Mae'n hafan ar gyfer y gwan, y bregus, y sâl, y tlawd, yr anabl—y rhai yn ein cymdeithas sydd â'r llais gwannaf a'r dylanwad lleiaf, ac, er mwyn y mawredd, gyda Llywodraeth y DU yn cychwyn i ffwrdd ar y droed yma, onid yw’r bobl hynny yn mynd i fod angen hafan? Rwy’n falch, mewn Llywodraeth, bod fy mhlaid i, beth bynnag arall a wnaethom, wedi atal y Torïaid rhag sathru’n ddidostur dros yr hawliau yr ymladdwyd mor galed i’w hennill drwy atal hyn rhag digwydd cyn hyn, a chredaf ei fod yn arwydd o bethau i ddod, bod yn yr wythnos gyntaf—yn wir, ar y diwrnod cyntaf—o Lywodraeth fwyafrifol Geidwadol, mai’r peth cyntaf yr oeddynt yn ei wneud oedd yr ymosodiad amlwg, ymosodol a, byddwn i’n ei ddweud, llwfr ar ein hawliau dynol. Drwy lunio cynlluniau i gael gwared ar y Ddeddf Hawliau Dynol a gosod y sylfeini i’n tynnu allan o'r confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol, rwy’n meddwl bod y Torïaid yn datgelu eu gwir liwiau o'r diwedd. Ar ben hynny, wrth ddiystyru’n syfrdanol y gwledydd datganoledig a'r confensiynau sy’n clymu’r Deyrnas Unedig hon ynghyd, rydych yn dangos y peryglon rydych yn barod i roi’r Deyrnas Unedig hon yn agored iddynt i fodloni'r eithafwyr ar yr adain dde ar eich meinciau gwleidyddol eich hunain. Dyna pam rydym wedi cyflwyno'r cynnig hwn heddiw, i anfon neges gref o Gymru na fyddwn yn derbyn unrhyw ymgais i ddiddymu'r amddiffyniadau sylfaenol a ddarperir gan y Ddeddf Hawliau Dynol a’n bod yn credu bod hwn yn gam yn ôl o ran hyrwyddo a diogelu hawliau dynol, ac na fyddwn yn goddef hynny ac na fydd yn mynd yn ddisylw. Ac mae hon yn sicr yn ddadl y mae'n rhaid inni barhau i’w hymladd. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod ein lleisiau yn gwbl glir. Ni fydd Cymru'n derbyn diddymiad y Ddeddf Hawliau Dynol. Ac, er y gall arweinydd yr wrthblaid rhefru ei fod yn credu bod ganddo fandad ar gyfer hyn—efallai fod gennych fandad yn y DU o ganlyniad i system etholiadol y cyntaf i’r felin, ond dim ond 37 y cant o boblogaeth y DU a gefnogodd eich maniffesto, a chyfran tipyn llai yma, neu, yn wir, yn yr Alban. Ni fydd Cymru na’r Alban yn derbyn diddymiad y Ddeddf Hawliau Dynol. Ni fyddwn yn caniatáu hynny trwy ein confensiynau ac rydych mewn perygl o ddatgymalu’r Deyrnas Unedig, yr honnwch eich bod am ei hamddiffyn, o ganlyniad.

Finally, to finish, I just want you to reflect, really, on what it is we have here and what the importance of the Human Rights Act is. I want to quote Keir Starmer who is a former director of public prosecutions and head of the Crown Prosecution Service. Now, if anybody is likely to want to strengthen our laws, it will be someone in that position. He says,

Yn olaf, i orffen, rwyf am i chi fyfyrio, mewn gwirionedd, ar yr hyn sydd gennym yma a beth yw pwysigrwydd y Ddeddf Hawliau Dynol. Rwyf am ddyfynnu Keir Starmer sy'n gyn-gyfarwyddwr erlyniadau cyhoeddus a Phennaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron. Nawr, os oes unrhyw un yn debygol o fod eisiau cryfhau ein cyfreithiau, yna rhywun yn y swydd honno fydd hwnnw. Mae'n dweud,

‘A proposal that deprives people of their rights, divides nations abroad and divides nations at home is a grossly disproportionate reaction to one or two adverse rulings from Strasbourg. It also cuts across the basic fairness, dignity and equality that all nations committed to nearly 70 years ago.’

‘Mae cynnig sy'n amddifadu pobl o'u hawliau, sy’n rhannu cenhedloedd tramor ac yn rhannu gwledydd gartref yn adwaith anghymesur iawn i un neu ddau dyfarniad anffafriol gan Strasbourg. Mae hefyd yn torri ar draws y tegwch, urddas a chydraddoldeb sylfaenol yr ymrwymodd yr holl genhedloedd iddynt bron i 70 mlynedd yn ôl.''

We committed to those principles for a reason, because we recognise that our inherent humanity trumps any nationalist fervour, and our humanity must be allowed to stand above all else.

Rydym wedi ymrwymo i’r egwyddorion hynny am reswm, oherwydd ein bod yn cydnabod bod ein dynoliaeth gynhenid yn drech nag unrhyw angerdd cenedlaetholgar, a rhaid i'n dynoliaeth gael yr hawl i sefyll yn anad dim arall.

18:56

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei wella. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

18:56

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Voting time now follows. Before I conduct the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn. Cyn i mi gynnal y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes.

18:56

## 7. Cyfnod Pleidleisio

## 7. Voting Time

Senedd.tv Fideo Video

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We will vote on the Welsh Conservatives' debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 10. There voted against 30. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Byddwn yn pleidleisio ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na fydd y cynnig yn cael ei gytuno, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 10 o blaid. Pleidleisiodd 30 yn erbyn. Felly, ni chytunwyd ar y cynnig heb ei wella.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 30, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 10, Against 30, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5773

Result of the vote on motion NDM5773

18:57

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will now vote on the amendments. I call for a vote on amendment 1 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 20. There voted against 20. As required under Standing Order 6.20, I exercise my casting vote against the amendment, which consequently falls.

Pleidleisiwn yn awr ar y gwelliannau. Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 20 o blaid. Pleidleisiodd 20 yn erbyn. Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, rwy'n arfer fy mhleidlais fwrw yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 20, Yn erbyn 20, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 20, Against 20, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5773

Result of the vote on motion amendment 1 to motion NDM5773

18:57

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 2 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 40. There were no votes against. Therefore, amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 40 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbynnir gwelliant 2.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 40, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 40, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5773

Result of the vote on motion amendment 2 to motion NDM5773

18:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 3 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 39. There were no votes against. Therefore, amendment 3 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 39 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, derbynnir gwelliant 3.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 39, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 39, Against 0, Abstain 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5773](#)

[Result of the vote on motion amendment 3 to motion NDM5773](#)

18:58

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 4 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 10. There were no votes against. There were 30 abstentions. Therefore, amendment 4 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 10 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Roedd 30 yn ymatal. Felly, derbynnir gwelliant 4.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 10, Yn erbyn 0, Ymatal 30.*

*Amendment agreed: For 10, Against 0, Abstain 30.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5773](#)

[Result of the vote on motion amendment 4 to motion NDM5773](#)

18:58

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended. Open the vote.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig wedi'i wella. Agorwch y bleidlais.

Cynnig NDM5773 fel y’i ddiwygiwyd:

Motion NDM5773 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

1. Calls on the Welsh Government to:

a) diffinio ei strategaeth i gynyddu mewnfuddsoddiad i Gymru dros y pum mlynedd nesaf;

a) define its strategy to increase inward investment to Wales over the next five years;

b) cydweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn lleoliad cystadleuol a deniadol ar gyfer mewnfuddsoddi.

b) collaborate with the UK Government to ensure that Wales remains a competitive and attractive location for inward investment.

c) datblygu cysylltiadau trawsffiniol effeithiol i gynyddu buddsoddiad o'r tu allan yn ogystal â gwella potensial allforio Cymru; a

c) develop effective cross-border links to increase inward investment as well as improving Wales's export potential; and

d) sicrhau bod gwaith holl adrannau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â gwerthu Cymru dramor yn cael ei gydlynu a sicrhau bod y neges yn gyson.

d) ensure co-ordination between all Welsh Government departments involved in selling Wales abroad and ensure that the message is consistent.

2. Yn cydnabod bod gostyngiad Llywodraeth y DU yn y dreth gorfforaeth wedi gwneud Cymru a'r DU ymhlith y mannau mwyaf deniadol i fuddsoddi ynddynt ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU er mwyn caniatáu i Lywodraeth Cymru osod cyfradd y dreth gorfforaeth yng Nghymru.

2. Recognises that the UK Government's reduction in corporation tax has made Wales and the UK one of the most attractive places to invest and calls on the Welsh Government to make representations to the UK Government to allow the Welsh Government to set the rate of corporation tax in Wales.

18:58

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Close the vote. There voted in favour 9. There voted against 20. There were 10 abstentions. Therefore, the motion as amended is not agreed.

Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 9 o blaid. Pleidleisiodd 20 yn erbyn. Roedd 10 yn ymatal. Felly, nid yw'r cynnig wedi'i wella yn cael ei gytuno.

*Gwrthodwyd cynnig NDM5773 fel y'i diwygiwyd: O blaid 9, Yn erbyn 20, Ymatal 10.*

*Motion NDM5773 as amended not agreed: For 9, Against 20, Abstain 10.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5773 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5773 as amended

18:58

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We'll now vote on the Welsh Liberal Democrats' motion. I call for a vote on the motion tabled in the name of Aled Roberts. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 24. There voted against 15. Therefore, the motion without amendment is agreed.

Byddwn yn awr yn pleidleisio ar gynnig Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Os na fydd y cynnig yn cael ei gytuno, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 24 o blaid. Pleidleisiodd 15 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig heb ei wella yn cael ei gytuno.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 24, Yn erbyn 15, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 24, Against 15, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5770

Result of the vote on motion NDM5770

18:59

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly? Quickly, if you're leaving, please.

A wnaiff yr Aelodau hynny sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel, os gwelwch yn dda? Yn gyflym, os ydych yn gadael, os gwelwch yn dda.

19:00

# 8. Dadl Fer: Môn Mam Cymru—Ychwanegu Gwerth at y Diwydiant Bwyd

# 8. Short Debate: Môn Mam Cymru—Adding Value to the Food Industry

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 8 is the short debate and I call on Rhun ap Iorwerth to speak on the topic he has chosen.

Eitem 8 yw'r ddadl fer a galwaf ar Rhun ap Iorwerth i siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddewis.

19:00

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n ddiolchgar iawn fy mod wedi cael fy newis i gyflwyno dadl fer y prynhawn yma—fy nadl fer cyntaf ers i fi gael fy ethol. Rydym yn cael y cyfle yma i ddewis pwnc i'w drafod ac, o gael y cyfle, roedd yn bwysig defnyddio'r cyfle i sôn am fater sy'n bwysig i fy etholaeth i. Ar ôl meddwl tipyn, penderfynais i bontio rhwng y gorffennol a'r presennol yn Ynys Môn, a drwy hynny edrych tuag at y dyfodol, a hynny wrth ystyried y slogan hwnnw sydd wedi cael ei gysylltu efo'r ynys ers cyn cof, sef Môn Mam Cymru. Mae'n arwyddair rydym yn falch iawn ohono fo. Rydym yn gweld ein hunain fel mam-ynys i Gymru mewn llawer o ffyrdd, wrth gwrs, ond mae'n deillio yn siŵr i chi o un o'r dyletswyddau mamol mwyaf cyntefig, sef i sicrhau bod gan y plant ddigon i'w fwyta er mwyn iddyn nhw allu tyfu a ffynnu.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I'm very grateful to have been chosen to present a short debate this afternoon—my first short debate since being elected. We're given an opportunity to put forward a subject for debate and, having been given the opportunity, it was very important for me to use that opportunity to talk about a matter that's important to my constituency. After some consideration, I decided to bridge the gap between the past and present on Anglesey, and by doing so look to the future, and doing so by considering that slogan associated with the island since time immemorial, namely 'Môn Mam Cymru'—Anglesey the Mother of Wales. It's a motto of which we're very proud. We see ourselves as a mother-island to Wales in many ways, of course, and it surely derives from one of the most primal maternal duties, which is to ensure that children have enough to eat so that they can grow and thrive.

Mae'n ynys ffrwythlon iawn, ac yn grud i amaeth ers canrifoedd lawer. Roedd dros 50 o felinau gwynt ar Ynys Môn ar un adeg—y rhai cyntaf wedi eu codi o bren yn ôl yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ond cafwyd twf mawr yn niferoedd y melinau cerrig yn ystod chwyldro amaethyddol y ddeunawfed ganrif. Pam cawsant eu codi? Wel, roedd mwy o haidd a cheirch yn cael eu tyfu yn Ynys Môn nac yn unrhyw le arall yn y wlad ac roedd angen malu'r haidd a'r ceirch i wneud blawd. Mae olion degau o'r melinau yn dal i'w gweld ledled yr ynys, rhai wedi eu troi yn gartrefi ac ati erbyn hyn, ond dim ond un o'r melinau hynny sy'n dal i weithio—Melin Llynnon ydy honno, sy'n agos iawn at fy nghalon i yn bersonol.

It's a fertile island and has been a cradle for agriculture for many centuries. There were over 50 windmills on Anglesey at one time—the first ones made of wood back in the fourteenth century, and then a huge growth in the number of stone windmills during the agricultural revolution of the eighteenth century. Why were they built? Well, more barley and oats were grown on Anglesey than anywhere else in the country and they had to be ground to produce flour. The remains of tens of those mills are still to be seen across the island, some of them have been turned into homes by now, but only one of those mills is still in use—Llynnon Mill, which is very close to my heart.

Ond os ydy'r rhan yna o hanes ein diwydiant cynhyrchu bwyd ni wedi mynd, mae ysbryd y fam-ynys fel cynhyrchydd bwyd yn dal yn fyw ac yn iach. Wrth gwrs, mae'r diwydiant amaeth yn hollbwysig o hyd, yn economaidd ac yn gymdeithasol, ac mae'n cynhyrchu peth o'r cynnyrch gorau y cewch chi yn unrhyw le. Ond, mae rhywbeth newydd wedi digwydd yn y blynyddoedd diwethaf sydd hefyd yn achosi balchder i ynys lle mae bwyd a chynnyrch yn rhan mor bwysig o'i hanes hi, ond sydd hefyd yn cynnig potensial economaidd newydd mewn rhan o Gymru sydd wir angen y fath hwb. Sôn ydw i am ddatblygiad degau o gwmnïau cynhyrchu bwyd. Mae eu cynnyrch nhw'n cynnwys pob dim o halen i gimychiaid, o hufen ia i fenyn, caws, siocled, finegr balsamic a lolipops rhew—enwch chi fo ac mae Ynys Môn yn ei gynhyrchu fo. Mae yna dros 30 o gwmnïau o'r fath erbyn hyn. Mae'r R&D, os liciwch chi, y gwaith datblygu, wedi ei wneud a hynny'n cael ei brofi yn y blas.

If that part of the history of our food production industry has gone, the spirit of the mother-island as a food producer is alive and well. Of course, the agriculture industry is vital, economically and socially, and it produces some of the best produce that you'll find anywhere. But, something new has happened in the past few years that is a sort of pride to an island where food and produce are such an important part of its history, but also offers new economic potential in a part of Wales that really needs a boost of this kind. I'm talking about the development of tens of food production companies. Their produce includes everything from salt to lobster, from ice cream to butter, cheese, chocolate, balsamic vinegar and iced lollies—you name it and Anglesey produces it. There are now over 30 companies of this kind. The R&D, if you will, the development work, has been done and proof of that is in the taste.

Cymeraf y cyfle yma i longyfarch Caws Rhyd y Delyn, sydd newydd dderbyn gwobr arian gan y British Cheese Awards, rwy'n falch o ddweud. Ond, mae'r safon yn gyson ledled yr ynys, o Felyn Môn, i Sgram a Jam, y Cwt Caws, Anglesey Apple Company, Benjamin Lee Cakes, Hooton's, Celtic Brownies, Adamson's, Condessa, Ace Lolly, Popty'r Bryn—mi wnaf eu rhestru nhw; mi wnaf gario ymlaen—Môn ar Lwy, Deri Môn, Menai Oysters and Mussels, Môn Stir Sauce, Lobster Pot, Becws Mefus, TOFFOC, Zing Dressings, Amanda Jane's Pumpkin Seed Bakery, Bonny Confectionery, a Herbs from Wales. Rwy'n meddwl eich bod yn cael y neges erbyn hyn, a hefyd rwy'n ymddiheuro, wrth gwrs, i bob cwmni arall nad wyf wedi eu henwi. Mae yna fwrlwm go iawn yn Ynys Môn.

I will take this opportunity to congratulate Caws Rhyd y Delyn, which has just received a silver award from the British Cheese Awards, I very pleased to say. But, the quality is consistent across the island, from Melyn Môn, to Sgram a Jam, the Cwt Caws, Anglesey Apple Company, Benjamin Lee Cakes, Hooton's, Celtic Brownies, Adamson's, Condessa, Ace Lolly, Popty'r Bryn—I will list them; I'l continue—Môn ar Lwy, Deri Môn, Menai Oysters and Mussels, Môn Stir Sauce, Lobster Pot, Becws Mefus, TOFFOC, Zing Dressings, Amanda Jane's Pumpkin Seed Bakery, Bonny Confectionery, and Herbs from Wales. I think that you do get the message by now, and I apologise to every other company that I haven't mentioned. There is genuine excitement on Anglesey.

Gadewch i fi gyfeirio yn ôl at y melinau gwynt oedd i'w gweld a'u hwyliau'n troi ar hyd a lled Môn mewn dyddiau a fu. Yn ôl y sôn, roeddent yn gweithio fel rhyw fath o rwydwaith: nid oedd yr un felin allan o olwg un arall, a hynny er mwyn i'r melinwyr allu gweld eu cymdogion dros y caeau yn codi eu hwyliau, gweld pwy oedd yn malu ar y pryd, a gweld yn llythrennol pa ffordd roedd y gwynt yn chwythu. Ond, mae'n amser i ni ddatblygu eto y math yna o gydweithio wnaeth Ynys Môn mor llwyddiannus fel cynhyrchydd bwyd. Mae'n digwydd yn barod, wrth gwrs. Nid oes ond eisiau i chi weld sut mae'r cynhyrchwyr yn dod at ei gilydd i rannu syniadau, drwy'r grŵp Gorau Môn, i werthu ar y cyd drwy'r marchnadoedd ffermwyr, i gyd-farchnata efo'i gilydd drwy'r gwyliau bwyd sydd wedi datblygu yn y blynyddoedd diwethaf, a sut mae bwytai rhagorol Môn yn sicrhau bod cynnyrch lleol ar eu bwydlenni nhw yn gyson.

Let me refer again to the windmills that were once to be seen with their sails turning across Anglesey in days gone by. Apparently, they worked as a kind of network, and not one mill was out of the sight of another, so that the millers could see their neighbours over the fields raising their sails, see who was milling at the time, and see literally in which direction the wind was blowing. But, it's time for us to develop again this kind of collaboration that made Anglesey so successful as a food producer. It's happening already, of course. You only need to look at how the producers are coming together to share ideas, through the Best of Anglesey group, to sell on a joint basis through farmers' markets, to co-market en bloc through the food festivals that have developed over the past few years, and how Anglesey's excellent restaurants ensure that local produce is on their menus regularly.

Ond, rwy’n meddwl bod cyfle i fynd ymhellach eto. Mae yna eithriadau wrth gwrs, ac Halen Môn, am wn i, yw’r mwyaf amlwg o’r rheini—a’r rheini newydd symud i mewn i gartref pwrpasol ar lan y Fenai—ond, ar y cyfan, cwmnïau bach iawn ydy llawer o gwmnïau cynhyrchu bwyd Ynys Môn. Cwmnïau teuluol ydynt yn aml—gŵr a gwraig, efallai, neu mam a merch—neu gwmnïau sy’n cyflogi un neu ddau, neu’n cynnig cyflogaeth ran amser yn unig. Ond, rwy’n meddwl bod cyfle i weld a allwn ni helpu rhai o’r cwmnïau yma i dyfu—tyfu er eu mwyn eu hunain, ond hefyd, yn allweddol, i dyfu mewn ffordd sy’n creu bwrlwm economaidd newydd yn y sector yma ar yr ynys. Fel y melinwyr yn edrych tuag at eu cymdogion am arweiniad ers talwm, rwy’n rhagweld y gallwn greu momentwm—caseg eira—a allai dyfu dros amser, efo un cwmni yn dysgu oddi wrth y nesaf ac yn magu hyder oddi wrth y nesaf.

But, I do think that there is an opportunity to go further still. There are exceptions, of course, and Halen Môn, to my mind, is the most prominent of those—the company has just moved into purpose-built accommodation on the banks of the Menai—but, on the whole, Anglesey food production companies are very small. They are often family companies—a husband-and-wife team, perhaps, or a mother and daughter—or companies employing one or two staff, or offering only part-time employment. However, I think that there is an opportunity to look at whether we can help some of these companies to grow—to grow for themselves and, crucially, to grow in a way that creates economic vitality in this sector on the island. Just like the millers looking to their neighbours for leadership in bygone days, I anticipate that we could create momentum—a snowball effect—that would grow over time, with one company learning from the next and engendering confidence as a result.

Felly, beth yw’r syniad sydd gennyf? Yn ystod ymgyrch fy etholiad nôl yn 2013, mi fues i’n siarad efo un cynhyrchydd bwyd oedd â syniad i ddatblygu cynnyrch newydd. Y broblem oedd ei fod yn methu â gwneud hynny yn Ynys Môn am nad oedd unlle iddo fynd yn Ynys Môn i gynhyrchu'r cynnyrch newydd. Nid oedd unlle ym Môn Mam Cymru, meddai fo, oedd ar gael i’w rentu a oedd o’r safon sy’n angenrheidiol er mwyn cynhyrchu bwyd—dim un lle parhaol, hynny yw.

So, what is my idea? During my election campaign back in 2013, I spoke to one producer who had the idea of developing new products. The problem was that he couldn’t do this in Anglesey because there was nowhere for him to go to actually produce those new products. There was nowhere in Môn Mam Cymru, according to him, that was available for rent and of the necessary standard for food production—nowhere permanent, that is.

Mae’r ganolfan technoleg bwyd yng Ngholeg Menai yn Llangefni wedi bod yn llwyddiant mawr ers ei hagor yn 1999. Ei nod, yn ôl ei gwefan, ydy helpu busnesau bwyd i ddatblygu gallu prosesu a chynhyrchu bwyd, a thrwy hynny, i ddatblygu enw da Cymru am gynhyrchu bwyd a diod arloesol ac o’r ansawdd uchaf. Mae ystafelloedd prosesu yno ar gyfer gwahanol fwydydd—labordai, ceginau ac ati. Mae wedi bod yn amhrisiadwy, a dweud y gwir, i lawer sydd wedi bod eisiau dechrau yn y diwydiant yma. Ond, beth sy’n digwydd wedyn pan fydd angen symud at gynhyrchu llawn amser? Wel, dyna fyddai’r parc bwyd newydd rwy’n dymuno’i weld yn ei gynnig: parc busnes yn barod i gynnig cartref i gwmnïau o Fôn sy’n barod i symud i’r cam nesaf yn eu datblygiad, neu i gwmnïau o’r tu allan sydd am gael eu cysylltu efo’r chwyldro bwyd sy’n digwydd ar yr ynys. Mi fyddai’n lle i entrepreneuriaid rannu syniadau ac uchelgeisiau, i rwydweithio a chydweithio, lle i droi cynnyrch blasus—rydym yn gwybod bod hynny yno—yn llwyddiant masnachol ac yn gyfle am swyddi newydd. Lle i greu cyfoeth. Mi fyddai’r cwmnïau’n gallu cael gafael ar gyngor busnes yno, efo mewnbwn parhaol, rwy’n gobeithio, gan asiantaethau datblygu busnes y Llywodraeth. Mi fyddent yn gallu cydweithio efo’r ganolfan dechnoleg bwyd ac yn gallu manteisio ar arbenigedd allanol ar farchnata a chyllid, gobeithio. Rwy’n ddiolchgar i Brifysgol Bangor am fod yn barod i drafod sut y gallai chwarae rhan o bosib. Mi allai fod yn ffenestr siop hefyd, yn agored i’r cyhoedd; yn siop a lle bwyta i flasu cynnyrch yr ynys. Rwy’n hyderus y gallai fod yn ysbrydoliaeth i eraill.

The food technology centre at Coleg Menai in Llangefni has been a great success since it opened in 1999. Its aim, according to its website, is to help food businesses to develop food processing and production capacity and, in doing so, to develop Wales’s reputation as a producer of food and drink that is innovative and of the highest quality. There are processing facilities there for different foods—laboratories, kitchens and so on. It has been invaluable, truth be told, to many who have sought to make a start in the industry. However, what happens when there is a need for full-time production? Well, that is what the new food park that I wish to see would offer: a business park ready to offer a home to Anglesey companies that are ready to take the next step in their development, or to companies from outside that wish to be connected with the food revolution taking place on the island. It would be a place for entrepreneurs to share ideas and ambitions, to network and collaborate, and a place to turn delicious produce—we know that that is there—into a commercial success and new employment opportunities. It would be a place to generate wealth. The companies would be able to access business advice, with the permanent input, hopefully, of the Government’s business development agencies. They could collaborate with the food technology centre and take advantage of external expertise in marketing and finance, I would hope. I am grateful to Bangor University for its willingness to discuss how it can play a potential role. It would also be a shop window, open to the public; a shop and a restaurant offering a taste of the island’s produce. I am also confident that it could be an inspiration to others.

Felly, a oes archwaeth am hyn? Wel, oes, rwy'n meddwl. Rwyf wedi amlinellu'r cynlluniau i gynrychiolwyr o ddiwydiant bwyd Ynys Môn, drwy'r grŵp Gorau Môn, ac roeddwn yn hynod falch, mae'n rhaid dweud, efo'r ymateb a'r cyffro a oedd yno, a'r ffaith bod nifer o gynhyrchwyr wedi dweud yn barod y byddent yn awyddus iawn i gymryd rhan. Dywedodd Alison Lea-Wilson, un o sylfaenwyr Halen Môn, wrthyf:

So, is there an appetite for this? Well, yes, I think that there is. I have outlined the scheme to representatives of the Anglesey food industry, through the Best of Anglesey group, and I was very pleased, I have to say, with the response and the excitement shown, and with the fact that many producers have already said that they'd be very eager to take part. As Alison Lea-Wilson, one of the founders of Halen Môn, told me:

'There are massive factories on Anglesey like 2 Sisters Food Group and Glanbia and then there are micro producers who make and sell their food and drink in local markets and occasionally in local shops and restaurants. These are the ones that need most help to grow. They need confidence to invest in their businesses, time and space to think about each stage of their development, help with marketing, branding, scaling up, accreditation, employing staff, packaging, and premises that are between their own kitchens and Coleg Menai food tech centre and a full-blown factory.'

'Mae ffatrïoedd enfawr ar Ynys Môn fel 2 Sisters Food Group a Glanbia ac yna mae micro gynhyrchwyr sy'n gwneud ac yn gwerthu eu bwyd a'u diod mewn marchnadoedd lleol ac o dro i dro mewn siopau a bwytai lleol. Dyma'r rhai sydd angen y cymorth mwyaf i dyfu. Mae arnynt angen hyder i fuddsoddi yn eu busnesau, amser a lle i feddwl am bob cam o'u datblygiad, cymorth gyda'u marchnata, brandio, ehangu, achredu, cyflogi staff, pecynnu a safle sydd rhwng eu ceginau eu hunain a chanolfan technoleg bwyd Coleg Menai a ffatri maint llawn.'

Yn ogystal â'r cynhyrchwyr bwyd eu hunain, rwyf wedi cael adborth cadarnhaol gan bartneriaid posibl, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, Menter Môn, Prifysgol Bangor, fel y dywedais i, a hefyd parth menter Ynys Môn. Pa ddiddordeb a allai fod ganddyn nhw, meddech chi? Ynni, onid e, ydy thema parth menter Môn. Wel, dau beth a ddywedaf i am hynny. Yn gyntaf, pa brosiectau ynni bynnag a ddaw yn y blynyddoedd nesaf, mi fydd yna bobl y bydd angen eu bwydo. Mae'n rhaid i ddatblygiadau ynni gyffwrdd pob rhan o economi'r ynys, ac mae'r sector bwyd yn gorfod bod yn un o'r rheini. Rwy'n meddwl y dylem ni ystyried bwyd fel rhan bwysig o'r gadwyn gyflenwi, ac mi allai parc bwyd chwarae rhan yn hynny.

In addition to the food producers themselves, I have received positive feedback from potential partners, including the Isle of Anglesey County Council, Menter Môn, and Bangor University, as I said, as well as from Anglesey enterprise zone. What interest might it have, I hear you ask? Energy, is it not, is the focus of the Anglesey enterprise zone? Well, there are two things that I'd say about that. First, whatever energy projects emerge in the coming years, there will be people who need to be fed. Energy development must touch all parts of the island's economy, and the food sector must be one of those parts. I believe that we should consider food as an important part of the supply chain, and a food park could play a part in that.

Ond yn ail—ac mi ddywedaf i hyn—mae yna berygl i Fôn o organolbwyntio ar y sector ynni. Mae'n rhaid inni gofio am ein diwydiannau pwysig eraill, am hybu twf mewn sectorau eraill. Mae'n bwysig cofio hefyd am yr Ynys Môn naturiol, yr Ynys Môn wledig, a chofio am wyneb cyhoeddus Môn, os liciwch chi, a'r pethau hynny sy'n denu twristiaid, ac mae bwyd yn dod yn fwy a mwy yn rhan o hynny.

Secondly—and I will say this—there is a risk to Anglesey from placing too heavy a focus on the energy sector. We have to remember our other important industries and to promote growth in other sectors. It is also important to remember the natural Anglesey, the rural Anglesey, and to remember the public face of Anglesey, if you will, and those aspects that attract tourists, of which food and drink are becoming increasingly a part.

Mi fuasai'r parc yn ddiwydiant rownd y flwyddyn hefyd, wrth gwrs. Mi ddyfynnaf i o lythyr a dderbyniais i rai dyddiau yn ôl gan David Evans, un o berchnogion bwyty Dylan's ym Mhorthaethwy:

The park would also be a year-round industry, of course. I will quote a letter that I received a few days ago from David Evans, one of the owners of Dylan's restaurant in Porthaethwy:

'It's important to develop a year round economy in north Wales—our restaurant business is fully committed to staying open 12 months of the year and working year-round with all the wonderful local suppliers— fishermen, farmers and producers that surround us. Making the Island and North Wales coastline a food destination and an attractive proposition even in December and the cold months is imperative to the long term sustainable future of tourism in the region.'

'Mae'n bwysig datblygu economi gydol y flwyddyn yng ngogledd Cymru—mae ein busnes bwyty wedi ymrwymo'n llwyr i aros ar agor 12 mis y flwyddyn a drwy gydol y flwyddyn rydym yn gweithio gyda'r holl gyflenwyr lleol gwych—y pysgotwyr, ffermwyr a'r cynhyrchwyr lleol sydd o'n cwmpas. Gwneud arfordir yr Ynys a Gogledd Cymru yn gyrchfan bwyd ac yn atyniad deniadol, hyd yn oed ym mis Rhagfyr, ac mae'r misoedd oer yn hanfodol i ddyfodol cynaliadwy hirdymor twristiaeth yn y rhanbarth.'

Mi fuasai'r parc bwyd yn cynnig bwrlwm economaidd i'r diwydiant bwyd 12 mis y flwyddyn, ac yn symbol 12 mis y flwyddyn o Ynys Môn fel Mam Cymru.

The food park would inject an economic vitality into the food industry 12 months of the year, and would be a symbol 12 months of the year of Anglesey the Mother of Wales.

Wrth i fi dynnu at y terfyn, a chyn gwrando ar ymateb y Dirprwy Weinidog, a gaf i ddiolch am yr ymateb a dderbyniais i ychydig ddyddiau yn ôl i lythyr anfonais i at Weinidog yr economi yn amlinellu'r syniad yma? A hithau wedi awgrymu ar lafar o'r blaen wrthyf i ei bod yn cytuno, mewn egwyddor, efo'r potensial yma, mi ddywedodd ei bod yn fodlon cynnig cymorth swyddogion yn ei hadran i helpu i ddatblygu'r syniad, ac rwy'n ddiolchgar tu hwnt am y cydweithrediad cynnar yna gan Lywodraeth Cymru.

As I draw to a close, and before listening to the Deputy Minister's response, may I express my gratitude for the response that I received to a letter that I sent to the Minister for the economy outlining this idea? She has suggested previously, orally, that she agrees in principle that there is potential here, and she offered the support of officials in her department to help to develop the idea, and I'm very grateful for that early co-operation by the Welsh Government.

Egin a dim arall ydy'r syniad ar hyn o bryd, ond rwyf yn hyderus y gallai fo fod yn llwyddiant go iawn: parc busnes bwyd yn caniatáu cwmnïau lleol i ffynnu, canolfan i fwyta a phrynu cynnyrch lleol ynddi, yn galluogi pobl i fwynhau'r gorau sydd gan yr ynys i'w gynnig. Mae yna lawer o rwystrau yn y ffordd—rwy'n eithaf siŵr o hynny. Efallai y gwnân nhw brofi'n rhy uchel i'w goresgyn, ond mae hyn yn werth yr ymdrech i ychwanegu gwerth at Fôn Mam Cymru.

The idea is only an embryonic one at present, but I am confident that this could be a genuine success: a food business park that would allow local companies to thrive, as well as a centre to taste and buy local produce, enabling people to enjoy the best that the island has to offer. There will be many barriers in our way—I'm quite sure of that. Perhaps they will prove too difficult to overcome, but this is worth the effort to add value to 'Môn Mam Cymru'.

19:12

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call the Deputy Minister for Farming and Food to reply—Rebecca Evans.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i ateb—Rebecca Evans.

19:12

## Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

Diolch yn fawr iawn am drafodaeth ddiddorol am gadwyn gyflenwi bwyd ar Ynys Môn. Byddaf i'n gwneud datganiad llafar mewn wythnos neu ddwy am yr hyn sydd wedi'i wneud yn y flwyddyn gyntaf ers lansio 'Towards Sustainable Growth', ein cynllun gweithredu ar gyfer y diwydiant bwyd a diod. Mae'r cynllun yn nodi 48 o gamau gweithredu o dan bum thema blaenoriaeth i helpu'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru i dyfu'n gynaliadwy.

Thank you very much for a useful and interesting debate on the food supply chain on Ynys Môn. I will be making an oral statement in the coming weeks that will provide an update on what we've achieved in the first year since we launched 'Towards Sustainable Growth', our action plan for the food and drinks industry. The plan identifies 48 actions across five priority themes to deliver sustainable growth in the food and drinks industry in Wales.

We are a pro-business Government, working closely with companies to create jobs and growth in every part of Wales. We have established an ambitious and challenging target of achieving 30 per cent growth in sales by 2020, to the value of £7 billion. Encouragingly, in 2012-13 alone, the growth rate was 10 per cent, proving that this is a vibrant and thriving sector. Businesses are growing, increasing product sales and developing new markets in the food and drink sector. GVA per head is growing faster in Wales than many other parts of the UK, including London, demonstrating that the private sector has confidence here.

Rydym yn Llywodraeth sydd o blaid busnes, yn gweithio'n agos gyda chwmnïau i greu swyddi a thwf ym mhob rhan o Gymru. Rydym wedi sefydlu targed uchelgeisiol a heriol o sicrhau twf 30 y cant mewn gwerthiant erbyn 2020, hyd at werth £7 biliwn. Yn galonogol, yn 2012-13 yn unig, 10 y cant oedd y gyfradd twf, sy'n profi bod hwn yn sector bywiog a ffyniannus. Mae busnesau yn tyfu, mae gwerthiant cynnyrch ar i fyny ac mae marchnadoedd newydd yn cael eu datblygu yn y sector bwyd a diod. Mae GYC y pen yn tyfu'n gynt yng Nghymru nag mewn sawl rhan arall o'r DU, gan gynnwys Llundain, gan ddangos bod gan y sector preifat hyder yma.

The action plan recognises the importance of the local supply chain, encompassing local retail, hospitality and tourism in terms of the opportunities and the potential for growth. Anglesey has a wide range of highly innovative food and drink producers who are making their mark internationally, with many globally recognised brands renowned for their high quality. Halen Môn achieved European protected food name status last year, becoming the first Welsh protected designation of origin. Achieving this recognition is a guarantee that it is an authentic food that has quality and real provenance, set in a historical context. Welsh Government provided support throughout the application process and we continue to provide this help to other food businesses looking to protect their products. Halen Môn is a company that recognises that EU membership gives our industry access to a potential market of 500 million consumers and, with its PDO status, Halen Môn is quickly becoming a champion food across Europe and beyond.

Mae'r cynllun gweithredu yn cydnabod pwysigrwydd y gadwyn gyflenwi leol, sy'n cwmpasu manwerthu lleol, lletygarwch a thwristiaeth o ran y cyfleoedd a'r potensial ar gyfer twf. Mae gan Ynys Môn ystod eang o gynhyrchwyr bwyd a diod hynod arloesol sy'n gwneud eu marc yn rhyngwladol, gyda nifer o frandiau cydnabyddedig yn fyd-eang enwog am eu safon uchel. Sicrhaodd Halen Môn statws enw bwyd gwarchodedig Ewropeaidd y llynedd, a dyma'r enw tarddiad gwarchodedig cyntaf yng Nghymru. Mae cyflawni'r gydnabyddiaeth hon yn warant ei fod yn fwyd dilys sydd â tharddiad ac ansawdd go iawn, a'i fod wedi'i osod mewn cyd-destun hanesyddol. Darparodd Llywodraeth Cymru gymorth drwy gydol y broses ymgeisio ac rydym yn parhau i ddarparu'r cymorth hwn i fusnesau bwyd eraill sy'n awyddus i warchod eu cynnyrch. Mae Halen Môn yn gwmni sy'n cydnabod bod aelodaeth o'r UE yn rhoi i'n diwydiant fynediad i farchnad bosibl o 500 miliwn o ddefnyddwyr a, gyda'i statws PDO, mae Halen Môn yn prysur ddod yn bencampwr bwyd ledled Ewrop a thu hwnt.

I am also pleased that Halen Môn's Alison Lea-Wilson sits on our food and drink Wales industry board, bringing her expertise and knowledge of growing an extremely successful business, both at home and in the global export market, to help develop the Welsh food industry more widely.

Rwyf hefyd yn falch bod Alison Lea-Wilson o Halen Môn yn eistedd ar ein bwrdd diwydiant bwyd a diod Cymru, gan ddod â'i harbenigedd a'i gwybodaeth o ddatblygu busnes hynod lwyddiannus, gartref ac yn y farchnad allforio fyd-eang, er mwyn helpu i ddatblygu diwydiant bwyd Cymru yn ehangach.

The board is the voice of the industry in Wales, providing direction on delivery of the action plan and on industry priorities. New members will be appointed to the board shortly to expand its expertise and its representation.

Y bwrdd yw llais y diwydiant yng Nghymru ac mae'n darparu cyfeiriad ar gyflawni'r cynllun gweithredu ac ar flaenoriaethau'r diwydiant. Bydd aelodau newydd yn cael eu penodi i'r bwrdd yn fuan i ehangu ei arbenigedd a'i gynrychiolaeth.

Rwyf i newydd fod yn Expo Bwyd Môr Brwsel—ffair bwyd môr fwyaf y byd. Daeth wyth cwmni gyda ni o dan faner bwyd a diod Cymru. Roedd y mwyafrif o Ynys Môn—arwydd pendant mai gwir yw'r geiriau Môn yw Mam Cymru. Dylai fod yn falch iawn o'i threftadaeth yn hynny o beth.

I recently visited the Brussels Seafood Expo—the world's largest seafood event. We took eight companies with us under the 'bwyd a diod Cymru' banner. The majority were from Anglesey—a sure sign of the truth of the words 'Môn Mam Cymru'--that Anglesey is the mother of Wales. It should be rightly proud of its heritage.

Yn y sioe, ces i gyfle i longyfarch yn bersonol Anglesey Aquaculture, sydd newydd ennill y contract i gyflenwi'r holl ddraenogiaid môr ffres sy'n cael eu gwerthu ar gownteri pysgod siopau Waitrose trwy Brydain.

At the event, I was able to personally congratulate Anglesey Aquaculture, which has recently secured the contract to be the sole supplier of fresh sea bass sold on fishmonger counters in Waitrose supermarkets across Britain.

They were also awarded the highest level for sustainably produced fish by the Marine Conservation Society. Our seafood industry is the result of our people continuing to make a living out of the sustainable use of our marine resources, and Anglesey produces some of the most sustainable and successful businesses in the world.

Dyfarnwyd iddynt hefyd y lefel uchaf ar gyfer pysgod a gynhyrchir yn gynaliadwy gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol. Ffrwyth pobl yn parhau i wneud bywoliaeth allan o'r defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau morol – dyna yw ein diwydiant bwyd môr - ac mae Ynys Môn yn cynhyrchu rhai o'r busnesau mwyaf cynaliadwy a llwyddiannus yn y byd.

The island is also home to the food technology centre, to which you referred—a world-class facility that, in the last year alone, has provided support to 27 food companies based in Anglesey. They have a dedicated resource that enables food businesses to access technical support, practical solutions and advice and guidance on areas that are essential to business growth. Having this facility so close can only be an advantage to these Anglesey companies.

Mae'r ynys hefyd yn gartref i'r ganolfan technoleg bwyd, y cyfeiriasoch ati—cyfleuster o'r radd flaenaf sydd, yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig, wedi darparu cymorth i 27 o gwmnïau bwyd sydd wedi'u lleoli ar Ynys Môn. Mae ganddynt adnodd penodedig sy'n galluogi busnesau bwyd i gael cymorth technegol, atebion ymarferol a chyngor ac arweiniad ar feysydd sy'n hanfodol i dwf busnes. Ni all cael y cyfleuster hwn mor agos ond bod yn fantais i'r cwmnïau hyn ar Ynys Môn.

The concept of a food park in Anglesey has been discussed here today and I know that the idea has attracted quite some considerable interest locally. I also know that the Minister for Economy, Science and Transport has agreed to her officials providing assistance in considering the feasibility of the proposal, including looking at links with the enterprise zone and other sectors on the island, as well as issues with the availability of suitable premises. I am sure that my food division officials would be happy to contribute, where possible, as well.

Mae'r cysyniad o barc bwyd yn Ynys Môn wedi ei drafod yma heddiw a gwn fod y syniad wedi denu cryn ddiddordeb yn lleol. Rwyf hefyd yn gwybod bod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi cytuno i'w swyddogion ddarparu cymorth i ystyried dichonoldeb y cynnig, gan gynnwys edrych ar gysylltiadau â'r ardal fenter a sectorau eraill ar yr ynys, yn ogystal â materion ynghylch argaeledd adeiladau addas. Rwy'n siŵr y byddai fy swyddogion yn yr isadran fwyd yn hapus i gyfrannu, lle y bo'n bosibl, hefyd.

As a Government, we have supported a number of food companies from Anglesey to develop and grow through a range of support programmes: five separate mentoring programmes have benefitted six different food companies, providing them with the skills that they need to grow and prosper. We have also supported seven companies to attend a range of UK and international exhibitions aimed at specific markets.

Fel Llywodraeth, rydym wedi cefnogi nifer o gwmnïau bwyd o Ynys Môn i ddatblygu a thyfu drwy ystod o raglenni cymorth: mae pum rhaglen fentora ar wahân wedi bod o fudd i chwe chwmni bwyd gwahanol, gan roi iddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt i dyfu a ffynnu. Rydym hefyd wedi cefnogi saith cwmni i fynychu amrywiaeth o arddangosfeydd rhyngwladol wedi'u hanelu at farchnadoedd penodol y DU a rhyngwladol.

The 'bwyd a diod Cymru' pavilion is a vital tool to exhibit and showcase the variety and quality of food and drink producers from Wales on a global platform. This enables them to develop new business contacts, enhance their profile and maximise their potential market sales.

Mae pafiliwn 'bwyd a diod Cymru' yn arf hanfodol i arddangos a brolio ansawdd ac amrywiaeth cynhyrchwyr bwyd a diod o Gymru ar lwyfan byd-eang. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu cysylltiadau busnes newydd, gwella eu proffil a gwneud y gorau o'u gwerthiant marchnad posibl.

We are currently working with the industry on defining the detail and credentials that underpin the 'bwyd a diod Cymru' identity and are working on developing the narrative that tells the story of Welsh food and drink. The new food and drink Wales website was also recently launched and it will improve our communications throughout the industry, reporting on business support, trade success, new opportunities and policy development.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda'r diwydiant ar ddiffinio'r manylion a'r hanfodion sy'n sail i hunaniaeth 'bwyd a diod Cymru' ac maent yn gweithio ar ddatblygu'r naratif sy'n adrodd stori bwyd a diod Cymru. Yn ddiweddar hefyd, lansiwyd gwefan newydd ar gyfer bwyd a diod Cymru a bydd yn gwella ein dulliau o gyfathrebu ar draws y diwydiant, gan roi gwybodaeth am gymorth busnes, llwyddiant masnach, cyfleoedd newydd a datblygiad polisïau.

Finally, I recently launched the food tourism action plan for Wales 2015-20, which will result in much closer working between the food division, Visit Wales and external partners to create opportunities for food producers and tourism businesses alike.

Yn olaf, yn ddiweddar lansiais gynllun gweithredu twristiaeth bwyd Cymru 2015-20, a fydd yn arwain at gydweithio llawer agosach rhwng yr is-adran fwyd, Croeso Cymru a phartneriaid allanol i greu cyfleoedd i gynhyrchwyr bwyd a busnesau twristiaeth fel ei gilydd.

Increasing the prevalence of local and regional foods in our shops and on our menus offers immediate and direct benefits to our local economy, including on Anglesey. We want to encourage farmers, producers, suppliers, cafes and pubs and accommodation providers to engage with each other and the tourism industry to improve the perception and availability of Wales's food and drink.

Mae cynyddu'r bwydydd lleol a rhanbarthol sydd yn ein siopau ac ar ein bwydlenni yn cynnig manteision uniongyrchol ac yn syth i'n heconomi leol, gan gynnwys ar Ynys Môn. Rydym yn awyddus i annog ffermwyr, cynhyrchwyr, cyflenwyr, caffis a thafarndai a darparwyr llety i ymgysylltu â'i gilydd ac i'r diwydiant twristiaeth wella'r canfyddiad o fwyd a diod Cymru a'i argaeledd.

We have supported a range of food festivals throughout Wales for over 12 years, through the food festival grant scheme. Events such as Anglesey Oyster and Welsh Food Festival have benefited from funding support and, this year, we have changed the way we administer the scheme. In the first tranche of funding, we have awarded the Menai Seafood Festival with a grant. Festivals are a celebration of all that is good about Welsh food and drink and I am sure that this festival will showcase Anglesey's abundance of seafood.

Rydym wedi cefnogi amrywiaeth o wyliau bwyd ar hyd a lled Cymru ers dros 12 mlynedd, trwy'r cynllun grantiau i wyliau bwyd. Mae digwyddiadau fel Gŵyl Wystrys a Chynnyrch Cymreig Môn wedi elwa ar gyllid cymorth ac, eleni, rydym wedi newid y ffordd rydym yn gweinyddu'r cynllun. Yn y gyfran gyntaf o gyllid, rydym wedi dyfarnu grant i Ŵyl Bwyd Môr Menai. Mae'r gwyliau yn ddathliad o bopeth sy'n dda am fwyd a diod o Gymru ac rwy'n siŵr y bydd yr ŵyl hon yn brolio cynhyrchion bwyd môr helaeth Ynys Môn.

Food is so central to our lives and there are many issues to consider. The nation's health and wellbeing depends on everyone having access to safe and nutritious food at affordable prices. The food and drink industry offers significant potential for green growth and jobs, improving resource efficiency and tackling poverty. It is a vital industry to our economy and to our communities, both in our towns and in rural Wales. This is why this Welsh Government is prioritising the economy, health and education, and will continue to support the priority sector of food and drink on Anglesey and across Wales.

Mae bwyd mor ganolog i'n bywydau ac mae llawer o faterion i'w hystyried. Mae iechyd a lles y genedl yn dibynnu ar fod gan bawb fynediad at fwyd diogel a maethlon am brisiau fforddiadwy. Mae'r diwydiant bwyd a diod yn cynnig potensial sylweddol ar gyfer twf gwyrdd a swyddi, gwella effeithlonrwydd adnoddau a threchu tlodi. Mae'n ddiwydiant hanfodol i'n heconomi ac i'n cymunedau, yn ein trefi ac yng nghefn gwlad Cymru. Dyma pam y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i'r economi, iechyd ac addysg, a bydd yn parhau i gefnogi sector blaenoriaeth bwyd a diod ar Ynys Môn ac yng Nghymru benbaladr.

19:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch i chi eto am drafodaeth ddiddorol.

Thank you once again for an interesting debate.

*Thank you, and that concludes today's proceedings.*

*Diolch i chi, a daw hynny â thrafodion heddiw i ben.*